# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL
# PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## FEL Y'I MABWYSIADWYD GAN AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## 17 RHAGFYR 2013

## Cynnwys

**1 Cyflwyniad** ..... Error! Bookmark not defined.

**1.1 Cymeriad Ardal y Cynllun** ..... **1**

1.2 Sut y Paratowyd y Cynllun ..... 1

1.3 Cyflwr y Parc: Y Materion ..... 2

**PENNOD 2: Y WELEDIGAETH A'R AMCANION AR GYFER PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG** ..... **4**

2.1 Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ..... 4

2.2 Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ..... 5

2.3 Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ..... 7

2.4 Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at Ddatblygu Cynaliadwy ..... 9

2.5 Ymatebion Polisi ..... 11

**PENNOD 3: POLISÏAU TROSFWAOL** ..... **12**

**3 Polisïau Trosfwaol** ..... **12**

3.1 Dibenion y Parc Cenedlaethol ..... 13

3.2 Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol ..... 13

3.3 Datblygiad Mawr yn y Parc Cenedlaethol ..... 14

3.4 Datblygiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ..... 15

3.5 Gosodiadau Hysbysadwy ..... 15

3.6 Diogelu'r Amgylchedd ..... 16

3.7 Bioamrywiaeth ..... 16

3.7.2 Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd ..... 17

3.7.3 Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol ..... 18

3.7.4 Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur ..... 19

3.7.5 Safleoedd Lleol o Ddiddordeb Cadwraeth Natur ..... 19

3.7.6 Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir ..... 20

3.8 Coed a Datblygiad ..... 22

3.9 Coetiroedd a Choed Hynafol ..... 23

3.10 Ansawdd Dŵr ..... 24

3.11 Llygredd Golau ..... 25

3.12 Ansawdd Pridd ..... 26

3.13 Ansawdd Aer ..... 26

3.14 Adnoddau Naturiol, Gwasanaethau Ecosystem a Diogelwch Bwyd ..... 27

3.15 Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol ..... 31

3.15.1 Dymchwel Adeiladau Rhestredig ..... 32

3.15.3 Gosodiad Adeiladau Rhestredig ..... 33

3.15.4 Asedau Treftadaeth o Bwysigrwydd Lleol sydd o Ddiddordeb Lleol ..... 34

3.15.5 Ardaloedd Cadwraeth ..... 34

3.15.6 Parciau a Gerddi Hanesyddol ..... 35

3.15.7 Tirweddau Hanesyddol ..... 36

3.15.8 Henebion Rhestredig a gweddillion archaeolegol ..... 37

3.15.9 Ardaloedd ar gyfer Gwerthusiad Archaeolegol ..... 37

3.15.10 Safleoedd Treftadaeth y Byd ..... 37

3.16 Newid yn yr Hinsawdd ..... 38

3.16.1 Dylunio a Datblygu Cynaliadwy ..... 39

3.16.2 Ynni Adnewyddadwy ..... 41

3.16.3 Lleoliad Datblygiad gan Osgoi Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd ..... 42

**PENNOD 4: Y STRATEGAETH OFODOL ..... 45**

4.0 Y Strategaeth Ofodol ..... 45

4.1 Lleoliad Datblygiad ..... 45

4.2 Gweithredu'r Hierarchaeth Aneddiadau ..... 49

**4.3 Y Prif Anheddiad Allweddol: ABERHONDDU ..... 50**

4.3.1 Cyd-destun Aberhonddu: ..... 50

4.3.2 Gweledigaeth 15 mlynedd Aberhonddu: ..... 50

4.3.3 Materion ac Amcanion Aberhonddu ..... 51

4.3.4 Ymatebion Polisi Aberhonddu: ..... 53

**4.4 Lefel 2: Aneddiadau Allweddol .......... 55**

4.4.1. Aneddiadau Allweddol: Trosolwg .......... 56

4.4.2 Aneddiadau Allweddol: Gweledigaeth ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol .......... 60

4.4.3 Aneddiadau Allweddol: Materion ac Amcanion .......... 62

4.4.4. Aneddiadau Allweddol: Ymatebion Polisi .......... 68

4.4.5. Aneddiadau Allweddol: Lliniaru Effaith .......... 69

**4.5 Twf y tu allan i Aneddiadau Allweddol .......... 71**

**4.6 Lefel 3: ANEDDIADAU .......... 74**

4.6.1 Aneddiadau: Cyd-destun .......... 74

4.6.2 Aneddiadau: Materion .......... 74

4.6.3 Aneddiadau: Gweledigaeth 15 mlynedd .......... 75

**4.7 Lefel 4: ANEDDIADAU TWF CYFYNGEDIG .......... 80**

4.7.1 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Cyd-destun .......... 80

4.7.2 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Materion ac Amcanion .......... 80

4.7.3 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Gweledigaeth 15 mlynedd .......... 80

**4.8 Datblygiad Eithriadau Derbyniol .......... 86**

**4.9 Lefel 5: CEFN GWLAD .......... 87**

4.9.1 Cefn Gwlad: Cyd-destun .......... 87

4.9.2 Cefn Gwlad: Materion .......... 87

4.9.3 Cefn Gwlad: Gweledigaeth 15 mlynedd .......... 87

**PENNOD 5: LLINIARU EFFAITH .......... 90**

5.0 Lliniaru Effaith mewn Lleoliad Twf .......... 90

**PENNOD 6: TAI .......... 94**

6.1 Graddfa'r Ddarpariaeth Tai .......... 94

6.2 Polisïau Datblygu Tai Manwl .......... 100

6.2.1 Adnewyddu Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad .......... 100

6.2.2 Dymchwel ac Amnewid Anheddau .......... 101

6.2.3 Estyniadau i Dai ac Adeiladau Atodol .......... 102

6.3 Darparu Tai Fforddiadwy ........ 103

6.3.2 Diffiniad o Dai Fforddiadwy ........ 104

6.3.3 Diffiniad o sut y bydd Angen Lleol yn cael ei sefydlu ........ 105

6.3.4 Diffiniad o Gysylltiad Lleol ........ 105

6.3.5 Diffiniad o Ardal Leol ........ 106

6.3.6 Dylunio ........ 106

6.3.7 Targed Cyfraniad Tai Fforddiadwy ........ 106

6.3.8 Trothwy ........ 107

6.3.9 Natur y cyfraniad ........ 107

6.3.10 Targedau Cyfraniad Tai Fforddiadwy ........ 107

6.4 Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ........ 109

**PENNOD 7: LLES ECONOMAIDD ........ 111**

7.0 Polisi Cyflogaeth ........ 112

7.1. Dyraniadau Cyflogaeth ........ 113

7.2 Dyraniadau Defnydd Cymysg ........ 115

7.3 Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth ........ 117

7.4 Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig Presennol yng Nghefn Gwlad ........ 120

7.5 Amaethyddiaeth a Choedwigaeth ........ 120

7.5.1 Tai ar gyfer Anghenion Menter Wledig Hanfodol ........ 120

7.5.2 Arallgyfeirio Ffermydd gan gynnwys Siopau Fferm ........ 121

7.5.3 Gweithgareddau Economaidd Gwledig Eraill ........ 122

7.6 Adeiladau Fferm a Choedwigaeth Newydd ........ 124

7.7 Manwerthu ........ 124

7.7.1 Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi ........ 125

7.7.2 Rôl, Swyddogaeth a Bywiogrwydd Canolfannau Manwerthu a Nodwyd ........ 125

7.7.3 Cefnogi Canol Trefi Presennol ........ 126

7.7.4 Datblygiad yn y Canolfannau Manwerthu ........ 126

7.7.5 Amrywiaeth Defnydd mewn Canol Trefi ........ 128

7.7.6 Manwerthu y tu allan i Aneddiadau Lefel 1 a Lefel 2 ..... 128

7.8 Twristiaeth Gynaliadwy ..... 129

7.8.1 Llety Gwyliau ..... 131

7.8.2 Adeiladu Llety Gwyliau Newydd ..... 132

7.8.3 Llety Gwyliau Dros Dro/Heb Fod yn Barhaol ..... 132

7.8.4 Carafanau a Chabanau Gwyliau ..... 133

7.8.5 Datblygiad Effaith Isel ..... 133

7.8.6 Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carafanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a Phebyll 134

7.8.7 Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored ..... 135

7.8.8 Twristiaeth a Mwynhad ..... 136

7.8.9 Defnyddio Cerbydau Modur a Badau ar gyfer Hamdden ..... 137

7.8.10 Hawliau Tramwy a Llwybrau Hir ..... 137

7.8.11 Ardaloedd lle y ceir Pwysau ac Ardaloedd sy'n Agored i Niwed ..... 138

**PENNOD 8: DARPARU GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU ..... 139**

8.1 Cyfleusterau Cymunedol ..... 140

8.1.2 Datblygu Cyfleusterau Cymunedol newydd neu estynedig ..... 140

8.2 Y Gymraeg ..... 141

8.3 Rhwymedigaethau Cynllunio ..... 142

8.4. Seilwaith Cynaliadwy ..... 144

8.5 Gwasanaethau Cyfleustodau ..... 145

8.5.1 Llinellau Pŵer a Phiblinellau ..... 145

8.5.2 Telathrebu ..... 146

8.6 Cyfyngiadau Carthffosiaeth, Draenio a Chyfleustodau ..... 147

8.6.2 Systemau Carthffosiaeth Nad Ydynt wedi'u Cysylltu â'r Prif Gyflenwad ..... 148

8.7 Systemau Draenio Cynaliadwy ..... 149

8.8 Trafnidiaeth Gynaliadwy ..... 150

8.9 Rheoli Datblygiad a Thrafnidiaeth ..... 152

8.10 Beicio a Cherdded ..... 153

8.11 Defnydd Cynaliadwy o Dir ..... 154

8.12 Dwysedd Anheddau ..... 154

8.13 Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol yn y Parc Cenedlaethol ..... 155

**PENNOD 9: GWASTRAFF ..... 157**

9.1 Strategaeth Wastraff Ranbarthol – y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ..... 157

9.2 Ynni o Wastraff ..... 159

9.3 Compostio ..... 161

**PENNOD 10: DEFNYDD CYNALIADWY O ADNODDAU MWYNAU ..... 162**

10.1 Echdynnu Mwynau mewn Parciau Cenedlaethol ..... 162

10.2 Adnoddau Tywod a Gro ..... 162

10.3 Diogelu Adnoddau Glo ..... 162

10.4 Pyllau Benthyg ..... 163

10.5 Chwarela ar Raddfa Fach ar gyfer Anghenion Lleol ..... 164

10.6 Deunyddiau Gwastraff, Eilaidd ac wedi'u Hailgylchu ..... 165

10.7 Safleoedd Mwynau Segur ..... 166

**PENNOD 11: MONITRO ..... 167**

**Atodiadau ..... 190**

Atodiad 1: Gofynion Datblygu ..... 191

Atodiad 2: Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol ..... 209

Atodiad 3: Arbed Dŵr ..... 211

Atodiad 4: Rhwymedigaethau Cynllunio ..... 213

Atodiad 5: Rhywogaethau Coed sy'n Frodorol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ..... 215

Atodiad 6: Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol ..... 216

Atodiad 7: Gweithio Mwynau ..... 217

Atodiad 8: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 219

Atodiad 9: Rhestr Termau ..... 221

Atodiad 10: Tabl ardaloedd is-farchnad dai yn ôl cod post ..... 227

Atodiad 11: Tablau Tai ..... 229

Atodiad 12: Diwygiadau yn dilyn Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol………………………………………..……225

**Map Cynigion………………………………………………………………………………………………………………………….236**

## Rhestr Tablau


| | |
|---|---|
| Tabl 1.1: Crynodeb o Faterion Allweddol | 2 |
| Tabl 2.1: Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol | 5 |
| Tabl 2.2: Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol | 8 |
| Tabl 3.1: Meysydd Dylanwad Adnoddau Naturiol | 30 |
| Tabl 3.2: Aneddiadau yr Effeithir Arnynt gan Lifogydd | 44 |
| Tabl 4.1: Hierarchaeth Aneddiadau – Aneddiadau Allweddol | 46 |
| Tabl 4.2: Hierarchaeth Aneddiadau – Aneddiadau | 47 |
| Tabl 4.3: Materion ac Amcanion Aberhonddu | 52 |
| Tabl 4.4: Trosolwg Aneddiadau Allweddol | 56 |
| Tabl 4.5: Gweledigaeth 15 Mlynedd ar gyfer Aneddiadau Allweddol | 61 |
| Tabl 4.6: Materion ac Amcanion Crucywel | 63 |
| Tabl 4.7: Materion ac Amcanion y Gelli Gandryll | 64 |
| Tabl 4.8: Materion ac Amcanion Pontsenni | 65 |
| Tabl 4.9: Materion ac Amcanion Talgarth | 66 |
| Tabl 4.10: Cyfyngiadau Aneddiadau | 77 |
| Tabl 4.11: Cyfyngiadau Aneddiadau Twf Cyfyngedig | 85 |
| Tabl 5.1: Cyfyngiadau Ardaloedd | 91 |
| Tabl 6.1: Dyraniadau Preswyl Cyfredol | 96 |
| Tabl 6.2: Dadansoddiad o'r Cyflenwad Tai | 98 |
| Tabl 7.1: Dyraniadau Cyflogaeth | 114 |
| Tabl 7.2: Dyraniadau Defnydd Cymysg | 116 |
| Tabl 7.3: Parciau Busnes/Ystadau Diwydiannol Presennol | 117 |
| Tabl 7.4: Croesgyfeiriadau'r Polisi Manwerthu | 125 |


## Rhestr Ffigurau


| | |
|---|---|
| Ffigur 1: Diagram Allwedd | 48 |
| Ffigur 2: Matrics Asesu Aneddiadau | 73 |

# Mynegai Polisi

**Polisïau'r Parc Cenedlaethol**


| | | |
|---|---|---|
| **SP1** | **Polisi'r Parc Cenedlaethol** | **tud.13** |
| Polisi 1 | Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol | tud.14 |
| **SP2** | **Datblygiad Mawr yn y Parc Cenedlaethol – Polisi Strategol** | **tud.15** |
| Polisi 2 | Gosodiadau Hysbysadwy | tud.15 |
| **SP3** | **Diogelu'r Amgylchedd – Polisi Strategol** | **tud.16** |
| Polisi 3 | Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd | tud.17 |
| Polisi 4 | Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol | tud.18 |
| Polisi 5 | Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur | tud.19 |
| Polisi 6 | Bioamrywiaeth a Datblygiad | tud.20 |
| Polisi 7 | Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir | tud.22 |
| Polisi 8 | Coed a Datblygiad | tud.22 |
| Polisi 9 | Coetiroedd a Choed Hynafol | tud.24 |
| Polisi 10 | Ansawdd Dŵr | tud.25 |
| Polisi 11 | Defnydd Cynaliadwy o Ddŵr | tud.25 |
| Polisi 12 | Llygredd Golau | tud.25 |
| Polisi 13 | Ansawdd Pridd | tud.26 |
| Polisi 14 | Ansawdd Aer | tud.27 |
| Polisi 15 | Adeiladau Rhestredig | tud.32 |
| Polisi 16 | Dymchwel Adeiladau Rhestredig | tud.33 |
| Polisi 17 | Gosodiad Adeiladau Rhestredig | tud.33 |
| Polisi 18 | Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol | tud.34 |
| Polisi 19 | Datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth | tud.35 |
| Polisi 20 | Parciau a Gerddi Hanesyddol | tud.36 |
| Polisi 21 | Tirweddau Hanesyddol | tud.36 |
| Polisi 22 | Ardaloedd Gwerthusiad Archaeolegol | tud.37 |
| **SP 4** | **Newid yn yr Hinsawdd** | **tud.38** |
| **SP11** | **Dylunio Cynaliadwy** | **tud.40** |
| Polisi 23 | Dylunio Cynaliadwy wrth Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Presennol | tud.40 |
| **SP9** | **Ynni Adnewyddadwy** | **tud.41** |


**Polisïau Gofodol**


| | | |
|---|---|---|
| **SP10** | **Dosbarthu Datblygiad yn Gynaliadwy** | **tud.47** |
| B LP1 | Galluogi Datblygiad Priodol yn Aberhonddu | tud.53 |
| B LP2 | Lliniaru Effaith yn Aberhonddu | tud.54 |
| K LP1 | Diffiniad o Aneddiadau Allweddol | tud.55 |
| K LP2 | Datblygiad Priodol yn yr Aneddiadau Allweddol | tud.68 |
| K LP3 | Lliniaru Effaith | tud.69 |
| S LP1 | Diffiniad Aneddiadau | tud.75 |
| S LP2 | Datblygiad Priodol mewn Aneddiadau | tud.76 |
| S LP3 | Lliniaru Effaith | tud.77 |
| LGS LP1 | Diffiniad o Aneddiadau Twf Cyfyngedig | tud.81 |
| LGS LP2 | Datblygiad Priodol mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig | tud.82 |

| | | |
|---|---|---|
| LGS LP3 | Lliniaru Effaith mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig | tud.83 |
| E LP1 | Eithriadau Ymyl Anheddiad er mwyn sicrhau Cynaliadwyedd Cymunedol | tud.86 |
| CYD LP1 | Galluogi Datblygiad Priodol yng Nghefn Gwlad | tud.88 |


**Polisïau Pynciol**


| | | |
|---|---|---|
| **SP5** | **Tai** | **tud.94** |
| Polisi 24 | Y Gofyniad am Dai | tud.94 |
| Polisi 25 | Adnewyddu Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad | tud.100 |
| Polisi 26 | Dymchwel ac Amnewid Anheddau | tud.102 |
| Polisi 27 | Estyniadau i Dai ac Adeiladau Atodol | tud.103 |
| **SP6** | **Tai Fforddiadwy** | **tud.106** |
| Polisi 28 | Cyfraniadau Tai Fforddiadwy | tud.108 |
| Polisi 29 | Galluogi Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy | tud.108 |
| Polisi 30 | Safle Sipsiwn a Theithwyr | tud.110 |
| Polisi 31 | Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | tud.110 |
| **SP 12** | **Lles Economaidd** | **tud.112** |
| Polisi 32 | Y Gofyniad am Dir ar gyfer Cyflogaeth | tud.113 |
| Polisi 33 | Safleoedd Cyflogaeth | tud.113 |
| Polisi 34 | Dyraniadau Defnydd Cymysg | tud.115 |
| Polisi 35 | Datblygiad sy'n Creu Cyflogaeth | tud.116 |
| Polisi 36 | Galluogi Defnydd Cyflogaeth Dosbarth Defnydd B y tu allan i Ffiniau Aneddiadau a Maint Aneddiadau | tud.117 |
| Polisi 37 | Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth | tud.119 |
| Polisi 38 | Arallgyfeirio Ffermydd | tud.121 |
| Polisi 39 | Cyfleusterau Marchogol | tud.122 |
| Polisi 40 | Storio Carafanau | tud.123 |
| Polisi 41 | Adeiladau Fferm a Choedwigaeth Newydd | tud.124 |
| **SP 13** | **Strategaeth Fanwerthu** | **tud.125** |
| Polisi 42 | Datblygiad mewn Canolfannau Manwerthu | tud.127 |
| Polisi 43 | Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig | tud.129 |
| Polisi 44 | Newid Defnydd Tafarndai | tud.129 |
| **SP 14** | **Twristiaeth Gynaliadwy** | **tud.130** |
| Polisi 45 | Adeiladau Newydd ar gyfer Llety Gwyliau | tud.132 |
| Polisi 46 | Llety Gwyliau Heb Fod yn Barhaol | tud.134 |
| Polisi 47 Phebyll | Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carfanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a tud.135 | |
| Polisi 48 | Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored Newydd neu Estynedig | tud.136 |
| Polisi 49 | Hawliau Tramwy a Llwybrau Hir | tud.137 |
| **SP15** | **Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy** | **tud.139** |
| Polisi 50 | Cadw Cyfleusterau Cymunedol Presennol | tud.140 |
| Polisi 51 | Datblygu Cyfleusterau Cymunedol Newydd neu Estynedig | tud.141 |
| Polisi 52 | Y Gymraeg | tud.142 |
| Polisi 53 | Rhwymedigaethau Cynllunio | tud.144 |
| **SP16** | **Seilwaith Cynaliadwy** | **tud.145** |
| Polisi 54 | Llinellau Pŵer a Phiblinellau | tud.146 |
| Polisi 55 | Telathrebu | tud.137 |
| Polisi 56 | Cyflenwad Dŵr a Charthffosiaeth ar gyfer Datblygiad Newydd | tud.148 |

Polisi 57 Systemau Carthffosiaeth Nad Ydynt wedi'u Cysylltu â'r Prif Gyflenwad .......... tud.149
Polisi 58 Systemau Draenio Cynaliadwy .......... tud.150

**SP17 Trafnidiaeth Gynaliadwy .......... tud.152**
Polisi 59 Effeithiau Traffig .......... tud.153
Polisi 60 Darpariaeth ar gyfer Beicio a Cherdded .......... tud.154

**SP18 Defnydd Cynaliadwy o Dir .......... tud.154**
Polisi 61 Dwysedd Anheddau .......... tud.155

**SP7 Gwastraff .......... tud.158**
Polisi 62 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol .......... tud.158
Polisi 63 Cynlluniau Datblygu Ynni o Wastraff .......... tud.159
Polisi 64 Compostio .......... tud.161

Polisi 65 Diogelu Mwynau .......... tud.163
Polisi 66 Pyllau Benthyg .......... tud.164
Polisi 67 Deunyddiau Gwastraff, Eilaidd ac wedi'u Hailgylchu .......... tud.165
Polisi 68 Safleoedd Mwynau Segur .......... tud.166

# 1 Cyflwyniad

1.0.1 Dyma Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n amlinellu polisïau a chynigion i arwain datblygiad yn y Parc Cenedlaethol o 2007 hyd at 2022 a thu hwnt. Nod y polisïau a'r cynigion hyn yw bodloni'r anghenion am dai, swyddi a gwasanaethau ar yr un pryd â diogelu amgylchedd y Parc sydd o ansawdd uchel.

## 1.1 Cymeriad Ardal y Cynllun

1.1.1 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i ddynodi am ansawdd ei dirwedd. Fe'i diffiniwyd fel Tirwedd warchodedig Categori V gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, ac mae'n ardal lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi creu cymeriad arbennig o werth esthetig, ecolegol a diwylliannol arwyddocaol.

1.1.2 Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys rhai o'r tirffurfiau ucheldirol mwyaf trawiadol a neilltuol yn ne Prydain. Mae'r Parc yn ymestyn dros 520 o filltiroedd sgwâr (1344 o gilometrau sgwâr) ac mae'n gorwedd rhwng y canolbarth gwledig a chymoedd diwydiannol y de. Mae'n dirwedd amrywiol, lle mae ucheldiroedd eang yn cyferbynnu â dyffrynnoedd glas, gyda rhaeadrau trawiadol, coetiroedd hynafol, ogofâu, fforestydd a chronfeydd dŵr. Y pwynt uchaf yn y Parc yw Pen y Fan yn y Bannau, yng nghanol y Parc Cenedlaethol. Mae ei gopa gwastad adnabyddus yn 886m o uchder, ac mae cannoedd o filoedd o bobl yn ei ddringo bob blwyddyn.

1.1.3 Mae'r Parc yn gartref i 33,000 o bobl a mwy na 9000 o wahanol blanhigion ac anifeiliaid, ac mae ganddo dreftadaeth Gymreig gref a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog. Yr anheddiad mwyaf yw tref gadeiriol Aberhonddu sydd â phoblogaeth o oddeutu 7,500. Yn ogystal, mae mwy na 3 miliwn o bobl yn dod i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bob blwyddyn i fwynhau'r dirwedd fythgofiadwy a thawelwch a llonyddwch yr ardal. Mae'r mynyddoedd, yr ucheldiroedd a'r dyffrynnoedd oll yn wych ar gyfer cerdded. Daw eraill i fwynhau gweithgareddau fel marchogaeth, beicio a beicio mynydd, a gweithgareddau hamdden ar y dŵr.

## 1.2 Sut y Paratowyd y Cynllun

1.2.1 Paratowyd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan gydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol.

Cynhyrchwyd cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol hwn o ganlyniad i'r canlynol:

**A. Adolygiad o'r Fframwaith Polisi presennol;**

**B. Proses Barhaus o Gasglu Tystiolaeth ac Adolygu Gwybodaeth Amgylcheddol, Cymdeithasol ac Economaidd Sylfaenol;**

**C. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chymunedau Cyn-adneuo; ac**

**Ch. Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae canlyniadau allweddol y prosesau hyn wedi creu darlun o'r Parc Cenedlaethol sydd wedi ffurfio datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol.

## 1.3 Cyflwr y Parc: Y Materion

1.3.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio bod yn strategol ei natur ac yn nodedig yn lleol, gan ganolbwyntio ar Strategaeth Ofodol gydlynol sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chynllunio defnydd tir yng Nghyd-destun y Parc Cenedlaethol. Amlygwyd y materion hyn trwy adolygu'r holl dystiolaeth a oedd ar gael ac ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned. Crynhoir y materion hyn yn Nhabl 1.1 isod.

| **Crynodeb o'r Materion Allweddol sy'n wynebu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | |
|---|---|
| **a. Dibenion a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol** | Effaith datblygiad ar y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig, yn enwedig y **dirwedd**, **geoamrywiaeth**, **bioamrywiaeth** a **threftadaeth ddiwylliannol**. |
| **b. Cynaliadwyedd a'r Newid yn yr Hinsawdd** | Y gofyniad i addasu a lliniaru effeithiau'r **newid yn yr hinsawdd** ac olew brig trwy **ddatblygu cynaliadwy** a **chynhyrchu ynni adnewyddadwy**.<br><br>Cynaliadwyedd i fod yn sail i Gynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. |
| **c. Potensial/ Capasiti ar gyfer twf** | Y capasiti ar gyfer twf o ran y canlynol:<br>• Cyfyngiadau Amgylcheddol<br>• Seilwaith<br>• Cyfleustodau |
| **ch. Tai, gan gynnwys Tai Fforddiadwy** | Yr angen i ddarparu **cymysgedd o fathau o anheddau** i fodloni'r angen am dai yn y Parc, ac yn enwedig i fodloni'r angen am **dai fforddiadwy**. |
| **d. Datblygu Economaidd, gan gynnwys cyfleoedd Cyflogaeth** | Yr angen am **gyfleoedd cyflogaeth** lleol a **chysylltiadau â'r ddarpariaeth tai**. |
| **dd. Cymunedau sy'n Ffynnu** | Yr angen am dwf naturiol mewn pentrefi gwledig er mwyn caniatáu ar gyfer mwy o fywiogrwydd ac **ansawdd bywyd** mewn cymunedau. |

*Tabl 1.1 Crynodeb o'r Materion Allweddol*

1.3.2 Ymatebwyd i'r Materion Allweddol yng nghyd-destun dibenion dynodiad y Parc Cenedlaethol fel y'u diffiniwyd gan adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995.

- **Cadwraeth a gwelliant** 'gwarchod a gwella harddwch naturiol bywyd gwyllt, a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol.' [1]
- **Dealltwriaeth a mwynhad** 'hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig [y Parciau].' [2]

1.3.3 Ategir y ddau ddiben hyn gan Egwyddor Sandford, sy'n datgan goruchafiaeth y diben cyntaf dros yr ail mewn achosion o wrthdaro na ellir ei gysoni. [3] Yn ogystal â'r ddau ddiben statudol, mae Adran 62 Deddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar y Parc Cenedlaethol i "feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, o fewn y Parc Cenedlaethol". Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd i'r afael â dibenion y Parc Cenedlaethol. [4]

1.3.4 Nid dim ond Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol; mae Adran 62 Deddf yr Amgylchedd hefyd yn gosod dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol, gan gynnwys Awdurdodau Unedol cyfagos a chyfansoddol, i roi ystyriaeth briodol i ddibenion y Parc Cenedlaethol wrth ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a allai effeithio ar y Parc Cenedlaethol.

---

[1] Adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995
[2] Adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995
[3] Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995
[4] Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995

# PENNOD 2:Y WELEDIGAETH A'R AMCANION AR GYFER PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## 2.1 Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

2.1.1 Mae Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn deillio o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol: Rheoli Newid Gyda'n Gilydd (2009 –2014). Cymeradwywyd y Cynllun Rheoli i'w gyhoeddi ar 9 Ebrill 2010. Datblygwyd y weledigaeth a geir ynddo trwy waith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth. Fe'i nodir fel a ganlyn:

2.1.2 Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol isod yn disgrifio elfennau defnydd tir Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

- Mae'n rhychwantu cyfnod o 15 mlynedd
- Mae'n benodol i'r Parc Cenedlaethol hwn
- Mae'n ystyried agenda a pholisi Llywodraeth Cymru a strategaethau a chynlluniau awdurdodau cyfagos, partner a rhanbarthol
- Mae'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol
- Mae'n cyfleu hanfod yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud wrthym mewn ymateb i ymgynghoriad

Yn arbennig, roedd yr ymatebion i'r strategaeth a ffefrir o'r farn na ddylai fod wedi ceisio bod mor fyr ac fe ddylai gyd-fynd yn agosach ag amcanion manwl gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

2.1.3 Felly, mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn:

| **Yn 2030, bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog...** |
|---|
| • Yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei werth fel ardal warchodedig, y mae ei chymeriad yn parhau i gael ei ffurfio gan y rhyngweithio hirsefydlog rhwng pobl a phrosesau natur. |
| • Yn cael ei ganmol yn eang am ei harddwch naturiol, ei **geoamrywiaeth**, ei **bioamrywiaeth**, a'i **dreftadaeth ddiwylliannol** sy'n cael eu gwarchod a'u gwella gan ei randdeiliaid trwy ddulliau traddodiadol ac arloesol. |
| • Yn gyrchfan poblogaidd sy'n darparu amrywiaeth ragorol o **gyfleoedd cynaliadwy i bawb** allu deall a mwynhau ei gymeriad tawel, gwledig, ei ffordd o fyw Gymreig, ei ymdeimlad o bellenigrwydd, a'i **nodweddion arbennig** eraill. |
| • Yn gydnerth, yn agored ac yn ymatebol i newid – yn enwedig y **newid yn yr hinsawdd** – a bydd ei randdeiliaid yn rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol trwy weithredu lleol. |
| • Yn llai dibynnol ar gadwyni cyflenwi allanol, gan arwain at fwy o ddiogelwch o ran bwyd ac ynni yn lleol, **gwell ansawdd bywyd**, cydlyniant cymunedol a chadw cyfalaf naturiol. |
| • Yn **dirwedd fyw** lle mae dulliau arloesol o **ddatblygu cynaliadwy** ac **ynni adnewyddadwy** yn cael eu hannog a'u profi er lles yr amgylchedd, yr economi, a |

chymunedau lleol.

- **Yn cael ei reoli'n gynaliadwy [5] trwy bartneriaethau gweithredol** ymhlith rhanddeiliaid y Parc er mwyn iddo barhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad ar gyfer cenedlaethau yn y dyfodol.
- Yn cael ei fonitro ar sail tymor hir er mwyn gwella polisi ac arferion rheoli yn y dyfodol.

*Tabl 2.1 Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol*

## 2.2 Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol

2.2.1 Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r weledigaeth drosfwaol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Gan fod y Cynllun Rheoli hwn yn cydlynu ac integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol, mae'n gallu darparu fframwaith ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ac mae llawer o'i nodau a'i amcanion yn debyg i'r rhai yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n hanfodol felly bod Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn deillio o Weledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae cylch gorchwyl Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn mynd ymhell y tu hwnt i gylch gorchwyl defnydd tir y Cynllun Datblygu Lleol. Felly, mae Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio trosi Gweledigaeth Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn weledigaeth sy'n mynd i'r afael â'r meysydd hynny y mae'r Awdurdod yn gallu ymdrin â hwy trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol.

**Bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i fod yn dirwedd weithio fyw a ddefnyddir mewn nifer o wahanol ffyrdd, lle y bydd datblygiad yn gynaliadwy ac yn gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hwn yn arwain datblygiad mewn ffordd a fydd yn sicrhau, yn ystod cyfnod y cynllun, y bydd Bannau Brycheiniog yn lle sydd:-**

- Yn parhau i gael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei werth fel ardal warchodedig, y mae ei chymeriad yn parhau i gael ei ffurfio gan y rhyngweithio hirsefydlog rhwng pobl a phrosesau natur
- Yn parhau i gael ei ganmol yn eang am ei **harddwch naturiol**, ei **geoamrywiaeth**, ei **bioamrywiaeth**, a'i **dreftadaeth ddiwylliannol** sy'n cael eu gwarchod a'u gwella gan ei randdeiliaid trwy ddulliau traddodiadol ac arloesol
- Yn parhau i fod yn gyrchfan poblogaidd sy'n darparu amrywiaeth ragorol o **gyfleoedd cynaliadwy i bawb** allu deall a mwynhau ei gymeriad tawel, gwledig, ei ffordd o fyw Gymreig, ei ymdeimlad o bellenigrwydd, a'i **nodweddion arbennig** eraill
- Yn hybu ymagwedd at ddatblygu sy'n sicrhau bod Parc Cenedlaethol y dyfodol yn gallu bod yn gydnerth, yn agored ac yn ymatebol i newid – yn enwedig y **newid yn yr hinsawdd** – ac yn gallu bod yn rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol
- Yn hybu ymagwedd at ddatblygu sy'n galluogi ein cymunedau i fod yn llai dibynnol ar gadwyni cyflenwi allanol, gan arwain at fwy o ddiogelwch o ran bwyd ac ynni yn lleol, **gwell**

[5] Cynaliadwyedd: parchu terfynau adnoddau naturiol y blaned, ei hamgylchedd a'i bioamrywiaeth wrth ystyried pryderon cymdeithasol ac economeidd, fel na fydd pob gweithred i fodloni ein hanghenion heddiw yn cyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

**ansawdd bywyd**, cydlyniant cymunedol a chadw cyfalaf naturiol

- Yn parhau i fod yn **dirwedd fyw** lle mae dulliau arloesol o **ddatblygu cynaliadwy** ac **ynni adnewyddadwy** yn cael eu hannog a'u profi er lles yr amgylchedd, yr economi, a chymunedau lleol
- Yn cael ei **reoli'n gynaliadwy trwy bartneriaethau gweithredol** ymhlith rhanddeiliaid y Parc er mwyn iddo barhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Yn gweithredu **systemau monitro** priodol er mwyn sicrhau bod polisïau cynllunio a datblygu'n cael eu monitro yn y tymor hir i wella datblygiad polisi yn y dyfodol.

2.2.2 Amlinellir hanfod y weledigaeth isod fel gweledigaeth gryno. Dyma'r nod a'r uchelgais allweddol y dylai pob datblygiad yn y dyfodol weithio tuag ato yn y Parc Cenedlaethol.

| **Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio sicrhau'r canlynol...** |
|---|
| Bydd Bannau Brycheiniog yn fan lle y mae bywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd pawb sy'n byw neu'n gweithio yn y Parc, neu'n ymweld ag ef, yn profi ardal ffyniannus a bywiog, a bydd yr effaith ar yr amgylchedd lleol a byd-eang yn cael ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol. |

## 2.3 Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

2.3.1 Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r Amcanion Strategol canlynol wedi'u datblygu. Yr amcanion hyn yw craidd y Cynllun Datblygu Lleol y mae'r holl safbwyntiau Strategaeth a Pholisi yn deillio ohono.

2.3.2 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ceisio sicrhau bod nod a phwyslais amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfleu'r diben strategol a'r ddyletswydd dynodiad. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod galluogi datblygiad mewn tirwedd warchodedig yn codi'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng cyflawni ein hamcanion. Os nad oes modd cysoni gwrthdaro o'r fath, yn unol ag Egwyddor Sandford, rhoddir blaenoriaeth i Amcanion Strategol sy'n ymwneud â Dibenion y Parc Cenedlaethol (a ddynodir gan SQ). Pan geir gwrthdaro rhwng amcanion sy'n cyfeirio at ddibenion 1af ac 2il ddibenion y Parc Cenedlaethol, yn unol ag Egwyddor Sandford, rhoddir blaenoriaeth i amcanion strategol sy'n cyfeirio at ddiben 1af y Parc.

| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol** | | |
|---|---|---|
| Dibenion y Parc Cenedlaethol; Nodweddion Arbennig; a Photensial ar gyfer Twf | **SQ1** | **Nodweddion Arbennig**<br>Gwarchod a gwella nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. |
| | **SQ2** | **Lleoliad Twf**<br>Annog datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy ger cyfleusterau a gwasanaethau, gan felly leihau cymaint â phosibl ar yr angen i deithio, ar yr un pryd â pharchu dibenion a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| | **SQ3** | **Defnydd Cynaliadwy o Dir**<br>Annog datblygiad ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na datblygu tir Maes Glas. |
| | **SQ4** | **Y Dirwedd**<br>Sicrhau bod pob datblygiad yn y dyfodol yn diogelu a gwella cymeriad hardd ac amrywiol y Dirwedd. |
| | **SQ5** | **Yr Amgylchedd Adeiledig**<br>Sicrhau bod pob datblygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn gwella tirwedd hanesyddol a thraddodiadau'r amgylchedd adeiledig, ar yr un pryd â rhoi ystyriaeth briodol i ofynion dylunio cynaliadwy. |
| | **SQ6** | **Treftadaeth Ddiwylliannol**<br>Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol cymunedau'r Parc, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg. |
| | **SQ7** | **Bioamrywiaeth**<br>Gwarchod a gwella bioamrywiaeth gyfoethog a chymhleth y Parc. |
| | **SQ8** | **Geoamrywiaeth**<br>Diogelu a gwella adnoddau daearegol y Parc, gan gynnwys y Geoparc Ewropeaidd. |
| | **SQ9** | **Seilwaith**<br>Sicrhau bod cyfleustodau digonol yn cael eu darparu ar gyfer cymunedau lleol a datblygiadau yn y dyfodol. |
| | **SQ10** | **Adnoddau Naturiol**<br>Sicrhau bod adnoddau aer, dŵr a phridd yn cael eu defnyddio mewn modd |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, a bod safonau ansawdd dŵr, pridd ac aer yn cael eu cynnal ar lefel uchel. |
| | **SQ11** | **Gwastraff**<br>Sicrhau bod pobl a sefydliadau'n arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff ar yr un pryd ag annog cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu lleol. Gwrthsefyll cyfleusterau gwastraff rhanbarthol yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. |
| | **SQ12** | **Mwynau**<br>Amddiffyn y Parc Cenedlaethol rhag gwaith mwynau newydd ac estyniadau i waith mwynau presennol, ar yr un pryd â diogelu adnoddau mwynau priodol rhag cael eu colli. |
| **Cynaliadwyedd a'r Newid yn yr Hinsawdd** | **CC1** | **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn gydnerth ac yn ymatebol i ysgogwyr newid, a'i fod yn rhagweithiol wrth gyfyngu ar effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru. |
| | **CC2** | **Ynni Adnewyddadwy**<br>Annog datblygiadau i ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy, ac annog prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach i ganolig. |
| | **CC3** | **Dylunio Cynaliadwy**<br>Gwella ansawdd ffisegol, effeithlonrwydd ynni, hygyrchedd, a dyluniad ac adeiladwaith cynaliadwy pob datblygiad yn y Parc. Hybu patrwm aneddiadau cynaliadwy sy'n gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| | **CC4** | **Llifogydd**<br>Sicrhau nad yw lleoliad datblygiad yn arwain at berygl annerbyniol o lifogydd. |
| **Meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol** | **SE1** | **Tai**<br>Darparu ar gyfer y gofynion cyffredinol am dai trwy gymysgedd o fathau o anheddau, gan fodloni anghenion canfyddedig a hybu cymunedau integredig a ffyniannus. |
| | **SE2** | **Tai Fforddiadwy**<br>Sicrhau bod tai o bob math sy'n fforddiadwy ac o ansawdd da ar gael i gymunedau'r Parc lle y ceir angen canfyddedig. |
| | **SE3** | **Cyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer economi gynaliadwy gyda chysylltiadau cryf rhwng cyfleoedd cyflogaeth lleol a'r cyflenwad tai. |
| | **SE4** | **Trafnidiaeth**<br>Hybu datblygiad a gefnogir gan fentrau trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat. |
| | **SE5** | **Twristiaeth**<br>Cefnogi diwydiant twristiaeth gynaliadwy sy'n cyfrannu at fwynhad y cyhoedd o'r Parc Cenedlaethol. |
| | **SE6** | **Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi**<br>Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn y Parc Cenedlaethol trwy nodi'r prif ganolfannau manwerthu. |
| | **SE8** | **Cymunedau Cynaliadwy**<br>Hybu cymunedau integredig sydd â mynediad cynaliadwy at ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau. |
| | **SE9** | **Iechyd a Lles**<br>Hybu cyfleoedd ar gyfer lles a ffordd iach o fyw mewn lleoliadau cynaliadwy. |

*Tabl 2.2: Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol*

## 2.4 Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at Ddatblygu Cynaliadwy

2.4.1 O'u hystyried gyda'i gilydd, mae Amcanion Strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio galluogi datblygiad yn unol â'r "ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at Ddatblygu Cynaliadwy" yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r termau hyn yn codi'n aml yn y Cynllun Datblygu Lleol, felly mae'n bwysig eu bod yn cael eu diffinio'n eglur a'u deall yn iawn cyn dechrau darllen y cynllun.

2.4.2 Cysyniad a ddaeth i'r amlwg yn sgil y ddamcaniaeth Datblygu Cynaliadwy yn y 1990au hwyr yw Capasiti Amgylcheddol. Yn gyffredinol, defnyddir y cysyniad i awgrymu bod terfyn i faint o ddatblygiad y gall ardal benodol ei gynnal dros amser, a bennir gan ei nodweddion "amgylcheddol". Pennir y capasiti gan ystod o nodweddion sy'n ffurfio asedau amgylcheddol, fel bioamrywiaeth, ansawdd y dirwedd, ansawdd dŵr, ansawdd aer a'r seilwaith trafnidiaeth, yn ogystal â chysyniadau llai penodol fel cymeriad anheddiad ac ansawdd bywyd[6]. Yn unol â damcaniaeth capasiti amgylcheddol, pe byddai datblygiad mewn ardal yn mynd yn fwy na lefel benodol, byddai'r effaith ar yr adnoddau amgylcheddol hyn mor niweidiol fel na fyddai'n gynaliadwy, ac felly ni ddylid ei ganiatáu. Y ddamcaniaeth yw y dylai'r system Cynllunio Defnydd Tir amlygu'r terfynau hyn, a llunio Polisïau i sicrhau nad yw adnoddau'n cael eu niweidio yn y fath fodd.

2.4.3 Diffinnir Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru ym Mhennod 4 Polisi Cynllunio Cymru[7], Ffigur 4.1, fel "…..gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaethau mewn ffyrdd sydd; yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu'i derfynau – gan ddefnyddio'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol." Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi addasu'r egwyddorion hyn i greu ymagwedd sy'n briodol i ddatblygu mewn tirwedd warchodedig. Mae'r strategaeth a'r ymagwedd bolisi yn y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu amcan Llywodraeth Cymru i Gymru i fod yn genedl gynaliadwy. Mae'r Cynllun yn ceisio cydbwyso ac integreiddio themâu allweddol Cymru gynaliadwy trwy gyflawni cynigion ar gyfer amgylchedd cynaliadwy a byw o fewn 'terfynau' amgylcheddol, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy, economi gynaliadwy a chymdeithas gynaliadwy.

2.4.4 O gofio pwysigrwydd yr amgylchedd i natur gynhenid y Parc Cenedlaethol, ystyrir mai'r cysyniad o ddeall, diffinio a datblygu o fewn ein "capasiti amgylcheddol" yw'r dull mwyaf priodol o drosi dyletswydd a dibenion statudol y Parc Cenedlaethol yn effeithiol i'r system cynllunio defnydd tir.

2.4.5 Felly, mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn defnyddio ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at ddatblygiad cynaliadwy'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn diffinio hyn fel gallu lle i dderbyn y gofynion datblygu a osodir arno heb golled neu ddifrod anwrthdroadwy i'r amgylchedd, harddwch naturiol, seilwaith neu adnoddau cymunedol, gan ystyried yr angen i amddiffyn rhag effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd. Yn yr ystyr hon, capasiti yw "trothwy" newid derbyniol ar gyfer unrhyw le penodol yn seiliedig ar y diffiniad o gapasiti.

2.4.6 Mae deall sut y bydd datblygiad yn digwydd o fewn capasiti amgylcheddol y Parc Cenedlaethol, fel y'i diffiniwyd uchod, yn fater o gymhwyso cyfres o benderfynyddion i arwain y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r ymagwedd Capasiti Amgylcheddol yn darparu modd o wneud dyfarniad gwerth cytbwys ynglŷn â therfynau newid derbyniol o fewn

[6] Campaign for the Protection of Rural England *Understanding Environmental Capacity* 1996, tud. 6
[7] Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 5, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2012.

y dirwedd warchodedig hon. Nid dim ond Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gwneud y dyfarniadau gwerth hyn, ond pawb sydd â buddiant mewn datblygiad y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol, o gyrff diogelu'r amgylchedd i'r unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol. Mae pennu capasiti amgylcheddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn broses gydweithredol, a ffurfiwyd trwy ymgynghori parhaus ynghylch dewisiadau datblygu, a chanlyniadau datblygiad. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi gwerth uchel i'r holl dir sydd heb ei ddatblygu o fewn tirwedd warchodedig y Parc Cenedlaethol, ac yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau am natur a lleoliad datblygiad yn y dyfodol wedi ystyried effaith colli unrhyw dir Maes Glas o blaid datblygiad.

2.4.7 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio llawer o wahanol baramedrau amgylcheddol i ddeall trothwy, ac mae'r cysyniad o drothwy yn gallu newid hefyd. Hynny yw, mae "capasiti" yn gysyniad deinamig a newidiol yn dibynnu ar yr amodau a ddefnyddir i bennu'r cwmpas. Gall hyn newid dros amser, er enghraifft, wrth i dechnolegau ac agweddau ddatblygu, wrth i ddiwylliannau ddatblygu ac wrth i gymunedau dyfu. Bydd canfyddiadau'r ymagwedd Capasiti Amgylcheddol fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn yn destun monitro parhaus ac adolygu, lle y bo'r angen.

2.4.8 Ffurfiwyd yr holl Bolisïau a chynigion yn y cynllun hwn yn unol â'r ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at Ddatblygu Cynaliadwy. Yn gyffredinol, gosodir capasiti amgylcheddol lle yn y Cynllun Datblygu Hwn gan Ffiniau/Maint Aneddiadau fel y'u dangosir ar y Map Cynigion. Fodd bynnag, mae'r holl Bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio galluogi datblygiad yn unol â'n dealltwriaeth o ased a therfynau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.

## 2.5 Ymatebion Polisi

2.5.1 Ffurfiwyd y polisïau yn yr adran ganlynol i ymateb i'r Materion a nodwyd a'r amcanion strategol.

2.5.2 Diben Polisïau Strategol yw cynnig fframwaith polisi ar gyfer darparu datblygiad a fydd yn bodloni'r Amcanion Strategol a nodwyd.

2.5.3 Ni fwriedir i'r Polisïau Strategol fod yn gyfres fanwl o bolisïau i ymdrin â phob mater posibl a allai effeithio ar gynigion datblygu. Maent yn ceisio canolbwyntio'n unig ar y materion hynny y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy ar lefel strategol er mwyn amlinellu cyfeiriad strategol y Cynllun a gweithredu'r Dewis Strategol a ddewiswyd.

2.5.4 Mae natur strategol y polisïau hyn hefyd yn sicrhau bod y Cynllun yn aros yn gadarn trwy gynnwys lefel hollbwysig o hyblygrwydd i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

2.5.5 Ategir y Polisïau Strategol gan Bolisïau Lleol, a roddir ym Mhennod 4. Mae'r Polisïau hyn yn amlinellu datblygiad priodol yn unol â haenau'r hierarchaeth aneddiadau. Maent yn ymwneud â lleoedd penodol, gan nodi sut y dylai'r strategaeth ofodol gael ei gweithredu ar lefel leol.

2.5.6 Rhoddir ymateb Polisi manwl pan fo angen arweiniad ychwanegol i weithredu Polisi strategol neu ofodol.

2.5.7 Rhoddir "SP" cyn Polisïau Strategol.
O ran Polisïau Lleol, rhoddir hierarchaeth yr anheddiad y maent yn berthnasol iddo yn gyntaf ynghyd ag "LP" e.e. rhoddir "S LP" ar ôl Polisïau sy'n ymwneud ag Aneddiadau, a rhoddir "B LP" ar ôl y rhai hynny sy'n ymwneud ag Aberhonddu.
Rhoddir y gair Polisi cyn Polisïau manwl (ac yna'r rhif dilyniannol).

2.5.8 Ffurfiwyd yr ymatebion Polisi yn y categorïau canlynol:

1. **Polisïau sy'n berthnasol i bob datblygiad (Pennod 3)**
   a. **Dibenion a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol**
   b. **Cynaliadwyedd a'r Newid yn yr Hinsawdd**

2. **Dosbarthiad Gofodol Datblygiad (Pennod 4)**
   a. **Polisïau sy'n berthnasol i leoliad gofodol datblygiad, yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau.**

3. **Polisïau sy'n Benodol i Bwnc (Penodau 6-10)**
   a. **Potensial/capasiti ar gyfer twf**
   b. **Tai, gan gynnwys tai fforddiadwy**
   c. **Datblygu economaidd, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth**
   ch. **Cymunedau sy'n ffynnu**

2.5.9 Dylid darllen y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd. Bydd Polisïau cynllunio cyffredinol Pennod 3 yn cael eu cymhwyso i bob cais cynllunio, yn ogystal â'r rhai hynny mewn penodau perthnasol, yn fwyaf nodedig, Polisïau Lleol priodol a amlinellir ym Mhennod 4.

# PENNOD 3: POLISÏAU TROSFWAOL

## 3 Polisïau Trosfwaol

Mae'r polisïau hyn yn amlinellu themâu strategol y Strategaeth a Ffefrir. Maent yn ceisio:-

- rhoi dibenion y Parc Cenedlaethol wrth wraidd popeth y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio ei gyflawni
- hybu'r broses o fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru fel thema allweddol

**Amcanion Strategol**

**Nodweddion Arbennig (Polisïau SP1 ac SP3)**
Gwarchod a gwella nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Y Dirwedd (SP1, SP3, SP10)**
Sicrhau y bydd pob datblygiad yn y dyfodol yn amddiffyn a gwella cymeriad hardd ac amrywiol y dirwedd

## 3.1 Dibenion y Parc Cenedlaethol

3.1.1 Nod y polisi trosfwaol yw cynnwys dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol yn fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

3.1.2 Amlinellir dibenion y Parc Cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Ni ddylai deddfwriaeth genedlaethol gael ei hailadrodd yn y Cynllun Datblygu Lleol fel rheol. Ystyrir bod y Dibenion Statudol ynghyd â'r Ddyletswydd Statudol mor sylfaenol i waith Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei bod yn hanfodol iddynt fod wrth wraidd y cynllun datblygu.

3.1.3 Er bod y Parc Cenedlaethol yn ddynodiad tirwedd, ceir achosion lle na fyddai'n briodol cymhwyso'r ffin yn gaeth wrth wneud penderfyniadau. Mae Materion Trawsffiniol yn cynnwys, er enghraifft, datblygiad ynni'r gwynt a seilwaith trafnidiaeth. Mae Adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd (1995) yn gosod dyletswydd ar gyrff penodol i ystyried Dibenion y Parc Cenedlaethol wrth ymgymryd â gweithgarwch a allai effeithio ar y Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio Polisi SP1 wrth ystyried cynigion o fewn ei awdurdodaeth gynllunio. Wrth wneud sylwadau ar gynigion sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol, bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod Adran 62(2) yn cael ei dilyn trwy gymhwyso SP1.

3.1.4 Felly, y polisi strategol canlynol yw'r polisi sylfaenol sydd wrth wraidd y Cynllun Datblygu Lleol hwn, y mae'r holl strategaethau a pholisïau eraill yn deillio ohono.

**SP1 Polisi'r Parc Cenedlaethol**

**Bydd yn ofynnol i ddatblygiad yn y Parc Cenedlaethol gydymffurfio â'r dibenion a'r ddyletswydd statudol a osodwyd mewn deddfwriaeth, ac fe'i caniateir lle y mae'n:**

**a) gwarchod a gwella Harddwch Naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc; a/neu'n**

**b) cynorthwyo neu'n darparu ar gyfer deall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol mewn ffordd nad yw'n niweidio'r nodweddion hynny; ac yn**

**c) cyflawni'r ddau ddiben uchod ynghyd â hybu lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.**

## 3.2 Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol

3.2.2 Cynghorir ymgeiswyr i gyfeirio at y Polisi Cenedlaethol wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygiad yn y Parc Cenedlaethol.

3.2.3 Fodd bynnag, nid yw'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn darparu meini prawf ar gyfer asesu'r hyn sy'n cynrychioli datblygiad priodol mewn Parc Cenedlaethol. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am wneud hynny. Mae Polisi 1 isod yn ceisio amlinellu'r meini prawf manwl angenrheidiol a ddefnyddiwn i sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio ar allu'r Parc Cenedlaethol i gyflawni ei ddibenion a'i ddyletswydd statudol. Felly, mae Polisi 1 yn darparu fframwaith ar gyfer asesu pob cynnig am ddatblygiad.

**Polisi 1**
**Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol**

**Mae'n rhaid i bob cynnig am ddatblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau yn y Parc Cenedlaethol gydymffurfio â'r meini prawf canlynol, lle y bônt yn berthnasol i'r cynnig:**

**i) bydd y raddfa, y ffurf, y dyluniad, y cynllun, y dwysedd, y dwysedd defnydd a'r deunyddiau a ddefnyddir yn briodol i'r amgylchedd ac yn cynnal neu'n gwella ansawdd a chymeriad Harddwch Naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd adeiledig y Parc;**

**ii) bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei integreiddio i'r dirwedd er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol trwy blannu a rheoli rhywogaethau brodorol yn briodol neu drwy adeiladu nodweddion ffin priodol;**

**iii) rhaid i'r datblygiad beidio â chael effaith annerbyniol ar fywiogrwydd a hunaniaeth economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol unrhyw gymuned, boed hynny yn ei rinwedd ei hun neu drwy effaith gronnol;**

**iv) bydd y datblygiad arfaethedig yn hybu cyfleoedd ar gyfer gwarchod a gwella bioamrywiaeth/geoamrywiaeth trwy ddylunio a thirweddu priodol; a**

**v) bydd y datblygiad arfaethedig o fewn 400m o ardal lle y ceir man gwyrdd naturiol hygyrch.**

## 3.3 Datblygiad Mawr yn y Parc Cenedlaethol

3.3.1 Nid yw dynodiad statudol yn atal datblygiad o reidrwydd, ond mae'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygiad gael eu hasesu'n ofalus o ran eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y mae'r dynodiad wedi'i fwriadu i'w diogelu. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion am ddatblygiad mawr sy'n fwy cenedlaethol[8] na lleol eu cymeriad.

3.3.2 Ystyrir bod datblygiad yn 'Ddatblygiad Mawr' oherwydd yr effaith ddifrifol bosibl y gallai ei chael ar nodweddion y Parc ac, yn ogystal â'r angen i gydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd yn rhaid i'r cynnig fodloni meini prawf polisi cynllunio cenedlaethol cyn cael ei ganiatáu, a adwaenir fel y 'Prawf Datblygiad Mawr'. Mae'r 'Rhestr Termau' yn amlinellu'r math o effeithiau a allai, ym marn Awdurdod y Parc Cenedlaethol, olygu y bydd datblygiad yn cael ei ystyried yn 'Ddatblygiad Mawr'. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r union brawf o ran yr angen am y datblygiad, gan archwilio sut y gallai'r datblygiad gael ei ddarparu mewn ffordd arall a sut y mae'n effeithio ar yr amgylchedd a'r dirwedd.

3.3.3 Mae'r Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru "Cydweithio dros Gymru", Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002, yn ailadrodd na ddylai datblygiad mawr

[8] Mae 'cenedlaethol' yn y cyd-destun hwn yn golygu'r Deyrnas Unedig.

ddigwydd yn y Parc Cenedlaethol heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r datganiad polisi yn mynnu bod y Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu'r ffyrdd y bydd cynigion o'r fath am ddatblygiad yn cael eu hasesu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

**SP2 Datblygiad Mawr yn y Parc Cenedlaethol – Polisi Strategol**

**Rydym am gymhwyso'r profion gofynnol yn drylwyr mewn perthynas â datblygiad mawr yn y Parc Cenedlaethol, a ddylai ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig lle y profwyd ei fod er budd y cyhoedd.**

**Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol:**

**a) yr angen am y datblygiad, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau cenedlaethol, ac effaith ei ganiatáu, neu ei wrthod, ar yr economi leol;**

**b) cost datblygu mewn man arall y tu allan i'r ardal ddynodedig, neu'r posibilrwydd o wneud hynny, neu fodloni'r angen amdano mewn ffordd arall; ac**

**c) unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd, y dirwedd a chyfleoedd hamdden, a'r graddau y gellid cymedroli'r rhain.**

## 3.4 Datblygiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn

3.4.1 Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn bencadlys gweinyddol a thri gwersyll hyfforddi yn y Parc. Pe byddai'n cynnig datblygiad ychwanegol yn y mannau hyn neu mewn man arall, byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried ceisiadau o'r fath yng ngoleuni'r polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn.

## 3.5 Gosodiadau Hysbysadwy

3.5.1 Mae rhai safleoedd a phiblinellau wedi'u dynodi'n Osodiadau Hysbysadwy oherwydd faint o sylweddau peryglus sy'n bresennol. Cyfeirir atynt fel Gosodiadau Hysbysadwy gan fod angen hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ddatblygiad sy'n effeithio ar ddatblygiad sylweddau peryglus presennol neu sy'n ymwneud â datblygiad sylweddau peryglus newydd. Ni chynigir unrhyw ddyraniadau newydd ar gyfer datblygiad sylweddau peryglus neu weithgareddau a allai lygru. Bydd y prawf datblygiad mawr fel y'i hamlinellir ym mholisi SP2 yn darparu'r prif gyd-destun polisi ar gyfer ystyried cynigion am ddatblygiad sylweddau peryglus / Gosodiadau Hysbysadwy.

3.5.2 Mae ardal y Parc eisoes yn cynnwys nifer o osodiadau sy'n ymdrin â sylweddau Hysbysadwy, ac mae'r rhain a phyrth diogelu priodol wedi'u dangos ar y Map Cynigion. Bydd datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn ddarostyngedig i'r polisi canlynol.

**Polisi 2**

**Gosodiadau Hysbysadwy**

**Caniateir datblygiad o fewn ardaloedd a ddiffinnir fel Gosodiadau Hysbysadwy ar y Map Cynigion lle nad oes risg annerbyniol i naill ai:**

**a) iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd; neu**

**b) weithrediad y Gosodiad Hysbysadwy; a**

| | |
|---|---|
| **c)** | **mynediad i'r Gosodiad Hysbysadwy.** |

## 3.6 Diogelu'r Amgylchedd

3.6.1 Mae'r polisi strategol canlynol yn ceisio gwarchod a gwella'r adnoddau naturiol a gwneuthuredig sy'n ffurfio tirwedd warchodedig y Parc Cenedlaethol.

3.6.2 Yn ogystal â'r gofynion polisi a amlinellir isod, ac yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd (Mawrth 2010) ac mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, dylid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ac arolwg os oes angen lle y gallai datblygiad gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd (e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig) ac unrhyw safleoedd eraill y mae polisi cenedlaethol yn datgan y dylent fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl).

**SP3 Diogelu'r Amgylchedd – Polisi Strategol**

**Mae'n rhaid i bob cynnig am ddatblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau yn y Parc Cenedlaethol ddangos nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar y canlynol, nac yn amharu arnynt, nac yn atal mwynhad ohonynt;**

**a)** **nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol fel y'u nodwyd yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**[9]

**b)** **asedau ecoleg a bioamrywiaeth o fewn safleoedd dynodedig a thu hwnt iddynt (gweler Polisïau 2, 3 a 4)**

**c)** **yr amgylchedd dŵr (gweler Polisi 5)**

**ch)** **geoamrywiaeth, gan gynnwys Geoparc Ewropeaidd Fforest Fawr**

**d)** **treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol, gan gynnwys Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Parciau, Gerddi a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig (gweler Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol isod)**

**dd)** **cymeriad y dreftadaeth adeiledig, gan gynnwys adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a nodweddion archaeolegol (gweler Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol isod)**

**e)** **y rhwydwaith pwysig o gyfleusterau hamdden a mannau agored cyhoeddus (gweler hefyd SP15 a pholisïau manwl ategol)**

**f)** **ansawdd pridd ac aer (gweler Polisïau 7 ac 8)**

**ff)** **Tir Amaethyddol Gradd 1,2,3a**

Ategir y polisi strategol gan y canllawiau manwl canlynol.

## 3.7 Bioamrywiaeth

3.7.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu'r Amcan Strategol i warchod a gwella bioamrywiaeth gyfoethog y Parc. Er mwyn bodloni'r amcan hwn, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn arwain at effaith niweidiol annerbyniol ar fioamrywiaeth.

[9] Gweler Atodiad 4 Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

### 3.7.2 Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd

3.7.2.1 Caiff rhai ardaloedd eu hamddiffyn trwy ddeddfwriaeth Genedlaethol ac Ewropeaidd. Dylai safleoedd a ddynodwyd yn statudol gael eu hamddiffyn rhag difrod a dirywiad, a dylai eu nodweddion pwysig gael eu gwarchod trwy reolaeth briodol. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd naturiol a lled-naturiol presennol yw'r prif amcan. Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi amddiffyniad arbennig i ardaloedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a bydd y Gyfarwyddeb Adar yn dynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu rhwydwaith o ardaloedd a warchodir ledled yr Undeb Ewropeaidd a adwaenir fel "Natura 2000".

3.7.2.2 Er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, pan fydd cynnig, nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheolaeth y safle hwnnw neu'n angenrheidiol i'w reolaeth, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, bydd angen cynnal asesiad priodol o'r goblygiadau ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. Dylai'r asesiad archwilio effeithiau y tu allan i'r safle sy'n debygol o effeithio ar y safle a'i gyfanrwydd, yn ogystal ag effeithiau o fewn y safle.

3.7.2.3 Dangosir Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd ar y Map Cynigion.

**Polisi 3**
**Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd**

**Ni chaniateir cynnig ar gyfer datblygiad a allai, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, gael effaith arwyddocaol ar Safle Ewropeaidd neu Safle Ewropeaidd posibl, oni bai:**

**i. bod y datblygiad arfaethedig yn uniongyrchol gysylltiedig â gwarchod, gwella a rheoli'r safle yn gadarnhaol at ddibenion cadwraeth, neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny;**

**ii. na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr amcanion cadwraeth sy'n gysylltiedig â'r safle neu gyfanrwydd y safle;**

**iii. pan fo'r safle'n cynnal buddiannau nad ydynt wedi'u nodi'n rhywogaeth neu'n gynefin blaenoriaethol, y ceir rhesymau hollbwysig o safbwynt budd pennaf y cyhoedd pam y dylai'r datblygiad fynd yn ei flaen;**

**iv. pan fo'r safle'n cynnal cynefinoedd a/neu rywogaethau blaenoriaethol, y ceir rhesymau yn ymwneud ag iechyd dynol, diogelwch y cyhoedd, canlyniadau buddiol o bwysigrwydd allweddol i'r amgylchedd neu seiliau eraill sy'n gysylltiedig â budd pennaf y cyhoedd a all fodloni'r gofynion ar gyfer pam y dylai'r datblygiad fynd yn ei flaen; ac**

**v. o ran iii) a iv) uchod, nad oes unrhyw ateb arall ar gael, a rhoddir mesurau digolledu ar waith i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol rhwydwaith Natura 2000 yn cael ei warchod.**

3.7.2.4 Diffinnir cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac mae arweiniad ar gael ar ddiffiniad termau eraill a ddefnyddir yn y polisi hwn. Y datblygwr sy'n gyfrifol am ddangos pam y dylai cynnig fynd yn ei flaen, a dylai ddangos yn eglur pa un a yw'r cynigion yn debygol o gael effeithiau annerbyniol ar y safle, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle, gan ystyried amcanion cadwraeth y safle, mewn ymgynghoriad â'r holl gyrff perthnasol.

3.7.2.5 Pan ganiateir datblygiad a fyddai'n achosi niwed i safle Ewropeaidd, ceir gofyniad statudol i'r datblygwr ddigolledu am y golled honno neu'r difrod hwnnw o dan Reoliad 66 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010).

### 3.7.3 Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol

3.7.3.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am amlygu'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd prin neu nodweddiadol, lleoliadau pwysig ar gyfer rhywogaethau penodol neu grwpiau o rywogaethau, a safleoedd daearegol neu geomorffolegol, ac am eu dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gellir dynodi'r goreuon o'r safleoedd hyn yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. Ceir darpariaeth mewn deddfwriaeth hefyd i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a berchenogir gan sefydliadau eraill neu unigolion gael eu datgan yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Ceir un safle o'r fath yn y Parc ar hyn o bryd. Dangosir pob Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar y Map Cynigion.

3.7.3.2 Fel sy'n wir ar gyfer safleoedd Ewropeaidd, fe all fod achlysuron pan fydd pwysigrwydd datblygiad yn cyfiawnhau difrod, dros dro neu barhaol, i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond y nod fel arfer fydd sicrhau bod budd clir i gadwraeth natur. Weithiau bydd Amodau Cynllunio a/neu gytundebau eraill yn ddigonol i warchod diddordeb arbennig safle rhag datblygiad sydd fel arall yn dderbyniol. Ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o ddifrodi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, pan fo angen, yn ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru am dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir (o dan Gyfarwyddyd Erthygl 4), lle y ceir bygythiad gwirioneddol na ellir ymdrin ag ef gan gytundebau neu Amodau Cynllunio neu mewn unrhyw ffordd arall. Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cynigion sy'n debygol o gael effaith annerbyniol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Polisi 4**
**Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad a allai effeithio ar Warchodfa Natur Genedlaethol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig arfaethedig neu hysbysadwy o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**i) pan fo'r cynnig yn cyfrannu at warchod, gwella neu reoli'r safle'n gadarnhaol; neu**
**ii) pan fo'r datblygwr yn profi er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol nad oes gan y cynnig unrhyw effeithiau annerbyniol uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n achosi difrod i'r safle neu'n cael effaith niweidiol ar ei ddiddordeb cadwraeth neu ei werth o ran ei ddynodiad; neu**
**iii) pan fo'r angen a'r rhesymau am y datblygiad arfaethedig yn bwysicach na gwerth y safle ei hun; ac nid oes unrhyw ffordd arall o fodloni'r angen am y datblygiad.**

**Pan fo'n briodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried defnyddio Amodau Cynllunio a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru a / neu ddigolledu priodol.**

### 3.7.4 Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur

3.7.4.1 Nid yw'r rhwydwaith o safleoedd statudol ar ei ben ei hun yn ddigonol i gynnal bioamrywiaeth yng nghefn gwlad. Mae'n bwysig nodi "safleoedd bywyd gwyllt" anstatudol eraill neu Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur lle y mae cynefinoedd neu gasgliadau o rywogaethau blaenoriaethol yn cael eu cynnal gan y drefn reoli bresennol. Ceir llawer o gynefinoedd a rhywogaethau o'r fath yn y Parc. Gallent gynnwys neu fod yn bresennol mewn ystod eang o gynefinoedd fel coetir, glaswelltir ac afonydd, yn enwedig pan fo'r rhain yn gymharol naturiol a heb eu haddasu llawer gan weithgarwch dynol. Weithiau, fodd bynnag, gall cynefinoedd artiffisial, fel tomenni pridd gwastraff ac adeiladau, fod yn bwysig.

3.7.4.2 Gall safleoedd daearegol a geomorffolegol nad ydynt yn deilwng i gael eu hysbysu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu rhestru'n Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Yr unig rai yn y Parc Cenedlaethol hyd yma yw Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol, a nodwyd gan grwpiau o ddaearegwyr lleol a ffurfiwyd yn benodol (grwpiau Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol).

3.7.4.3 Dangosir Safleoedd o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur ar y Map Cynigion.

**Polisi 5**
**Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur**

**Caniateir datblygiad ar safleoedd anstatudol o bwysigrwydd bywyd gwyllt, daearegol neu geomorffolegol o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

i. **pan fo'r angen am y datblygiad yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur y safle; a**
ii. **phan fo'r cynigion yn cydymffurfio â Pholisi 6 a/neu, mewn perthynas â rhywogaethau gwyllt pwysig a warchodir, Polisi 7.**

**Pan fo'n briodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried defnyddio Amodau Cynllunio a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru a / neu ddigolledu priodol.**

### 3.7.5 Bioamrywiaeth a Datblygiad

3.7.5.1 Gall safleoedd gael eu cydnabod yn ffurfiol trwy eu dynodi'n Gwarchodfeydd Natur Lleol neu Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (fel yr uchod, a ddangosir ar y Map Cynigion). Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai safleoedd yn cael eu cydnabod yn ffurfiol ond byddant yn darparu gwerth pwysig o ran cadwraeth natur. Felly, nid yw'n bosibl dangos y safleoedd hyn ar y Map Cynigion.

3.7.5.2 Gallai gwerth safle gynnwys ei rôl fel coridor bywyd gwyllt neu ddeillio o ddiffyg amhariad, er enghraifft. Mae gan gynefinoedd, er enghraifft ond nid yn gyfyngedig i laswelltir heb ei wella a rhostir a gweundir, yn ogystal â nodweddion fel ymylon ffyrdd, afonydd, nentydd a chamlesi, werth cadwraeth natur ynddynt eu hunain ac fel cerrig camu i gynefinoedd eraill a allai gynnal rhywogaethau a warchodir fel ystlumod a dyfrgwn. Nid yw'n bosibl dangos safleoedd o'r fath ar y Map Cynigion, a bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod datblygiad a fyddai'n niweidio gwerth cadwraeth natur safle yn cymryd camau priodol i liniaru neu leihau'r niwed cymaint â

phosibl, neu'n darparu mesurau digolledu i wrthbwyso'r niwed. Gallai hyn fod ar ffurf creu cynefin mewn man arall.

3.7.5.3 Mae Polisi 6 isod yn amlinellu sut y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu rheoli effeithiau datblygiad yn ardal y Parc Cenedlaethol ar fioamrywiaeth. Os oes prif ystyriaethau cynllunio perthnasol o blaid datblygiad, yna mae'n rhesymol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol sicrhau mesurau gan ddatblygwyr sy'n gwrthbwyso neu'n lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw golled neu effaith ar nodweddion cynefin neu rywogaethau sy'n bresennol mewn safle cyn dechrau'r datblygiad.

**Polisi 6**
**Bioamrywiaeth a Datblygiad**

**Caniateir datblygiad dim ond;**

1. **pan fo'r datblygwr yn profi er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol na fydd yn arwain at golli neu ddarnio cynefin neu nodwedd dirwedd yn annerbyniol, nac yn cael unrhyw effaith arall arni, a/neu na fydd yn arwain at gynyddu arwahanrwydd rhywogaethau pwysig fel y'u rhestrir o dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig iawn i Gymru), NEU**

**2 A pan fo'r datblygwr yn nodi cynefinoedd a nodweddion tirwedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt yn y safle ac yn darparu ar gyfer creu, rheoli'n gadarnhaol, adfer, gwella neu ddigolledu'r cynefinoedd a'r nodweddion hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod y safle'n cynnal ei bwysigrwydd cadwraeth natur; a**

**B phan wneir darpariaeth lawn ar gyfer rheoli cynefinoedd a nodweddion gwerth cadwraeth natur y safle. Sicrheir hyn trwy naill ai Rwymedigaethau Cynllunio neu osod Amodau Cynllunio; ac**

**C na fydd unrhyw nodweddion llinellol (e.e. gwrychoedd, lleiniau coetir) yn cael eu colli/torri. Dylai datblygiad geisio gwella nodweddion cynefin llinellol (e.e. gwrychoedd, lleiniau coetir), 'coridorau tywyll' a chlwydi a ddefnyddir gan ystlumod.**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob datblygiad sy'n cael ei farnu yn ôl y polisi hwn yn gwella bioamrywiaeth trwy'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd y Strategaeth Rhwymedigaeth Gynllunio.**

### 3.7.6 Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir

3.7.6.1 Rhestrir rhywogaethau a warchodir gan gyfraith y Deyrnas Unedig yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992. Rhestrir rhywogaethau a warchodir yn Ewropeaidd yn y Rheoliadau Cynefinoedd, Atodlenni 2 a 4 (gweler hefyd Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig iawn i Gymru). Yn ogystal, mae Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i ystyried gwarchod bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gymdeithas

Frenhinol er Gwarchod Adar, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol nodi rhywogaethau eraill sy'n brin yn rhanbarthol neu'n bwysig yn lleol. Bydd camau gweithredu ynglŷn â'r holl rywogaethau a chynefinoedd a restrir sy'n bresennol yn lleol yn cael eu cymryd ar sail y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

3.7.6.2 Mae presenoldeb rhywogaeth a warchodir neu rywogaeth sy'n bwysig yn lleol yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau ynglŷn â datblygiad. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol y Parc Cenedlaethol yn cynnwys manylion y rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn y Parc Cenedlaethol a'r rhai hynny y mae angen cymryd camau brys i gynnal eu lefelau poblogaeth. Ceir rhestr lawn o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog[10]. Gallai goroesiad rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid ddibynnu ar bresenoldeb cynefinoedd arbenigol, ac o ran anifeiliaid fe allai'r rhain gynnwys ardaloedd lloches, bwydo, bridio, clwydo/gorffwys a gaeafu. Weithiau, fe allai fod yn bosibl i ddatblygiad gynnwys cynigion am ddarparu cynefinoedd newydd ar gyfer rhywogaethau yn lle'r hen gynefinoedd. Pan fo rhywogaethau a warchodir yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod y datblygwr yn cyflwyno arolwg ecolegol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y rhywogaeth a warchodir. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried gosod Amodau Cynllunio neu'n llunio cytundebau a fyddai'n goresgyn effeithiau niweidiol posibl y datblygiad ar y cynefinoedd neu'r rhywogaethau sydd o bwysigrwydd cadwraeth. Yn ogystal, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn annog yr ymgeisydd i amlygu a chynnwys mesurau sy'n cyfrannu at adfer neu ymestyn cynefinoedd pwysig, a bydd y rhain yn cael eu hamlinellu yn yr Amodau Cynllunio tirweddu a phlannu sy'n cyd-fynd â chaniatâd cynllunio.

3.7.6.3 Mae'n rhaid i ddatblygiadau a fyddai'n niweidio rhywogaethau a warchodir yn Ewropeaidd gael rhanddirymiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddir rhanddirymiad o'r fath ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch y cyhoedd neu resymau eraill o fudd pennaf i'r cyhoedd yn unig.

3.7.6.4 Gall rhywogaethau gwyllt fod yn bwysig lle nad ydynt yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol hefyd. Maent yn aml wedi'u gwasgaru'n eang yn y dirwedd ac fe allai eu poblogaethau fod ar wahân i'w gilydd. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol y Parc Cenedlaethol yn cynnwys manylion y rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn y Parc Cenedlaethol a'r rhai hynny y mae angen cymryd camau brys i gynnal eu lefelau poblogaeth. Gallai nodweddion tirwedd ddarparu coridorau bywyd gwyllt i rai rhywogaethau, yn ogystal â chysylltiadau neu gerrig camau rhwng cynefinoedd. Nid yw cynefinoedd eu hunain wedi'u cyfyngu i safleoedd penodol, yn hytrach maent yn golygu'r Parc yn ei gyfanrwydd, a hynny er mwyn diogelu ein lefelau bioamrywiaeth presennol. Ni ellir cyflawni hyn heb ddiogelu a rheoli'r cynefinoedd a'r ardaloedd rhyngol hefyd. Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd a Pholisi Cynllunio Cymru yn datgan bod gwarchod, rheoli a gwella rhwydweithiau ecolegol yn arbennig o bwysig, ac felly mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn ceisio sicrhau bod nodweddion tirwedd sy'n creu'r rhwydwaith hwn ac sy'n bwysig iawn i blanhigion ac anifeiliaid gwyllt yn cael eu rheoli'n gadarnhaol.

3.7.6.5 Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnal geo-gronfa ddata o gofnodion rhywogaethau a gwybodaeth am gynefinoedd. Caiff y gronfa ddata ei diweddaru'n gyson trwy gynnal cysylltiadau cryf â chyrff

[10] "Arfer Gorau o ran Cadwraeth Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y Sectorau Cynllunio a Datblygu – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog"

cyhoeddus, sefydliadau cadwraeth a chofnodwyr biolegol unigol. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gynorthwyo cadwraeth natur trwy hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, sefydliadau cadwraeth a'r cyhoedd am bresenoldeb a lleoliadau rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, a'r rhai hynny sydd o bwysigrwydd i Gymru a'r ardal leol.

**Polisi 7**
**Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir**

**Caniateir cynigion yn ymwneud â thir neu adeiladau sy'n cynnal rhywogaethau a warchodir neu rywogaethau pwysig o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

i. **pan fo'r angen am y datblygiad yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur y safle, ac yn achos rhywogaethau a warchodir yn Ewropeaidd, pan fo'r meini prawf ar gyfer rhanddirymiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu bodloni; a**

ii. **phan ddarperir mesurau cadarnhaol i gyfrannu at dargedau cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd; a**

iii. **phan fo'r datblygwr yn profi er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y bydd**

**a) yr amhariad ar y rhywogaeth a'r cynefin o ran yr effaith ar oroesiad a photensial atgenhedlu'r rhywogaeth neu swyddogaeth y cynefin yn cael ei leihau cymaint â phosibl; neu**

**b) y darperir ardaloedd eraill i gynnal o leiaf y lefelau poblogaeth presennol neu faint presennol y cynefin yr effeithir arnynt gan y cynnig.**

## 3.8 Coed a Datblygiad

3.8.1 Mae grwpiau o goed a choed unigol, gan gynnwys hen goed a choed hynafol, yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth wella tirwedd a bioamrywiaeth y Parc. Maent yn ychwanegu at amwynder a chynefin naturiol trefi a phentrefi ac adeiladau unigol, a dylid eu gwarchod rhag datblygiad lle bynnag y bo'n bosibl. Mae coed hefyd yn rhoi cysgod ac yn helpu i leihau llygredd, yn ogystal ag amsugno carbon deuocsid. Lle y bo'n briodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio neu Orchmynion Cadw Coed i warchod coetiroedd neu goed pwysig. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod coed yn cael eu cadw a'u gwarchod ar unrhyw safle datblygu, pa un a ydynt yn cael eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth ai peidio.

**Polisi 8**
**Coed a Datblygiad**

**Bydd yn ofynnol i gynigion am ddatblygiad ar safleoedd sy'n cynnwys coed ddarparu Arolwg Coed a Chynllun Gwarchod Coed i ategu'r cynnig[11]. Rhoddir caniatâd pan fo**

[11] Bydd hyn yn unol â Safon Brydeinig BS5837: 2005 *Coed mewn perthynas ag adeiladu: Argymhelliad* ac yn cael ei gynnal gan Goedyddiwr annibynnol â chymwysterau priodol er bodlonrwydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

**Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn fodlon:-**

**a) Bod coed a'u systemau gwreiddiau (gan gynnwys pridd cysylltiedig) yn cael eu cadw a'u gwarchod yn ddigonol cyn, yn ystod ac ar ôl y datblygiad; a/neu**

**b) Pan fo Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cytuno cael gwared ar goed fel rhan o'r cynllun datblygu, mae'n rhaid darparu coed eraill yn eu lle ar y safle gan ddefnyddio coed brodorol sy'n tarddu'n lleol. Bydd cynllun ar gyfer amnewid coed, gan gynnwys manylion plannu ac ôl-ofal, yn cael ei gytuno gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn i'r datblygiad ddechrau [12].**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio Amodau Cynllunio a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau unrhyw fesurau lliniaru / digolledu / gwella angenrheidiol mewn perthynas â choed a chynigion datblygu.**

## 3.9 Coetiroedd a Choed Hynafol

3.9.1 Mae Coetiroedd Hynafol yn adnodd gwerthfawr na ellir ei adnewyddu. Coetir hynafol yw tir sydd wedi bod o dan orchudd coetir yn barhaus ers o leiaf 1600 OC. Fe all fod yn hynafol lled-naturiol, sy'n cadw gorchudd coed a llwyni brodorol nad yw wedi'i blannu, er y gallai fod wedi'i reoli trwy goedlannu neu dorri coed a'i ganiatáu i adfywio'n naturiol, neu fe all fod yn blanhigfa ar safleoedd coetir hynafol (lle mae'r gorchudd coed gwreiddiol wedi'i dorri a'i ddisodli gan blannu, yn aml gyda choed coniffer, ac fel arfer yn ystod y ganrif ddiwethaf). Gan iddynt fod yn bresennol yn y dirwedd ers sawl canrif, maent yn gyfoethog mewn bywyd gwyllt ac yn fwy tebygol o gynnal rhywogaethau prinnach a chynnwys nodweddion arbennig. Mae Coetir Hynafol hefyd yn fwy tebygol o gynnwys nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol ac archaeolegol. Mae eu prinder a'u pwysigrwydd yn golygu y dylai'r ardaloedd hyn gael eu gwarchod.[13]

3.9.2 Mae Coed Hynafol yn bwysig iawn oherwydd eu prinder a'u swyddogaeth mewn ecosystem. Yn aml, bydd gan hen goed unigol arwyddocâd lleol neu genedlaethol, oherwydd eu hoedran, eu maint neu eu cyflwr. Mae Hen Goed a Choed Hynafol yn hanfodol i gynnal ystod o rywogaethau sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.9.3 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwarchod Coetiroedd a Choed Hynafol rhag effeithiau niweidiol o ganlyniad i ddatblygiad.

3.9.4 Mae'r Map Cynigion yn dangos ardaloedd Coetir Hynafol yr oedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymwybodol ohonynt ar yr adeg ysgrifennu. Bydd cynigion ar gyfer datblygiad ar safle Coetir Hynafol neu'n agos iddo yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi 9 isod.

3.9.5 Ar hyn o bryd, nid oes rhestr gynhwysfawr o Hen Goed yng Nghymru. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnal arolwg o unrhyw goed sy'n bresennol ar safle datblygu neu'n union gyfagos iddo. Dylai'r gwaith arolygu hwn ddangos pa un a yw safle'n cynnwys neu'n agos i unrhyw goed y gellid eu hystyried yn Hen Goed. Pan fo Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymwybodol bod Coetir Hynafol neu Hen Goeden yn bresennol ar safle datblygu neu'n agos iddo, bydd y polisi canlynol yn cael ei gymhwyso.

[12] Gweler Atodiad 5 am fanylion rhywogaethau coed a llwyni brodorol

[13] *Conserving the Past – Ensuring the Future: A Planner's guide to ancient woods and trees in England* Coed Cadw (Woodland Trust) (2006)

**Polisi 9**
**Coetiroedd a Choed Hynafol**

**Bydd cynnig ar gyfer datblygiad a fyddai'n arwain at unrhyw un o'r canlynol**

**a) darnio neu golli coetir hynafol; a/ neu**

**b) golli coeden hynafol neu hen goeden; a/ neu**

**c) ddifrod i dir, colli isdyfiant, neu amharu ar y tir mewn ardal coetir neu ardal gwarchod gwreiddiau coeden hynafol; a/ neu**

**ch) ostyngiad mewn arwynebedd cynefinoedd lled-naturiol eraill sy'n agos i goetir hynafol; a/ neu**

**d) newid arwyddocaol i ddefnydd tir yn agos i goetir hynafol; a/ neu**

**dd) gynnydd o ran y tebygolrwydd y bydd coetir hynafol neu hen goeden yn agored i lygredd aer, dŵr neu olau o'r ardal amgylchynol; a/ neu**

**e) newid yr hydroleg mewn ffordd a allai effeithio ar goetir hynafol, Coed Hynafol neu Hen Goed; a/ neu**

**f) ddinistrio cynefinoedd cysylltiol pwysig sy'n berthnasol i goetiroedd hynafol; a/ neu**

**ff) ddiraddio nodweddion archaeolegol neu hanesyddol hysbys mewn coetiroedd hynafol neu sy'n gysylltiedig â hen goed; a/ neu**

**g) ardal o ddefnydd helaeth gan y cyhoedd yn cael ei gosod ger coeden hynafol neu hen goeden, yn cael caniatâd cynllunio dim ond lle y gellir dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod yr angen am y datblygiad yn y lleoliad hwn, a'i fanteision, yn drech na cholli neu ddirywio'r cynefin coetir:-**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio Amodau Cynllunio a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau unrhyw fesurau lliniaru / digolledu / gwella angenrheidiol gan unrhyw gynnig a fydd yn effeithio ar Hen Goeden neu Goetir Hynafol. Gallai hyn gynnwys y gofyniad i Goedyddiwr oruchwylio unrhyw waith adeiladu sy'n debygol o effeithio ar goed arwyddocaol.**

## 3.10 Ansawdd Dŵr

3.10.1 Er bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl reoleiddio mewn perthynas ag ansawdd dŵr, mae gan y system gynllunio rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cyfyngu effeithiau niweidiol datblygiad ar yr amgylchedd dŵr.

3.10.2 Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau na fydd datblygiad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd dŵr. Bydd

angen i ddatblygwyr ystyried ansawdd a maint yr adnodd dŵr lleol, gan bwyso a mesur sut y bydd eu cynnig yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys sicrhau bod ffynonellau dŵr, ecosystemau dyfrol a chynefinoedd cysylltiedig yn cael eu gwarchod. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad sy'n debygol o effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Wysg a Gwy.

**Polisi 10**
**Ansawdd Dŵr**

**Caniateir Cynigion Datblygu dim ond:**

**a) Lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar yr amgylchedd dŵr, a**

**b) Lle na fyddent yn achosi risg annerbyniol i ansawdd a maint dyfroedd rheoledig (gan gynnwys dŵr daear a dŵr wyneb).**

**Polisi 11**
**Defnydd Cynaliadwy o Ddŵr**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod pob cynnig am ddatblygiad yn y dyfodol yn ystyried cynnwys mesurau ar gyfer bodloni'r safonau uchaf ar gyfer rheoli dŵr.**

## 3.11 Llygredd Golau

3.11.1 Un o amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw lleihau llygredd golau a sŵn cymaint â phosibl. Cydnabyddir bod awyr dywyll y nos yn gwneud cyfraniad pwysig at yr ymdeimlad o dawelwch a phellenigrwydd y cyfeirir ato'n aml fel un o nodweddion arbennig allweddol y Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r polisi canlynol yn ceisio gwarchod awyr dywyll y nos rhag effaith golau, a chysylltu unrhyw oleuadau a gynigir i'w defnydd, fel diogelu safle neu lifoleuo cyfleusterau hamdden, fel bod dylunio gofalus a defnyddio dulliau a lefelau goleuo priodol yn lleihau'r effaith ar ardaloedd cyfagos cymaint â phosibl. Mae hefyd yn bosibl y gallai llygredd golau gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000 lle mae datblygiad yn cyd-daro â safleoedd clwydo/llwybrau teithio ar gyfer ystlumod a rhywogaethau eraill sy'n sensitif i olau.

3.11.2 Bydd cynigion sy'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar awyr dywyll y nos, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cael eu gwrthsefyll.

3.11.3 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllaw Cynllunio Atodol i roi mwy o arweiniad ar weithredu'r polisi hwn.

**Polisi 12**
**Llygredd Golau**

**Bydd cynigion sydd angen goleuadau yn cynnwys cynllun goleuo llawn, ac fe'u caniateir:-**

**a) lle mae'r goleuadau a gynigir yn briodol i'w defnydd; a**

**b) lle nad oes effaith niweidiol o bwys, yn unigol neu'n gronnol, ar**

- **i) gymeriad yr ardal;**
- **ii) preswylwyr lleol;**
- **iii) defnyddwyr cerbydau;**
- **iv) cerddwyr;**
- **v) bioamrywiaeth; a**
- **vi) gwelededd awyr y nos.**
- **vii) 'coridorau tywyll' ar gyfer ystlumod a rhywogaethau sy'n sensitif i olau.**

## 3.12 Ansawdd Pridd

3.12.1 Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, mae angen sicrhau bod arferion rheoli tir yn ystyried yr angen i gynnal a gwella ansawdd, adeiledd a swyddogaethau pridd yn effeithiol. Mae'n rhaid cyflawni hyn trwy osgoi defnydd a datblygiad amhriodol, trwy atal erydu, crebachu, halogi, claddu a cholli pridd, a thrwy atal dirywiad na ellir ei wrthdroi mewn deunydd organig a lefelau pH pridd.

3.12.2 Gall datblygiad gael effaith negyddol ar ansawdd, adeiledd a swyddogaeth pridd, a allai effeithio ar hyfywedd ffermio, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth a draeniad tir, a chael effaith negyddol ar storfeydd carbon a thanseilio cyfanrwydd adeileddol yr amgylchedd adeiledig.

3.12.3 Er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at effeithiau negyddol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob cynnig yn llunio cynllun rheoli ar gyfer gwarchod pridd yn ystod ac ar ôl adeiladu. Bydd hyn yn unol â safonau a osodwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ei chanllaw ymarferol cynhwysfawr ar warchod pridd, sef Cod Ymarfer Adeiladu ar gyfer Defnyddio Priddoedd yn Gynaliadwy ar Safleoedd Adeiladu.[14]

**Polisi 13**
**Ansawdd Pridd**

**Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos eu bod yn dilyn arfer da o ran defnyddio a rheoli pridd yn gynaliadwy wrth ddatblygu ac adeiladu trwy gydymffurfio â Chod Ymarfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer Defnyddio Priddoedd yn Gynaliadwy ar Safleoedd Adeiladu.**

**Ni chaniateir datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar ansawdd pridd.**

## 3.13 Ansawdd Aer

3.13.1 Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, mae angen sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiad yn ystyried yr angen i gynnal a gwella ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol yn effeithiol. Mae gweithgareddau y tu hwnt i ffin y Parc yn effeithio ar ansawdd aer, yn enwedig i'r de a'r gorllewin, yn ogystal â gweithgareddau y tu mewn iddo. Felly, mae'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygiad ystyried y cyfraniad cronnol posibl at drothwyon critigol y llygrwyr atmosfferig hysbys sy'n deillio o'r cynllun arfaethedig, ac mae'n rhaid iddynt geisio osgoi ychwanegu at lwythi cefndir.

[14] Cod Ymarfer Adeiladu ar gyfer Defnyddio Priddoedd yn Gynaliadwy ar Safleoedd Adeiladu https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69308/pb13298-code-of-practice-090910.pdf

3.13.2 Gall dyddodion llygrwyr aer gyfrannu at lygredd pridd a dŵr, er enghraifft asideiddio dŵr a chyfoethogi maetholion, a gall hyn yn ei dro gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth. Defnyddir cydymffurfiad â safonau ansawdd aer i fesur amddifadedd cymdeithasol ac mae'r ansawdd aer mewn rhai ardaloedd ar hyd ffin ddeheuol y Parc Cenedlaethol, yn ogystal ag ardaloedd gerllaw'r aneddiadau mwy yn y Parc, yn sylweddol islaw'r targed 100% ar gyfer cydymffurfio â safonau ansawdd aer cyhoeddus a gyflawnir yng ngweddill y Parc (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru). Daw'r prif ffynonellau llygredd aer o allyriadau cerbydau, prosesau hylosgi a diwydiannol, chwarela, amharu ar bridd, gweithrediadau amaethyddol ar raddfa fawr a'r rhyngweithio rhwng yr atmosffer a newidiadau i arwyneb y tir fel draeniad tir. Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae lefel y dyddodion asid a nitrad atmosfferig yn fwy na'r llwythi critigol yn naw o'r un ar ddeg o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a fodelwyd yn 2010 (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru). [15]

**Polisi 14**
**Ansawdd Aer**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad dim ond lle y profir na fydd unrhyw effaith niweidiol, yn unigol neu'n gronnol, ar ansawdd aer. Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad sy'n debygol o gael effaith negyddol ar ansawdd aer neu a allai lygru, oni bai y darperir mesurau lliniaru i osgoi'r effaith.**

## 3.14 Adnoddau Naturiol, Gwasanaethau Ecosystem a Diogelwch Bwyd

3.14.1 Mae'r Gweinidog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod dyletswydd ar y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i brofi cynlluniau arloesol, gan gynnwys ffyrdd newydd o feddwl ac ymagweddau newydd at ddatblygu polisi.

3.14.2 Felly, mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r angen i ymateb i newid yn sgil y cyfoeth o dystiolaeth ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg ac yn cael ei diweddaru'n gyson, sy'n dangos pwysigrwydd diogelu adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem[16]. Bydd gallu ardaloedd lleol, ac yn enwedig ardaloedd gwledig, i fod yn hunangynhaliol yn hollbwysig yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

3.14.3 Mae cynnal a gwella adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem y Parc Cenedlaethol yn elfen allweddol, felly, o gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol. Mae cynaliadwyedd ein tirwedd a'r bobl sy'n dibynnu arni am eu cartrefi a'u bywoliaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â chadwraeth adnoddau naturiol.

3.14.4 Mae rheoli datblygiad newydd yn cyflwyno cyfleoedd i sicrhau bod y datblygiad ei hun, a'r cymunedau yn y Parc, yn llawer mwy ymatebol a hyblyg o ran ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd a fydd yn codi yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

[15] Gweler Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a thudalennau 43-51 Pecyn Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (drafft)
[16] Gweler y Papur Materion – Adnoddau Naturiol, gwasanaethau ecosystem a diogelwch bwyd

3.14.5 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu cyfres o Amcanion Strategol. O ystyried y rhain gyda'i gilydd, gellir eu crynhoi trwy ddweud eu bod yn mynnu bod y Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn dwy egwyddor sylfaenol:-

- Cynnal a gwella adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem y Parc Cenedlaethol (yn unol â pholisïau SP1 ac SP3).
- Darparu cyfleoedd i'n cymunedau fod yn fwy hunangynhaliol o ran cynhyrchu tanwydd a bwyd (yn unol â Pholisi Gofodol E LP1).

3.14.6 Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol a fabwysiadwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol hwn ac, fel y cyfryw, mae holl bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cyfrannu at gynnal a gwella asedau naturiol y Parc Cenedlaethol ar yr un pryd â sicrhau lles economaidd a chymdeithasol ei gymunedau.

3.14.7 Mae'r Is-adran isod yn rhestru'r meysydd lle y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddefnyddio ei swyddogaeth rheoli datblygiad i annog ymateb mwy cydlynol tuag at alluogi datblygiad o fewn Capasiti Amgylcheddol er mwyn hybu cymunedau gwledig cynaliadwy. Yn y cyd-destun hwn, mae ymatebion polisi yn ymwneud â chynnal gwasanaethau ecosystem sydd, yn ôl Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn elfen sylfaenol o gapasiti'r amgylchedd i gynnal datblygiad yn y dyfodol.

3.14.8 Rhestrir pob maes dylanwad ynghyd â chroesgyfeiriad i'r Amcan Strategol a'r Polisi perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu datblygiad yn unol ag egwyddorion gwasanaethau ecosystem.

| **Maes Dylanwad** | **Amcan Strategol** | **Croesgyfeiriad** |
|---|---|---|
| 1) Cynnal a gwella nodweddion arbennig y Parc | SQ1 | Polisi'r Parc Cenedlaethol SP3 |
| 2) Darparu mannau ar gyfer tyfu bwyd o fewn aneddiadau ac yn agos iddynt | SE7 | Polisi Gofodol E LP1 ac SP15 |
| 3) Adeiladu adeiladau gan ddefnyddio pren o ffynonellau cynaliadwy ac agregau a ailgylchwyd | CC3 | SP11 a Pholisi 67 |
| 4) Darparu mannau ar gyfer tyfu coetir newydd o fewn aneddiadau ac yn agos iddynt | SE7 ac CC2 | Polisi Gofodol E LP1 |
| 5) Datblygiad sy'n bodloni'r safonau ar gyfer darparu mannau gwyrdd naturiol hygyrch | SE8 | Polisi 1 |
| 6) Defnydd cynaliadwy o | Pob Amcan | Polisïau'r Strategaeth Ofodol |

| | | |
|---|---|---|
| wasanaethau ecosystem | Strategol | |
| 7) Cynigion sy'n integreiddio cadwraeth bioamrywiaeth yn y broses o ddylunio'r datblygiad | SQ7 / CC3 / SE7 / SE8 | Polisïau'r Strategaeth Ofodol |
| 8) Lleihau llygredd cymaint â phosibl ym mhob datblygiad newydd | SQ10 | yn unol â rheoliadau diogelu'r amgylchedd |
| 9) Cynigion sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr, ynni a thanwydd | CC1 / SQ10 / SQ9 / CC2 / SE7 | Polisi 10 Adnoddau Dŵr<br>Polisi 14 Ansawdd Aer<br>Polisi Strategol 11 Datblygu Cynaliadwy;<br>Polisi Strategol 9 Ynni Adnewyddadwy |
| 10) Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn effeithio ar ansawdd pridd | SQ10 | Polisi 13 Ansawdd Pridd |
| 11) Sicrhau nad yw datblygiad yn digwydd ar dir amaethyddol gradd 3a (polisi cenedlaethol) neu uwch, a chefnogi cynigion priodol ar gyfer busnesau amaethyddol er mwyn cynnal digon o dir fferm a seilwaith ar gyfer busnesau fferm cynaliadwy, cydnerth a hyfyw.[31] | SQ10 | SP3 |
| 12) Economïau a chymunedau mwy cynaliadwy | SE3 / SE7 / SE6 | SP12 Lles Economaidd |
| 13) Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn cynyddu ôl troed ecolegol pobl a busnesau[32] | CC1 | SP4 Newid yn yr Hinsawdd ac SP11 Dylunio Cynaliadwy |
| 14) Cefnogi cynigion priodol ar gyfer busnesau fferm a chynhyrchu bwyd newydd | SE3 | SP12 Lles Economaidd<br>Polisi 38 Arallgyfeirio Ffermydd<br>Polisi 43 Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig |
| 15) Cefnogi cynigion priodol ar gyfer mentrau gwledig newydd yn seiliedig ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | SE3 / CC1 | SP12 a pholisïau ategol |

| | | |
|---|---|---|
| 16) Cefnogi cynigion priodol ar gyfer arallgyfeirio economaidd trwy ddiwydiannau gwyrdd | SE3 / CC1 | SP12 a pholisïau ategol |

*Tabl 3.1: Meysydd Dylanwad Adnoddau Naturiol*

## 3.15 Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol

3.15.0.1 Mae diben cyntaf dynodiad y Parc Cenedlaethol yn cynnwys gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae 'diwylliant' yn cynnwys popeth y mae pobl yn ei greu neu'n ei wneud, ac mae 'treftadaeth' yn cynnwys popeth a wnaed neu a feddyliwyd yn y gorffennol ac sy'n dal i fodoli heddiw. Mae treftadaeth ddiwylliannol yn cynnwys nodweddion adeiledig, tirweddau hanesyddol ac archaeoleg – olion materol ffyrdd o fyw yn y gorffennol – yn ogystal ag agweddau llai diriaethol fel iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth, crefydd, arferion, crefftau, celf, llên gwerin, enwau lleoedd a ffyrdd traddodiadol o fyw.

3.15.1.2 Cynnyrch gweithgarwch dynol y gorffennol yw'r dirwedd yn ei chyfanrwydd. Mae'n ddeinamig ac ni ellir ei ffosileiddio, ac felly mae cynaliadwyedd yn golygu integreiddio gofynion bywyd modern a diogelu tirweddau a nodweddion hanesyddol pwysig. Mae gan dirwedd y Parc Cenedlaethol dreftadaeth archaeolegol gyfoethog sy'n bwysig yn lleol ac yn genedlaethol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod tirweddau hanesyddol a nodweddion archaeolegol yn cael eu hamddiffyn, eu gwarchod a'u gwerthfawrogi gan breswylwyr lleol ac ymwelwyr.

3.15.1.3 Mae'r Parc hefyd yn gyfoethog o ran trefi, pentrefi ac adeiladau hanesyddol, ac yn cynnwys y crynhoad mwyaf o bensaernïaeth cyn-1700 yng Nghymru. Mae aneddiadau ac adeiladau hanesyddol y Parc, nad oes modd eu hadnewyddu ar ôl eu colli, yn adnodd sy'n lleihau'n weledol ac yn ddiwylliannol, ac felly mae'n hanfodol bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella.

3.15.1.4 Yn unol â'r Amcanion Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae'n bwysig amlygu ac amddiffyn treftadaeth y Parc am resymau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae'r ased hwn yn cael ei werthfawrogi gan breswylwyr lleol ac ymwelwyr, ac yn cyfrannu at nodweddion arbennig y Parc y mae'n ddyletswydd ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol i alluogi pobl i'w deall a'u mwynhau. Mae strategaeth dwristiaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae treftadaeth ddiwylliannol y Parc yn ei wneud wrth ddenu twristiaid i'r ardal, a'i botensial ar gyfer cyfrannu at yr economi leol.

### 3.15.1 Adeiladau Rhestredig

3.15.1.1 Mae'r Parc Cenedlaethol yn gyfoethog o ran adeiladau hanesyddol, gydag amrywiaeth eang o bensaernïaeth werinol a'r crynhoad mwyaf o bensaernïaeth cyn-1700 yng Nghymru. Mae gan y trefi hanes pensaernïol cyfoethog, o gestyll i dai tref Sioraidd, sy'n adlewyrchu hanes a hunaniaeth ddiwylliannol y Parc. Mae'r rhan ddwyreiniol yn arbennig o amrywiol. Ceir crynoadau o adeiladau o'r 17eg a'r 18fed ganrif yn y prif aneddiadau, a rhai adeiladau gwledig hardd iawn sy'n aml yn cynnwys nodweddion gwreiddiol fel teils carreg, sgriniau a ffenestri myliynog. Mae newidiadau mewn deunyddiau adeiladu (tywodfaen coch a chalchfaen yn bennaf) a gwahanol arddulliau yn rhoi arwahanrwydd lleol i ffermydd a bythynnod niferus y Parc, er y gallai addasiadau diweddarach guddio nodweddion gwreiddiol.

3.15.1.2 Adlewyrchir ansawdd y bensaernïaeth yn y Parc yn y 1500 o adeiladau sydd wedi'u rhestru gan Cadw ar hyn o bryd. Dosberthir adeiladau hanesyddol yn ôl Graddau I, II* neu II yn ôl eu pwysigrwydd cymharol. Gellir gweld y rhestr lawn sy'n dangos eu lleoliad yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol.

3.15.1.3 Mae cymeriad amgylchedd adeiledig y Parc yn cael ei wella trwy warchod adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, mae newidiadau bach i adeiladau presennol, y gostyngiad yn y defnydd o ddeunyddiau ac arddulliau lleol traddodiadol a cholli defnydd traddodiadol o adeiladau fel ysguboriau carreg, yn cynrychioli bygythiadau a heriau i raddau amrywiol. Bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gynigion ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar adeilad rhestredig.

**Polisi 15**
**Adeiladau Rhestredig**
**Bydd pob cais am ganiatâd adeilad rhestredig yn cael ei bennu yn unol â'r Polisi Cenedlaethol fel y'i hamlinellir yng Nghylchlythyr 61/96.**

**Bydd cynigion am ganiatâd cynllunio sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei gwrtil, gan gynnwys addasu, ymestyn neu newid defnydd, boed hynny'n fewnol neu'n allanol, yn cael eu cefnogi dim ond pan ellir dangos na fydd unrhyw niwed arwyddocaol i osodiad a chymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig yr adeilad neu'r nodweddion hanesyddol.**

**1. Trawsnewid / Addasu / Ymestyn / Newid Defnydd adeilad rhestredig**
**Caniateir trawsnewid, addasu, ymestyn neu newid defnydd adeilad rhestredig pan fodlonir y meini prawf canlynol yn unig:**

- **a) Mae'r cynnig yn gwarchod y cyfraniad a wneir gan yr adeilad at gymeriad y Parc Cenedlaethol.**
- **b) Mae'r deunyddiau a'r gorffeniadau a ddefnyddir yn ystod y gwaith adeiladu yn gydnaws ym mhob ffordd â rhai'r adeiledd presennol.**
- **c) Mae'r cynnig yn cydymffurfio â holl bolisïau perthnasol eraill y cynllun hwn a chanllawiau cenedlaethol**
- **ch) Ni fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar osodiad adeilad rhestredig neu draddodiadol.**

**Bydd angen arolwg adeileddol annibynnol i brofi sefydlogrwydd adeileddol yr adeilad neu os ystyrir y byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at waith ailadeiladu mawr neu sylweddol.**
**Dylai Ceisiadau Cynllunio sy'n golygu bod angen gwneud gwaith ar adeiladau rhestredig gynnwys manylion yr holl newidiadau a gwaith arall er mwyn dangos effaith y cynnig ar olwg, cymeriad, adeiledd hanesyddol a gosodiad yr adeilad. Dylent hefyd gynnwys arolygon rhywogaeth a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir pan fo'n berthnasol.**

## 3.15.1 Dymchwel Adeiladau Rhestredig

3.15.2.1 Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i sicrhau bod adeiladau rhestredig a'u gosodiadau ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig yn cael eu gwarchod. Fodd bynnag, mewn achosion anarferol iawn, mae'n bosibl y bydd angen dymchwel adeilad rhestredig naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu cyfiawnhau pam mae angen addasu neu ddymchwel yr adeilad a darparu tystiolaeth argyhoeddiadol o'u hachos i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Ni cheir dymchwel adeiladau rhestredig heb Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn mynnu bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyfeirio'r ceisiadau hynny y mae wedi penderfynu eu cymeradwyo at Cadw/Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac eithrio lle y maent yn ymwneud yn unig â gwaith mewnol i adeilad rhestredig Gradd II.

3.15.2.2 Pan fo'n rhaid dymchwel adeilad, mae gan ymgeiswyr ddyletswydd[17] i ganiatáu digon o amser i CBHC[18] gynnal arolwg cofnodi cynhwysfawr. Pan nad yw'r gwaith yn golygu dymchweliad llwyr, gall amod gael ei osod sy'n mynnu bod CBHC yn cael mynediad i adeiladau o dan Gylchlythyr 1/98. Bydd angen contract ailddatblygu ar gyfer y safle er mwyn sicrhau bod y datblygiad y mae'r adeilad yn cael ei ddymchwel ar ei gyfer yn digwydd mewn gwirionedd. Lle bynnag y bo'n briodol, dylid achub deunyddiau o'r adeilad a'u hailddefnyddio mewn cynlluniau cadwraeth neu ail-greu, naill ai trwy ailddatblygu'r safle dan sylw neu adnewyddu neu atgyweirio adeiladau eraill.

**Polisi 16**
**Dymchwel Adeiladau Rhestredig**

**Caniateir dymchwel adeilad rhestredig, neu ei ddymchwel yn rhannol, dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol lle y mae'r Awdurdod yn argyhoeddedig na ellir cadw'r adeilad, neu ran ohono, neu nad yw'n werth ei gadw, a lle y darparwyd tystiolaeth argyhoeddiadol sy'n dangos:-**

- **i) bod ymdrechion gwirioneddol i gynnal defnyddiau presennol ar gyfer yr adeilad a dod o hyd i ddefnyddiau newydd hyfyw wedi methu;**
- **ii) nad yw ei gadw mewn rhyw fath o berchenogaeth elusennol neu gymunedol yn bosibl neu'n addas; ac**
- **iii) y byddai ailddatblygu'n arwain at fuddion cynllunio sylweddol i'r gymuned a fyddai'n drech na cholli'r adeilad rhestredig.**

**Mae'n rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod yn gwbl fodlon y bydd yr ailddefnydd arfaethedig ar gyfer y safle yn arwain at fuddion i gymeriad neu amwynder yr ardal neu'r Parc Cenedlaethol ehangach sy'n drech na cholli'r adeilad. Yn achos esgeulustod bwriadol o Adeiladau Rhestredig sydd mewn perygl, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cymryd camau i ddiogelu'r adeilad(au).**

**Pan fwriedir amnewid adeilad o'r fath, bydd angen i gontract ailddatblygu gael ei lunio rhwng y datblygwr ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

### 3.15.3 Gosodiad Adeiladau Rhestredig

3.15.3.1 Gall datblygiad anystyriol yn agos i adeilad rhestredig ddinistrio ei osodiad, a allai fod yn rhan bwysig o'i gymeriad. Gall adeiladau hanesyddol golli llawer o'u diddordeb a'u gwerth os cânt eu gwahanu o'u hamgylchedd, e.e. trwy lwybrau traffig newydd, meysydd parcio neu ddatblygiad anaddas. Yn aml, y cydgord sy'n cael ei greu trwy drefniant adeiladau a'r mannau agored rhyngddynt sy'n creu eu cymeriad pwysig. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn asesu pa un a yw gosodiad adeilad rhestredig yn debygol o brofi effaith niweidiol trwy farnu cais yn ôl meini prawf fel graddfa, deunyddiau, agosrwydd i adeiladau eraill, ac arddull.

**Polisi 17**
**Gosodiad Adeiladau Rhestredig**

**Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar osodiad adeilad rhestredig.**

---

[17] Mae'r ddyletswydd yn codi o dan Adran 8 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
[18] CBHC – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

### 3.15.4 Asedau Treftadaeth o Bwysigrwydd Lleol sydd o Ddiddordeb Lleol

3.15.4.1 Mae trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys llawer o asedau treftadaeth o bwysigrwydd lleol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriad ac ansawdd yr ardal. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn datblygu a chynnal rhestr o asedau treftadaeth sydd o bwysigrwydd lleol ac yn ceisio sicrhau bod newid angenrheidiol yn cael ei gyflawni heb aberthu cyfanrwydd, cydlyniant a chymeriad yr adeilad a'r ardal amgylchynol.

3.15.4.2 Pan fydd adeilad sydd ar y rhestr leol o fewn ardal gadwraeth, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd o dan Erthygl 4(2), a phan na fydd adeilad o fewn ardal gadwraeth, bydd yr Awdurdod yn ystyried gwneud cais am gyfarwyddyd Erthygl 4(1) i amddiffyn cymeriad arbennig allanol y Parc Cenedlaethol.

**Polisi 18**
**Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol**

**Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol, fel y'u hamlinellir ar y rhestr leol, lle na fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar eu golwg arbennig, cyfanrwydd pensaernïol neu osodiad.**

### 3.15.5 Ardaloedd Cadwraeth

3.15.5.1 Ardaloedd Cadwraeth yw ardaloedd "o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw a gwella eu golwg neu gymeriad.[19]" Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i sicrhau bod y nodweddion arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad ac ansawdd yr ardaloedd hyn yn cael eu gwella. Gallai'r nodweddion hyn gynnwys y patrwm strydoedd hanesyddol, ffiniau lleiniau, ffurf yr anheddiad ac adeiladau unigol, y lle rhwng adeiladau, y deunyddiau adeiladu a ddefnyddir, dodrefn stryd, arwyneb y llawr a'r defnyddiau a'r gweithgareddau a wneir yno. Mae Ardaloedd Cadwraeth wedi'u dynodi mewn pum anheddiad yn y Parc: Aberhonddu, Crucywel, Llangatwg, y Gelli Gandryll a Thalgarth. Dangosir ffiniau Ardaloedd Cadwraeth ar y Map Cynigion.

3.15.5.2 Bydd datblygu neu ddymchwel o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn cael ei bennu yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol (Cylchlythyr 61/96).

3.15.5.3 Mae'n rhaid i geisiadau ddangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle y bônt ar gael mewn perthynas â'r Ardaloedd Cadwraeth canlynol ac unrhyw Ardaloedd Cadwraeth ychwanegol a ddynodir yn ystod cyfnod y cynllun:

3.15.5.4 Bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer datblygiad o fewn Ardaloedd Cadwraeth ystyried Adroddiadau Arfarniad Ardal Gadwraeth wrth bennu ceisiadau cynllunio. Mae adroddiadau eisoes wedi'u datblygu i gyd-fynd â rhai o'r dynodiadau. Bydd eraill yn cael eu llunio yn y dyfodol. Dylid cyfeirio at yr adroddiadau hyn gan y byddant yn rhoi gwybodaeth am dopograffeg, gosodiad y dirwedd, hanes, adeiladau a ffurf aneddiadau'r Ardal Gadwraeth. Gallai'r adroddiadau hefyd amlygu nodweddion negyddol sy'n amharu ar nodweddion

[19] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

arbennig yr Ardal Gadwraeth ac argymell ffyrdd ymlaen i warchod a gwella'r ardal ymhellach. Mae copïau o Arfarniadau Ardal Gadwraeth ar gael ar wefan yr Awdurdod.

3.15.5.5 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yn mynnu bod ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth yr ystyrir eu bod yn ddatblygiad a ganiateir mewn mannau eraill. Er enghraifft, mae dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhoi mwy o reolaeth dros ddymchwel y rhan fwyaf o adeiladau a waliau, yn ogystal â thorri, tocio a difrigo coed. Mae'n golygu bod angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd lleol i geisiadau cynllunio ac yn sicrhau bod cynigion newydd yn destun craffu gofalus iawn ac yn cyrraedd safonau dylunio priodol. Ni fydd ceisiadau amlinellol yn dderbyniol mewn Ardaloedd Cadwraeth.

**Polisi 19**
**Datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth**

**Caniateir datblygiad newydd a newidiadau i adeiladau presennol o fewn lleoliad Ardal Gadwraeth neu sy'n effeithio ar leoliad Ardal Gadwraeth dim ond lle y bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu olwg yr ardal, a lle y mae'r dyluniad, yr holl ddeunyddiau adeiladu, y mesuriadau a'r manylion i gyd yn briodol i'r Ardal Gadwraeth.**

**Caniateir dymchwel yn llwyr neu'n sylweddol unrhyw adeilad neu adeiledd anrestredig o fewn Ardal Gadwraeth sy'n ddarostyngedig i ganiatâd Ardal Gadwraeth, dim ond lle y ceir y cyfiawnhad cryfaf. Pan fwriedir amnewid adeilad o'r fath, bydd angen llunio contract ailddatblygu cyn rhoi caniatâd ardal gadwraeth.**

### 3.15.6 Parciau a Gerddi Hanesyddol

3.15.6.1 Mae cofrestr anstatudol â dwy ran iddi, sef 'Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru', wedi'i pharatoi gan bartneriaeth rhwng Cadw, y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Rhan 1 yn ymdrin â Pharciau a Gerddi Hanesyddol ac mae Rhan 2 yn ymdrin â Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol a Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.

3.15.6.2 Ceir llawer o barciau a gerddi hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol. Ystyrir bod nifer o'r rhain o bwysigrwydd cenedlaethol ac maent wedi'u cynnwys yn Rhan 1 y Gofrestr.

3.15.6.3 Dangosir Parciau a Gerddi Hanesyddol, fel y'u hamlinellir yn y gofrestr, ar y Map Cynigion a rhoddir manylion amdanynt yn Atodiad 8.

**Polisi 20**
**Parciau a Gerddi Hanesyddol**

**Caniateir datblygiad sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, ar yr ardaloedd hynny a restrir yn Rhan 1 y 'Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru', pan fo cyfanrwydd a chydlyniant hanfodol y parc neu'r ardd a'i (g)osodiad, fel y'u diffinnir yn y Gofrestr, yn cael eu gwarchod neu eu gwella.**

**Dylai datblygiad fod o safon uchel ac aflonyddu cyn lleied â phosibl ar nodweddion treftadaeth. Os na ellir osgoi aflonyddu, bydd angen cynnal arolwg cofnodi llawn cyn dechrau'r datblygiad.**

## 3.15.7 Tirweddau Hanesyddol

3.15.7.1 Mae Rhan 2 y 'Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru' wedi'i llunio i sicrhau bod tirweddau o'r fath yn cael eu cydnabod fel un o asedau diwylliannol mwyaf gwerthfawr y genedl, ac fel rhannau arbennig o'n treftadaeth sy'n aml yn fregus ac na ellir eu hadnewyddu. Mae'n ceisio sicrhau bod yr elfen hanesyddol yn cael ei thrin yn gydradd â'r elfennau ffisegol, biolegol ac esthetig. Fe'i lluniwyd i bwysleisio arwahanrwydd hanesyddol penodol yr ardaloedd o gymharu â gweddill y dirwedd. Nid yw'n ceisio ffosileiddio tirweddau, ail-greu'r gorffennol na chyfyngu ar newid, ond yn hytrach ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod cymeriad hanesyddol hanfodol tirwedd a'i hesblygiad parhaus mewn ymateb i anghenion modern. Nid yw ychwaith yn bwysicach na dynodiad y Parc Cenedlaethol nac yn ei danseilio. Ceir meini prawf penodol ar gyfer cynnwys tirwedd yn Rhan 2 y Gofrestr. Mae'r rhain yn cynnwys tirweddau a ffurfiwyd trwy ddatblygiad neu newid sy'n deillio o weithgarwch dynol, boed hynny'n weithgarwch sy'n parhau neu sydd yn y gorffennol, tirweddau sydd bellach wedi'u claddu, eu hymgorffori neu eu dinistrio, a thirweddau o werth diwylliannol.[20]

3.15.7.2 Ceir rhestr o'r Tirweddau Hanesyddol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 y Gofrestr sy'n llwyr neu'n rhannol o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Atodiad 8.

3.15.7.3 Pan fydd datblygiad yn cynnwys safle sydd wedi'i restru yn y Gofrestr, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r Gofrestr i asesu pa un a yw'r datblygiad yn ddigon mawr i gael mwy nag effaith leol ar y dirwedd hanesyddol. Pan fo'n briodol, bydd angen cynnal asesiad o arwyddocâd effaith datblygiad ar ardaloedd tirwedd hanesyddol.[21]

**Polisi 21**
**Tirweddau Hanesyddol**

**Caniateir datblygiad sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai ar**

[20] Amlinellir y meini prawf llawn yn Rhan 2 y Gofrestr, y mae copïau ohoni ar gael i'w gweld yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
[21] Mae mwy o arweiniad ar gael yn y "Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru". Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cadw, 2003

**ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, ar yr ardaloedd hynny a restrir yn Rhan 2 y 'Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru', dim ond os caiff cyfanrwydd a chydlyniant hanfodol yr ardal, fel y'u diffinnir yn y Gofrestr, eu gwarchod neu eu gwella.**

### 3.15.8 Henebion Rhestredig a gweddillion archaeolegol

3.15.8.1 Gweler Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer y polisi ar warchod Henebion Rhestredig a gweddillion archaeolegol.

3.15.8.2 Dangosir Henebion Rhestredig ar y Map Cynigion.

3.15.8.3 Wrth asesu potensial archaeolegol safle datblygu arfaethedig, bydd gwybodaeth o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a ddelir gan ein 3 ymddiriedolaeth archaeolegol gyfansoddol[22] yn cael ei hystyried.

3.15.8.4 Cydnabyddir y cofnod hwn yn swyddogol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

### 3.15.9 Ardaloedd ar gyfer Gwerthusiad Archaeolegol

3.15.9.1 Dangosir ardaloedd ar gyfer gwerthusiad archaeolegol a amlygwyd yn ystod arolwg o aneddiadau hanesyddol yn y Parc ar y Map Cynigion. Gellir gweld adroddiad yr arolwg *Aneddiadau Hanesyddol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog* yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol. Mae'n bosibl y bydd yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol Rhanbarthol ac eraill yn amlygu safleoedd eraill yn y dyfodol, y tu mewn a'r tu allan i aneddiadau. Ardaloedd yw'r rhain sydd heb eu harchwilio'n llawn gan archaeolegwyr, ond sy'n debygol o gynnwys nodweddion archaeolegol pwysig.

3.15.9.2 Cynghorir darpar ddatblygwyr safleoedd yn yr ardaloedd hyn i gysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i drafod cwmpas a manylion y gwaith gwerthuso y bydd ei angen cyn gwneud cais. Defnyddir gwybodaeth o'r gwerthusiad i wneud penderfyniad ynglŷn â chais. Pan ganiateir cais, mae'n bosibl y gosodir gofynion eraill ar y datblygwr. Bydd y rhain yn dibynnu ar natur y gweddillion a gallent amrywio o gloddio'r gweddillion yn llawn cyn datblygu i gofnodi trwy friff gwylio.

**Polisi 22**
**Ardaloedd Gwerthusiad Archaeolegol**

**Lle y gwyddys bod gweddillion archaeolegol pwysig yn bodoli neu y gallent fodoli mewn ardal ar gyfer gwerthusiad archaeolegol, bydd goblygiadau archaeolegol cynigion datblygu'n cael eu gwerthuso gan Archaeolegwyr cymwys ac annibynnol cyn i geisiadau cynllunio gael eu pennu. Ni roddir caniatâd cynllunio os yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol, o'r farn bod y gwerthusiad yn annigonol.**

### 3.15.10 Safleoedd Treftadaeth y Byd

[22] Ymddiriedolaeth Archaeolegol Powys, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

3.15.10.1 Mae datblygiad yn yr ardal hon yn ddarostyngedig i'r Polisi Cenedlaethol.

3.15.10.2 Mae rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ardal yn cynnwys tref Blaenafon y tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn ogystal â thir o'i hamgylch, y mae rhywfaint ohono o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r ffin hefyd yn cynnwys rhannau o Gofilon bellach. Dangosir ardal y safle ar y Map Cynigion.

## 3.16 Newid yn yr Hinsawdd

3.16.0.1 Y newid yn yr hinsawdd, a achosir gan lefelau cynyddol o nwyon tŷ gwydr, yw'r her fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu dyfodol y Parc Cenedlaethol.

3.16.0.2 Mae ein strategaeth, sy'n deillio o ymrwymiad byd-eang i fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd[23], yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad yn y Parc yn y dyfodol yn gallu addasu i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd y tu hwnt i gyfnod y cynllun.

3.16.0.3 Er bod union effaith yr hinsawdd sy'n newid yn ansicr, mae rhagfynegiadau'n awgrymu bod cynnydd yn y tymheredd yn ystod yr haf yn fwyaf tebygol, a rhagwelir y tymereddau haf uchaf yn ne Cymru. Disgwylir i batrwm glawiad newid hefyd, gyda'r haf yn mynd yn sychach a'r gaeaf yn mynd yn wlypach. Disgwylir i lawiad yn y gaeaf syrthio mewn stormydd dwysach nag a geir ar hyn o bryd. Mae graddau'r newid yn dibynnu ar lefel allyriadau carbon byd-eang, ac er na all y Cynllun Datblygu Lleol ar ei ben ei hun gael llawer o effaith ar lefel carbon deuocsid fyd-eang ehangach, fe all gael effaith sylweddol ar y lefel leol trwy sicrhau bod allyriadau carbon o ddatblygiad newydd yn cael eu cyfyngu i'r swm ymarferol lleiaf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r her a gyflwynwyd i bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru fod yn lleoedd sy'n arbrofi â dulliau newydd o ddatblygu cynaliadwy a chadwraeth amgylcheddol, gan ddarparu enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer datblygu gwledig yn y rhanbarth ehangach.[24]

3.16.0.4 Bydd ymateb i'r her hon yn arwain at oblygiadau sylweddol i'r ffordd y caiff adeiladau eu dylunio a'u hadeiladu, eu gwresogi, eu goleuo a'u gwasanaethu, yn ogystal â'u lleoliad a'u cyfeiriadedd. Er mwyn ymateb i'r materion hyn, mae strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pob datblygiad yn y Parc yn gallu addasu i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd y tu hwnt i gyfnod y cynllun. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn sicrhau bod pob datblygiad yn ystyried risg llifogydd yn y dyfodol, yn cael ei leoli'n gall, yn ymatebol i'r hinsawdd, yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac yn hygyrch i bawb am oes y datblygiad.

3.16.0.5 Wrth weithredu'r strategaeth hon, bydd yn rhaid i bob datblygiad, lle y bo'n berthnasol, fodloni nodau Polisi Strategol 4 Newid yn yr Hinsawdd, a bydd angen esbonio hyn yn fanwl yn y Datganiad Dylunio a Mynediad cysylltiedig.

**SP4 Newid yn yr Hinsawdd**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ddangos, lle y bo'n berthnasol, sut y bydd y datblygiad yn;**

**a) gydnerth ac yn gallu addasu i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd;**

[23] Yn unol â Phrotocol Kyoto ym 1997, ceir ymrwymiad rhyngwladol i sefydlogi ac ail-wneud crynodiadau nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer ar lefel a fyddai'n atal ymyrraeth anthropogenaidd beryglus â'r system hinsawdd. Gweler http://unfccc.int/index.html am ragor o wybodaeth

[24] Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru *Cydweithio dros Gymru* 2002 tud. 4

| | |
|---|---|
| **b)** | **cyfyngu a lliniaru achosion y newid yn yr hinsawdd; a** |
| **c)** | **chyfrannu at nod niwtraledd carbon.** |

3.16.0.6 Trwy'r polisi hwn, byddwn yn sicrhau bod pob datblygiad newydd yn mabwysiadu'r egwyddor diogelu at y dyfodol yn erbyn effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd fel rhan ganolog o'u hathroniaeth ddylunio.

3.16.0.7 Bydd y polisi hwn hefyd yn ffurfio'r fframwaith strategol y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ei ddefnyddio i gefnogi cynlluniau ar raddfa sy'n gymesur â dyletswydd a dibenion statudol y Parc Cenedlaethol, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar liniaru achosion y newid yn yr hinsawdd.

3.16.0.8 Yn ei hanfod, felly, gweithredir SP4 trwy ymatebion polisi manwl sy'n ceisio galluogi datblygiad;

- mewn ardaloedd y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt leiaf,
- sy'n defnyddio dulliau adeiladu a dylunio cynaliadwy,
- sy'n defnyddio technolegau carbon isel a di-garbon mewn cynlluniau dylunio,
- neu alluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol, sy'n defnyddio technoleg briodol ac sydd wedi'u lleoli'n briodol i wasanaethu ein cymunedau.

3.16.0.9 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud ymrwymiad i fynd i'r afael â mater y newid yn yr hinsawdd gan gydnabod ei fod yn un dull yn unig o alluogi'r mesurau cyfryngu ymarferol uchod. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried y meysydd polisi hyn yn fanylach.

## 3.16.1 Dylunio a Datblygu Cynaliadwy

3.16.1.1 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol eisoes yn darparu llinell sylfaen gref ar gyfer safonau mewn datblygiad newydd a gynlluniwyd i ymateb i her y newid yn yr hinsawdd y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn rhinwedd ei statws fel awdurdod enghreifftiol, yn ceisio manteisio arni.

3.16.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod caniatâd cynllunio yn sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyflawni targed gofynnol ar gyfer dylunio cynaliadwy, gyda thargedau penodol ar gyfer lleihau allyriadau carbon deuocsid o gynhyrchu ynni[25].

3.16.1.3 Mae tystiolaeth eglur yn dangos bod nodweddion arbennig bywyd gwledig yn cael effaith arwyddocaol ar allu ein cymunedau i wynebu her y newid yn yr hinsawdd. Mae ôl troed ecolegol yn un ffordd o fesur effaith bresennol Cymunedau Parciau Cenedlaethol ar adnoddau naturiol ac, fel y cyfryw, y graddau y mae Cymunedau Parciau Cenedlaethol yn cyfrannu at effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mesurir ôl troed ecolegol fel hectarau byd-eang y pen, a'r ôl troed ecolegol biolegol (h.y., y swm sydd ar gael ar y Ddaear mewn gwirionedd fesul unigolyn) yw 1.8 hectar byd-eang y pen. Y cyfartaledd byd-eang yw 2.2. O ran Cymru, cynyddodd o 5.16 yn 2003 i 5.25 yn 2005. O fewn ardal y Parc Cenedlaethol,

[25] Ar yr adeg ysgrifennu, y gofyniad yw bod Ceisiadau ar gyfer 1 annedd neu fwy a dderbynnir ar neu ar ôl 1 Medi 2010 yn cyrraedd Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy ac yn cael 6 chredyd o ran Ynni Net Amcangyfrifedig (ENE) 1 – Cyfradd Allyriadau Anheddau. Bydd yn ofynnol i geisiadau a dderbynnir ar neu ar ôl 1 Medi 2009 ar gyfer datblygiad dibreswyl a fydd naill ai'n cynnwys lle llawr o 1000 o fetrau sgwâr neu fwy, neu a fydd yn cael ei gynnal ar safle ag arwynebedd o un hectar neu fwy, fodloni 'safon dda iawn' BREEAM a chyflawni'r credydau gorfodol 'Rhagorol' o dan ENE 1 – Lleihau allyriadau CO2

mae'n 5.3 i 5.46 hectar byd-eang y pen[26]. Mae hyn yn dangos yn glir y graddau y mae patrymau presennol datblygiad a byw yn anghynaliadwy. Ac yntau'n gorff sy'n gyfrifol am reoli datblygiad yn y dyfodol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod dyfodol cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn cael ei sicrhau mewn ffordd fwy cynaliadwy, ac i gymryd camau i leihau'r pwysau a roddwn ar adnoddau naturiol. Fel y cyfryw, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i sicrhau y dilynir arfer gorau o ran datblygu cynaliadwy.

3.16.1.4 Felly, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob datblygiad yn cyrraedd **o leiaf** y safonau cenedlaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy fel y'u hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, gyda'r nod o gyflawni safonau adeiladu cynaliadwy uwch mewn adolygiadau o'r cynllun hwn yn y dyfodol lle y mae tystiolaeth yn awgrymu bod modd cyflawni hynny.

**SP11 Dylunio Cynaliadwy**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad fynd i'r afael ag egwyddorion dylunio cynaliadwy trwy ddangos eu bod:**

**a) yn gallu bodloni gofynion Cenedlaethol, a rhai lleol lle y maent wedi'u diffinio, ar gyfer dylunio cynaliadwy, neu lefel uwch**

**b) yn gallu dangos ystyriaeth o ddefnyddio a, lle y bo'n briodol, cymhwyso ffynonellau ynni adnewyddadwy.**

3.16.1.5 Yn ogystal â gofynion y Polisi Cenedlaethol ar gyfer pob datblygiad newydd sy'n arwain at greu anheddau newydd neu fathau eraill o adeiladau, mae'n amlwg y bydd yn ofynnol i bob datblygiad sy'n arwain at ddefnyddio adnoddau naturiol trwy adeiladu a defnydd, liniaru ei effaith trwy ddilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Felly, cyfeirir egwyddor SP11 at bob datblygiad newydd sy'n arwain at greu lle cyfanheddol newydd. Mae hyn yn cynnwys estyniadau i dai a thrawsnewid adeiladau presennol yn anheddau.

3.16.1.6 Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol yn defnyddio'r Cod Tai Cynaliadwy ar gyfer datblygiad preswyl a safonau BREEAM ar gyfer pob math arall o ddatblygiad. Mae'r safonau hyn, ar yr adeg ysgrifennu, yn ymwneud ag adeiladu adeiladau newydd yn unig, ac felly ni fydd angen cael tystysgrif BREEAM/gradd cod ar gyfer datblygiad o'r fath. Fodd bynnag, bydd angen dangos i Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod y safonau sy'n berthnasol i'r math o lety a gynigir yn yr estyniad/trawsnewidiad wedi'u bodloni. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym maes defnyddio ynni, lle y bydd angen tystiolaeth y bydd y cynllun yn cyflawni'r arbediad cenedlaethol sy'n ofynnol o dan y Gyfradd Allyriadau Anheddau Rheoliadau Adeiladu Cyfredol [27], sy'n berthnasol i'r math newydd o lety y bwriedir ei greu.

**Polisi 23**
**Dylunio Cynaliadwy wrth Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Presennol**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig a fydd yn arwain at greu lle cyfanheddol newydd naill ai trwy**

**a) ymestyn annedd bresennol; neu**

**b) drawsnewid adeilad presennol**

[26] Dawkins, E. Paul, A., Barratt, J., Minx, J. a Scott, K. "Wales' Ecological Footprint Scenarios 2020," (2008) Adroddiad Sefydliad Amgylchedd Stockholm i Lywodraeth Cynulliad Cymru http://www.sei.se/editable/pages/sections/implement/WalesEFreport.pdf

[27] Ar yr adeg ysgrifennu, byddai hyn yn berthnasol i gyflawni lefel gyfwerth â 6 chredyd o dan ENE 1 Cyfradd Allyriadau Anheddau yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy, neu safon 'Ragorol' BREEAM o dan ENE 1 – Lleihau allyriadau CO2,

**gydymffurfio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran dylunio, adeiladu a pherfformiad ynni.**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig o'r fath ddangos y byddent yn cyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer dylunio cynaliadwy sy'n briodol i adeg eu cais.**

**Mae'n rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd o gymhwyso technolegau Carbon Isel a Di-garbon yn y cynllun er mwyn mynd i'r afael â defnydd uwch o ynni, a chynnwys y manylion yn y Datganiad Dylunio a Mynediad sy'n cyd-fynd â'r cais. Os canfyddir bod cymhwyso technolegau o'r fath yn briodol, mae'n rhaid eu defnyddio yn y cynllun.**

### 3.16.2 Ynni Adnewyddadwy

3.16.2.1 Yn ogystal â bod yn rhan annatod o wella cynaliadwyedd mewn cynigion datblygu, mae defnyddio Ynni Adnewyddadwy yn y Parc yn ddull allweddol o gyflawni'r strategaeth i liniaru effaith y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r polisi strategol canlynol yn amlinellu graddau datblygiad o'r fath sy'n briodol yn y Parc Cenedlaethol.

**SP9 Ynni Adnewyddadwy**

**Caniateir cynigion ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:-**

**a) pan fod eu graddfa a'u technoleg yn briodol i'w lleoliad; ac**

**b) nad ydynt yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar Harddwch Naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol;**

**Ystyrir cynigion ar gyfer Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy a ddiffinnir fel Datblygiad Mawr yn erbyn y profion a amlinellir ym Mholisi SP2.**

3.16.2.2 Wrth weithredu'r polisi hwn, rydym am sicrhau bod prosiectau ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy a arweinir gan y gymuned a chynhyrchu ynni ar raddfa fach yn ymwneud ag arallgyfeirio ffermydd yn cael eu galluogi. Rydym hefyd am ddarparu'r fframwaith arweiniol er mwyn sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiad newydd yn gallu integreiddio technolegau carbon isel a di-garbon yn rhwydd mewn cynlluniau yn hyderus, ac y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ffafriol wrth asesu dyluniad[28].

3.16.2.3 Trwy weithredu y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol eisoes yn gwneud cynnydd da wrth alluogi'r ardal i fynd i'r afael â dulliau eraill a chynaliadwy o fodloni ei hanghenion am ynni yn y dyfodol. Cwmni Buddiannau Cymunedol dielw sydd wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r prosiect Cymoedd Gwyrdd. Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 2009, a'r Sefydliad Cymoedd Gwyrdd oedd yr unig gwmni o Gymru i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Her Werdd Fawr y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau. Mae Cymoedd Gwyrdd yn galluogi a chynorthwyo grwpiau cymunedol yn yr ardal i ganfod a gosod prosiectau microgynhyrchu a berchenogir gan y gymuned er budd y gymuned. Ceir llawer o gefnogaeth i'r prosiect hwn ymhlith ein cymunedau, ac mae nifer o brosiectau'n datblygu o ganlyniad i weledigaeth strategol Cymoedd Gwyrdd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau hydro-drydan; trwy gydol rhan gyntaf 2009, amlygodd grwpiau cymunedol Cymoedd Gwyrdd 92 cynllun hydro posibl. Dangosodd arolygon a gynhaliwyd o'r 23 safle cyntaf y gallent gynhyrchu 399kW (sy'n

[28] Paragraff 2.12.6 Datganiad Polisi Cynllunio Interim Gweinidogol (MIPPS) 01/2009 Dylid annog ceisiadau sy'n adlewyrchu egwyddorion allweddol datblygiadau sy'n ymatebol i'r hinsawdd ac sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safonau a osodir ym mharagraff 2.12.4

cynrychioli 6% o'r galw blynyddol am drydan ar gyfer cartrefi ym Mannau Brycheiniog). Mae hyn yn cynrychioli cyfraniad sylweddol at sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n preswylwyr. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag ymarferoldeb llawn ardal Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynhyrchu ei thrydan ei hun.

3.16.2.4 Yn ein rôl fel Awdurdod Cynllunio Lleol, rydym am ddefnyddio ymagwedd alluogol tuag at gynlluniau a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfyngu ôl troed ecolegol a charbon ardal y Parc Cenedlaethol, yn enwedig os ydynt yn rhan o'r fframwaith ehangach o brosiectau sy'n ffurfio gweledigaeth y Cymoedd Gwyrdd.

3.16.2.5 Felly, ystyrir cynlluniau o'r fath yn ffafriol. Fodd bynnag, wrth alluogi datblygiad o'r fath, mae'n hollbwysig nad ydym yn methu yn ein dyletswydd statudol i warchod a gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys bioamrywiaeth unigryw yr ardal.

3.16.2.6 O ganlyniad, bydd cynigion ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy sy'n briodol i'w lleoliad o ran graddfa ac effaith, yn cael eu galluogi trwy SP 9 a Pholisïau Gofodol perthnasol. Bydd priodoldeb y cynllun i'r lleoliad dan sylw yn cael ei farnu yn unol â'r holl bolisïau perthnasol sy'n ymwneud â dylunio priodol ac effaith, gan gynnwys yr effaith ar fioamrywiaeth. Pan fydd prosiectau adnewyddadwy yn ymwneud â chynhyrchu ynni o wastraff, ystyrir y rhain o dan bolisïau sy'n ymwneud â thrin gwastraff (a pholisïau Arallgyfeirio Ffermydd lle y bo'n berthnasol). Gweler Polisi 63 Ynni o Wastraff, a Pholisi 38.

3.16.2.7 Mae'n bwysig nodi ei bod yn debygol y bydd angen cynnal asesiad Sgrinio o dan y Rheoliadau Cynefinoedd mewn ardaloedd lle y cynigir cynlluniau hydro, yn enwedig lle y bydd y cynnig, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, yn effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu ei hisafon. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i gael mwy o arweiniad ar y mater hwn.

3.16.2.8 Paratoir Canllaw Cynllunio Atodol i helpu i weithredu'r polisi hwn er budd ein cymunedau.

3.16.2.9 *Prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fawr*

Mae Polisi Strategol SP9 hefyd yn integreiddio'r rhagdybiaeth genedlaethol gyffredinol yn erbyn darparu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y Parc. Mae cynlluniau o'r fath yn cael effaith arwyddocaol ar y dirwedd ac ystyrir yn genedlaethol bod hyn yn gwrthdaro â dibenion dynodiad y Parc Cenedlaethol fel tirwedd warchodedig ac arbennig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer datblygiad o'r fath, a dylid annog ardaloedd a amlygir ar lefel strategol genedlaethol (Nodyn Cyngor Technegol 8) fel rhai sy'n addas i'w datblygu. Er hynny, gallai'r cynlluniau hyn effeithio ar y Parc Cenedlaethol, felly mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i fod yn ymgyngoreion statudol yn y broses hon ac yn cael dylanwad priodol ar leoliad a dyluniad cynigion yn y dyfodol a leolir ar gyrion y Parc Cenedlaethol. Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr sy'n debygol o effeithio ar y Parc Cenedlaethol, ddangos sut y mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynnig. Bydd yn rhaid i gynigion fynd i'r afael â'r effaith o olygfannau tirwedd allweddol a dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol na fyddant yn arwain at unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion arbennig.

3.16.2.10 Bernir effaith prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar raddfa fawr a leolir ar gyrion y Parc Cenedlaethol yn unol ag SP2 Datblygiad Mawr yn y Parc Cenedlaethol.

## 3.16.3 Lleoliad Datblygiad gan Osgoi Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd

3.16.3.1 Mae'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at ddatblygu yn ceisio galluogi datblygiad o fewn ein terfynau amgylcheddol, gan ystyried yr angen i liniaru ac addasu i effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd. Yn y Deyrnas Unedig, disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd gael effaith ddifrifol ar amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd yn y dyfodol. Yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, disgwylir i'r ardal brofi llifogydd amlach a mwy difrifol. Er bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi sicrhau nad oes unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd yr amlygwyd eu bod mewn perygl o lifogydd (pyrth DAM C1 ac C2), mae ardaloedd mawr o'n haneddiadau wedi'u lleoli o fewn gorlifdiroedd. Fel y cyfryw, mae ffiniau datblygiad yn cynnwys ardaloedd a amlygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd.

3.16.3.2 Os amlygir ardal lle y ceir perygl llifogydd o fewn ffin / maint datblygiad, ni fydd hyn o reidrwydd yn atal rhywfaint o ddatblygu rhag digwydd yn yr ardaloedd hyn. Bydd y gallu i ddatblygu o fewn ardal lle y ceir perygl llifogydd yn dibynnu ar natur a graddfa'r cynnig, a gallu'r ymgeisydd i ddangos bod modd rheoli perygl a chanlyniadau llifogydd yn y dyfodol. Cyfeiriwch at Bolisi Cynllunio Cymru 13.2 a Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd i gael mwy o arweiniad ar y mater hwn.

3.16.3.3 Ystyrir bod y datblygiadau canlynol yng nghefn gwlad yn agored iawn i berygl llifogydd:

- Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Storio Carafanau
- Adeiladau Newydd ar gyfer Llety Twristiaeth
- Llety Twristiaeth Heb Fod yn Barhaol
- Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carafanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a Phebyll
- Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored Newydd neu Estynedig.

3.16.3.4 Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer y mathau uchod o ddatblygiad allu dangos bod unrhyw berygl a chanlyniad o lifogydd yn y dyfodol wedi'u rheoli yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15, er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru.

3.16.3.5 Fodd bynnag, ni ddylai safleoedd ym mharth C2 gael eu dyrannu at gyfer datblygiad sy'n agored iawn i lifogydd yn unol â'r cyngor a roddir ym mharagraff 6.2 Nodyn Cyngor Technegol 15. Dylai fod modd cyfiawnhau cynigion ar gyfer datblygiad adeiledig arall o dan adrannau 6 a 7 ac atodiad 1 Nodyn Cyngor Technegol 15.

3.16.3.6 Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu eich cynghori os yw eich cynnig o fewn ardal llifogydd, ac mae mapiau perygl llifogydd ar gael ar eu gwefan. Os canfyddir bod eich safle mewn perygl o lifogydd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu eich cynghori ynglŷn â'r wybodaeth ategol y bydd ei hangen arnynt pan fyddant yn gwneud sylwadau ar y cais cynllunio. Er gwybodaeth, nodir isod aneddiadau lle y mae ffin y datblygiad yn gorgyffwrdd â'r pyrth perygl llifogydd DAM.

**Aneddiadau yr effeithir arnynt gan lifogydd**

| |
|---|
| Aberhonddu (1) |
| Clydach (4C) |

| |
|---|
| Crucywel (2) |
| Defynnog (2) |
| Gilwern (3C) |
| Gofilon (3A) |
| Y Gelli Gandryll (2) |
| Llangatwg (4A) |
| Llangors (3A) |
| Llangynidr (4C) |
| Llanigon(3A) |
| Maesygwartha (4B) |
| Pencelli (3C) |
| Pontneddfechan (3A) |
| Pontsenni (2) |
| Talgarth (2) |
| Tal-y-bont ar Wysg (3C) |
| Ynyswen (4C) |
| Ystradfellte ( 4B) |

*Tabl 3.2 Aneddiadau yr Effeithir arnynt gan Lifogydd*

# PENNOD 4:Y STRATEGAETH OFODOL

## 4.0 Y Strategaeth Ofodol

4.0.1 Y Strategaeth Ofodol yw mynegiant gofodol yr Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol at ddatblygu sy'n sail i'r Cynllun Datblygu Lleol hwn (fel y'i hamlinellwyd ym Mhennod 2). Mae'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol a alluogir trwy'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio â Dyletswydd a Dibenion Statudol y Parc Cenedlaethol. Fel y cyfryw, mae'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol yn ceisio galluogi datblygiad lle na fydd yn cael effaith niweidiol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol, adnoddau naturiol na seilwaith cymunedol y Parc Cenedlaethol, gan ystyried yr angen i liniaru effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Datblygwyd y Strategaeth Ofodol trwy gymhwyso'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol i ystyried graddfa a dosbarthiad datblygiad yn y dyfodol.

4.0.2 Mae Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu graddfa a lleoliad priodol twf yn y Parc Cenedlaethol. Amlinellir y Strategaeth Ofodol isod:

**Y Strategaeth Ofodol: Byw'n gynaliadwy mewn Tirwedd Parc Cenedlaethol**

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod holl gymunedau'r Parc Cenedlaethol yn sicr o ddyfodol bywiog a chynaliadwy ac yn gallu bodloni eu hanghenion beunyddiol ym mhob cymuned. Rydym am sicrhau bod pob datblygiad yn y Parc yn gallu addasu i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd y tu hwnt i gyfnod y cynllun. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn sicrhau bod pob datblygiad yn ystyried perygl llifogydd yn y dyfodol, yn cael ei leoli'n gall, yn ymatebol i'r hinsawdd, yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac yn hygyrch i bawb ar hyd oes y datblygiad.

## 4.1 Lleoliad Datblygiad

4.1.1 Wrth amlinellu'r Strategaeth Ofodol, mae'r Parc Cenedlaethol wedi cael ei gyfeirio gan y Weledigaeth ar gyfer Canol Cymru fel y'i cyflwynir yng Nghynllun Gofodol Cymru[29]. Mae'r weledigaeth hon yn hybu modelau deinamig ar gyfer datblygu cynaliadwy gwledig, sy'n gydnerth yn wyneb heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn agored i'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil, ar yr un pryd â chydnabod pwysigrwydd cynnal a gwella arwahanrwydd lleol.

4.1.2 Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, mae Cynllun Gofodol Cymru yn amlinellu ymagwedd Canolfan a Chlwstwr at ddatblygu gofodol, gan amlygu Aneddiadau Allweddol sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaeth i'r rhanbarth. Cefnogir diben yr ymagwedd Canolfan a Chlwstwr, sef annog cymunedau i gydweithredu er mwyn bodloni eu hanghenion eu hunain ac anghenion yr Aneddiadau sy'n ddibynnol arnynt[30].

4.1.3 Yr ardal Canolfan a Chlwstwr sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol yw "Clwstwr Bannau Brycheiniog" sy'n cynnwys yr aneddiadau canlynol yn y Parc Cenedlaethol

[29] Mae Cynllun Gofodol Cymru yn integreiddio elfennau gofodol holl strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu fframwaith cynhwysfawr sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol

[30] Mae'r ymagwedd hon at leoliad datblygiad wedi'i phrofi, ynghyd â senarios eraill ar gyfer twf a datblygiad, trwy'r fethodoleg Arfarniad o Gynaliadwyedd gymeradwy ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Canfu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd mai hon oedd yr ymagwedd orau i ddarparu cydbwysedd da rhwng canolbwyntio datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer bodloni anghenion lleol mewn aneddiadau llai ac ardaloedd gwledig. Yn ogystal â chanfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae swyddogaeth a chynaliadwyedd lleoliad yr Aneddiadau Allweddol wedi'u sefydlu trwy arfarniad o lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau

| | | |
|---|---|---|
| **CANOLFAN** | **Aberhonddu** | Fe'i nodwyd yn **"Brif Anheddiad Allweddol**" ar gyfer y Rhanbarth |
| **CLWSTWR** | **Talgarth**<br>**Y Gelli Gandryll**<br>**Crucywel**<br>**Pontsenni** | Fe'u nodwyd yn "**Aneddiadau Allweddol**" sydd â swyddogaeth strategol bwysig o ran gwasanaethu'r cymunedau amgylchynol. |

4.1.4 Yn ogystal â'r aneddiadau hynny a amlygwyd gan Gynllun Gofodol Cymru, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu "Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog". Mae hwn yn cynnwys Aneddiadau Defynnog a Phontsenni ac yn diffinio'r ardal fel "Anheddiad Allweddol" sydd â rôl strategol ar gyfer ardal orllewinol y Parc.

Wrth bennu dosbarthiad gofodol twf, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu hierarchaeth o fathau o Aneddiadau. Mae dwy lefel gyntaf yr hierarchaeth aneddiadau yn cynnwys:

a) Aneddiadau sy'n gweithredu fel canolfannau strategol yng Nghlwstwr Bannau Brycheiniog fel y'i hamlinellwyd gan Gynllun Gofodol Cymru
b) Aneddiadau a amlygwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel rhai sy'n cyflawni swyddogaeth strategol yn y rhanbarth

| **Lefel 1** | **Y Prif Anheddiad Allweddol:** | **Aberhonddu** |
|---|---|---|
| Bydd Aberhonddu, sydd wedi'i leoli'n strategol i wasanaethu ei gymunedau amgylchynol, yn dod yn ganolfan ofodol i gefnogi cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a thai newydd. Bydd datblygiad yn cyfrannu at gynnal a gwella Tref Farchnad gref a bywiog. | | |
| **Lefel 2** | **Aneddiadau Allweddol** | **Talgarth /Crucywel / Y Gelli Gandryll / Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog** |
| Bydd yr ardaloedd hyn yn gwasanaethu eu poblogaethau preswyl ac Aneddiadau amgylchynol, gan ddarparu cysylltiadau ag ardaloedd gwasanaeth mwy y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, a dylanwadu arnynt. O fewn Aneddiadau Allweddol, bydd datblygiad yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd newydd am dai, yn agos i wasanaethau a chyfleusterau er mwyn lleihau gorddibyniaeth ar geir preifat. Bydd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu canolbwyntio mewn Aneddiadau Allweddol, gan wasanaethu anghenion y gymuned ehangach. | | |

Tabl 4.1 Hierarchaeth Aneddiadau – Aneddiadau Allweddol

4.1.5 Y tu allan i'r Aneddiadau Allweddol, ceir nifer o aneddiadau llai a phentrefannau sydd, gyda'i gilydd, yn cynnal oddeutu hanner ein poblogaeth breswyl. Er nad yw'r aneddiadau hyn wedi'u henwi yng Nghynllun Gofodol Cymru, mae ganddynt rôl bwysig i'w chyflawni'n lleol o ran bywiogrwydd parhaus y Parc Cenedlaethol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r farn bod datblygiad y cymunedau hyn yn bwysig o ran sicrhau cynaliadwyedd ein cymunedau a'u cydnerthedd yn wyneb y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gweithio'n agos gyda chymunedau i amlygu materion lleol y mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael â hwy. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi cyfle i gymunedau ddiffinio rôl a swyddogaeth yr anheddiad y maent yn byw ynddo drostynt eu hunain, yn ogystal â helpu i amlygu lefelau priodol o dwf i fynd i'r afael â'u materion yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol a'r Ymagwedd Capasiti Amgylcheddol. Er mwyn sicrhau bod ein

cymunedau y tu allan i Aneddiadau Allweddol yn datblygu yn unol â'u hamcanion eu hunain, mae tair haen arall wedi'u hychwanegu at yr hierarchaeth. Amlinellir y rhain isod.

| **Lefel 3** | **Aneddiadau** |
|---|---|
| Pentrefi yw'r rhain sydd â'r capasiti amgylcheddol i gynnal datblygiad ar raddfa briodol. Yn yr Aneddiadau hyn, rhoddir pwyslais ar alluogi datblygiad preswyl, cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach neu gyfleusterau cymunedol a fyddai'n cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd yr ardal. Mae'r mannau hyn wedi'u rhestru fel Aneddiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol naill ai oherwydd eu bod wedi'u diffinio fel lleoliadau cynaliadwy a / neu oherwydd bod angen a ddiffiniwyd gan y gymuned am ddatblygiad i gefnogi cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol. | |
| **Lefel 4** | **Aneddiadau Twf Cyfyngedig** |
| Pentrefi a phentrefannau yw'r rhain nad oes ganddynt y capasiti amgylcheddol i gynnal datblygiad anghenion cyffredinol; fodd bynnag, mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynaliadwyedd cymunedol yn yr ardaloedd hyn. Yn yr Aneddiadau hyn, bydd twf i fodloni anghenion lleol canfyddedig yn cael ei alluogi i gefnogi bywiogrwydd a hyfywedd economaidd-gymdeithasol parhaus, heb beryglu cymeriad yr Anheddiad neu'r gymuned. | |
| **Lefel 5** | **Cefn Gwlad** |
| Mannau lle nad oes potensial i gynnal unrhyw lefel o dwf. Bydd datblygiad yn y mannau hyn yn gyfyngedig i hwnnw y profir ei fod yn hanfodol yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol. | |


Tabl 4.2 Hierarchaeth Aneddiadau – Aneddiadau

4.1.6 Caiff dosbarthiad gofodol datblygiad ei weithredu ar lefel strategol trwy Bolisi SP10 isod.

**SP10 Dosbarthu Datblygiad yn Gynaliadwy**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod y rhan fwyaf o ddatblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy ger cyfleusterau a gwasanaethau, gan felly leihau cymaint â phosibl ar yr angen i deithio, ar yr un pryd â pharchu dibenion a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod ein cymunedau'n aros yn fywiog trwy alluogi twf ar raddfa briodol mewn ymateb i anghenion cymunedol.**

**Bydd dosbarthiad cynaliadwy twf yn cael ei gyflawni trwy gymhwyso'r polisïau manwl sy'n ymwneud â phob lefel o'r Hierarchaeth Aneddiadau.**



Key Diagram
N
W
E
S
Llandovery
Llandeilo
Brynamman
Sennybridge
Brecon
Talgarth
Crickhowell
Abergavenny
Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot
Merthyr Tydfil
Caerphilly
© Brecon Beacons National Park Authority
Plas y Ffynnon, Cambrian Way
Brecon, Powys, LD3 7HP
© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys, LD3 7HP
Primary Key Settlement
Key Settlement
Settlement
Limited Growth Settlement
© Crown copyright and database rights 2011
Ordnance Survey 100019322 2011.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute
or sell any of this data to third parties in any form.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011
Arolwg Ordnans 100019322 2011.
Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu
neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

## 4.2 Gweithredu'r Hierarchaeth Aneddiadau

4.2.2 Wrth weithredu SP10, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod er y gallai Aneddiadau ffurfio rolau strategol tebyg ar gyfer y rhanbarth, y bydd angen gwahanol Bolisïau ar nodweddion lleol mannau, cymunedau ac amgylcheddau i fynd i'r afael â'u hanghenion a'u hamgylchiadau penodol.

4.2.3 Ar gyfer pob un o lefelau'r Hierarchaeth Aneddiadau, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu:-

- Crynodeb o'r materion allweddol
- Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol
- Polisi Manwl
- Cyfyngiadau ar ddatblygiad yn y dyfodol.

# 4.3 Y Prif Anheddiad Allweddol: ABERHONDDU

## 4.3.1 Cyd-destun Aberhonddu:

4.3.1.1 Aberhonddu yw'r prif Anheddiad yn y Parc Cenedlaethol o ran maint y boblogaeth ac arwyddocâd strategol. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn amlygu Aberhonddu fel canolfan sy'n bwysig i Ganol Cymru gyda chysylltiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cryf ag ardaloedd cyffiniol de-ddwyrain a de-orllewin Cymru. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i leoliad strategol Aberhonddu ar gyfnewidfa'r A40 a'r A470 gyda chysylltiadau â ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465, sy'n diffinio Aberhonddu fel canolfan gyswllt rhwng de a chanolbarth Cymru gyda'r potensial i fanteisio ar gyfoeth ac amrywiaeth y ddau ranbarth.

4.3.1.2 O ganlyniad i'w leoliad strategol, mae Aberhonddu yn cyflawni swyddogaeth bwysig fel canolfan wasanaeth ar gyfer y rhanbarth. Mae llawer o wahanol ddewisiadau cyflogaeth wedi'u lleoli yno, mae ganddo ganolfan fanwerthu gref ac mae'n cefnogi llawer o weithgareddau diwylliannol a hamdden.

4.3.1.3 Mae Aberhonddu hefyd mewn lleoliad amgylcheddol strategol gan ei fod ar droed cadwyni mynyddoedd canolog eiconig y Bannau a chyflifiad afonydd Wysg a Honddu (y mae'r ddwy wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i gydnabod eu harwyddocâd bioamrywiaeth). Mae Aberhonddu wedi'i leoli mewn tirwedd drawiadol ac amgylcheddol amrywiol sy'n rhan annatod o gymeriad ac apêl y dref.

4.3.1.4 Mae gan Aberhonddu hanes diwylliannol hir a ffyniannus. Mae craidd y dref farchnad hanesyddol hon i'r gogledd o afon Wysg ac mae ganddo arddull Sioraidd nodedig, sy'n dystiolaeth o anterth y dref yn yr 17eg a'r 18fed Ganrif pan oedd Aberhonddu, sef tref sirol Sir Frycheiniog bryd hynny, yn un o brif drefi Cymru. O ganlyniad i'r presenoldeb pensaernïol cryf hwn, mae canol y dref wedi'i ddynodi'n ardal gadwraeth ac mae llawer o'r adeiladau wedi'u rhestru am eu harwyddocâd hanesyddol / pensaernïol. Mae'r agweddau unigryw hyn ar y treflun yn bwysig iawn yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol at ddiffinio'r ymdeimlad o le yn Aberhonddu.

4.3.1.5 Mae'r cyfuniad o olygfeydd o ansawdd uchel, cysylltiadau trafnidiaeth da, lefelau uchel o wasanaethau a chanol tref atyniadol wedi troi Aberhonddu yn ganolfan dwristiaeth sy'n denu llawer o ymwelwyr, sy'n ystyried y dref yn borth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## 4.3.2 Gweledigaeth 15 mlynedd Aberhonddu:

4.3.2.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio datblygu Aberhonddu yn unol â'i arwyddocâd rhanbarthol a Chapasiti Amgylcheddol y dref. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â chymuned Aberhonddu, wedi diffinio'r Weledigaeth ganlynol ar gyfer datblygu'r ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Bydd angen i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos sut y bydd eu cynllun yn gweithio i helpu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer datblygu Aberhonddu.

**Gweledigaeth 15 Mlynedd Aberhonddu**

*Bydd Aberhonddu'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel lle sy'n gyfystyr â gweithgarwch ysbrydoledig, yn gysylltiedig â rhagoriaeth leol yn y celfyddydau creadigol a phrofiad ysgogol y dirwedd. Bydd y dref yn cael ei hadnabod fel canolfan ddiwylliannol sy'n cyfrannu at yr economi dwristiaeth gref a bywiog yn y dref.*

*Bydd swyddogaeth fanwerthu Aberhonddu yn parhau i adlewyrchu cymeriad unigol y dref, a bydd manwerthwyr Cenedlaethol ac annibynnol yn bodoli ochr yn ochr gan ennyn diddordeb ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd a darparu gwasanaethau iddynt. Bydd y diwydiant lletygarwch yn parhau i dyfu yn y dref, gan ganiatáu i ymwelwyr aros am gyfnodau estynedig gyda llawer o bethau i'w gweld a'u gwneud.*

*Bydd busnesau bach a chanolig newydd wedi cael eu hannog i fod yn rhan o'r dref ddeinamig a chyffrous a byddant yn manteisio ar gyfleoedd i leoli yn y canol. Bydd Aberhonddu'n cynnal cymysgedd bywiog o fusnesau a mathau o gyflogaeth sy'n amrywio o ran graddfa a dylanwad rhanbarthol. Bydd mentrau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn lleol a chrefftau traddodiadol yn lluosogi, gan wneud Aberhonddu'n ganolfan menter wledig ddeinamig a helpu i greu economi leol gadarn a fydd yn sicrhau arwyddocâd strategol y dref farchnad gref hon yn yr 21$^{ain}$ Ganrif.*

*Bydd y gwahaniaeth mewn lefelau cyfoeth ac amddifadedd mewn rhai rhannau o'r dref yn cael ei wrthbwyso trwy weithredu lleol cryf i ddarparu amrywiaeth ehangach o ddewisiadau cyflogaeth a mynd i'r afael â safon llety preswyl. Bydd ystod eang o bobl yn byw a gweithio yn Aberhonddu, a bydd tai newydd yn darparu ar gyfer yr ystod amrywiol hon o bobl. Bydd tai fforddiadwy a chartrefi cost isel canolradd yn cael eu gwella, a bydd y nifer y bobl sydd wedi'u lletya'n amhriodol yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.*

*Bydd yr Anheddiad yn dod yn allweddol ar gyfer symudiad ehangach tuag at ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, gan ddod yn ganolfan trafnidiaeth gynaliadwy gyda chysylltiadau rhagorol ag ardaloedd anghysbell ac Aneddiadau Allweddol trwy drafnidiaeth gyhoeddus.*

### 4.3.3 Materion ac Amcanion Aberhonddu

4.3.3.1 Er mwyn gweithredu'r Weledigaeth, amlygwyd y materion a'r amcanion canlynol fel rhai y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y Polisi Strategol ar gyfer Aberhonddu. Fe'u hamlinellir yn nhabl 3 isod. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygiad yn Aberhonddu ystyried sut y bydd eu cynllun yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a bodloni'r amcanion a ddymunir.

| **Materion ac Amcanion Aberhonddu** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Amcan** | **Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol** | **Mater** |
| 1 | Cryfhau'r gyflogaeth a gynigir yn Aberhonddu | Cyflogaeth | Amlygodd *Fframwaith Datblygu Economaidd ac Adfywio Aberhonddu* (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Hyder) yn 2008 fod y gyflogaeth a gynigir yn Aberhonddu yn dibynnu'n drwm ar y sector cyhoeddus ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau bod Aberhonddu'n cynnal safle cryf fel canolfan ranbarthol ar gyfer cyflogaeth, argymhellodd astudiaeth Adran yr Economi a Thrafnidiaeth y dylid arallgyfeirio'r economi trwy gynorthwyo twf sectorau brodorol a mewnol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn lleol, yr economi werdd a thwristiaeth gynaliadwy. Yn unol ag amcanion y Cynllun Datblygu Lleol i ddarparu ar gyfer economi gynaliadwy, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad cymysgedd o gyfleoedd cyflogaeth, ac yn gwrthsefyll colli mentrau masnachol yn y dref. Yr her i'r Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb yn ystyriol i gymeriad Aberhonddu fel porth i'r Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae gan y dref ddwy ystad ddiwydiannol ar ei chyrion gorllewinol, a phenderfynwyd y byddai ymestyn yr ardaloedd hyn ar raddfa fawr er mwyn cynnwys cyfleusterau cyflogaeth yn anaddas ac yn anghydnaws â dibenion y Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hybu dulliau arloesol o ddarparu cyflogaeth, trwy ddatblygiadau defnydd cymysg, cynlluniau byw a gweithio ac ailddatblygu, sydd wedi'u hintegreiddio'n dda i'r Anheddiad, gan wella bywiogrwydd a chymysgedd y gweithgarwch yn y dref. |
| 2 | Gwella safonau byw i bawb | Tai; Tai Fforddiadwy; Cymunedau Cynaliadwy | Yn ôl data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ward Sant Ioan yn Aberhonddu yw un o'r rhai mwyaf difreintiedig ym Mhowys gyfan, a cheir angen mawr yno am well tai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol ar rent, tai canolradd a thai fforddiadwy cost isel i'w prynu. Mae hyn, ynghyd â chostau uwch byw mewn ardaloedd gwledig[31] yn golygu ei bod yn hollbwysig i'r Cynllun Datblygu Lleol sicrhau bod pob datblygiad newydd yn defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosibl, fel bod Aberhonddu wedi'i ddiogelu at y dyfodol o ran heriau'r newid yn yr hinsawdd ac olew brig. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol annog datblygu cymysgedd o fathau o dai a deiliadaethau yn y dref, sy'n ymatebol i anghenion demograffig y dref, ac yn agos i wasanaethau a chyfleusterau. Dylai datblygiadau preswyl newydd ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, gan sicrhau bod costau byw yn gynaliadwy yn y dyfodol. |
| 3 | Cryfhau canolfan ddiwylliannol Aberhonddu | Treftadaeth Ddiwylliannol | Mae gan y dref bresenoldeb diwylliannol arwyddocaol sy'n cyfrannu at ei hunaniaeth. Mae'r ŵyl jazz flynyddol, er enghraifft, yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol, gan wneud y dref yn ferw o weithgarwch a diddordeb. Yr her i'r Cynllun Datblygu Lleol yw annog datblygiad yng nghanol y dref sy'n cynnal yr awyrgylch dathlu drwy gydol y flwyddyn. Dylai dewisiadau datblygu ganolbwyntio ar adfywio canol y dref i greu ardal o atyniad annibynnol. |
| 4 | Osgoi ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd yn y dref | Llifogydd | Mae llifogydd wedi'u hamlygu fel mater strategol i Aberhonddu, sy'n cyfyngu ar y potensial i ddatblygu yn ardal dde-ddwyreiniol y dref. Cyfyngir ar ddewisiadau datblygu yn y gorllewin gan agosrwydd Afon Wysg, sy'n Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Felly, dylai dewisiadau datblygu ganolbwyntio ar ogledd y dref. |
| 5 | Lleihau'r defnydd o geir preifat | Trafnidiaeth, y Newid yn yr Hinsawdd | Mae hygyrchedd Aberhonddu trwy gefnffyrdd cenedlaethol yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at ei bwysigrwydd Strategol; mae hyn yn cyferbynnu'n amlwg â'r llwybrau mewnol lleol sy'n gweithredu o fewn yr Anheddiad sydd bron â chyrraedd lefel lle na allant ymdopi â mwy o draffig. Mae hyn yn rhannol oherwydd natur hanesyddol yr Anheddiad, gyda dwy ardal breswyl allweddol wedi'u lleoli dros Bont Wysg restredig. Dylai datblygiad a alluogir trwy'r Cynllun Datblygu Lleol weithio i fynd i'r afael â'r materion capasiti hyn trwy annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio. Trwy leoli datblygiad o fewn pellter cerdded / beicio i'r dref, a hybu datblygiad llwybrau cerdded / beicio, gall y Cynllun Datblygu Lleol helpu i herio'r diwylliant car a allai fynd yn rhy blaenllaw yn y dref. |
| 6 | Parchu'r ymdeimlad o le yn Aberhonddu | Y Dirwedd: yr Amgylchedd Adeiledig | Cydnabyddir tirwedd Aberhonddu am ei hansawdd gweledol a synhwyraidd[32] a'i harwyddocâd hanesyddol[33], sy'n rhoi nodwedd esthetig a chymeriad unigryw i'r lle. Gallai'r angen i ddatblygu'r dref er mwyn cynnal ei rôl strategol ar gyfer y rhanbarth gael effaith negyddol ar ei chymeriad a'i hapêl unigryw. Mae cyfyngiadau ar ddatblygu'r dref wedi arwain at ganolbwyntio dewisiadau datblygu yng ngogledd y dref. Bydd angen i'r twf hwn gael ei gynllunio'n ystyriol i ymateb i'r treflun traddodiadol y bydd yn gefndir iddo. Bydd angen i ddatblygiad gyfyngu'r effaith ar brofiadau gweledol a synhwyraidd o'r dref yn y dirwedd ehangach a sicrhau nad yw'n cael effaith niweidiol arnynt, yn enwedig o ran lleoliad Aberhonddu yn y dirwedd hanesyddol. |

*Tabl 4.3 Materion ac Amcanion Aberhonddu.*

31 Hirsch et al *A Minimum Income Standard for Rural Households* (2010, Sefydliad Joseph Rowntree)

32 Gweler ardal olygfa Weledol a Synhwyraidd LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru BRCKNVS633

33 Mae Aberhonddu wedi'i leoli o fewn Tirwedd Hanesyddol Canol Dyffryn Wysg fel y'i diffinnir gan Gofrestr Tirweddau Hanesyddol Cymru (Cadw).

### 4.3.4 Ymatebion Polisi Aberhonddu:

4.3.4.1 Mae Aberhonddu wedi'i ddynodi'n Brif Anheddiad Allweddol Lefel 1 yn yr Hierarchaeth Aneddiadau.

4.3.4.2 Ar gyfer Aberhonddu, mae'r mathau canlynol o ddatblygiad wedi'u hamlygu fel rhai sy'n allweddol i weithredu Gweledigaeth 15 mlynedd Aberhonddu.

**B LP1 Datblygiad Priodol Aberhonddu**

**Cynigion ar gyfer datblygu o fewn Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr anheddiad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr anheddiad.**

**Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad o fewn Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol sut y maent yn ymateb i'r materion canfyddedig a gyflwynwyd yn nhabl 4.3 a sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni Gweledigaeth 15 mlynedd Aberhonddu at y Dyfodol.**

**O fewn Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu, mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau gael eu lleoli o fewn ffin yr Anheddiad fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (ac eithrio'r datblygiadau hynny sy'n destun Polisïau sy'n galluogi datblygiad y tu allan i derfynau. Gweler E LP 1 isod). O fewn Ffin yr Anheddiad, ystyrir bod y mathau canlynol o ddatblygiad yn dderbyniol:**

1. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cymysgedd o fathau o dai a dewisiadau deiliadaeth yn y dref, sy'n ymatebol i anghenion demograffig yr ardal a'r rhanbarth, ar dir y nodwyd ei fod o fewn terfynau amgylcheddol;**
2. **Cynigion adfywio yng nghanol y Dref sy'n cryfhau a gwella statws cymdeithasol a diwylliannol y dref, ac sy'n gymesur ag arwyddocâd hanesyddol pensaernïaeth a ffurf yr Anheddiad;**
3. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r ddarpariaeth fanwerthu yn y dref yn briodol i gymeriad yr Anheddiad ac yn unol â'r ganolfan fanwerthu a ddiffiniwyd ar gyfer y dref fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (gweler hefyd SP13 a Pholisi 42).**
4. **Cynigion ar raddfa briodol ac o fath priodol sy'n berthnasol i ffurf a chymeriad Aberhonddu sy'n gweithio i leihau ôl troed carbon ac ecolegol y Dref a'i rhanbarth.**
5. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cynnig twristiaeth yn Aberhonddu yn unol â'r Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy[34] ar gyfer y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys llety newydd priodol i westeion a chreu atyniadau/cyfleusterau newydd i ymwelwyr.**
6. **Cynigion i gryfhau a gwella'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r Dref a'r rhanbarth.**

7 **Cynigion sy'n cryfhau a gwella ffurfiau cynaliadwy o fynediad i'r dref a'r rhanbarth ehangach yn unol â'r weledigaeth i wneud Aberhonddu'n Ganolfan Trafnidiaeth Gynaliadwy.**

**8 Cynigion sy'n cryfhau a gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y dref gan ddefnyddio safleoedd defnydd cymysg a/neu gynlluniau byw a gweithio sy'n gwasanaethu'r dref**

---

[34]*Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog* (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007) Diweddariad yn yr arfaeth. http://www.breconbeacons.org/the-authority/working-in-partnership/tourism-industry/sustainable-tourism-strategy

**a'r rhanbarth.**

4.3.4.3 Wrth alluogi datblygiad priodol, cydnabyddir *hefyd* y gallai datblygiad gael effaith negyddol ar y seilwaith cymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol sy'n gwasanaethu'r dref. Mae'n bwysig bod *Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol yn cael ei hosgoi neu ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol wrth ystyried cynlluniau datblygu newydd.*

4.3.4.4 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu cyfyngiadau posibl ar ddatblygu'r Dref, a amlinellir yn B LP 2 isod. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â chapasiti'r seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol i gynnal datblygiad newydd, ac fe'u hamlygwyd trwy waith cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad yn Aberhonddu ymdrin â'r cyfyngiadau y mae'r materion canfyddedig hyn yn eu gosod ar eu cynnig a, lle y bo'r angen, mynd i'r afael â mesurau lliniaru a gwella. Mewn llawer o achosion, gallai hyn olygu bod angen cysylltu â chyrff heblaw am Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau canlyniad boddhaol. Gweler tabl 5.1 Cyfyngiadau Ardaloedd i gael manylion ychwanegol am yr ymagwedd hon at alluogi datblygiad.

4.3.4.5 Yn ogystal â'r materion canfyddedig isod, ac yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd angen cynnal asesiad lefel prosiect os gallai'r prosiect gael effaith arwyddocaol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. Ni fydd unrhyw brosiect datblygu a allai gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd hwn yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu, o fewn ystyr Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

**B LP2 Lliniaru Effaith**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad yn Aberhonddu gyfrannu at fywiogrwydd y dref a'r rhanbarth trwy wneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd bywyd a lliniaru unrhyw straen ar y gymuned a/neu'r seilwaith amgylcheddol. Amlygwyd y gallai datblygiad yn y dyfodol gael effaith ar y meysydd canlynol yn Aberhonddu**

**A Pwysigrwydd Bioamrywiaeth**
**B Rheoli Dŵr**
**C Capasiti Priffyrdd**
**D Seilwaith Dŵr a Charthffosiaeth**
**E Rhyddhau Tir**
**F Arwyddocâd Tirwedd Hanesyddol**
**G Perygl Llifogydd**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos sut y mae'r materion hyn, yn ogystal ag effeithiau posibl ar y dirwedd, wedi derbyn sylw yn y cynllun er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod mesurau lliniaru, digolledu a/neu wella priodol yn cael eu cynnwys mewn cynigion datblygu (gweler hefyd Polisi 35 Rhwymedigaethau Cynllunio).**

## 4.4 Lefel 2: Aneddiadau Allweddol

4.4.0.1 Aneddiadau Lefel 2 yw'r rhai hynny sy'n cyflawni rôl strategol wrth wasanaethu eu poblogaethau preswyl ac aneddiadau amgylchynol, gan ddarparu cysylltiadau ag ardaloedd gwasanaeth mwy y tu allan i Ffiniau'r Parc, a dylanwadu arnynt.

4.4.0.2 Mae Polisi K LP1 yn amlygu'r mannau a restrir yn Aneddiadau Allweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn unol â chymhwyso'r Strategaeth Ofodol a Pholisi SP10.

**K LP1**
**Diffiniad Aneddiadau Allweddol**

**Diffinnir y mannau canlynol yn Aneddiadau Allweddol:-**

**CRUCYWEL**
**Y GELLI GANDRYLL**
**PONTSENNI A DEFYNNOG**
**TALGARTH**

## 4.4.1. Trosolwg: Aneddiadau Allweddol

4.4.1.1 Mae tabl 4.4 isod yn rhoi trosolwg o bob un o'r Aneddiadau Allweddol a restrwyd. Diben hyn yw rhoi cyd-destun i ddarllenwyr ar gyfer yr ymatebion i'r Polisi Aneddiadau Allweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

| | | |
|---|---|---|
| Crucywel | Lleoliad a Phoblogaeth | Mae Crucywel wedi'i leoli i'r dwyrain o'r Parc Cenedlaethol, mewn man strategol ar hyd cefnffordd yr A40 i wasanaethu ystod o Aneddiadau tebyg a darparu cysylltiadau â Merthyr a'r Fenni y tu hwnt i Ffin y Parc. Yn ôl y cyfrifiad diwethaf, roedd tua 2000 o bobl yn byw yno, gan olygu ei fod yn un o gymunedau mwy y Parc Cenedlaethol. Tref farchnad hanesyddol ydyw, yng nghysgod llethrau Pen Cerrig Calch a bryn copa gwastad Crug Hywel. Datblygodd prif dref Crucywel o'r cyfnod canoloesol ymlaen, gyda'r Castell (rhannol erbyn hyn) yn y canol. Mae'r ardal hon bellach yn ardal siopa brysur ac amrywiol sy'n cynnwys ystod o fanwerthwyr annibynnol yn bennaf. |
| | Treflun | Mae'r treflun yn cynnwys cymysgedd o arddulliau pensaernïol o'r cyfnod Canoloesol ymlaen o fewn tirwedd ddarluniadwy Dyffryn Wysg. Cydnabyddir gwerth pensaernïol yr ardal ar lefel genedlaethol ac mae'r rhan fwyaf o'r ganolfan fanwerthu wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth. |
| | Economi | O safbwynt economaidd, gwasanaethau manwerthu a lletygarwch sy'n fwyaf cyffredin, er bod ystad ddiwydiannol fach wedi datblygu i'r dwyrain o'r brif dref ar hyd yr A40 yn safle Elvicta, sy'n cynnwys diwydiant ysgafn a chyfleusterau storio mewn warws gyda swyddogaeth fanwerthu ategol. |
| | Gwasanaethau | Mae'r dref yn darparu gwasanaethau rhanbarthol i'r ardal ac mae'n lleoliad ar gyfer ysgolion iau ac uwchradd, llyfrgell, canolfan iechyd a phwynt gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer cael mynediad at wasanaethau Cyngor Sir Powys. Mae gan Grucywel gymuned 3$^{edd}$ Sector gref, sy'n gweithio'n galed i godi proffil y dref a chynorthwyo preswylwyr lleol trwy ddigwyddiadau, gwyliau a chymorth i fusnesau bach. Mae'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar Ganolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Crucywel, sy'n cynnwys gwasanaethau i'r gymuned a thwristiaid fel ei gilydd, yn ogystal â chynnal oriel celf a chrefft leol ac archif hanes lleol. |

| Y Gelli Gandryll | | |
|---|---|---|
| | Lleoliad a Phoblogaeth | Mae'r Gelli Gandryll wedi'i lleoli yng ngogledd-ddwyrain y Parc Cenedlaethol, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae tua 1500 o bobl yn byw yno, sy'n golygu mai'r Gelli yw ein Hanheddiad Allweddol lleiaf yn ôl poblogaeth. Nid yw'r gymuned yn cynnwys llawer mwy na'r dref ei hun, wedi'i ffinio gan Afon Wysg i'r gogledd a ffin Lloegr i'r dwyrain. |
| | Treflun | Tref Farchnad Hanesyddol yw'r Gelli Gandryll sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod Normanaidd. Mae'r Anheddiad o fewn Tirwedd Hanesyddol Canol Wysg fel y'i diffinnir gan y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol; mae'r dirwedd allweddol yn cynnwys olion system caeau canoloesol i'r de a'r gorllewin o'r Anheddiad presennol. Mae'r dref ei hun yn cynnwys adeiladau arwyddocaol o'r 13eg Ganrif i'r 19eg Ganrif, sy'n dangos hanes y dref o ddechreuadau Normanaidd, i'r dref farchnad ganoloesol ac yna'r ganolfan wasanaeth bresennol. Ceir llawer o adeiladau hanesyddol nodedig eraill yno hefyd gan gynnwys capel Sant Ioan, y Farchnad Gaws a'r Farchnad Fenyn, a nifer o adeiladau rhestredig, y mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r 16eg Ganrif, mewn drysfa o strydoedd cul. Mae arwyddocâd pensaernïol llawer o adeiladau'r dref wedi arwain at ddynodi'r ardal yn ardal gadwraeth. |
| | Diwylliant | Mae'r Gelli Gandryll yn gyfystyr â llyfrau a llenyddiaeth. Mae Gŵyl flynyddol y Gelli wedi tyfu mewn statws a graddfa yn y blynyddoedd diweddar gan ddod yn Ŵyl Ryngwladol Llenyddiaeth a'r Celfyddydau sy'n denu cynulleidfa fyd-eang ac yn rhoi hunaniaeth ddiwylliannol gref i'r Gelli. Mae llwyddiant yr ŵyl lenyddiaeth wedi creu ysbryd amrywiol a chrefftus yn y Gelli sydd wedi arwain at ddigwyddiadau a gwyliau eraill, fel gŵyl bwyd a diod y Gelli a'r Ŵyl Cerddoriaeth ac Athroniaeth '*How the Light Shines in*'. Mae'r rhain i gyd yn cyfuno i wneud y Gelli Gandryll yn gyrchfan poblogaidd i dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i brofi cymeriad unigryw'r dref, gyda'r gwerthwyr llyfrau ail-law ac arbenigol niferus, a'r manwerthwyr annibynnol sy'n hyrwyddo celf a chrefft leol. |
| | Economi | Tref Farchnad draddodiadol yw'r Gelli Gandryll. Mae'r farchnad a gynhelir bob dydd Iau yn y Sgwâr Goffa a'r Farchnad Fenyn yn gwerthu llawer o gynnyrch bwyd lleol ac yn cyfrannu'n sylweddol at fywiogrwydd a chryfder cyffredinol y dref. Yn ogystal â llyfrau, mae'r Gelli'n cael ei hadnabod yn gynyddol am ansawdd y ddarpariaeth letygarwch, gan fanteisio ar ansawdd y cynnyrch lleol, gyda bwytai a gastro-dafarndai arobryn yn cynnig ystod o wahanol fathau o ddulliau coginio. Mae'r ardal yn gyrchfan allweddol i dwristiaid yn y Parc Cenedlaethol ac yn ganol tref cryf a bywiog, sy'n darparu amrywiaeth o ddewisiadau cyflogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog | Lleoliad a Phoblogaeth | Mae **Pontsenni** ar yr A40T ar gyflifiad Afonydd Senni ac Wysg. Roedd castell bach ar y safle yn y 13eg ganrif, ond cynyddodd bwysigrwydd y pentref ar ôl i'r ffordd gerbydau gael ei hadeiladu ym 1819, ac unwaith eto ar ôl i reilffordd Castell-nedd ac Aberhonddu gael ei chwblhau (sydd bellach wedi cau). Ers y rhyfel diwethaf, mae Pontsenni wedi bod yn safle ar gyfer gwersyll y fyddin sy'n gwasanaethu ardal hyfforddi Mynydd Eppynt.<br>Mae **Defynnog** ar yr A4067 i'r de o Bontsenni. Mae eglwys y plwyf yma, ac roedd y pentref yn ganolfan ar gyfer cymuned fawr hyd nes i Bontsenni dyfu. Ceir rhesi o fythynnod teras hŷn o amgylch yr eglwys a'r tafarndai, gyda datblygiad mwy newydd ar hyd yr A4067.<br>Gyda'i gilydd, mae'r ddau anheddiad yn creu **Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog.**<br>Mae Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog yn ganolfan strategol sy'n cysylltu ardal orllewinol y Parc Cenedlaethol ag Aneddiadau allweddol Gorllewin Cymru fel Llanymddyfri a Llandeilo. |
| | Amgylchedd Adeiledig | Mae Pontsenni yn cynnwys cymysgedd o fathau o dai, o dai teras hŷn ar hyd yr A40T, i anheddau unllawr a deulawr ar wahân ac ystadau mwy diweddar a adeiladwyd ar ei chyrion.<br>Ceir cyferbyniad amlwg rhwng craidd Pontsenni ac ardal Defynnog yn y Clwstwr. Yn Nefynnog, mae'r stoc dai yn hŷn yn bennaf. Ceir ymdeimlad cryf o le wrth deithio trwy Ddefynnog ar hyd yr A4067, gyda therasau carreg traddodiadol ar hyd y ffordd, yn ffurfio'r craidd hanesyddol. Mae'r eglwys wyngalchog restredig yn Nefynnog yn drawiadol yn nhirwedd y dyffryn, gan greu golygfa eiconig a darluniadol o'r pentref wrth ddynesu ato o'r gogledd a'r de. |
| | Economi | Mae Pontsenni yn ffynhonnell gyflogaeth bwysig, gyda gwersyll y fyddin, melin lifio, cludwyr nwyddau, storfeydd amaethyddol a siopau lleol. Mae'n cyflawni swyddogaeth arwyddocaol i'r diwydiant ffermio gyda'i marchnad wythnosol a misol, a chyfleusterau cysylltiedig yn ymwneud â phorthiant ac offer. Cynhelir Sioe Amaethyddol Pontsenni ar ddiwedd bob haf. Mae graddfa a phoblogrwydd y sioe yn amlygu statws pwysig Pontsenni i'r gymuned amaethyddol. |
| | Gwasanaethau | Mae Ponstenni a Defynnog yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau: siopau, tafarndai, caffis, neuadd gymuned, ysgol gynradd gyda chyfleusterau chwaraeon, a chlinig iechyd. Mae gwasanaeth bws yn gweithredu yn ystod y dydd, gan gysylltu'r ardal ag Aberhonddu a Llanymddyfri. |

| | | |
|---|---|---|
| Talgarth | Lleoliad a Phoblogaeth | Mae'r dref wedi'i lleoli ar hyd cefnffordd yr A479 rhwng tref sirol Aberhonddu i'r gorllewin a'r Gelli Gandryll i'r dwyrain. Mae'n agos i bentref Bronllys sydd ychydig y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol. Mae Talgarth mewn lleoliad strategol gan ddarparu cysylltiadau rhwng de-ddwyrain Cymru ac ardal y canolbarth. Tref Talgarth yw'r prif Anheddiad ar gyfer cymuned ehangach, gyda phoblogaeth o oddeutu 2000. Ceir ail Anheddiad ym mhentref hanesyddol Trefeca, ac mae cymuned Pengenffordd i'r de yn ganolbwynt ar gyfer y gefnwlad wledig ehangach, yn ogystal â darparu canolfan ar gyfer twristiaeth weithgareddau. |
| | Treflun | Tref Farchnad hanesyddol yw Talgarth yng ngogledd-ddwyrain ardal y Parc Cenedlaethol. Mae wedi'i lleoli ar odre gogledd-orllewinol y Mynydd Du. Mae'r dref mewn amgylchedd gwledig trawiadol a dramatig, a gydnabyddir am ei ansawdd gweledol a synhwyraidd a'i arwyddocâd hanesyddol. Mae'r stoc dai bresennol yn amrywio o ran math a chyflwr o'r craidd hanesyddol i Dai Cyngor a adeiladwyd ar ôl y rhyfel ac ystadau modern. Mae canol y dref wedi cadw ei batrwm strydoedd canoloesol ac mae adeiladau hanesyddol y treflun wedi aros yn gyfan i raddau helaeth, er bod rhai mewn cyflwr gwael. Mae canol y dref wedi'i ddynodi'n ardal gadwraeth ac mae'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig amlwg, gan gynnwys y Tŵr a adnewyddwyd yn ddiweddar. |
| | Gwasanaethau | Mae yna lawer o wasanaethau hanfodol yn Nhalgarth gan gynnwys ysgol gynradd, canolfan feddygol, neuadd tref, banc, llyfrgell gangen, gorsaf dân, ardaloedd chwarae, swyddfa bost, archfarchnad gymunedol, fferyllfa, ystod o siopau lleol sy'n gwerthu cynnyrch lleol, canolfan ieuenctid a chymunedol, sawl eglwys, canolfan gwybodaeth i dwristiaid a thafarndai/caffis. Ceir nifer o unedau manwerthu, busnesau ariannol a busnesau bach yng nghanol y dref. Yn ogystal, mae'r farchnad da byw wedi'i lleoli llai na 200 metr o ganol y dref, sy'n cael ei chefnogi'n dda ac sy'n bwysig ymhell y tu hwnt i'r gymuned ffermio leol. Mae gan yr ardal sector gwirfoddol cryf sy'n gweithio i adfywio'r ardal. |
| | Bioamrywiaeth | Mae Talgarth wedi'i chysylltu'n agos ag ardaloedd sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Pwll-y-Wrach a Choedwig y Parc. Mae gwaith arolygu diweddar a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth yn dangos y cydgysylltiad rhwng cynefinoedd o fewn ac o amgylch y dref. |

### 4.4.2 Aneddiadau Allweddol: Gweledigaeth ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol

4.4.2.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio datblygu ein Haneddiadau Allweddol yn unol â'u harwyddocâd rhanbarthol a Chapasiti amgylcheddol y trefi. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, wedi diffinio Gweledigaeth ar gyfer datblygu pob Anheddiad Allweddol am y 15 mlynedd nesaf. Amlinellir y rhain yn nhabl 4.5 isod. Bydd angen i bob cynnig ar gyfer datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol ddangos sut y mae eu cynllun yn gweithio i helpu i gyflawni'r weledigaeth leol berthnasol ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

| **Gweledigaeth 15 Mlynedd Crucywel** | **Gweledigaeth 15 Mlynedd y Gelli Gandryll** | **Gweledigaeth 15 Mlynedd Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog** | **Gweledigaeth 15 Mlynedd Talgarth** |
|---|---|---|---|
| *Bydd Crucywel yn parhau i ffynnu fel canolfan bwysig ar gyfer y rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yn ardal ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol. Bydd yr ymdeimlad cryf o le a geir o'i lleoliad mewn golygfeydd trawiadol, ynghyd â threftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol bwysig yr ardal, yn parhau i ffurfio twf y dref.*<br><br>*Bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, gan barchu a chydweddu â'r arddulliau pensaernïol a chyd-destun y dirwedd sy'n gwneud yr ardal yn unigryw ac yn werthfawr. Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiad newydd yn gwella atynioldeb y dref fel lle da i fyw. Galluogir cymysgedd o fathau o anheddau yn y dyfodol, gyda phwyslais cryf ar ddarparu tai fforddiadwy, gan sicrhau bod Crucywel yn denu cymysgedd mwy demograffig o breswylwyr er mwyn creu cymunedau cryf ar gyfer y dyfodol.*<br><br>*Bydd pob datblygiad newydd yn cael ei adeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau'r effaith leiaf ar yr amgylchedd, ac yn cynnwys cyfraniadau cadarnhaol at liniaru effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd.*<br><br>*Bydd canol y dref yn tyfu fel cyrchfan bywiog y bydd pobl yn dewis dod iddo ar eu gwyliau i brofi awyrgylch tref farchnad wledig brysur gydag ystod o fanwerthwyr arbenigol annibynnol a bwytai sy'n manteisio ar y digonedd o fwydydd o ansawdd da a gynhyrchir yn lleol.* | *Bydd y Gelli Gandryll yn cael ei chydnabod ar lefel ryngwladol fel canolfan ar gyfer llenyddiaeth, diwylliant a'r celfyddydau. Bydd canol y dref yn cael ei chynnal fel ardal fywiog, gyda datblygiad newydd o ansawdd uchel yn cydweddu â natur hanesyddol pensaernïaeth y dref. Bydd y gymysgedd o ddewisiadau tai yn y dref wedi amrywiaethu hefyd, gan sicrhau bod pawb sydd angen byw yn yr ardal yn gallu fforddio gwneud hynny.*<br><br>*Bydd twristiaeth gynaliadwy yn tyfu o ran statws a bydd y dref yn datblygu economi nos gref i helpu i ddatblygu a chefnogi'r swyddogaeth hon, gan fanteisio ar gynhyrchu bwyd yn lleol a lletygarwch. Bydd datblygu twristiaeth gynaliadwy arloesol wedi lleihau'r pwysau ar y stoc dai bresennol i ddarparu ar gyfer llety gwyliau.*<br><br>*Bydd dewisiadau datblygu effaith isel yn cynnal y dylifiad ymwelwyr sy'n dod i'r gwyliau a'r digwyddiadau yn y dref. Bydd y ddarpariaeth fanwerthu yn y dref yn parhau i gynnig arbenigedd, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant a chrefftau lleol. Bydd pobl leol yn gallu bodloni eu hanghenion beunyddiol yng nghanol y dref a bydd dulliau mynediad cynaliadwy i ganol y dref wedi cynyddu.* | *Bydd Pontsenni a Defynnog yn tyfu gyda'i gilydd i ffurfio cymuned gref a bywiog.*<br><br>*Bydd datblygiad yn manteisio ar arwyddocâd y ganolfan i'r economi amaethyddol, gyda thwf mewn mentrau gwledig cysylltiedig fel cynhyrchu bwyd yn lleol, contractwyr amaethyddol, cyflenwyr amaethyddol, a diwydiannau gwyrdd.*<br><br>*Bydd y presenoldeb manwerthu ym Mhontsenni yn cael ei annog i dyfu ac amrywiaethu, gan gynnig cyfleoedd i fywiogrwydd newydd ddatblygu a chryfhau'r ymdeimlad o le ym Mhontsenni.*<br><br>*Bydd pob datblygiad newydd yn cael ei adeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau'r effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd. Bydd cyfraniadau cadarnhaol at liniaru effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd yn cael eu cynnwys.*<br><br>*Bydd cynigion ar gyfer datblygiad newydd yn cynnal a gwella lleoliad Pontsenni a Defynnog yn y dirwedd.* | *Bydd priodoleddau gwerthfawr Talgarth – ei lleoliad mewn tirwedd eithriadol, treftadaeth ddiwylliannol a phensaernïol ei threflun, a chryfder y gymuned ffermio leol – yn cael eu cydnabod fel asedau i gynorthwyo'r broses o adfywio'r dref i fod yn dref farchnad brysur a ffyniannus sy'n lle da i fyw a gweithio ynddo ac yn gyrchfan i ymwelwyr ynddo'i hun.*<br><br>*Bydd cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach sy'n defnyddio technoleg briodol yn datblygu yn y dref ac o'i hamgylch yn unol â chapasiti amgylcheddol yr ardal.*<br><br>*Bydd Talgarth yn dod yn ganolfan sy'n cefnogi economi wledig ehangach, gan gynnwys amaethyddiaeth, twristiaeth, manwerthu o ansawdd uchel a mentrau gwledig bach. I gefnogi hyn, bydd datblygiadau defnydd cymysg a byw a gweithio yn cael eu creu yn y dref, trwy ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau segur, gan gysylltu pobl, swyddi a thai yn well.*<br><br>*Bydd yr egwyddor hon o amrywiaeth hyfyw yn treiddio i bob rhan o'r Dref, gyda darpariaeth breswyl 'uwchben siop' yn cynyddu'r ymdeimlad o dref fywiog sy'n ferw o bobl a gweithgarwch. Bydd datblygiadau priodol ar gyfer economi'r nos, yn ymwneud â'r diwydiant lletygarwch, yn cael eu datblygu, a byddant yn cyfrannu at hybu Talgarth fel cyrchfan.*<br><br>*Bydd adeiladau allweddol sy'n bwysig i hunaniaeth ddiwylliannol a balchder dinesig yn cael eu targedu ar gyfer eu hadnewyddu a'u hailddefnyddio trwy brosiectau gweithredu cymunedol a gefnogir gan randdeiliaid allweddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.* |

*Tabl 4.5 Gweledigaethau 15 Mlynedd Aneddiadau Allweddol*

### 4.4.3 Aneddiadau Allweddol: Materion ac Amcanion

4.4.3.1 Er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer datblygu ein Haneddiadau Allweddol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu Materion ac Amcanion Allweddol ar gyfer pob Anheddiad Allweddol. Defnyddiwyd y rhain i lunio Polisi priodol er mwyn galluogi datblygiad priodol yn yr Aneddiadau Allweddol (gweler K LP2). Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd yn yr aneddiadau allweddol ddangos sut y mae eu cynllun yn mynd i'r afael â'r materion canfyddedig ac yn bodloni'r amcanion canfyddedig sy'n berthnasol i'w cynnig. Amlinellir Materion ac Amcanion yn y canlynol:

| | |
|---|---|
| Tablau 4.6 | Materion ac Amcanion Crucywel |
| Tabl 4.7 | Materion ac Amcanion y Gelli Gandryll |
| Tabl 4.8 | Materion ac Amcanion Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog |
| Tabl 4.9 | Materion ac Amcanion Clwstwr Talgarth |

| **Tabl 4.6 Materion ac Amcanion Crucywel** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Amcan** | **Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol** | **Mater** |
| 1 | Cryfhau Cymuned Gynaliadwy Crucywel | Cymunedau Cynaliadwy | Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r demograffig cyffredinol yng Nghrucywel wedi newid, gyda llawer o bobl gefnog sydd wedi ymddeol yn symud i'r dref i fyw. Mae hyn wedi gwaethygu effeithiau ehangach diboblogi gwledig. Mae prisiau tai yng Nghrucywel oddeutu £50,000 yn fwy na chyfartaledd Powys a Chymru, sydd ymhell y tu hwnt i allu'r rhai sy'n prynu am y tro cyntaf. Fel y cyfryw, mae pobl iau yn cael eu gorfodi allan o'r farchnad dai yn y dref a'r cymunedau amgylchynol. Yn y blynyddoedd diweddar, mae datblygiad Ffynonnau, sy'n cynnwys 24 o dai fforddiadwy a ddarperir trwy Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Fodd bynnag, mae angen dybryd yn parhau am anheddau fforddiadwy, canolradd a hygyrch yn y Dref er mwyn cadw pobl iau yn yr ardal a darparu'r dewisiadau gorau ar gyfer llety i'r genhedlaeth hŷn yn y dyfodol. Mae darparu cartrefi sy'n amrywio o ran maint, deiliadaeth, hygyrchedd a fforddiadwyedd yn flaenoriaeth i Grucywel er mwyn sicrhau dyfodol hyfyw o fewn cyfnod y cynllun a thu hwnt. |
| 2 | Osgoi ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd yn y dref | Llifogydd | Er bod Crucywel yn un o'n lleoliadau mwyaf cynaliadwy a'n Haneddiadau mwy, ceir cyfyngiadau sylweddol ar lefel y datblygiad newydd y gall ei chynnal o safbwynt capasiti amgylcheddol. Mae'r prif fater o ran capasiti yn ymwneud â maint yr ardaloedd a ddynodir yn byrth llifogydd yn ardal ddeheuol y dref sydd ar lefel is. Cyfyngir yn sylweddol ar ddatblygiad newydd yn yr ardal hon. |
| 3 | Gwella economi Crucywel | Cyflogaeth | Mae dynodiadau cyflogaeth presennol yn y dref wedi'u lleoli yn y parth llifogydd, ac yn unol â'r strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, byddent yn lleoliadau anaddas ar gyfer unrhyw estyniad i'r ddarpariaeth hon. Felly, mae'n rhaid ystyried datrysiadau arloesol i'r cysyniad o ddarparu tir ar gyfer cyflogaeth i fodloni anghenion Crucywel a'i hardal, gan gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â chryfder y diwydiant twristiaeth, gwelliannau i'r economi nos yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo i gefnogi twristiaeth, a symudiad tuag at weithio hyblyg a gweithio gartref trwy well darpariaeth TGCh, sydd oll yn defnyddio llai o dir na mathau traddodiadol o gyflogaeth. |
| 4 | Parchu'r ymdeimlad o le yng Nghrucywel | Y Dirwedd; Treftadaeth Ddiwylliannol;<br><br>Yr Amgylchedd Adeiledig | Mae parhau i warchod a gwella gwerth pensaernïol a threflun unigryw Crucywel o fewn a'r tu hwnt i ffiniau gwarchodaeth statudol yn yr Ardal Gadwraeth yn hanfodol i ddatblygu Crucywel yn llwyddiannus, ac yn faes allweddol lle y mae'n rhaid i effeithiau negyddol datblygiad gael eu hystyried a'u rheoli'n ofalus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun darparu twf yn y dyfodol i gynnal y lefelau twf strategol sy'n angenrheidiol er mwyn i Grucywel barhau i fod yn Anheddiad Allweddol. Mae lefel y cyfyngiad yn y dref wedi arwain at archwilio dewisiadau datblygu yng ngogledd y dref, gan ymestyn yr Anheddiad i gefn gwlad agored a lleoliadau a allai fod yn amlwg. Mae'n rhaid i'r effeithiau posibl ar dirwedd arbennig y dref gael eu rheoli'n ofalus trwy ddatblygu dyluniadau ystyriol sy'n ymateb i gymeriad hanesyddol yr Anheddiad o fewn y dirwedd eithriadol. |
| 5 | Hyrwyddo Crucywel fel Tref Farchnad Fywiog | Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi | Mae canol y dref, sy'n canolbwyntio ar y Stryd Fawr, yn darparu cynnig manwerthu bach ond amrywiol ar hyn o bryd, gyda chymysgedd o siopau bwtîc, caffis, bariau a manwerthwyr cyffredinol. Ceir potensial cryf i'r dref fanteisio ar y gymysgedd bresennol o ddefnyddiau er mwyn dod yn ganolfan fanwerthu arbenigol, sy'n canolbwyntio ar grefftau lleol a chynhyrchu bwyd yn lleol, er mwyn rhoi profiad cadarnhaol o ddiwylliant lleol i ymwelwyr a thwristiaid. Dylai datblygiad yn y ganolfan fanwerthu yn y dyfodol gyfrannu at y cynnig manwerthu o ansawdd uchel; dylid annog manwerthwyr annibynnol sy'n gwerthu cynnyrch lleol. Yr amcan cyffredinol yw sicrhau bod Crucywel yn cynnig profiad manwerthu diddorol er mwyn annog ymwelwyr a thwristiaid i dreulio mwy o amser yn y dref a'r ardal amgylchynol yn ogystal â gwasanaethu anghenion y boblogaeth breswyl. |

**Tabl 4.7 Materion ac Amcanion y Gelli Gandryll**

| Rhif | Amcan | Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol | Mater |
|---|---|---|---|
| 1 | Cryfhau Cymunedau Cynaliadwy | Cymunedau Cynaliadwy: Tai: Tai Fforddiadwy | Mater allweddol i'r Gelli Gandryll yw dymunoldeb y lleoliad. Mae prisiau tai yn uchel a dewisiadau datblygu'n gyfyngedig. Mae'r dymunoldeb ar gyfer twristiaeth a'r pwysau i ddarparu llety ar gyfer yr ymwelwyr niferus â'r ŵyl lenyddiaeth flynyddol yn gwneud prisiau tai yn uchel yn ardal; mae lefelau perchenogaeth ar ail gartrefi a chartrefi gwyliau bron ddwywaith cymaint â chyfartaledd Powys. Mae prisiau tai oddeutu £50,000 yn uwch yn y Gelli Gandryll na chyfartaledd Powys, a mwy na £100,000 yn fwy nag Anheddiad Allweddol Talgarth. Mae ei hagosrwydd i Henffordd a De-orllewin Lloegr hefyd yn golygu bod y Gelli Gandryll yn lleoliad delfrydol ar gyfer cymudwyr. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol geisio sicrhau bod ystod o fathau o dai a dewisiadau deiliadaeth yn cael eu darparu mewn datblygiadau tai yn y dyfodol yn unol ag anghenion demograffig cyffredinol y boblogaeth. Dylid defnyddio Safonau Cartrefi am Oes er mwyn sicrhau bod y stoc adeiladau newydd yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol cymuned amrywiol y Gelli Gandryll. |
| 2 | Parchu hunaniaeth unigryw y Gelli Gandryll | Treftadaeth Ddiwylliannol: Y Dirwedd; Yr Amgylchedd Adeiledig | Mae'r dref yn dod yn gyfyngedig iawn o fewn ei ffiniau presennol. Mae topograffeg yr Anheddiad yn y Dirwedd Hanesyddol yn atal ei ymestyn i'r de. Yr her yw sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn digwydd mewn ffordd sy'n golygu bod twf yn gallu cynnal cryfder y dref ar yr un pryd â pharchu'r treflun creadigol a hanesyddol arwyddocaol, a'i leoliad yn y dirwedd. |
| 3 | Cryfhau canolfan ddiwylliannol y Gelli Gandryll | Treftadaeth Ddiwylliannol | Mae gan y dref bresenoldeb diwylliannol cryf sy'n denu llawer o ymwelwyr i'r ardal. Mae cymeriad y cynnig manwerthu yn adlewyrchu cysylltiad agos y dref â llenyddiaeth a'r celfyddydau. Mae hyn yn rhan annatod o'r ymdeimlad unigryw o le yn y Gelli Gandryll, ac mae'n rhaid ei warchod yn ofalus wrth i'r dref ddatblygu yn y dyfodol. |
| 4 | Osgoi ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd | Llifogydd | Mae ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd yn cyfyngu ar ddewisiadau ar gyfer datblygu yn y Gelli Gandryll. |

| **Tabl 4.8 Materion ac Amcanion Pontsenni** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Amcan** | **Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol** | **Mater** |
| 1 | Cryfhau Cymunedau Cynaliadwy | Cymunedau Cynaliadwy: Tai: Tai Fforddiadwy | Roedd 998 o breswylwyr yn ardal Cyngor Cymuned Maescar ar adeg cyfrifiad 2001. Roedd y preswylwyr hyn yn creu 437 o aelwydydd, gyda maint aelwyd o 2.28 ar gyfartaledd. Oedran cyfartalog preswylwyr yn y gymuned oedd 42, sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Nodwyd bod gan y boblogaeth cymuned sy'n heneiddio yn gyffredinol. Mae poblogaethau sy'n heneiddio yn cael effaith ar nifer y bobl sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth mewn ardal, ac maent hefyd yn effeithio ar y tai sydd ar gael, gan fod pobl hŷn yn tueddu i aros yng nghartref y teulu wrth i faint eu haelwyd leihau. Ategir materion yn ymwneud â'r tai sydd ar gael gan Arolwg Anghenion Lleol 2005 a gynhaliwyd ar gyfer yr ardal, a amlygodd fod angen 22 o unedau fforddiadwy. Hyd yma, nid oes unrhyw ddatblygiad wedi cynnig bodloni'r angen hwn. Felly, mae'n hanfodol i gynaliadwyedd y gymuned yn y dyfodol bod y tai sydd ar gael yn cynyddu yn ystod cyfnod y cynllun, gyda phwyslais ar ddarparu cymysgedd o fathau o anheddau a deiliadaethau er mwyn helpu'r gymuned i amrywiaethu. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r angen am Dai Fforddiadwy yn y pentref, a dylid archwilio Safleoedd Eithriad Gwledig. Ystyrir ei bod yn briodol hefyd i dai yn Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog gyflawni Safonau Cartrefi am Oes. Yn ogystal, mae'r gymuned wedi nodi bod angen gwella cyfleusterau cymunedol er mwyn helpu i gefnogi teuluoedd sy'n byw yn yr ardal. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i sicrhau cyfraniadau tuag at gyfleusterau cymunedol mewn cynlluniau datblygu yn yr ardal yn y dyfodol. Er bod Pontsenni a Defynnog yn cael eu hystyried yn un clwstwr ar gyfer datblygu yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y gwahaniad ffisegol rhwng y ddau anheddiad yn cael ei gynnal. |
| 2 | Parchu hunaniaeth unigryw Pontsenni | Treftadaeth Ddiwylliannol: Y Dirwedd; Yr Amgylchedd Adeiledig | Mae Pontsenni a Defynnog wedi'u lleoli mewn tirwedd a ddosbarthwyd yn "eithriadol" gan LANDMAP Gweledol a Synhwyraidd Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Er bod dwy elfen y Clwstwr yn agos iawn i'w gilydd, mae eu cymeriad yn wahanol iawn. Pentref mawr ar Afon Wysg yw Pontsenni. Mae'r anheddiad yn llinellol ei gymeriad yn y bôn, ac mae'r A40T yn rhedeg trwyddo. Dylai cynigion ar gyfer datblygiad barchu cymeriad anheddiad Pontsenni, gan gyfnerthu'r ffurf a'r swyddogaeth bresennol, a cheisio gwella effaith yr amgylchedd adeiledig ar y dirwedd amgylchynol o ansawdd uchel. Mae Defynnog wedi'i lleoli yn Nyffryn Senni, sy'n dirwedd eithriadol; mae datblygiad yn canolbwyntio ar yr A4067, er y bu rhywfaint o ddatblygiad hanesyddol a mwy modern i fyny'r llechwedd i ffwrdd oddi wrth yr A4067. Mae lleoliad Defynnog yn y dirwedd yn arbennig o werthfawr yn esthetig, a dylai datblygiad newydd allu ategu lleoliad y pentref yn y dirwedd a bod yn ystyriol o'r bensaernïaeth werinol o ansawdd uchel a geir yng nghraidd hanesyddol y pentref. |
| 3 | Cryfhau statws Pontsenni fel Canolfan Amaethyddol | Treftadaeth Ddiwylliannol;<br><br>Cyflogaeth | Yn y cyfrifiad diwethaf, roedd lefelau cyflogaeth yn ardal Cyngor Cymuned Maescar yn gymharol uchel. Yn ogystal, roedd bron hanner yr unigolion a oedd yn economaidd weithgar yn gweithio gartref neu'n defnyddio dulliau eraill o drafnidiaeth heblaw am gar preifat neu fws, sy'n awgrymu bod llawer o bobl yn byw yn yr ardal sydd hefyd yn gweithio yn yr ardal. Mae'r cynnig cyflogaeth ym Mhontsenni yn canolbwyntio ar yr ardal ddiwydiannol fach oddi ar Defynnog Road, sy'n cynnwys Melin Lifio brysur a Masnachwyr Amaethyddol. Mae'r mynediad presennol i'r safle hwn yn gul a chyfyng. Ystyrir y gallai'r dyraniad defnydd cymysg yn Defynnog Road yn union i'r dwyrain o'r iard bren ddarparu estyniad ar raddfa briodol i'r safle cyflogaeth presennol, cynnig mynediad newydd o'r A4067 a gwella hyfywedd masnachol y gweithrediadau presennol. Y tu allan i safleoedd a ddyrannwyd, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio galluogi datblygiad ar raddfa briodol sy'n cefnogi'r cynnig twristiaeth yn y rhanbarth, yn gwella'r cynnig manwerthu ym Mhontsenni neu'n annog adfywio'r stryd fawr. |
| 4 | Osgoi ardaloedd lle y ceir perygl | Llifogydd | Mae llifogydd yn fater strategol i Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog. Bydd cynigion ar gyfer datblygiad yn cael eu cyfyngu i'r de-orllewin a'r de-ddwyrain ym Mhontsenni, ac i'r dwyrain yn Nefynnog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llifogydd | | |
| 5 | Gwarchod Asedau Amgylcheddol | Bioamrywiaeth; Adnoddau Naturiol | Mae Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Wysg yn rhedeg trwy Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog, ac mae ystlumod wedi'u gweld yn yr ardal. Mae'n rhaid i ddatblygiad newydd geisio sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r Ardal Cadwraeth Arbennig. *Tabl 4.8 Materion ac Amcanion Pontsenni* |

**Tabl 4.9 Materion ac Amcanion Talgarth**

| Rhif | Amcan | Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol | Mater |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwella safonau byw i bawb | Tai; Tai Fforddiadwy; Cymunedau Cynaliadwy; Iechyd a Lles | Mae arwyddocâd a bywiogrwydd tref Talgarth wedi dirywio'n sylweddol ers y 1960au. Mae colli'r rheilffordd yn y 1960au ac yna cau Ysbyty Canolbarth Cymru yn ddiweddarach wedi cael effaith barhaus ar fywiogrwydd economaidd-gymdeithasol yr ardal. Roedd hen Ysbyty Canolbarth Cymru yn gyflogwr mawr yn yr ardal hyd nes iddo gau ym 1999. Mae ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos, ac eithrio ward Sant Ioan yn Aberhonddu, bod mwy o amddifadedd yn Nhalgarth na gweddill ardal Powys yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r oedran cyfartalog yn y dref yn uwch na chyfartaledd Powys a Chymru ac, o ganlyniad, mae nifer yr unigolion sydd wedi ymddeol ac yn economaidd anweithgar yn uchel o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae ymagweddau diddorol ac arloesol tuag at adfywio wedi dod i'r amlwg yn sgil ymyraethau rhagweithiol i liniaru'r potensial ar gyfer mwy o ddirywiad. Mae prosiectau o'r fath yn galonogol iawn ar gyfer dyfodol Talgarth, ac mae'n rhaid i'r Polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol sicrhau eu bod yn galluogi datblygiad sy'n cyfrannu at fywiogrwydd cymunedol mewn ffyrdd o'r fath. |
| 2 | Cryfhau Canolfan Ddiwylliannol Talgarth | Treftadaeth Ddiwylliannol | Mae nifer o adeiladau yng nghanol y dref, yn enwedig o amgylch Bell Street, sydd wedi dioddef yn arbennig o ganlyniad i draffig cerbydau nwyddau trwm ym man cyfyng yr A479, cyn i Ffordd Liniaru Talgarth gael ei chwblhau yn 2007. Byddai'r adeiladau hyn yn elwa ar fuddsoddiad sylweddol i'w dychwelyd i ddefnydd a gwella'r treflun. Wrth wireddu cynigion adfywio o'r fath, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn edrych i gyfeiriad ein rhanddeiliaid allweddol fel Cadw ac adfywio tai'r sector preifat i helpu i ddarparu cyllid a chymhellion ar gyfer cynlluniau adfywio priodol fel mentrau 'byw uwchben siop'. Mae'r cynnig manwerthu yn Nhalgarth yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i ddatblygiad yn y ganolfan fanwerthu yn y dyfodol geisio ailddatblygu bywiogrwydd Canol y Dref er mwyn darparu canolfan siopa fywiog. Dylai'r amcan ar gyfer Talgarth ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer anghenion beunyddiol lleol, ar yr un pryd â hybu datblygiad yn y dyfodol yng nghanol y dref a fydd yn bodloni anghenion y Farchnad Dwristiaeth sy'n tyfu yn Nhalgarth. |
| 3 | Osgoi ardaloedd lle y ceir perygl llifogydd | Llifogydd | Mae llifogydd yn cyfyngu ar ddatblygiad yn ardal ogledd-orllewinol y dref, ac mae ardaloedd llai o lifogydd sy'n gysylltiedig ag Afon Ennig yn rhannu'r dref yn ddwy ac yn parhau i'r de. Mae llifogydd yn fater strategol i Dalgarth. Mae Cyngor Sir Powys yn rhoi Cynllun Lliniaru Llifogydd ar waith ar hyn o bryd, a ariennir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol hyn. |
| 4 | Cryfhau Economi Talgarth | Cyflogaeth; Cymunedau Cynaliadwy | Yn unol ag amcanion y Cynllun Datblygu Lleol i ddarparu ar gyfer economi gynaliadwy, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad cymysgedd o gyfleoedd cyflogaeth, a'i nod yw gwrthsefyll colli menter fasnachol yn y dref. Yr her i'r Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb yn ystyriol i gymeriad Talgarth fel tref farchnad hanesyddol. Ni fydd safleoedd diwydiannol ar raddfa fawr yn dderbyniol yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol. Yn hytrach, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ganolbwyntio ar sicrhau dulliau arloesol o ddarparu cyflogaeth, trwy ddatblygiadau defnydd cymysg, cynlluniau byw a gweithio ac ailddatblygu tir llwyd yn briodol, a integreiddiwyd yn dda yn y dref. Bydd datblygiadau ar gyfer dewisiadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer Canol Cymru yn cael eu hannog, gan gynnwys cynigion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn lleol a'r economi "werdd". |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Cryfhau'r Ymdeimlad o Le yn Nhalgarth | Y Dirwedd, y Dreftadaeth Adeiledig | Mae parhau i warchod a gwella gwerth pensaernïol a threflun unigryw Talgarth, o fewn a'r tu allan i ffiniau gwarchodaeth statudol yn yr Ardal Gadwraeth, yn hanfodol i ddatblygiad ac adfywiad llwyddiannus canol y dref. Dylai unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol geisio pwysleisio ac adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol a chymeriad craidd hanesyddol yr Anheddiad, a sicrhau nad yw'r golygfeydd deniadol o'r dirwedd a geir o'r Anheddiad yn cael eu peryglu. Mae nodweddu'r dirwedd fel y'i hamlinellir gan LANDMAP[35] wedi dangos bod datblygiad wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd tirwedd y dref a'i lleoliad. Byddai datblygiad ychwanegol i'r gogledd a'r dwyrain yn parhau â'r ymwthiad niweidiol hwn a dylid ei reoli'n ofalus. |

[35] LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Haen Weledol a Synhwyraidd BRCKNVS15

### 4.4.4. Aneddiadau Allweddol: Ymatebion Polisi

4.4.4.1 Mae'r mathau canlynol o ddatblygiad wedi'u hamlygu fel rhai sy'n allweddol i weithredu Amcanion a Gweledigaethau 15 mlynedd yr Aneddiadau Allweddol.

**K LP2 Datblygiad Priodol yn yr Aneddiadau Allweddol**

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol gyfrannu'n gadarnhaol at eu gosodiad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr ardal.**

**Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol ddangos sut y maent yn ymateb i faterion sy'n berthnasol i'w lleoliad er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth 15 Mlynedd[36] sy'n berthnasol i'w leoliad.**

**Yn yr Aneddiadau Allweddol, mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau gael ei leoli o fewn Ffin yr Anheddiad fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (ac eithrio'r datblygiadau hynny sy'n destun Polisïau sy'n galluogi datblygiad y tu allan i derfynau). O fewn ffin yr Anheddiad, ystyrir bod y mathau canlynol o ddatblygiad yn dderbyniol:-**

1. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r gymysgedd o fathau o dai a dewisiadau deiliadaeth yn y Dref, gan gynnwys darparu tai sy'n bodloni safonau Cartrefi am Oes lle y bo'n briodol, ar dir y nodwyd ei fod o fewn terfynau amgylcheddol[37].**
2. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r ddarpariaeth fanwerthu yn briodol i gymeriad yr Anheddiad Allweddol ac yn unol â'r ganolfan fanwerthu ddiffiniedig ar gyfer y dref (gweler Polisi 42).**
3. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cynnig twristiaeth yn yr Anheddiad Allweddol yn unol â'r strategaeth twristiaeth gynaliadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys llety newydd priodol i westeion a chreu atyniadau / cyfleusterau newydd priodol i ymwelwyr.**
4. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella datblygiad economi nos briodol ar gyfer yr Anheddiad. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu barnu yn ôl eu cyfraniad at wella bywiogrwydd y dref fel cyrchfan, trwy ddarparu mwy o fwytai a bariau sy'n arbenigo mewn cynnyrch lleol.**
5. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r dref a'r rhanbarth, gan gynorthwyo grwpiau gweithredu cymunedol presennol i gyflawni eu nodau.**
6. **Cynigion ar gyfer cynlluniau byw a gweithio a/neu ddatblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys dulliau arloesol a chynaliadwy o ddarparu cyfleusterau cyflogaeth i wasanaethu'r dref a'r rhanbarth.**
7. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella dulliau cynaliadwy o gyrraedd y dref a'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dulliau trafnidiaeth heblaw car preifat.**

---

[36] Gweler tabl 4.5

[37] Dylai pob uned dai newydd gael ei dylunio yn unol â safonau Cartrefi am Oes lle y bo'n briodol. Os nad yw ymgeisydd o'r farn ei bod yn ymarferol cydyffurfio â hyn, dylai ddangos hynny'n eglur yn ei Ddatganiad Dylunio a Mynediad.

| |
|---|
| **8. Cynigion sy'n gweithio i leihau ôl troed carbon ac ecolegol y dref a'i rhanbarth sydd ar raddfa briodol ac o fath priodol i ffurf a chymeriad yr Anheddiad.** |

### 4.4.5. Aneddiadau Allweddol: Lliniaru Effaith

4.4.5.1 Wrth alluogi datblygiad priodol, cydnabyddir hefyd y gallai datblygiad gael effaith negyddol ar y seilwaith cymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol sy'n gwasanaethu'r dref. Mae'n bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol yn cael ei hosgoi neu ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol wrth ystyried cynlluniau ar gyfer datblygiad newydd.

4.4.5.2 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu cyfyngiadau posibl ar ddatblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol. Amlinellir y rhain ym Mholisi K LP3 isod, ac fe'u dosberthir yn unol â'r Cyfyngiadau Ardaloedd yn Nhabl 5.1 (gweler Pennod 5 am fwy o wybodaeth).

**K LP3 Lliniaru Effaith**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad yn yr Aneddiadau Allweddol gyfrannu at fywiogrwydd y dref a'r rhanbarth trwy wneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd bywyd a lliniaru unrhyw bwysau ar y seilwaith cymunedol a/neu amgylcheddol:**

**1. Crucywel: Yng Nghrucywel, mae'r meysydd canlynol wedi'u hamlygu fel rhai y gallai datblygiad yn y dyfodol effeithio arnynt.**

**A** **Sensitifrwydd Bioamrywiaeth**
**B** **Rheoli Dŵr**
**E** **Capasiti o ran Dŵr Gwastraff a Charthffosiaeth**
**D** **Capasiti Priffyrdd**
**J** **Perygl Llifogydd**

**2. Y Gelli Gandryll: Yn y Gelli Gandryll, mae'r meysydd canlynol wedi'u hamlygu fel rhai y gallai datblygiad yn y dyfodol effeithio arnynt.**

**B** **Rheoli Dŵr**
**D** **Capasiti Priffyrdd**
**E** **Seilwaith Dŵr a Charthffosiaeth**
**F** **Rhyddhau Tir**
**G** **Arwyddocâd Tirwedd Hanesyddol**
**J** **Perygl Llifogydd**

**3. Pontsenni: Yn Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog, mae'r meysydd canlynol wedi'u hamlygu fel rhai y gallai datblygiad yn y dyfodol effeithio arnynt.**

**A** **Arwyddocâd Bioamrywiaeth**
**B** **Rheoli Dŵr**
**C** **Sefydlogrwydd Tir a Photensial ar gyfer Halogiad**
**D** **Capasiti Priffyrdd**
**E** **Seilwaith Dŵr a Charthffosiaeth**

**4. Talgarth: Yn Nhalgarth, mae'r meysydd canlynol wedi'u hamlygu fel rhai y gallai datblygiad yn y dyfodol effeithio arnynt.**

**B Rheoli Dŵr**
**D Capasiti Priffyrdd**
**E Seilwaith Dŵr a Charthffosiaeth**
**G Arwyddocâd Tirwedd Hanesyddol**
**J Perygl Llifogydd**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos sut y mae'r materion hyn (lle y bônt yn berthnasol), yn ogystal ag effeithiau posibl ar y dirwedd, wedi derbyn sylw yn y cynllun er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio Amodau Cynllunio neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod mesurau lliniaru, digolledu a/neu wella priodol yn cael eu darparu ynglŷn â chynigion ar gyfer datblygiad. Gweler Polisi 53 hefyd**

## 4.5 Twf y tu allan i'r Aneddiadau Allweddol

4.5.1 Y tu allan i Aneddiadau Allweddol y Parc Cenedlaethol ceir rhwydwaith o Aneddiadau llai a phentrefannau sy'n gartref i oddeutu hanner poblogaeth y Parc Cenedlaethol. Mae'r patrwm Aneddiadau yn dilyn llinell Dyffryn Wysg a'r A40 a'r A465 yn y dwyrain, a'r A4067 yn y gorllewin yn bennaf. Ceir patrwm Aneddiadau mwy gwasgaredig yn y gorllewin nag Aneddiadau cnewyllog Dyffryn Wysg. Mae hyn yn creu patrwm Aneddiadau amrywiol a heriol, gyda chymunedau a chanddynt ystod o wahanol anghenion a dyheadau. Mae patrwm datblygiad yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar Ddyffryn Wysg, ac mae llawer o'n Haneddiadau dwyreiniol wedi gweld lefelau arwyddocaol o ddatblygiad yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.

4.5.2 Er nad yw'r Aneddiadau hyn yn cyflawni swyddogaeth ranbarthol ddiffiniedig, mae'r cymunedau yn yr Aneddiadau hyn yn rhan annatod o hunaniaeth y Parc Cenedlaethol a'i ymdeimlad o le fel y'i diffinnir yn ein nodweddion arbennig. Mae sicrhau dyfodol hyfyw i'r Aneddiadau hyn yn hollbwysig i amcanion y Strategaeth Ofodol. Yr her i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw sicrhau nad yw darparu ar gyfer anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar gyd-destun y dirwedd nac yn rhoi cymunedau'r Parc Cenedlaethol mewn mwy o berygl o effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd.

4.5.3 Gweithiodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn agos gyda'n cymunedau cyfansoddol wrth bennu sut y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gefnogi'r Aneddiadau hyn. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn canolbwyntio ar alluogi'r cymunedau i:-

- Ddiffinio natur eu Hanheddiad;
- Rhoi dealltwriaeth i Awdurdod y Parc Cenedlaethol o rôl yr Anheddiad a sut y mae'n gweithredu yn y rhanbarth; a
- Diffinio lefel a natur y twf y teimlwyd ei fod yn angenrheidiol i gefnogi bywiogrwydd eu cymuned yn y dyfodol.

4.5.4. Roedd cyfraniad ein cymunedau at broses y Cynllun Datblygu Lleol wedi galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gael dealltwriaeth eglur o'r materion allweddol sy'n wynebu ein Haneddiadau, a lefel y twf yr oedd ei hangen ar ein cymunedau ar gyfer y dyfodol. Rhoddodd hyn fan cychwyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gymhwyso amcanion y Strategaeth Ofodol i Aneddiadau unigol trwy broses asesu a gwerthuso.

4.5.5. Rhoddodd yr asesiad hwn ystyriaeth i'r canlynol:-

**- A yw'r Anheddiad yn lleoliad cynaliadwy?**

Lleoliadau cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau i fodloni anghenion beunyddiol preswylwyr, neu sydd â chysylltiad agos â chanolfannau gwasanaeth trwy drafnidiaeth gyhoeddus neu'r rhwydwaith ffyrdd. Aseswyd cynaliadwyedd lleoliadau gan ddefnyddio system sgorio mynegai a oedd yn ystyried ugain o wahanol feini prawf.

**- A oes tir addas ar gael i gynnal twf yn y dyfodol?**

Diffinnir tir addas fel hwnnw y gellid ei ddatblygu heb gael effaith niweidiol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ac y gellir ei ddarparu o fewn pob cyfyngiad hysbys. Cyfeiriwn at hyn fel ein "capasiti amgylcheddol". Mae capasiti amgylcheddol yn ymwneud â mwy na gwarchod y dirwedd yn unig. Yn hytrach, mae'n ymwneud â gallu lle i dderbyn y gofynion datblygu a osodir arno heb golli neu ddifrodi'r amgylchedd, yr harddwch naturiol, y seilwaith

neu'r adnoddau cymunedol yn barhaol, gan ystyried yr angen i amddiffyn rhag effeithiau tebygol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd.

**- A oes angen cymunedol diffiniedig am dwf?**

Angen cymunedol diffiniedig yw hwnnw a gyflwynwyd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref perthnasol yn seiliedig ar ganlyniadau ymgysylltiad cymunedol ehangach. Mae diffiniadau o angen a ddarparwyd gan y gymuned hefyd yn mynegi lleoliad a graddfa datblygiad yn y dyfodol, a/neu gyfiawnhad dros fabwysiadu strategaeth dim twf ar gyfer eu hardal.

4.5.6 Dangosodd canfyddiadau'r asesiad mai ychydig iawn o leoliadau sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol ym mhob un o'r meini prawf, er enghraifft, mynegodd rhai cymunedau angen cryf iawn am dwf, ond mewn ardaloedd nad ystyriwyd eu bod yn gynaliadwy. Ar y llaw arall, nid oes capasiti mewn rhai Aneddiadau sy'n darparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal mwy o dwf (yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol).

4.5.7 Yn ddelfrydol, byddai datblygiad yn y dyfodol yn cael ei leoli mewn Aneddiadau sy'n bodloni'r holl feini prawf a amlygwyd, ond mae hyn yn gwbl afrealistig ac nid yw'n ymateb yn briodol i'r materion a nodwyd yn ystod y broses o lunio'r cynllun. Fel y cyfryw, mae dynodiad Aneddiadau Lefel 3 ac Aneddiadau Twf Cyfyngedig Lefel 4 yn dibynnu ar y ffaith fod lle yn bodloni o leiaf dau o dri maen prawf.

4.5.8 Felly, gweithredir y strategaeth fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Anheddiad Lefel 3 | Lle sydd â'r capasiti amgylcheddol i gynnal datblygiad yn y dyfodol **ac sydd naill ai'n**:-<br><br>- lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygiad yn y dyfodol **a/neu'n**<br>- lleoliad lle y ceir awydd cymunedol am dwf. |
| Anheddiad Twf Cyfyngedig Lefel 4 | Lle sydd heb gapasiti amgylcheddol i gynnal datblygiad yn y dyfodol **ac sydd naill ai'n**<br><br>- lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygiad yn y dyfodol **a/neu'n**<br>- lleoliad lle y ceir awydd cymunedol am dwf. |

4.5.9 Gweithredwyd y strategaeth Aneddiadau uchod trwy gymhwyso'r Matrics Asesu Aneddiadau (gweler ffigur 2 isod). Mae'r matrics hwn yn galluogi is-gategoreiddio o fewn lefelau'r hierarchaeth er mwyn ystyried y gwahaniaethau yng nghanlyniadau'r asesiad. Mae'r is-gategoreiddio'n galluogi'r Cynllun Datblygu Lleol i ddatblygu ymatebion Polisi penodol sy'n briodol i leoliadau o'r fath. Bwriedir i'r ymatebion Polisi hyn wneud iawn am unrhyw wrthdaro a allai ddigwydd o ganlyniad i wyro'r lle o'r senario delfrydol, er enghraifft, disgwylir i ddatblygiad yn y dyfodol mewn Anheddiad Lefel 3 nad yw'n lleoliad cynaliadwy gyflawni'r safonau uchaf o ran cynaliadwyedd yn ei ddyluniad a'i ddefnydd o adnoddau yn y dyfodol. Rhoddir mwy o wybodaeth am fanylion is-gategoreiddio yn y Matrics Asesu ac ym Mholisïau S LP3 ac LGS LP3.

| A oes awydd a fynegwyd yn y gymuned i alluogi datblygiad yn y dyfodol? | A yw'r lle yn lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygiad yn y dyfodol? | A oes capasiti i gynnal datblygiad yn y dyfodol? | Safle Canlyniadol yn yr Hierarchaeth? | Is-safle | Ymhelaethiad ar y safle |
|---|---|---|---|---|---|
| **OES** | **YDY** | **OES** | **3** | 3A | Bydd datblygiad yn y lleoliadau hyn yn cyflawni amcanion y strategaeth i ddarparu ar gyfer twf anghenion cyffredinol er mwyn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd y gymuned mewn lleoliadau cynaliadwy. |
| **OES** | NAC YDY | **OES** | **3** | 3B | Twf a alluogir i fodloni awydd y gymuned am dwf. Bydd angen i ddatblygiad yn y dyfodol liniaru'r effaith a achosir gan ddatblygiad mewn lleoliadau anghynaliadwy trwy gyflawni'r safonau uchaf o ran cynaliadwyedd yn y datblygiad arfaethedig. Llunnir Canllaw Cynllunio Atodol i fynd i'r afael â chyfyngiadau datblygu. |
| NAC OES | **YDY** | **OES** | **3** | 3C | Bydd datblygiad yn y lleoliadau hyn yn bodloni amcanion y strategaeth i ddarparu ar gyfer twf anghenion cyffredinol o fewn capasiti amgylcheddol. Bydd pryderon ynghylch ymestyn yn derbyn sylw trwy lunio Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer yr ardal. |
| **OES** | **YDY** | NAC OES | **4** | 4A | Nid yw'r Anheddiad yn cynnwys tir addas i gynnal dyraniad anghenion cyffredinol, felly dylai unrhyw dir y canfyddir ei fod yn addas yn ystod cyfnod y cynllun gael ei ddefnyddio i gynnal datblygiad sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gymuned ar ffurf datblygiad anghenion lleol yn unig. |
| **OES** | NAC YDY | NAC OES | **4** | 4B | Nid oes gan yr Anheddiad y capasiti i gynnal yr anghenion twf a ddiffiniwyd gan y gymuned. Dylai unrhyw dir i'w ddatblygu sy'n dod ar gael yn ystod cyfnod y cynllun fynd i'r afael ag anghenion cymunedol fel y dewis mwyaf cynaliadwy ar gyfer dyfodol y gymuned. |
| NAC OES | **YDY** | NAC OES | **4** | 4C | Mae datblygiad yn y lleoliad hwn wedi'i gyfyngu gan awydd y gymuned i ymestyn a chapasiti. Cynaliadwyedd y lleoliad yw'r brif ystyriaeth a dylai unrhyw botensial ar gyfer datblygiad a gynigir gael ei ddefnyddio i fodloni anghenion datblygu lleol yn unig. |
| NAC OES | NAC YDY | **OES** | **5** | - | Mae'r potensial ar gyfer datblygiad yn y cymunedau hyn yn ystyriaeth eilaidd o gymharu â chyfyngiadau cynaliadwyedd y lleoliad. Felly, dylid defnyddio'r tir i gynnal tai sy'n bodloni angen hanfodol a nodwyd am dai fforddiadwy yn unig. |
| NAC OES | NAC YDY | NAC OES | **5** | - | Nid oes unrhyw botensial i ddatblygu yn y lleoliadau hyn. Mae Polisïau Eithriad sy'n berthnasol i gefn gwlad agored yn gymwys. |

*Ffigur 2 Matrics Asesu Aneddiadau*

# 4.6 Lefel 3: ANEDDIADAU

## 4.6.1 Aneddiadau: Cyd-destun

4.6.1.1 Aneddiadau Lefel 3 yw'r rhai hynny sy'n lleoliadau cynaliadwy a/neu lle y ceir angen cymunedol diffiniedig am ddatblygiad i gefnogi cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol. Defnyddiodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y Matrics Asesu Aneddiadau (gweler Ffigur 2 uchod) i bennu pa Aneddiadau i'w dosbarthu'n rhai Lefel 3.

## 4.6.2 Aneddiadau: Materion

4.6.2.1 Yr her allweddol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cynnal a gwella lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ganddynt ar hyn o bryd, ar yr un pryd â darparu datblygiad i fodloni eu hangen diffiniedig a heb gael effaith niweidiol ar allu'r gymuned i ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac olew brig.

4.6.2.2 Yn yr un modd â'n holl Aneddiadau, mae realiti byw yng nghefn gwlad yn golygu bod yr ardaloedd hyn yn wynebu heriau o ganlyniad i lefelau cyfyngedig o wasanaethau a chyfleusterau – mae hyn yn arwain at gostau byw uwch i'n cymunedau gwledig a chost uwch i'r amgylchedd, oherwydd bod gan ein Haneddiadau gwledig ôl troed ecolegol a charbon uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

4.6.2.3 Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Aneddiadau llai yn y Parc Cenedlaethol wedi dioddef colled arwyddocaol o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynhelir ganddynt. Mae cau swyddfeydd post, rhesymoli'r system addysg, cau tafarndai gwledig a chwtogi llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod llawer o'n Haneddiadau'n wynebu her sylweddol os ydynt am wrthdroi'r dirywiad mewn lefelau gwasanaethau lleol a pharhau i fodloni anghenion beunyddiol.

4.6.2.4 Yn ogystal â'r uchod, mae seilwaith hanfodol bron â chyrraedd lefel lle na all ymdopi â mwy, neu mae wedi cyrraedd y lefel honno, gan osod cyfyngiadau ar ddatblygiad hanfodol i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau.

4.6.2.5 Y materion allweddol ar gyfer y dyfodol yw galluogi'r Aneddiadau hyn i gynyddu eu cynaliadwyedd trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer coetir cymunedol, rhandiroedd cymunedol a chynlluniau cynhyrchu ynni cymunedol, er mwyn gwella lefelau hunangynhaliaeth. Yn ogystal â'r mesurau cadarnhaol hyn, mae'n rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol fabwysiadu safbwynt Polisi cryf ar yr angen i warchod gwasanaethau hanfodol.

4.6.2.6 Rydym am weithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod cynllun gweithredu allweddol yn cael ei lunio ar gyfer twf lle yn y dyfodol, i ddarparu consensws ar ba fesurau sydd eu hangen i sicrhau dyfodol hyfyw ar gyfer cymunedau, ac i bennu sut y gall datblygiad gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.

### 4.6.3 Aneddiadau: Gweledigaeth 15 mlynedd

4.6.3.1 Bydd ein Haneddiadau'n fwy na chasgliad o dai yn unig. Byddant yn lleoedd sy'n cynnig ansawdd bywyd da i breswylwyr gydag ymdeimlad cryf o gymuned, lle y gellir bodloni anghenion beunyddiol yn yr ardal a lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat.

4.6.3.2 Bydd cymunedau yn cymryd y cyfrifoldeb am eu dyfodol eu hunain, gan weithio gyda'i gilydd a chyda'r Parc Cenedlaethol i ddiffinio eu cynlluniau 15 mlynedd eu hunain. Trwy wneud hyn, bydd coetir cymunedol; rhandiroedd; cynlluniau cynhyrchu ynni; tai fforddiadwy; tafarndai cymunedol; siopau a thir amwynder yn datblygu o fewn ac yn agos i aneddiadau diffiniedig gan gynyddu cynaliadwyedd cymunedol, lleihau ein hôl troed ecolegol a charbon, a sicrhau dyfodol mwy bywiog ar gyfer Aneddiadau'r Parc Cenedlaethol. Bydd cynhyrchu bwyd yn lleol yn cael ei werthfawrogi, a bydd arallgyfeirio ffermydd a menter wledig yn helpu'r economïau lleol i dyfu. Bydd twristiaeth gynaliadwy yn ffynnu wrth i ymwelwyr ddymuno profi bywyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

4.6.3.3 Mae S LP 1 yn nodi'r lleoedd a restrir yn Aneddiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn unol â chymhwyso'r Strategaeth Ofodol.

**S LP1 Diffiniad Aneddiadau**

**Diffinnir y mannau canlynol yn Aneddiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir is-safleoedd hierarchaeth (fel sy'n berthnasol i'r matrics asesu) mewn cromfachau.**

TAL-Y-BONT AR WYSG (3A)

BWLCH (3A)

CEFN BRYN BRAIN (3C)

CRAI (3B)

GILWERN (3C)

GOFILON (3A)

LIBANUS (3C)

LLANBEDR (3A)

LLANFIHANGEL CRUCORNAU (3C)

LLANGORS (3A)

LLANIGON (3A)

LLANSPYDDID (3C)

PENCELLI (3C)

PENNORTH (3B)

PONTNEDDFECHAN (3A)

PONTSTICILL (3C)

4.6.3.4 Bydd cynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn yr Aneddiadau a ddiffinnir uchod yn cyd-fynd â'r strategaeth ar gyfer datblygu a ddiffinnir yn y Strategaeth Ofodol (tabl 4.2). O ran

Aneddiadau dynodedig, mae'r mathau canlynol o ddatblygiad wedi'u hamlygu fel rhai sy'n allweddol i weithredu'r weledigaeth 15 mlynedd ar gyfer yr Aneddiadau.

**S LP2 Datblygiad Priodol mewn Aneddiadau**

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau wneud cyfraniad cadarnhaol at eu gosodiad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr ardal.**

**Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau ddangos sut y maent yn ymateb i'r Materion ac Amcanion Aneddiadau[38] a sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth 15 Mlynedd ar gyfer Aneddiadau.[39]**

**Mewn Aneddiadau diffiniedig, mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau gael eu lleoli o fewn Ffiniau'r Anheddiad fel y'u dangosir ar y Map Cynigion (ac eithrio'r datblygiadau hynny sy'n destun Polisïau sy'n galluogi datblygiad y tu allan i derfynau). Ystyrir bod y mathau canlynol o ddatblygiad yn dderbyniol o fewn Ffiniau Anheddiad:-**

1. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r gymysgedd o fathau o anheddau a dewisiadau deiliadaeth yn yr Anheddiad, gan gynnwys darparu cyfran o Dai Fforddiadwy yn unol â'r angen a nodwyd yn y gymuned;**
2. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sy'n gwasanaethu'r ardal. Bydd cynigion sy'n debygol o arwain at golli gwasanaethau / cyfleusterau cymunedol yn cael eu gwrthsefyll.**
3. **Cynigion ar gyfer cyfleusterau cyflogaeth newydd neu ymestyn cyfleusterau cyflogaeth presennol, lle y mae'r cynnig yn briodol i amwynder yr ardal o ran graddfa a math ac yn unol â chapasiti amgylcheddol yr Anheddiad.**
4. **Cynigion a fydd yn gwella'r stoc adeiladau bresennol, gan gynnwys**
   - **i) cynigion ar gyfer ymestyn anheddau preswyl presennol yn briodol;**
   - **ii) cynigion ar gyfer dychwelyd adeiladau segur i ddefnydd buddiol;**
   - **iii) cynigion priodol ar gyfer dymchwel ac amnewid adeilad(au), lle y byddai hyn yn arwain at adeilad newydd sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd a lle na fyddai'n arwain at golli gwasanaethau cymunedol a / neu weithgarwch masnachol yn yr Anheddiad;**
5. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer twristiaeth, gan gynnwys darparu llety priodol i westeion yn unol â Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**
6. **Cynigion ar gyfer darpariaeth fanwerthu ar raddfa briodol ac mewn lleoliad priodol.**

4.6.3.5 Wrth alluogi datblygiad priodol, cydnabyddir hefyd y gallai datblygiad gael effaith negyddol ar y seilwaith cymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol sy'n gwasanaethu ein Haneddiadau. Mae'n bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol yn

[38] Gweler is-adran 4.6.2
[39] Gweler is-adran 4.6.3

cael ei hosgoi neu ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol wrth ystyried cynlluniau ar gyfer datblygiad newydd.

4.6.3.6 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu materion posibl a allai gyfyngu ar ddatblygiad yn y dyfodol. Amlinellir y rhain yn Nhabl 4.10 isod ac fe'u dosberthir yn unol â'r Materion Polisi sy'n ymwneud ag ardaloedd yn Nhabl 5.1 (gweler Pennod 5 am fwy o fanylion). Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau dynodedig fynd i'r afael â'r cyfyngiadau y mae'r materion canfyddedig hyn yn eu gosod ar eu cynnig a, lle y bo'r angen, rhoi sylw i fesurau lliniaru a gwella. Mewn llawer o achosion, gallai hyn olygu bod angen cysylltu â chyrff eraill heblaw am Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau canlyniad boddhaol.

**S LP3 Lliniaru Effaith**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau gyfrannu at gynaliadwyedd y lle trwy linaru unrhyw bwysau ar y seilwaith cymunedol neu amgylcheddol. Rhoddir manylion materion penodol ar gyfer pob Anheddiad dynodedig yn Nhabl 4.10 isod.**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol sut y mae'r materion hyn (lle y bônt yn berthnasol), yn ogystal ag effeithiau posibl ar y dirwedd, wedi derbyn sylw yn y cynllun a, lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiad yn cynnwys mesurau lliniaru, digolledu neu wella priodol.**

**Yn ogystal â'r uchod, bydd y Polisïau canlynol sy'n ymwneud ag ardaloedd penodol yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol.**

***Cynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau a ddosberthir yn rhai 4B (o bolisi LGS LP 1)***
**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad mewn aneddiadau a ddosberthir yn rhai 4B gyflawni safonau cenedlaethol o leiaf ar gyfer dylunio cynaliadwy fel y'u hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac fe'u hanogir i gyflawni safonau adeiladu cynaliadwy uwch o ran eu dyluniad a'u heffaith amgylcheddol er mwyn lliniaru effeithiau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd y lleoliad. Fel y cyfryw, bydd cynigion ar gyfer datblygiad sy'n arwain at naill ai:**

**a) greu anheddau newydd, gan gynnwys is-raniad tai presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn tai; NEU**

**b) greu lle masnachol newydd, gan gynnwys is-raniad adeiladau presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn lle, geisio cyflawni'r safon datblygu cynaliadwy uchaf sy'n briodol i'r cynllun, ar yr un pryd â chynnal hyfywedd.**

**Bydd angen cyflwyno tystiolaeth sy'n manylu ar ddewisiadau dylunio cynaliadwy a brofwyd ac a fabwysiadwyd gyda'r Datganiad Dylunio a Mynediad i ategu'r cynnig.**

**B.** ***Cynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau a ddosberthir yn rhai 3C***
**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad ar safleoedd dynodedig mewn Aneddiadau a ddosberthir yn rhai 3C ddangos sut y datblygwyd dyluniad a natur y cynllun mewn cydweithrediad â'r gymuned trwy broses ymgysylltu briodol a thrylwyr.**

**Mae Tabl 4.10 Cyfyngiadau Aneddiadau yn cynnwys rhestr o aneddiadau â Chynlluniau Pentref sy'n cael eu datblygu fel Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn cynorthwyo i weithredu'r polisi hwn.**

| Anheddiad | Safle yn yr Hierarchaeth | Dyraniad tai dangosol | Materion yn ymwneud â'r Ardal | Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi ar ffurf Cynllun Pentref |
|---|---|---|---|---|
| **Aneddiadau Powys** | | | | |
| Tal-y-bont ar Wysg | 3A | 57 | A/C/E/F/G/J | |
| Bwlch | 3A | 15 | A/B/D | |
| Crai | 3B | 15 | A/C/E/D/F/H | ✓ |
| Libanus | 3C | 3 | B/D/E/F | ✓ |
| Llanbedr | 3A | 8 | D/E | |
| Llangors | 3A | Safle'n cael ei adeiladu | E/F/G/J | |
| Llanigon | 3A | 10 | D/E/F/G/J | |
| Llanspyddid | 3C | 10 | D/E/G | ✓ |
| Pencelli | 3C | 6 + ymrwymiad | A/D/E/F/G/J | ✓ |
| Pennorth | 3B | 6 | D/H/G | ✓ |
| Pontneddfechan | 3A | Ymrwymiad a safle ysgol | E/F/J | |
| **Cyfanswm unedau Powys** | | **130** | | |
| **Aneddiadau Sir Fynwy** | | | | |
| Gilwern | 3C | 112 | E/F/J | ✓ |
| Gofilon | 3A | 93 | E/J | |
| Llanfihangel Crucornau | 3C | Ymrwymiadau | E | ✓ |
| **Cyfanswm unedau Sir Fynwy** | | **205** | | |
| **Aneddiadau Sir Gaerfyrddin** | | | | |
| Cefn Bryn Brain | 3C | Mewnlenwi yn unig | A/D/E/F | ✓ |
| **Cyfanswm unedau Sir Gaerfyrddin** | | **Mewnlenwi yn Unig** | | |
| **Anheddiad Merthyr** | | | | |
| Pontsticill | 3C | 15 + ymrwymiadau | D/E/J | ✓ |
| **Cyfanswm unedau Merthyr** | | 15 | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y ddarpariaeth tai (dyraniadau) mewn Aneddiadau** | **350** | |

*Tabl 4.10 Cyfyngiadau Aneddiadau*

# 4.7 Lefel 4: ANEDDIADAU TWF CYFYNGEDIG

## 4.7.1 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Cyd-destun

4.7.1.1 Mae asesiad o Gapasiti Amgylcheddol y Parc Cenedlaethol wedi amlygu nifer o bentrefi nad ydynt yn cynnwys dewisiadau datblygu addas i gynnal twf anghenion cyffredinol. Fodd bynnag, yn unol â'r Strategaeth Ofodol, amlygwyd bod angen rhywfaint o ddatblygiad ar raddfa fach yn y dyfodol i fodloni anghenion lleol. Cyfeirir at y mannau hyn fel "Aneddiadau Twf Cyfyngedig".

4.7.1.2 Mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig, penderfynwyd y byddai twf ar raddfa fawr yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar Harddwch Naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol. Fel y cyfryw, yn yr ardaloedd hyn, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r farn mai'r defnydd mwyaf cynaliadwy ar gyfer tir (a nodwyd neu sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y cynllun) fydd i fodloni anghenion uniongyrchol y gymuned. Mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig Lefel 4, bydd datblygiad yn y dyfodol yn cael ei alluogi dim ond lle y ceir tystiolaeth gref i awgrymu ei fod yn angenrheidiol a'i fod yn cefnogi angen am dai fforddiadwy hanfodol, neu ryw angen datblygu dilys arall ar gyfer yr ardal.

4.7.1.3 Wrth benderfynu pa Aneddiadau i'w dosbarthu'n rhai Lefel 4, defnyddiodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y Matrics Asesu Aneddiadau yn Ffigur 2. Mae'r matrics hwn yn darparu modd o is-gategoreiddio o fewn lefelau'r hierarchaeth er mwyn caniatáu'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol wrth gymhwyso strategaeth gyffredinol i ardal mor amrywiol â'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn defnyddio'r is-gategoreiddio hyn i ddiffinio'r gwahaniaethau cynnil yn ein Haneddiadau, ac mae gwahanol ymagweddau Polisi wedi'u datblygu i ymateb i'r anghenion hyn ar yr un pryd â galluogi Polisi lleol cyffredinol, sy'n amlinellu mathau priodol o ddatblygiad, i fodloni anghenion Aneddiadau Twf Cyfyngedig.

## 4.7.2 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Materion ac Amcanion

4.7.2.1 Y brif her sy'n wynebu'r Aneddiadau hyn yw'r cyflenwad cyfyngedig o dir sydd ar gael i gynnal cynaliadwyedd cymunedol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle yr ystyrir bod yr Anheddiad yn lleoliad cynaliadwy oherwydd lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sy'n bresennol. Bydd angen i gysyniadau traddodiadol o alluogi twf i gefnogi cyfleusterau gael eu newid yn sylweddol, a bydd angen datblygu ymagweddau arloesol at gynaliadwyedd cymunedol mewn partneriaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol.

4.7.2.2 Rydym am weithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod cynllun gweithredu allweddol yn cael ei lunio ar gyfer twf lle yn y dyfodol, i ddarparu consensws ar ba fesurau sydd eu hangen i sicrhau dyfodol hyfyw ar gyfer cymunedau, ac i bennu sut y gall datblygiad gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.

## 4.7.3 Aneddiadau Twf Cyfyngedig: Gweledigaeth 15 mlynedd

4.7.3.1 Bydd ein Haneddiadau'n fwy na chasgliad o dai yn unig. Byddant yn gymunedau cryf lle y mae datblygiad newydd yn ymateb i anghenion hanfodol y gymuned; lle y mae dulliau ar waith i ddarparu tai yn y dyfodol i'r rhai hynny y mae angen iddynt fyw yn yr aneddiadau hyn.

4.7.3.2 Mae cymunedau wedi cymryd y cyfrifoldeb am eu dyfodol eu hunain, gan weithio gyda'i gilydd a chyda'r Parc Cenedlaethol i ddiffinio eu cynlluniau 15 mlynedd eu hunain. Trwy wneud hyn, bydd coetir cymunedol; rhandiroedd; cynlluniau cynhyrchu ynni; tai fforddiadwy; datblygu cynaliadwy; tafarndai cymunedol; siopau a thir amwynder yn datblygu'n briodol i wasanaethu anghenion y gymuned. Mae'r datblygiad sydd wedi digwydd yn parchu cyd-destun y dirwedd, yn cyd-fynd â chapasiti amgylcheddol yr ardal, ac yn cefnogi dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol. Mae ein cymunedau'n gynaliadwy; mae ein hôl troed ecolegol a charbon yn cael ei leihau, gan alluogi dyfodol gwell i ni i gyd. Bydd cynhyrchu bwyd yn lleol yn cael ei werthfawrogi, a bydd arallgyfeirio ffermydd a menter wledig yn helpu'r economïau lleol i dyfu. Bydd twristiaeth gynaliadwy yn ffynnu wrth i ymwelwyr ddymuno profi'r ffordd arloesol o fyw yn ein cymunedau.

4.7.3.3 Mae LGS LP 1 yn nodi'r lleoedd a restrir yn Aneddiadau Twf Cyfyngedig yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau a amlinellir yn y Strategaeth Aneddiadau (Tabl 4.2) a Pholisi Strategol 10.

### LGS LP1 Diffiniad Aneddiadau Twf Cyfyngedig

**Diffinnir y mannau canlynol yn Aneddiadau Twf Cyfyngedig yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir is-safleoedd hierarchaeth (fel sy'n berthnasol i'r matrics asesu) mewn cromfachau.**

CAPEL GWYNFE (4B)

CLYDACH (4C)

CRADOC (4C)

CWMDU (4A)

FELIN CRAI (4B)

GLANGRWYNEY (4C)

BRYN LLANELLI (4B)

LLANFRYNACH (4A)

LLANGATWG (4A)

LLANGYNIDR (4C)

LLANGENNI (4B)

MAES Y GWARTHA (4B)

PENDERYN (4C)

TRE-TŴR (4B)

TRECASTELL (4C)

YNYSWEN (4C)

YSTRADFELLTE (4B)

4.7.3.4 Bydd cynigion ar gyfer datblygiad yn y dyfodol yn yr Aneddiadau Twf Cyfyngedig a ddiffinnir uchod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ofodol. O ran Aneddiadau Twf Cyfyngedig dynodedig, mae'r mathau canlynol o ddatblygiad wedi'u hamlygu fel rhai sy'n allweddol i'r strategaeth a'r weledigaeth leol.

4.7.3.5 Mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi diffinio maint cnewyllyn y pentref ac wedi dangos hyn ar y Map Cynigion fel Maint yr Anheddiad. Mae Maint Anheddiad yn dangos yr ardal y mae Polisi LGS LP2 yn berthnasol iddi. Mae'n wahanol i ffin anheddiad oherwydd ei fod yn diffinio'r ardal lle y galluogir mathau penodol o ddatblygiad i sicrhau cynaliadwyedd cymunedol, tra bod ffin datblygiad yn dangos egwyddor datblygiad derbyniol i fodloni anghenion cyffredinol. Mae'n bwysig wrth wahanu aneddiadau lefel 3 a 4. Mae Maint Anheddiad yn bwysig gan ei fod hefyd yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddiffinio ble y gellir gweithredu Polisi Eithriad yn unol â Pholisi E LP1.

### LGS LP2 Datblygiad Priodol mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig wneud cyfraniad cadarnhaol at eu gosodiad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr ardal.**

**Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig ddangos sut y maent yn ymateb i Faterion ac Amcanion Aneddiadau Twf Cyfyngedig[40], a sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth 15 Mlynedd ar gyfer Aneddiadau Twf Cyfyngedig.[41]**

**Mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig, mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad neu newid defnydd tir neu adeiladau gael eu lleoli o fewn Maint yr Anheddiad fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (ac eithrio'r datblygiadau hynny sy'n destun Polisïau sy'n galluogi datblygiad y tu allan i feintiau diffiniedig). Bydd y mathau canlynol o ddatblygiad yn cael eu galluogi o fewn Meintiau Aneddiadau i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol:-**

1. **Cynigion sy'n arwain at greu anheddau newydd i ddiwallu angen lleol canfyddedig am dai fforddiadwy sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, a fodlonir yn barhaol.**

2. **Cynigion sy'n gwella'r stoc adeiladau bresennol a/neu'n defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu adeiladau segur.**

3. **Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sy'n gwasanaethu'r ardal. Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn cael eu gwrthsefyll.**

4. **Cynigion ar gyfer cyfleusterau cyflogaeth newydd neu ymestyn cyfleusterau cyflogaeth presennol lle y mae'r cynnig yn briodol i amwynder yr ardal o ran graddfa a math, yn unol â Chapasiti Amgylcheddol yr Anheddiad (gweler SP 12, Polisi 37, Polisi 36).**

[40] Gweler is-adran 4.7.2
[41] Gweler is-adran 4.7.3

5. **Cynigion i gryfhau a gwella gwasanaethau manwerthu yn y pentref trwy newid defnydd a/neu drawsnewid/adfer adeiladau presennol yn briodol lle nad oes angen canfyddedig am dai a/neu lle y bydd y cynllun yn mynd i'r afael ag annigonolrwydd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd cymunedol (gweler Polisi 43 hefyd).**
6. **Cynigion i gryfhau a gwella'r cynnig twristiaeth trwy newid defnydd a/neu drawsnewid/adfer adeiladau presennol yn briodol lle nad oes angen lleol canfyddedig am dai yn yr Anheddiad.**

4.7.3.6 Wrth alluogi datblygiad priodol, cydnabyddir hefyd y gallai datblygiad gael effaith negyddol ar y seilwaith cymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol sy'n gwasanaethu'r dref. Mae'n bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol yn cael ei hosgoi neu ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol wrth alluogi datblygiad newydd.

4.7.3.7 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu cyfyngiadau posibl ar ddatblygiad mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig dynodedig. Amlinellir y rhain yn Nhabl 4.11 isod ac fe'u dosberthir yn unol â'r tabl Polisi ardaloedd uchod. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig dynodedig fynd i'r afael â'r cyfyngiadau y mae'r materion canfyddedig hyn yn eu gosod ar eu cynnig a, lle y bo'r angen, rhoi sylw i fesurau lliniaru a gwella. Mewn llawer o achosion, gallai hyn olygu bod angen cysylltu â chyrff eraill heblaw am Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau canlyniad boddhaol. Gweler tabl 5.1 Materion Ardaloedd (Pennod 5).

### LGS LP3 Lliniaru Effaith

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig gyfrannu at gynaliadwyedd y lle trwy linaru unrhyw bwysau ar y seilwaith cymunedol neu amgylcheddol.**

**Rhoddir manylion materion penodol ar gyfer pob Anheddiad Twf Cyfyngedig dynodedig yn Nhabl 4.1 isod.**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol sut y mae'r materion hyn (lle y bônt yn berthnasol), yn ogystal ag effeithiau posibl ar y dirwedd, wedi derbyn sylw yn y cynllun a, lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiad yn cynnwys mesurau lliniaru, digolledu neu wella priodol.**

**Yn ogystal â'r uchod, bydd y Polisïau canlynol sy'n ymwneud ag ardaloedd penodol yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol.**

**A.** ***Cynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau LG ddosberthir yn rhai 4B***

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad mewn aneddiadau a ddosberthir yn rhai 4B gyflawni safonau cenedlaethol o leiaf ar gyfer dylunio cynaliadwy fel y'u hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac fe'u hanogir i gyflawni safonau adeiladu cynaliadwy uwch o ran eu dyluniad a'u heffaith amgylcheddol er mwyn lliniaru effeithiau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd y lleoliad. Fel y cyfryw, bydd cynigion ar gyfer datblygiad**

**sy'n arwain at naill ai:**

**a) Greu anheddau newydd, gan gynnwys is-raniad tai presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn tai; NEU**

**b) Greu lle masnachol newydd, gan gynnwys is-raniad adeiladau presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn lle, geisio cyflawni'r safon datblygu cynaliadwy uchaf sy'n briodol i'r cynllun, ar yr un pryd â chynnal hyfywedd. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth sy'n manylu ar ddewisiadau dylunio cynaliadwy a brofwyd ac a fabwysiadwyd gyda'r Datganiad Dylunio a Mynediad i ategu'r cynnig.**

**B.** ***Cynigion ar gyfer datblygiad mewn Aneddiadau a ddosberthir yn rhai 4C***

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad ar safleoedd dynodedig mewn Aneddiadau a ddosberthir yn rhai 4C ddangos sut y datblygwyd dyluniad a natur y cynllun mewn cydweithrediad â'r gymuned trwy broses ymgysylltu briodol a thrylwyr.**

| **Anheddiad** | **Safle yn yr Hierarchaeth** | **Materion yn ymwneud â'r Ardal** | **Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi ar ffurf Cynllun Pentref** |
|---|---|---|---|
| Capel Gwynfe | 4B | E/F | ✓ |
| Clydach | 4C | D/E/J | ✓ |
| Cradoc | 4C | E/G/I | ✓ |
| Cwmdu | 4A | E/D | ✓ |
| Felin Crai | 4B | B/D/E/H/I/J | ✓ |
| Glangrwyney | 4C | | |
| Bryn Llanelli | 4B | | |
| Llanfrynach | 4A | J | ✓ |
| Llangatwg | 4A | D/E/F/G/J/I | ✓ |
| Llangynidr | 4C | E/J/I/D | ✓ |
| Llangenni | 4B | E/D | ✓ |
| Maesygwartha | 4B | | |
| Penderyn | 4C | A/B/I | ✓ |
| Tre-tŵr | 4B | G/J | ✓ |
| Ynyswen | 4C | E/J/I | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ystradfellte | 4B | J/I | ✓ |
| Trecastell | 4C | | ✓ |

*Tabl 4.11Cyfyngiadau Aneddiadau Twf Cyfyngedig*

## 4.8 Datblygiad Eithriadau Derbyniol

4.8.1 Lle y mae cynigion ar gyfer datblygiad neu newid defnydd tir neu adeilad yn ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau i wella cynaliadwyedd cymunedol ac yn cael effaith isel ar yr amgylchedd, gallai'r rhain gael eu galluogi ar safleoedd ymyl Anheddiad. Mae hyn yn unol â gweledigaeth strategol y Cynllun Datblygu Lleol a'r cyfeiriad Polisi sy'n deillio o adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Naturiol (gweler Ymatebion Polisi Dibenion y Parc Cenedlaethol, yn enwedig yr Is-adran Adnoddau Naturiol).

4.8.2 Diffinnir ymyl Anheddiad fel tir ar ffin Anheddiad neu Faint Anheddiad diffiniedig, neu'n agos iddo, fel y'i dangosir ar y Map Cynigion. Lle nad yw safle eithriad arfaethedig yn union gyfagos i ffin/maint y datblygiad oherwydd presenoldeb ffordd, er enghraifft, ni fydd y gwahaniad hwn ynddo'i hun yn atal y safle rhag cael ei ystyried fel eithriad.

4.8.3 Bydd yn ofynnol i gynigion ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod y datblygiad yn angenrheidiol, na fydd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y dirwedd neu'r Anheddiad, a'i fod yn gymesur â holl Bolisïau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol sy'n rheoli datblygiad priodol yn y Parc Cenedlaethol.

**E LP1 Eithriadau Ymyl Anheddiad yn ymwneud â Chynaliadwyedd Cymunedol**

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiad sy'n hanfodol i gynaliadwyedd cymunedol a/neu sy'n cael effaith gyfyngedig ar yr amgylchedd yn cael eu galluogi mewn lleoliadau ymyl Anheddiad. Bydd datblygiad eithriadau derbyniol yn gyfyngedig i:**

1. **Gynigion ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy 100% (gweler Polisi 29).**
2. **Cynigion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn lleol i wasanaethu'r Anheddiad a'i gymuned ehangach[42].**
3. **Cynigion sy'n ymwneud â chynhyrchu tanwydd yn lleol i wasanaethu'r Anheddiad a'i gymuned ehangach[43].**
4. **Cynigion sy'n ymwneud â darparu tir ar gyfer hamdden cymunedol a datblygiad cysylltiedig angenrheidiol.**
5. **Cynigion sy'n ymwneud â darparu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol sy'n briodol i'r lleoliad ymyl Anheddiad o ran graddfa a thechnoleg, nad ydynt yn cael effaith negyddol ar dirwedd, bioamrywiaeth neu dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.**
6. **Datblygiadau Effaith Amgylcheddol Isel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynaliadwyedd cymunedol, fel Cynlluniau Datblygu Un Blaned.**
7. **Creu pyllau a thiroedd gwlyb newydd i weithredu fel Systemau Draenio Cynaliadwy.**

[42] Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhandiroedd lle y'u gweithredir ar dir sydd â dosbarth defnydd amaethyddol cyfredol. Fodd bynnag, mae angen caniatâd ar gyfer adeiladau atodol, twnelau polythen, siediau, tai gwydr a llwybrau mynediad sy'n ofynnol i hwyluso cynhyrchu bwyd, ac fe'u galluogir trwy'r polisi hwn.

[43] Fel yr uchod, galluogir y seilwaith atodol ac ategol sydd ei angen mewn amgylchiadau o'r fath trwy'r polisi hwn yn hytrach na'r swyddogaeth goedwigaeth / amaethyddol ei hun.

| | |
|---|---|
| **8.** | **Cynigion sy'n ymwneud â darparu cyfleuster cymunedol newydd/estynedig, lle y gellir profi bod y cyfleuster yn hanfodol i'r gymuned ac nad oes safleoedd addas i gynnal y datblygiad o fewn Ffin/Maint yr Anheddiad.** |

# 4.9 Lefel 5: CEFN GWLAD

## 4.9.1 Cefn Gwlad: Cyd-destun

4.9.1.1 Mae ardaloedd yr aseswyd eu bod yn lleoliadau anaddas ar gyfer datblygiad, sydd heb gapasiti i gynnal twf nac awydd cymunedol am dwf, wedi'u dynodi'n Aneddiadau Cefn Gwlad. Yn yr ardaloedd hyn, ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad, yn unol â'r Polisi cenedlaethol, oni bai bod angen hanfodol a ddiffiniwyd am ddatblygiad.

## 4.9.2 Cefn Gwlad: Materion

4.9.2.1 Gwarchod cefn gwlad yw diben statudol cyntaf Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac felly mae'n hanfodol bod datblygiad mewn lleoliadau cefn gwlad yn cael ei reoli'n llym er mwyn atal effeithiau niweidiol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

4.9.2.2 Yn ogystal â'r effaith weledol, mae mathau traddodiadol o ddatblygiad mewn lleoliadau cefn gwlad yn llai cynaliadwy ac yn fwy heriol yn amgylcheddol nag sy'n dderbyniol o ystyried materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac olew brig. Mae datblygu yng nghefn gwlad yn anodd hefyd oherwydd cyfyngiadau o ran seilwaith gwasanaeth hanfodol i wasanaethu datblygiad.

4.9.2.3 Y brif her yng nghefn gwlad yw rheoli caniatâd yn llym i'r rhai hynny yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ac yn hanfodol i leoliad cefn gwlad.

## 4.9.3 Cefn Gwlad: Gweledigaeth 15 mlynedd

4.9.3.1 Bydd cefn gwlad yn aros yn dirwedd fyw a gweithio sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei harddwch naturiol eithriadol a thraddodiadau diwylliannol ffermio mynydd Cymreig.

4.9.3.2 Bydd arferion gwledig hanfodol yn dod yn fwy cynaliadwy ac amrywiol a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cefnogi'n gadarnhaol datblygiad a fydd wedi helpu i gyflawni'r nodau hyn. Bydd gwerth uchel yr amgylchedd wedi cael ei ddefnyddio'n fanteisiol. Bydd arallgyfeirio ffermydd yn galluogi dyfodol mwy diogel i gefn gwlad, gyda thwristiaeth, cynhyrchu bwyd yn lleol a, lle y bo'n briodol, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn gwneud ein cefn gwlad yn dirwedd wirioneddol gynaliadwy.

4.9.3.3 Mae pob ardal y tu allan i Aneddiadau sydd wedi'u rhestru o fewn lefelau 1, 2, 3 a 4 yr hierarchaeth wedi'u dynodi'n lleoliadau cefn gwlad. Mae CYD LP1 isod yn amlinellu'r mathau o ddatblygiad y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn eu caniatáu yn y lleoliadau hyn.

4.9.3.4 Bydd estyniadau i anheddau yng nghefn gwlad yn cael eu cyfyngu o ran eu graddfa yn ychwanegol at raddfa'r annedd wreiddiol. At ddibenion y cynllun hwn, yr annedd wreiddiol

yw'r annedd fel a fodolai ar 1 Gorffennaf 1948 os cafodd ei hadeiladu cyn y dyddiad hwnnw, ac fel y'i hadeiladwyd os cafodd ei hadeiladu ar ôl y dyddiad hwnnw.

**CYD LP1 Galluogi Datblygiad Priodol**

**Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad mewn lleoliadau cefn gwlad wneud cyfraniad cadarnhaol at eu lleoliad cefn gwlad a gwella ansawdd y dirwedd heb gael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, asedau amgylcheddol neu fioamrywiaeth yr ardal.**

**Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad mewn lleoliadau cefn gwlad ddangos sut y maent yn ymateb i'r materion canfyddedig a amlinellir yn 4.9.2 a sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni Gweledigaeth 15 mlynedd Cefn Gwlad at y Dyfodol.**

**Y tu allan i aneddiadau diffiniedig yn y Cynllun Datblygu Lleol, caniateir y mathau canlynol o ddatblygiad yn amodol ar holl Bolisïau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol:-**

**1. Cynigion sy'n gwella'r stoc adeiladau bresennol a/neu'n defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu adeiladau segur, gan gynnwys:-**

**a) Cynigion ar gyfer ymestyn anheddau preswyl sy'n briodol i'r lleoliad cefn gwlad o ran graddfa a dyluniad lle y byddai hyn yn arwain at gynnydd net o ddim mwy na 30% o faint gwreiddiol yr annedd (gweler Polisi 27).**

**b) Cynigion i adfer adeiladau segur i'r defnyddiau buddiol canlynol**

**i) Defnydd Masnachol, Chwaraeon, Twristiaeth neu Hamdden NEU**

**ii) Dai Fforddiadwy i wasanaethu angen canfyddedig NEU**

**iii) Bydd y cynnig yn darparu Annedd Menter Wledig i wasanaethu angen hanfodol wedi'i seilio ar dystiolaeth**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried cynigion i adfer adeiladau segur i'w defnyddio fel tai marchnad agored dim ond mewn achosion lle y gellir darparu tystiolaeth i Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n dangos nad yw'r angen am drawsnewid i'r defnyddiau uchod yn bodoli yn yr ardal.**

**c) Cynigion priodol ar gyfer dymchwel ac amnewid adeiladau:-**

**i) lle y byddai hyn yn arwain at gynnydd net o ddim mwy na 30% o faint gwreiddiol yr annedd**

**ii) lle y byddai hyn yn arwain at adeilad newydd sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd**

**iii) lle na fyddai hyn yn arwain at golli gwasanaethau cymunedol a/neu weithgarwch masnachol yn yr anheddiad;**

**a**

**iv) lle y mae'r adeilad newydd wedi'i fwriadu i wasanaethu'r angen canfyddedig am dai yn y gymuned.**

**2. Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sy'n gwasanaethu'r ardal, a gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli gwasanaeth / cyfleuster cymunedol (gweler Polisi 50).**

**3. Cynigion i alluogi llety preswyl i wasanaethu angen Menter Wledig hanfodol.**

**4. Cynigion i alluogi Menter Wledig ac arallgyfeirio ffermydd (gweler Polisi 38 a Pholisi 43 hefyd).[44]**

**5. Cynigion ar gyfer atyniadau twristiaeth neu weithgarwch hamdden y mae tystiolaeth yn dangos bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol i'w swyddogaeth (gweler Polisi 48).**

**6. Cynlluniau datblygu effaith isel, yn unol â Datblygiad Un Blaned a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 6 (gweler Polisi 46 hefyd).**

**7. Cynigion yn ymwneud â chynhyrchu bwyd yn lleol sy'n briodol i'r lleoliad cefn gwlad o ran graddfa a chymeriad, gan gynnwys darparu adeiladau fferm newydd lle y gellir profi bod angen amaethyddol yn hanfodol.**

**8. Cynigion yn ymwneud â darparu ynni adnewyddadwy sy'n briodol i'r lleoliad cefn gwlad o ran graddfa, math ac effaith (gweler SP9 hefyd).**

[44] Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 9.3.6 a *Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010).

# PENNOD 5: LLINIARU EFFAITH

## 5.0 Lliniaru Effaith mewn Lleoliad Twf

1.1 Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni cynigion ar gyfer datblygiad yn y dyfodol a alluogir trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi amlygu meysydd cyfyngiad allweddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy wrth ffurfio cynigion ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Mewn llawer o amgylchiadau, bydd y meysydd cyfyngiad allweddol yn golygu bod angen cymryd camau y tu hwnt i awdurdodaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol, ac felly bydd angen i'r datblygwr, rhanddeiliaid allweddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol gydweithio.

1.2 Gallai goresgyn cyfyngiadau a amlygwyd o'r broses cais cynllunio olygu bod angen i'r datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol gydweithio er mwyn sicrhau y gellir cyflawni datblygiadau heb gael effaith niweidiol annerbyniol ar y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau. Er mwyn hwyluso dehongli, mae'r materion hyn wedi'u categoreiddio a'u diffinio yn nhabl 5.1 isod yn ôl ardaloedd. Amlygir rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant statudol yn y maes cyfyngiad ar gyfer pob mater.

| **Cod Ardal** | **Mater Allweddol** | **Rhanddeiliad Allweddol** |
|---|---|---|
| A | ***Arwyddocâd Bioamrywiaeth***<br><br>Gallai datblygiad gael effaith ar gynefin blaenoriaeth a restrwyd o dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau 2006 (cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig iawn i Gymru). Mae'n bosibl y bydd angen cynnal arolwg bioamrywiaeth llawn a llunio cynllun rheoli mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer datblygiad. Mae'n bosibl y gofynnir am Rwymedigaethau Cynllunio a allai fod yn angenrheidiol i liniaru a gwella effaith bosibl o ddatblygiad. Ceir dyletswyddau ychwanegol i wneud iawn am golli cynefin a gwella cynefinoedd perthnasol. | Cyfoeth Naturiol Cymru/ Ecolegwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| B | ***Rheoli Dŵr***<br><br>Bydd angen rheoli dŵr yn rhagweithiol er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn y dyfodol yn gwaethygu'r perygl o lifogydd yn y dyfodol a/neu'n rhoi pwysau ar adnoddau dŵr ehangach.<br><br>Gallai datblygiad fod yn ddibynnol ar gynhyrchu a gweithredu cynllun rheoli dŵr gweithredol. Byddai cynllun o'r fath yn bodloni'r gofyniad mwyaf am Ddŵr a Dŵr Ffo Wyneb yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy a safonau BREEAM. Bydd unrhyw ofynion angenrheidiol eraill y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Statudol partner yn ystyried eu bod yn briodol i natur y safle a'r lleoliad, fel mesurau arbed dŵr, yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddatblygiad yn | Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | y dyfodol (gweler Polisi 11 hefyd). | |
| C | ***Sefydlogrwydd Tir a phosibilrwydd o Halogiad***<br><br>Mae defnydd tir blaenorol wedi arwain at ansefydlogi neu halogi'r tir.<br><br>O ran safleoedd a ddyrannwyd, dylai datblygwyr sefydlu pa un a ystyriwyd bod gwaith adfer yn angenrheidiol o dan ofynion datblygu.<br><br>O ran safleoedd heb eu dyrannu, dylai datblygwyr gysylltu â'r Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd perthnasol i bennu hyd a lled y materion.<br><br>Lle yr amlygir bod tir yn ansefydlog neu wedi'i halogi, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod ansawdd y pridd yn cael ei archwilio'n llawn a, lle y bo'r angen, bod peryglon yn cael eu dileu, eu rheoli neu eu lliniaru er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Statudol partner cyn i'r datblygiad symud yn ei flaen. | Yr Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd perthnasol / Yr Awdurdod Glo (mewn perthynas â safleoedd yr effeithiwyd arnynt gan weithgareddau cloddio blaenorol) |
| Ch | ***Capasiti Priffyrdd***<br><br>Amlygwyd bod y rhwydwaith priffyrdd dan bwysau neu'n gyfyngedig mewn ffyrdd eraill.<br><br>O ran safleoedd a ddyrannwyd, dylai datblygwyr sefydlu pa un a ystyriwyd bod gwelliannau i briffyrdd yn angenrheidiol o dan ofynion datblygu ac wedi'u cynnwys mewn cynlluniau dylunio neu drwy Rwymedigaethau Cynllunio.<br><br>O ran safleoedd heb eu dyrannu, dylai datblygwyr gysylltu â'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol i bennu hyd a lled y mater a dod i gytundeb ynglŷn â mesurau lliniarol i'w cynnwys yn y cynllun dylunio, neu drwy Rwymedigaethau Cynllunio, y dylid eu sefydlu cyn cyflwyno unrhyw gais. | Yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol |
| D | ***Seilwaith Dŵr a Charthffosiaeth***<br><br>Mae'r seilwaith trin dŵr, dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn annigonol i gynnal lefelau datblygiad cynaliadwy, ac nid oes unrhyw welliannau rheoleiddio wedi'u cynllunio ar ei gyfer o dan Raglen Buddsoddi Cyfalaf Gyfredol Dŵr Cymru (2010 i 2015). Pe byddai tir y mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol iddo'n cael ei hybu ar gyfer datblygiad cyn buddsoddiad gan Dŵr Cymru, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ariannu'r gwelliannau hanfodol i'r seilwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i ddatblygwyr sefydlu graddau'r cyfyngiad a dod i gytundeb ynglŷn â sut y bydd y mater yn derbyn sylw. | Dŵr Cymru |
| Dd | ***Rhyddhau Tir***<br><br>Mewn ardaloedd o'r fath, mae rhanddeiliaid allweddol wedi gofyn i dir gael ei ryddhau'n raddol tua diwedd cyfnod y cynllun, o 2016 ymlaen. O ran safleoedd a ddyrannwyd, rhoddir rhesymau dros ryddhau'n raddol o dan y gofynion datblygu. Mewn amgylchiadau o'r fath, os gall | Y Corff Statudol perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygwyr ddangos y gellir goresgyn y cyfyngiad cyn y cyfnod rhyddhau a sefydlwyd, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried rhyddhau tir yn gynnar yn ddarostyngedig i amodau a/neu Rwymedigaethau Cynllunio sy'n sicrhau bod y cyfyngiad yn derbyn sylw er bodlonrwydd unrhyw gorff statudol perthnasol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. | |
| E | ***Arwyddocâd Tirwedd Hanesyddol***<br><br>Gallai datblygiad gael effaith ar dirweddau hanesyddol gwarchodedig. Mewn ardaloedd o'r fath, dylai'r dyluniad fod yn ymatebol i natur a chymeriad gosodiad y dirwedd hanesyddol. Mewn rhai amgylchiadau, bydd hyn hefyd yn ddibynnol ar gwblhau arolwg archaeolegol (cofnodi a gwerthuso) cyn unrhyw gynllun datblygu er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol. Dylai datblygwyr gyfeirio at y Gofrestr Tirweddau Hanesyddol i sefydlu lefel y warchodaeth statudol a gynigir i'r ardal. Os yw'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol gofrestredig, bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad fod yn ymatebol i gyd-destun y Dirwedd Hanesyddol mewn cynigion dylunio ac asesu effeithiau'r cynnig yn unol â'r ASIDOHL2 cyhoeddedig, er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol. Lle y mae ymddiriedolaethau archaeolegol wedi awgrymu bod angen i gynllun datblygu gael asesiad ASIDOHL2, amlinellir hyn yn Atodiad 2. | Yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Berthnasol / Tîm Treftadaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| F | ***Cynaliadwyedd Lleoliad***<br><br>O ganlyniad i'r lleoliad anghynaliadwy, disgwylir i unrhyw gynllun gyflawni lefelau dylunio cynaliadwy uwch. Disgwylir i ddatblygiad geisio cyflawni lefel 6 y Cod Cartrefi Cynaliadwy. Bydd yn ofynnol darparu tuag at gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol a / neu Rwymedigaethau Cynllunio angenrheidiol eraill neu unrhyw Rwymedigaethau statudol eraill er mwyn lliniaru effaith y datblygiad newydd ar allyriadau carbon yr anheddiad. | Cynghorwyr y Cod Cartrefi Cynaliadwy / BREEAM<br>Tîm Cymunedau Cynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Ff | ***Bywiogrwydd a Hyfywedd Cymunedol***<br><br>Ardaloedd yw'r rhain lle y mae'r tir sydd ar gael yn effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd y gymuned. Mewn ardaloedd o'r fath, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob datblygiad newydd yn ymatebol i anghenion y gymuned. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr fynd i'r afael â'r angen am dai yn seiliedig ar dystiolaeth Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, rhestrau aros Awdurdod Tai a/neu arolygon o'r angen am dai yn y gymuned.<br><br>Mae'r uchod yn berthnasol i aneddiadau Lefel 4 a Chefn Gwlad. | Galluogwr Tai Gwledig / yr Awdurdod Tai perthnasol |
| G | ***Perygl Llifogydd***<br><br>Diffinnir yr ardaloedd hyn fel rhai sy'n agored i berygl llifogydd yn y dyfodol fel y'i hamlinellir ym Mapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Technegol 15, dylai datblygiad sy'n agored i niwed gael ei ganiatáu ym mharth llifogydd C yn unig os gellir rheoli'r risg er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn dilyn cymhwyso'r profion a amlinellir yn is-adrannau 6, 7 ac atodiad 1 Nodyn Cyngor Technegol 15.<br><br>Yn yr ardaloedd hyn, dylai datblygwyr gyfeirio at y Mapiau Cyngor Datblygu i bennu a yw eu cynnig wedi'i leoli mewn ardal yr amlygwyd ei bod yn agored i berygl llifogydd yn y dyfodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad oni bai y gall yr ymgeisydd brofi er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn dilyn cymhwyso'r profion a amlinellir yn is-adrannau 6, 7 ac atodiad 1 Nodyn Cyngor Technegol 15, y gellir rheoli'r perygl llifogydd fel rhan o'i gynnig. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu bod angen paratoi Asesiad Canlyniadau Llifogydd a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd. | |

*Tabl 5.1 Cyfyngiadau Ardaloedd*

# PENNOD 6: TAI

## 6.1 Graddfa'r Ddarpariaeth Tai

6.1.1 Mae graddfa'r ddarpariaeth tai yn y Parc Cenedlaethol wedi'i seilio ar asesiad cadarn o ofynion yn y dyfodol sy'n adlewyrchu'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru, sef y dylai rhagamcanion aelwydydd diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad ar lefel awdurdod lleol fod yn fan cychwyn ar gyfer asesu'r gofynion am dai.

6.1.2 Gan gydnabod y rhwymedigaethau statudol a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd 1995, sy'n diffinio dibenion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae'r cyflenwad tai i fodloni'r gofyniad a nodwyd yn adlewyrchu'r egwyddorion Capasiti Amgylcheddol sy'n sail i'r cynllun cyfan ac a amlinellir yn is-adran 2.4. Felly, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio galluogi lefel o ddatblygiad y gellir ei darparu heb gael effaith annerbyniol ar y dibenion y mae'r Parc Cenedlaethol wedi'i ddynodi ar eu cyfer, a'i nodweddion arbennig.

6.1.3 Amlinellir y gofyniad canfyddedig am dai ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym 'Mholisi 24', ac mae Polisi SP5 yn nodi faint o dai sydd i'w darparu yn ystod cyfnod y cynllun.

**Polisi 24**
**Y Gofyniad am Dai**

**Y gofyniad canfyddedig am dai ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw 1990 o anheddau rhwng 2007 a 2022.**

6.1.4 Mae'r Cynllun yn ceisio bodloni'r gofyniad am dai trwy ddarparu twf mewn lleoliadau a amlygwyd trwy gyfuno canlyniadau ymgysylltiad cymunedol â Chapasiti Amgylcheddol ardal a'r tir datblygu priodol sydd ar gael i'w ddarparu. Dull o'r gwaelod i fyny ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth leol am yr ardal ac asesiadau technegol o'r gallu i ddarparu.

6.1.5 Wrth fodloni'r gofyniad hwn, mae'r tir a ddarperir ym Mholisi SP5 yn cynnwys yr elfennau canlynol:-

| **Ffynhonnell** | | **Nifer yr Anheddau yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** | **Nifer yr Anheddau Fforddiadwy** |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cwblhau | 2007 - 2012 | 251 | 67 |
| Yn cael eu hadeiladu | 1/4/2012 | 66 | 8 |
| Dyraniadau | 2012-2022 | 960 | 230 |
| Ymrwymiadau | | 326 | 73 (+ swm gohiriedig o £59,000) |
| Safleoedd Bach | | 220 | 53 |
| Safleoedd ar hap | | 150 | 30 |
| Safleoedd Ysgol | | 72 | 14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | | **2,045** | **475 (+ swm gohiriedig o £59,000)** |

**SP5**
**Tai**

**Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi amlygu cyflenwad o dir i ddarparu nifer amcangyfrifedig o 2,045 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun. Dyrennir tir ar gyfer 960 o anheddau yn y safleoedd a amlinellir yn Nhabl 6.1 ac fel y'i dangosir ar y Map Cynigion.**

6.1.6 Bydd tir ar gyfer tai hefyd yn cael ei ddarparu trwy gydol cyfnod y cynllun ar safleoedd defnydd cymysg. Rhestrir y safleoedd hyn yn Nhabl 7.2 ym Mhennod 7.

| | Haen Anheddiad | Anheddiad | Safle | Cod Safle | Nifer yr Anheddau | Nifer yr Unedau Fforddiadwy | Targed Tai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y 5 mlynedd cyntaf** | Y Prif Anheddiad Allweddol | Aberhonddu | Estyniad Caeau Cwmfalldau | CS28 | 66 | 13 | 20% |
| | | Aberhonddu | Gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd | CS132 | 30 | 6 | 20% |
| | Yr Aneddiadau Allweddol | Crucywel | Tir gerllaw Lôn Llangenni | SALT 061 | 20 | 6 | 30% |
| | | Y Gelli Gandryll | Tir gyferbyn â The Meadows | DBR-HOW-A | 62 | 18 | 30% |
| | | Y Gelli Gandryll | Tir yn cyffinio â Brecon Pharmaceuticals | SALT 059 | 5 | 2 | 30% |
| | | Talgarth | Estyniad arfaethedig i T9 | SALT 037 | 15 | 3 | 20% |
| | Aneddiadau Lefel 3 | Bwlch | Tir gerllaw Coedwig Bwlch | DBR-BCH-J | 15 | 3 | 20% |
| | | Gilwern | Dan-y-Bryn a Lancaster Drive | CS102 | 112 | 34 | 30% |
| | | Libanus | Tir gerllaw Pen y Fan Close | DBR-LIB-E | 3 | >1 | 20% |
| | | Llanbedr | Tir gerllaw St Peter's Close | DBR-LBD-A | 8 | 2 | 30% |
| | | Llanigon | Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Sirol Llanigon | DBR-LGN-D | 10 | 3 | 30% |
| | | Llansbyddid | Tir oddi ar Heol St Cattwg | DBR-LPD-A | 10 | 2 | 20% |
| | | Pennorth | Tir gerllaw Ambelside | DBR-PNT-D | 6 | 1 | 20% |
| | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | Yr Anheddiad agosaf – Glangrwyney | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen | CS 66 | 70 | 21 | 30% |
| | | **Cyfanswm** | | | **432** | **114** | |
| Gweddill Cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol | Y Prif Anheddiad Allweddol | Aberhonddu | Cae Slwch House | CS93 | 23 | 5 | 20% |
| | | | Safle i'r gogledd o Camden Crescent ac i'r dwyrain o Gofeb Ryfel Sir Frycheiniog | DBR-BR-A | 38 | 8 | 20% |
| | | | Safle i'r gogledd o Cradoc Close ac i'r gorllewin o Ffynnon Maen-du | DBR-BR-B | 33 | 7 | 20% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd | CS132 | 107 | 21 | 20% |
| | Yr Aneddiadau Allweddol | Crucywel | Tir uwchben y Telebentref | DBR-CR-A | 20 | 6 | 30% |
| | | Defynnog | Glannau Senni | CS138 | 15 | 3 | 20% |
| | | Y Gelli Gandryll | Tir gerllaw'r Orsaf Dân | DBR-HOW-C | 13 | 4 | 30% |
| | Aneddiadau Lefel 3 | Crai | Tir yng Nghrai | CS42 | 9 | 2 | 20% |
| | | | Tir i'r de-orllewin o Walia | CS43 | 6 | 1 | 20% |
| | | Gofilon | Tir yn Nhŷ Clyd | CS 39/69/70/88/89/99 | 93 | 28 | 30% |
| | | Pencelli | Tir i'r de o Dŷ Melys | CS120 | 6 | 1 | 20% |
| | | Pontsticill | Tir ym Mhenygarn | CS55 | 6 | 0 | 0% |
| | | | Tir ar ddiwedd Dan-y-Coed | DBR-PSTC-C | 3 | 0 | 0% |
| | | | Tir i'r gorllewin o Dŷ Pontsticill | CS91 | 6 | 0 | 0% |
| | | Tal-y-bont ar Wysg | Fferm Maesmawr | CS127 | 57 | 11 | 20% |
| | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | Yr Anheddiad agosaf – Talgarth | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru | CS 111 | 93 | 19 | 20% |
| | | **Cyfanswm** | | | **512** | **117** | |
| **CYFAN SWM** | | | | | **960** | **230** | |

*Tabl 6.1 Dyraniadau Preswyl Cyfredol*

| **Anheddiad** | **Wedi'u cwblhau **** | **Yn cael eu hadeiladu **** | **Ymrwymiadau **** | **Dyraniadau **** |
|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 69 (3%) | 38 (2%) | 40 (2%) | 297 (14%) |
| CYFANSWM AR GYFER ABERHONDDU | 69 (3%) | 38 (2%) | 40 (2%) | 297 (14%) |
| CYFANSWM CYFRANIAD ABERHONDDU AT Y CYFLENWAD TAI | **444 (22%)** | | | |
| Crucywel | 24 (1%) | 0 | 0 | 40 (2%) |
| Y Gelli Gandryll | 21 (1%) | 0 | 18 (<1%) | 80 (4%) |
| Pontsenni/ Defynnog | 0 | 0 | 44 (2%) | 15 (<1%) |
| Talgarth | 0 | 0 | 53 (3%) | 15 (<1%) |
| CYFANSWM AR GYFER ANEDDIADAU LEFEL 2 | 45 (2%) | 0 | 115 (6%) | 150 (7%) |
| CYFANSWM CYFRANIAD LEFEL 2 AT Y CYFLENWAD TAI | **310 (15%)** | | | |
| Aneddiadau Lefel 3 | 5 (<1%) | 17 (<1%) | 91 (4%) | 350 (17%) |
| CYFANSWM AR GYFER ANEDDIADAU LEFEL 3 | 5 (<1%) | 17 (<1%) | 91 (4%) | 350 (17%) |
| CYFANSWM CYFRANIAD LEFEL 3 AT Y CYFLENWAD TAI | **463 (23%)** | | | |
| Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 0 | 0 | 0 | 163 (8%) |
| CYFANSWM SAFLE TIR LLWYD A DDYRANNWYD | 0 | 0 | 0 | 163 (8%) |
| CYFANSWM CYFRANIAD SAFLE TIR LLWYD A DDYRANNWYD AT Y CYFLENWAD TAI | **163 (8%)** | | | |
| Aneddiadau Lefel 4 | 21 (1%) | 2 (<1%) | 48 (2%) | 0 |
| CYFANSWM AR | 21 (1%) | 2 (<1%) | 48 (2%) | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GYFER ANEDDIADAU LEFEL 4 | | | | |
| CYFANSWM CYFRANIAD LEFEL 4 AT Y CYFLENWAD TAI | **71 (3%)** | | | |
| Cefn Gwlad Agored | 1 (<1%) | 9 (<1%) | 32 (2%) | 0 |
| CYFANSWM AR GYFER CEFN GWLAD AGORED | 1 (<1%) | 9 (<1%) | 32 (2%) | 0 |
| CYFANSWM CYFRANIAD CEFN GWLAD AGORED AT Y CYFLENWAD TAI | **41 (2%)** | | | |
| **CYFANSWM** | **141 (7%)** | **66 (3%)** | **326 (16%)** | **960 (47%)** |

**SYLWER: nid yw'r tabl hwn yn cynnwys safleoedd bach, safleoedd ar hap na safleoedd ysgol*
***Defnyddiwyd ffigur Cyflenwad Tai o 2,045*

*Tabl 6.2 Dadansoddiad o'r cyflenwad tai*

6.1.7 Mae "Atodiad 1: Gofynion Datblygu" yn rhoi manylion ychwanegol am ofynion datblygu penodol sy'n ymwneud â phob safle a ddyrannwyd. Mae hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chyfyngiadau seilwaith dŵr a charthffosiaeth.

## 6.2 Polisïau Datblygu Tai Manwl

Mae'r polisïau canlynol yn rhoi arweiniad ychwanegol ar ddatblygiad sy'n ymwneud â thai.

### 6.2.1 Adnewyddu Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad

6.2.1.1 Mewn rhai amgylchiadau, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi ceisiadau ar gyfer adnewyddu hen dai lle y rhoddwyd y gorau i'w defnyddio fel annedd. Mae hyn yn unol â CYD LP 1 Galluogi Datblygiad Priodol yng Nghefn Gwlad. Mae cynnal cymeriad yr annedd a'i gosodiad yn elfennau pwysig o'r polisi hwn, ac felly bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu diddymu os rhoddir caniatâd cynllunio. Dylai hyn gyfrannu at warchod cymeriad gwledig y Parc.

6.2.1.2 Yn aml, mae cyn anheddau'n darparu cynefinoedd addas ar gyfer ystlumod. Felly, mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwaith arolygu cyn cyflwyno cais. Mae'n rhaid i bob cynnig gydymffurfio â Pholisi 7 Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir.

6.2.1.3 Bydd angen cynnal arolwg adeileddol lle y bo'n briodol, ac mae'n bosibl y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymgynghori â'r gwasanaeth rheoli adeiladu ynglŷn ag unrhyw gynigion a gyflwynir o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i bob cynnig hefyd gydymffurfio â Pholisi 23 Dylunio Cynaliadwy wrth addasu ac ailddefnyddio adeiladau.

**Polisi 25**
**Adnewyddu Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad**

**Caniateir adnewyddu cyn anheddau yng nghefn gwlad o dan yr amgylchiadau canlynol:**

**a)** **ar adeg y cais, dangosir bod yr adeilad presennol yn meddu ar nodweddion sylfaenol y cyn annedd yn yr ystyr:**

**i) bod yr adeiledd wal gwreiddiol yn gyfan a chadarn i raddau helaeth heb fod angen gwaith dymchwel a/neu ailadeiladu mawr, a'i fod yn dangos yn eglur maint, nifer a lleoliad yr holl agoriadau ffenestri a drysau gwreiddiol; a**

**ii) bod yr adeilad yn dangos tystiolaeth o uchder, siâp a nodweddion gwreiddiol y to;**

**b)** **bod unrhyw waith adnewyddu sy'n ofynnol, lle y bo'n briodol, yn cadw neu'n atgynhyrchu'n ffyddlon maint, nifer a lleoliad yr agoriadau drysau a ffenestri gwreiddiol ac adeiledd y to;**

**c)** **bod y cynnig, gan gynnwys unrhyw estyniad a darparu gwasanaethau a newidiadau yn y cwrtil, yn briodol i raddfa a dyluniad yr adeilad gwreiddiol a'i osodiad;**

**ch)** **nad oes angen cwrtil newydd neu fwy; a**

**d)** **bod modd darparu unrhyw fynediad a chyfleusterau parcio newydd neu fwy heb ddifrod arwyddocaol i osodiad y cynnig neu'r dirwedd amgylchynol.**

### 6.2.2 Dymchwel ac Amnewid Anheddau

6.2.2.1 Nid oes angen caniatâd cynllunio i ddymchwel adeilad oni bai ei fod yn Adeilad Rhestredig neu o fewn Ardal Gadwraeth.

6.2.2.2 Fodd bynnag, mae'n rhaid hysbysu Awdurdod y Parc Cenedlaethol o leiaf 28 diwrnod cyn y bwriedir dymchwel unrhyw adeilad fel y gellir ystyried yr angen i gyflwyno cais cynllunio er mwyn rheoli'r effaith ar adeiladau cyfagos ac ystyried cynlluniau adfer. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn gwneud yn siwr bod yr ymgeisydd wedi cynnal arolygon rhywogaeth priodol er mwyn sicrhau nad yw'r broses o ddymchwel yr adeilad yn effeithio ar unrhyw rywogaethau gwarchodedig.

6.2.2.3 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dymuno gwarchod anheddau sydd â gwerth pensaernïol, hanesyddol a/neu weledol arbennig. Bydd cynigion ar gyfer amnewid adeiladau o'r fath yn cael eu gwrthsefyll. Fodd bynnag, ar gyfer pob annedd arall, mae cynnig ar gyfer amnewid yn cyflwyno cyfle i wella golwg weledol adeilad a'i berthynas â'i osodiad yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol. Felly, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod dyluniad, maint, lleoliad a chwrtil pob annedd y cynigir ei hamnewid yn ystyriol o osodiad y Parc Cenedlaethol.

6.2.2.4 Yn arbennig, byddai cynigion ar gyfer amnewid annedd sy'n golygu cynnydd o fwy na 30% o gynnwys ciwbig yr annedd wreiddiol (yn ychwanegol at hwnnw a ganiateir o dan hawliau datblygu a ganiateir, lle y bônt yn berthnasol), yn cael eu hystyried yn groes i CYD LP 1, SP1 ac SP3.

6.2.2.5 Bydd pob cynnig o'r fath yn cael eu hasesu yn unol ag SP1 a Pholisi 1 er mwyn pennu pa un a yw'r raddfa, y dyluniad a'r cwrtil yn briodol i'w gosodiad.

6.2.2.6 Mae Polisi 26 yn berthnasol i bob cais. Mae arweiniad penodol wedi'i baratoi ar ffurf Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol am sut y bydd ceisiadau ar gyfer amnewid anheddau yng nghefn gwlad yn cael eu hasesu yn ôl meini prawf SP1 a Pholisi 1.

6.2.2.7 Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi er mwyn rhoi mwy o arweiniad ar weithredu'r polisi hwn ar gyfer cynigion yng nghefn gwlad.

**Polisi 26**
**Dymchwel ac Amnewid Anheddau**

**Caniateir ceisiadau i ddymchwel ac amnewid annedd gyfanheddol bresennol o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**i) pan nad yw'r annedd bresennol o werth pensaernïol a/neu hanesyddol a/neu weledol arbennig, y dylid ei gwarchod o'i herwydd; a**

**ii) phan fo dyluniad, maint a lleoliad yr annedd newydd a gynigir yn ystyriol i'r gosodiad.**

**Wrth bennu ceisiadau cynllunio i ddymchwel annedd heb ei hamnewid, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r effaith ar adeiladau cyfagos a manylion adfer y safle.**

### 6.2.3 Estyniadau i Dai ac Adeiladau Atodol

6.2.3.1 Mae darparu a chadw anheddau o faint amrywiol yn rhan bwysig o strategaeth y Cynllun hwn. Gallai estyniadau i anheddau effeithio ar gydbwysedd maint yr anheddau sydd ar gael yn ogystal â lleihau ardaloedd parcio ac amwynder. Gallai estyniadau amhriodol hefyd gael effaith weledol niweidiol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. Caiff estyniadau preswyl priodol eu galluogi trwy Bolisïau Gofodol perthnasol.[45]

6.2.3.2 Felly, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod estyniadau'n rhan isradd o'r adeiledd gorffenedig cyffredinol yn hytrach nag yn oruchafol neu'n ymwthiol. Mae'n rhaid i ardal amwynder breifat a ddarperir fod yn briodol i raddfa'r annedd bresennol a/neu'r annedd a gynigir.

6.2.3.3 Bydd y polisi canlynol yn berthnasol hefyd i bob adeilad atodol y mae angen caniatâd cynllunio arno.

6.2.3.4 Bydd yn ofynnol i bob cynnig fodloni meini prawf polisïau Dylunio Cyffredinol/y Parc Cenedlaethol.

6.2.3.5 Yng Nghefn Gwlad Agored (Hierarchaeth Aneddiadau lefel 5), mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dymuno gwarchod y dirwedd trwy atal gwasgariad o adeiladau i ffwrdd oddi wrth y prif grŵp o amgylch yr annedd wreiddiol. Mae Canllawiau Cenedlaethol yn amlinellu sut y dylai cynigion ar gyfer anheddau newydd yng nghefn gwlad gael eu hystyried.[46] Fodd bynnag, nid yw'n rhoi arweiniad ar ystyried estyniadau i anheddau yng nghefn gwlad. Felly, bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi i arwain y broses o ddehongli'r polisi hwn wrth ystyried cynigion ar gyfer estyniadau i anheddau yng Nghefn Gwlad Agored.

[45] Yn unol â'r lleoliad, cyfeiriwch at BR LP1/K LP1/ S LP2 / LGS LP2/ CYD LP1
[46] Polisi Cynllunio Cymru (para. 9.3.6)

**Polisi 27**
**Estyniadau i Dai ac Adeiladau Atodol**

**Caniateir estyniadau ac adeiladau atodol i anheddau o dan yr amgylchiadau canlynol:**

**a) pan fo'r cynnig yn briodol i raddfa, dyluniad a gosodiad yr annedd wreiddiol;**

**b) pan na fyddant yn arwain at golli lle parcio ar y safle, ac y gellir darparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer yr annedd estynedig;**

**c) pan gedwir ardal amwynder breifat sy'n rhesymol gymesur â maint arfaethedig yr annedd; a**

**ch) phan na fydd preifatrwydd yn cael ei golli'n sylweddol i eiddo cyfagos.**

**Yng Nghefn Gwlad, bydd adeiladau newydd sy'n atodol i ddefnydd domestig annedd yn cael eu grwpio gyda'r annedd.**

## 6.3 Darparu Tai Fforddiadwy

6.3.1.1 Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro polisïau sy'n galluogi darparu tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, yr Awdurdodau Unedol unigol, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel Awdurdodau Tai, sy'n gyfrifol am ddarparu tai fforddiadwy. Hwy sydd hefyd yn gyfrifol am bennu cymysgedd yr unedau sydd i'w darparu (tai cymdeithasol ar rent, tai rhent canolradd, ecwiti a rennir o bob math a deiliadaeth hyblyg). Bydd y gymysgedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar amgylchiadau pob achos gan ddefnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod tai perthnasol.

6.3.1.2 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi sefydlu bod angen amcangyfrifedig am **514** o unedau Tai Fforddiadwy yn ystod cyfnod 5 mlynedd cyntaf y Cynllun. Mae hyn yn cyfateb i **103** o unedau Tai Fforddiadwy y flwyddyn. Sefydlwyd lefel yr angen trwy gydweithredu â phob un o'r Awdurdodau Unedol perthnasol a'r Galluogwyr Tai Gwledig sy'n gweithredu yn y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â thrwy ddadansoddi'r ffynonellau tystiolaeth gorau sydd ar gael ar gyfer pob Awdurdod Unedol cyfansoddol. Mae hyn wedi cynnwys dadansoddi Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, Arolygon Anghenion Lleol ac ystyried adroddiad yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ar yr Angen a'r Galw am Dai yng Nghymru 2006 i 2026.

6.3.1.3 Amcangyfrifir mai lefel yr angen am Dai Fforddiadwy yn ystod cyfnod 15 mlynedd cyfan y Cynllun yw **1248** o anheddau. Mae hyn wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar gymhwyso % ragamcanol twf aelwydydd[47] i lefel yr angen canfyddedig ar gyfer cyfnod 5 mlynedd cyntaf y Cynllun. Bydd paragraff 6.3.1.2 yn cael ei ddiweddaru fel rhan o adolygiad 4 blynedd statudol y Cynllun hwn. Mae Is-adran 11 yn cynnwys ymrwymiad i fonitro'r dystiolaeth o'r angen am Dai Fforddiadwy yn rheolaidd. Gallai adolygiad cynnar o'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei sbarduno pe byddai'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen diwygio'r angen amcangyfrifedig am Dai Fforddiadwy yn gynnar.

[47] Yn seiliedig ar Amcanestyniadau Aelwydydd 2006 Llywodraeth Cymru.

6.3.1.4 Trwy ffurfio'r Strategaeth Ofodol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ystyried sut y gall y Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu orau at fodloni'r angen canfyddedig. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid yn cydnabod bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cynrychioli un dull yn unig o ddarparu tai fforddiadwy. Cydnabyddir hefyd nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyfrifol am gyflawni'r holl angen canfyddedig. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod cyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Unedol cyfagos, y Galluogwyr Tai Gwledig a sefydliadau allweddol eraill.

6.3.1.5 Strategaeth y cynllun hwn yw manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy sy'n codi trwy roi caniatâd cynllunio. Gall y Cynllun Datblygu Lleol hwn gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy mewn 3 ffordd:

i) Galluogi rhyddhau tir ar gyfer tai anghenion cyffredinol yn y Prif Anheddiad Allweddol, yr Aneddiadau Allweddol, Aneddiadau Lefel 3 a'r ddau safle tir llwyd a ddyrannwyd yn Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen a Hen Ysbyty Canolbarth Cymru, a mynnu bod pob cynnig ar gyfer datblygiad sy'n arwain at greu anheddau newydd yn cynnwys cyfraniad at dai fforddiadwy. Mae anheddau newydd yn cynnwys yr is-raniad tai presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig, neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn tai i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy. (Polisi 28)

ii) Galluogi Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy (Polisi 29); ac

iii) Mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig (Polisïau LGS LP 1 ac LGS LP 2) a Chefn Gwlad (Polisi CYD LP1) sy'n caniatáu Tai Fforddiadwy yn unig."

### 6.3.2 Diffiniad o Dai Fforddiadwy

6.3.2.1 At ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol, diffinnir "Tai Fforddiadwy" fel:

- **Tai Cymdeithasol ar Rent**, a ddiffinnir fel eiddo a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'w rhentu ar y cyfraddau rent a argymhellir gan Lywodraeth Cymru a Lefelau Rhent Meincnod (neu gyfwerth); a

- **Thai Canolradd**, lle y mae prisiau neu gyfraddau rhent yn uwch na'r rhai ar gyfer tai cymdeithasol ar rent ond yn is na phrisiau neu gyfraddau rhent tai'r farchnad agored, fel eiddo sydd ar gael ar gyfer rhent canolradd neu berchenogaeth tai rhad[48], yn unol â meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru[49] neu feini prawf cydnabyddedig eraill. Gall hyn gynnwys cynlluniau ecwiti a rennir (er enghraifft *Cymorth Prynu*). Mae tai canolradd yn wahanol i dai rhad ar y farchnad agored, nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried eu bod yn dai fforddiadwy at ddiben y system cynllunio defnydd tir.

- **Cymysgedd a Deiliadaeth**: Bydd cymysgedd a deiliadaeth cynlluniau tai fforddiadwy yn gymesur â'r anghenion a nodwyd yn yr ardal leol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ceisio mynd i'r afael â'r angen canfyddedig lleol mwyaf cywir am dai ar yr un pryd ac ymdrechu i gyflawni cymunedau cytbwys, cynhwysol a

[48] Y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Drafft, mis Mai 2006

[49] Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2006

chynaliadwy. Yn gyffredinol, bydd unedau tai fforddiadwy yn niwtral o ran deiliadaeth er mwyn 'hwyluso hyblygrwydd rhwng deiliadaethau perchen-feddiannaeth a rhentu. Gall tai deiliadaeth niwtral fod ar ffurf tai cymdeithasol ar rent neu rent canolradd, neu ecwiti a rennir / perchenogaeth ar unrhyw adeg benodol.' Mae eiddo deiliadaeth niwtral yn galluogi hyblygrwydd yn y stoc tai fforddiadwy ac ar gyfer meddianwyr unigol.

6.3.2.2 Bydd caniatâd yn ddarostyngedig i amodau cynllunio a/neu bydd Rhwymedigaethau Cynllunio'n cael eu negodi, er mwyn sicrhau bod yr holl feddianwyr cychwynnol a dilynol yn bobl leol y mae angen tai arnynt a fydd yn elwa ar statws fforddiadwy'r annedd.

### 6.3.3 Diffiniad o sut y bydd Angen Lleol yn cael ei sefydlu

6.3.3.1 Trafodir cymysgedd a deiliadaeth tai fforddiadwy ar sail safle unigol i adlewyrchu'r angen canfyddedig lleol am dai.

6.3.3.2 Mae ffynonellau Tystiolaeth Allweddol o angen yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

(i) Yr Asesiad priodol o'r Farchnad Dai Leol
(ii) Y Gofrestr Anghenion Tai Fforddiadwy
(iii) Rhestrau Aros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Unedol cyfansoddol; ac
(iv) Arolygon Anghenion Tai Lleol a gynhaliwyd gan y Galluogwr Tai Gwledig perthnasol

6.3.3.3 **Fodd bynnag, y rhagdybiaeth yw bod angen ym mhob ardal.** Pe byddai ymgeisydd yn herio tystiolaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol o angen, yr ymgeisydd fyddai'n gyfrifol am brofi er bodlonrwydd yr Awdurdod nad oes angen Tai Fforddiadwy yn yr ardal. Ystyrir bod y ffynonellau tystiolaeth a amlygwyd uchod yn briodol a chadarn, a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn eu defnyddio mewn unrhyw sefyllfa apêl.

6.3.3.4 Byddai angen cyfeirio at dystiolaeth briodol gyfredol fel Arolygon Tai Lleol, Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, Arolygon Anghenion Tai Cymunedol, a rhestrau aros Awdurdodau Unedol a Chymdeithasau Tai, er mwyn sefydlu dymunoldeb Tai Fforddiadwy, neu fel arall, i fodloni anghenion unigolion lleol cymwys y mae angen tai o'r fath arnynt. Nid yw'r rhestr hon o ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys popeth ac fe allai newid.

6.3.3.5 Dylid cysylltu â'r Swyddog Strategaeth Dai yn yr Awdurdod Unedol perthnasol i gael gwybodaeth am lefel yr angen cyfredol.

### 6.3.4 Diffiniad o Gysylltiad Lleol

6.3.4.1 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio Meini Prawf Gosodiadau Lleol cyfredol yr Awdurdod Tai Unedol perthnasol.

### 6.3.5 Diffiniad o Ardal Leol

6.3.5.1 Bydd yr ardal y'i hystyrir yn lleol fel arfer o ran anghenion tai yn cael ei diffinio trwy ddull rhaeadru sy'n ehangu, sef:-

i) ardal y Cyngor Tref neu'r Cyngor Cymuned y mae safle'r cynnig wedi'i leoli ynddi, gallai fod angen darpariaeth o fewn neu'r tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol gan fod rhai cymunedau wedi'u lleoli o bob ochr i ffin y Parc Cenedlaethol;

ii) ardaloedd Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned sy'n cyffinio, naill ai o fewn neu'r tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol;

iii) yr ardaloedd Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned agosaf nad ydynt yn cyffinio, sydd o fewn neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol.

### 6.3.6 Dylunio

6.3.6.1 Dylai dyluniad unedau Tai Fforddiadwy adlewyrchu nodweddion yr ardal a/neu weddill y safle tai. Dylai'r gymysgedd o fathau/meintiau tai a deiliadaeth adlewyrchu anghenion lleol a'r stoc Tai Fforddiadwy bresennol yn yr ardal, lleoliad (o ran ei agosrwydd i wasanaethau a chyfleusterau lleol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus) a thopograffeg y safle a'r angen i osgoi problemau rheoli.

### 6.3.7 Targed Cyfraniad Tai Fforddiadwy

6.3.7.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn amcangyfrif y bydd y Cynllun Datblygu Lleol hwn yn darparu ar gyfer cyfanswm o **475** o gartrefi fforddiadwy trwy weithredu Polisi 28 yn ystod cyfnod y cynllun. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn amcangyfrif y bydd **230** o gartrefi fforddiadwy yn cael eu darparu mewn safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (a amlinellir yn Nhablau 6.1 a 6.2). Amcangyfrifir y bydd **245** o unedau ychwanegol yn cael eu darparu mewn safleoedd sydd heb eu dyrannu.

**SP6 Tai Fforddiadwy**

**Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn galluogi darparu Tai Fforddiadwy trwy:-**

**i) Gyfraniadau Tai Fforddiadwy**

**Mynnu bod pob cynnig yn y Prif Anheddiad Allweddol, yr Aneddiadau Allweddol, Aneddiadau Lefel 3 a'r ddau safle tir llwyd a ddyrannwyd yn Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen a Hen Ysbyty Canolbarth Cymru, ar gyfer datblygiad sy'n arwain at gynnydd net mewn tai, yn gwneud cyfraniad at Dai Fforddiadwy (Polisi 28)**

**Bydd hyn yn galluogi darparu oddeutu 475 o unedau Tai Fforddiadwy.**

**ii) Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy**

**Caniatáu eithriad ar gyfer datblygiad preswyl ar safleoedd y tu allan i ffiniau datblygu dynodedig aneddiadau (Polisi 29)**

**iii) Tai Fforddiadwy mewn Aneddiadau Twf Cyfyngedig Lefel 4**

**Mynnu bod pob cynnig mewn aneddiadau twf cyfyngedig Lefel 4, sy'n arwain at gynnydd net mewn tai, yn gyfyngedig i dai fforddiadwy yn unig.**

### 6.3.8 Trothwy

6.3.8.1 Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr wneud Cyfraniadau Tai Fforddiadwy ym mhob cynnig ar gyfer datblygiad ar safleoedd sydd wedi'u lleoli yn y "Prif Anheddiad Allweddol", yr "Aneddiadau Allweddol", "Aneddiadau" a'r ddau safle tir llwyd a ddyrannwyd yn Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen a Hen Ysbyty Canolbarth Cymru, sy'n arwain at greu anheddau newydd y bwriedir eu gwerthu neu eu rhentu ar y farchnad agored, gan gynnwys is-raniad tai presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig, neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn tai.

6.3.8.2 Mae'r diffiniad o Anheddau Newydd Cynnydd Net yn cynnwys is-raniad tai presennol, newid defnydd, neu adeiladau newydd, sy'n arwain at gynnydd net mewn anheddau.

6.3.8.3 Lle y mae safle wedi'i leoli mewn "Aneddiadau Twf Cyfyngedig" neu yng "Nghefn Gwlad", nid yw cyfraniadau'n berthnasol gan nad yw'r Strategaeth Ofodol yn caniatáu tai marchnad agored yn y lleoliadau hyn. Mae cyfraniadau'n berthnasol dim ond mewn achosion lle y cynigir tai ar y farchnad agored.

6.3.8.4 Yn achos trawsnewid adeiladau gwledig yng Nghefn Gwlad, bydd y canllawiau cenedlaethol a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 6 yn berthnasol.

### 6.3.9 Natur y cyfraniad

6.3.9.1 Gwneir cyfraniadau Tai Fforddiadwy naill ai trwy

i) Ddarpariaeth ar y safle;
ii) Symiau gohiriedig; neu
iii) Gymysgedd o'r ddau ddull

6.3.9.2 Darparu tai fforddiadwy ar y safle yw'r dewis a ffefrir. Pennir y dull darparu ym mhob achos yn unol ag amgylchiadau penodol y safle.

6.3.9.3 Pan wneir cyfraniad ar y safle, y datblygwr sy'n gyfrifol am gysylltu â Swyddog Strategaeth Dai yr Awdurdod Unedol perthnasol i sefydlu natur y ddarpariaeth sydd ei hangen o ran cymysgedd a maint deiliadaeth.

### 6.3.10 Targedau Cyfraniad Tai Fforddiadwy

6.3.10.1 Bydd lefel y Cyfraniad Tai Fforddiadwy a geisir yn cael ei phennu yn ôl yr ardal Is-farchnad Dai y mae'r safle wedi'i leoli ynddi. Amlinellir y targedau cyfraniad ym Mholisi 28. Dangosir maint yr ardaloedd is-farchnad ar y Map Cynigion. Ceir rhestr o ardaloedd is-farchnad yn ôl cod post yn Atodiad 12.

6.3.10.2 Rhoddir y fformiwla ar gyfer cyfrifo symiau gohiriedig mewn Canllaw Cynllunio Atodol.

**Polisi 28**
**Cyfraniadau Tai Fforddiadwy**

**Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob cynnig yn y Prif Anheddiad Allweddol, yr Aneddiadau Allweddol, Aneddiadau Lefel 3 (ac eithrio'r rhai hynny yn is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig) a'r ddau safle tir llwyd a ddyrannwyd yn Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen a Hen Ysbyty Canolbarth Cymru, ar gyfer datblygiad a fyddai'n arwain at greu anheddau newydd net i'w gwerthu neu eu rhentu ar y farchnad agored (gan gynnwys is-raniad tai presennol, newid defnydd, trawsnewid adeiladau gwledig, neu adeiladau newydd, lle y ceir cynnydd net mewn anheddau), yn gwneud cyfraniad tai fforddiadwy.**

**Bydd y cyfraniad naill ai trwy ddarparu ar y safle, swm gohiriedig neu gymysgedd o'r ddau ddull. Fodd bynnag, bydd symiau gohiriedig yn dderbyniol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig (lle y gellir dangos nad yw darpariaeth ar y safle yn briodol er mwyn cyd-fynd â Nodyn Cyngor Technegol 2).**

**Bydd lefel y cyfraniad sy'n ofynnol yn unol â'r targedau canlynol**

| | |
|---|---|
| **Is-farchnad y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel:** | **30% fforddiadwy** |
| **Is-farchnad Aberhonddu, Sir Gaerfyrddin a'r Gefnwlad Wledig:** | **20% fforddiadwy** |
| **Is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig:** | **0% fforddiadwy** |

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mabwysiadu ymagwedd gadarn ond hyblyg at y cyfraniad y gofynnir amdano a fydd yn gysylltiedig ag amodau'r farchnad a'u heffaith ar hyfywedd y safle.**

**Pennir natur a lefel y cyfraniad yn unol â phroses asesu a amlinellir mewn Canllaw Cynllunio Atodol sy'n cynorthwyo i weithredu'r polisi hwn.**

**Polisi 29**
**Galluogi Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy**

**Yn eithriadol, caniateir datblygiad ar gyfer Tai Fforddiadwy ar safleoedd o fewn neu'n cyffinio ag aneddiadau priodol ac sy'n ffurfio estyniad rhesymegol iddynt[50], i fodloni angen lleol profedig na ellir ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall, lle y sefydlwyd angen lleol gan arolwg anghenion tai.**

[50] Lle nad yw safle eithriad a gynigir yn cyffinio'n union â ffin y datblygiad oherwydd presenoldeb ffordd, er enghraifft, ni fydd y gwahaniad hwn ynddo'i hun yn atal y safle rhag cael ei ystyried fel eithriad.

**Rhoddir caniatâd yn yr amgylchiadau canlynol:-**

**i) a) lle y gellir rheoli'r anheddau trwy amodau cynllunio a/neu gytundeb cyfreithiol neu ddull arall sy'n cyfyngu eu meddiannaeth yn barhaol i bobl sydd ag angen lleol profedig am lety na ellir ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall; a**

**ii) b) lle y gall y cynnig ddangos:-**

**i) y bydd unrhyw anheddau a adeiledir yn fforddiadwy i'r rhai hynny sydd ag angen profedig; ac**

**ii) y bydd meddianwyr olynol yr eiddo yn cael budd o Dai Fforddiadwy, yn ogystal â'r meddianwyr cychwynnol.**

## 6.4 Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

6.4.1 Nid oes unrhyw safleoedd parhaol i Sipsiwn a Theithwyr yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd. Amlygwyd angen am safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr yn ne Powys. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys o dan nawdd y Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr i ddod o hyd i safle addas. Mae safle wedi'i amlygu gerllaw Parc Menter Aberhonddu a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer darparu 14 o unedau a seilwaith cysylltiedig ar 27 Mawrth 2012. Mae'r safle hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr o dan Bolisi 30. Dangosir maint y safle ar Fap Mewnosod Aberhonddu. Pennir cynigion ar gyfer y safle yn unol â Pholisi 31.

6.4.2 Mae Polisi 31 yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ystyried safleoedd carafán Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn berthnasol i'r safle a ddyrannwyd, ond hefyd i safleoedd a allai gael eu cynnig yn y dyfodol i fodloni angen ychwanegol sy'n codi yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.

6.4.3 Yr Awdurdodau Unedol cyfansoddol sy'n gyfrifol am fonitro'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarperir ac, os bydd angen yn codi am safleoedd ychwanegol neu estyniadau i rai presennol, bydd yr Awdurdod Unedol cyfansoddol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'r cyrff a'r sefydliadau perthnasol i ddarparu tir a/neu lety ychwanegol addas.

6.4.4 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r 'Canllawiau Dylunio Safle Drafft ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru, mis Mai 2008, i helpu i gymhwyso'r meini prawf a amlinellir ym Mholisi 31.

6.4.5 Mae'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar safleoedd Natura 2000 yn annhebygol, ond mae'n dibynnu ar raddfa a lleoliad y safle.

6.4.6 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion sydd wedi'u lleoli o fewn neu, fel eithriad i bolisïau cynllunio arferol, gerllaw anheddiad diffiniedig.

**Polisi 30**
**Safle Sipsiwn a Theithwyr**
**Dyrennir tir gerllaw Parc Menter Aberhonddu ar gyfer darparu safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr. Dangosir y dyraniad ar Fap Mewnosod Aberhonddu.**

**Bydd cynigion ar gyfer y safle yn cael eu hystyried o dan Bolisi 31**

**Polisi 31**
**Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

**Caniateir safleoedd carafán Sipsiwn a Theithwyr yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a)** **lle na fydd y safle arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, cynefinoedd, tirffurfiau, a nodweddion archaeolegol a diwylliannol;**

**b)** **lle na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gymeriad, amwynder a harddwch naturiol y Parc Cenedlaethol ac y bydd yn cael ei sgrinio'n ddigonol. Bydd unrhyw adeiladau sy'n ofynnol i hwyluso'r defnydd (fel adeiladau amwynder a swyddfeydd safle) yn cael eu dylunio gan ddefnyddio deunyddiau lleol priodol;**

**c)** **lle y darperir lefel foddhaol o wasanaethau ar gyfer y safle arfaethedig; a**

**ch)** **lle y bydd gan y safle arfaethedig ddull mynediad digonol, ac na fydd traffig i'r safle neu oddi yno yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch priffyrdd.**

# PENNOD 7: LLES ECONOMAIDD

**Lles Economaidd**

**Amcan Strategol**
**Cyflogaeth**
Darparu ar gyfer economi gynaliadwy gyda chysylltiadau cryf rhwng cyfleoedd cyflogaeth lleol a'r cyflenwad tai.

**Twristiaeth**
Cefnogi diwydiant twristiaeth gynaliadwy sy'n cyfrannu at fwynhad y cyhoedd o'r Parc Cenedlaethol.

# 7.0 Polisi Cyflogaeth

7.0.1 Amlinellir y Weledigaeth ar gyfer lles cymdeithasol ac economaidd y Parc Cenedlaethol yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Er mai amaethyddiaeth fu'n sail i economi'r Parc yn y gorffennol, cydnabyddir mai dim ond degfed ran o'r boblogaeth weithio a gyflogir yn uniongyrchol yn y maes hwn erbyn hyn. Prif gyflogwyr preswylwyr y Parc yw'r sectorau cyhoeddus, ariannol, twristiaeth a manwerthu, ac yna dosbarthu ac arlwyo. Cyflogir 70% o weithwyr y tu allan i weithgareddau cyflogaeth 'B' traddodiadol. Disgwylir i oruchafiaeth gweithgareddau cyflogaeth heb fod yn rhai 'B' barhau ym mhob sector allweddol.

7.0.2 Mae rhannau pwysig o'r economi leol, yn enwedig amaethyddiaeth a thwristiaeth[51], yn uniongyrchol gysylltiedig â dibenion statudol y Parc. Caiff mwy na 2700 o swyddi a mwy na £40 miliwn eu cynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol gan weithgarwch economaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd, sydd oddeutu dwywaith cymaint â chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn dangos sut y mae gwarchod y dirwedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchu incwm i gefnogi cymunedau preswyl y Parc Cenedlaethol. Felly, mae gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at fywyd economaidd. Mae'n debygol y bydd gwerth economaidd cynhenid i'r Parc Cenedlaethol ynddo'i hun wrth i ansawdd y dirwedd a'r amgylchedd ddenu ymwelwyr a busnesau i'r ardal.

7.0.3 Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol[52] yn cynnwys cymunedau iach sy'n gymdeithasol gynhwysol, a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cynaliadwy a ffyniannus, yn unol â'r ddyletswydd statudol. Cyfeiriwyd at gyflogaeth fel mater allweddol sy'n gysylltiedig ag anghenion cymunedol lleol trwy brosesau ymgynghori'r Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw datblygu economaidd yn un o brif gyfrifoldebau'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, gall y Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu at ddatblygu economaidd trwy gyflawni rôl fel ysgogwr pwysig ar gyfer datblygiad, trwy ddyrannu tir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth a thrwy amlinellu'r polisïau a ddefnyddir i ystyried cynigion ar gyfer defnyddiau economaidd.

7.0.4 Y strategaeth ar gyfer cynhyrchu cyflogaeth yw gwella lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol, a amlinellir trwy Bolisi Strategol 12 Lles Economaidd. Mae'r strategaeth yn cydnabod nad yw'r mathau o economïau sy'n cyfrannu at les economaidd y Parc Cenedlaethol o reidrwydd yn rhai sy'n cymryd llawer o dir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth cyffredinol (busnes B1, diwydiannol B2, a Storio mewn Warws a Dosbarthu, B8). Mae gweithio gartref a chyfleusterau byw a gweithio yn cynrychioli cyfran bwysig o weithwyr dosbarth B, tra bod gweithgareddau nad ydynt yn rhai dosbarth B (ffermio, twristiaeth, manwerthu ac ati) yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig yn yr economi leol o ran cyflogaeth uniongyrchol a'u cyfraniad at incwm a gwariant lleol.

**SP12 Lles Economaidd**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad sy'n ceisio gwella lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol lle y maent:**

[51] Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2010, tud. 126
[52] Fel y'i hamlinellwyd yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2010.

**wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n lleihau'r angen i deithio cymaint â phosibl neu sydd wedi'u cysylltu'n dda ag ardaloedd poblogaeth breswyl trwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy; ac**

**a) sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth yn y Prif Anheddiad a'r Aneddiadau Allweddol sy'n briodol i ffurf a chymeriad yr anheddiad a gosodiad y dirwedd[53] (gweler Polisi 35); neu**

**b) sy'n cefnogi cynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy (gweler Polisi SP14); neu**

**c) sy'n cefnogi menter wledig a'r sector amaethyddol, yn uniongyrchol a thrwy arallgyfeirio ffermydd (gweler Polisi 38); neu**

**ch) sy'n cefnogi canol trefi, a/neu siopau gwledig a siopau fferm (gweler Polisi SP13); neu**

**d) sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth mewn gwasanaethau gwyrdd, gan gynnwys cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau carbon ar raddfa briodol (gweler Polisi SP9); neu**

**dd) lle y maent yn digwydd ar safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd sydd angen briff datblygu.**

7.0.5 Mae'n annhebygol y byddai cynigion ar raddfa fawr yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol. Yn ogystal, mae lleoliad y Parc mewn perthynas â chymoedd de Cymru ac ardaloedd trefol de-ddwyrain Cymru yn golygu bod digon o ddarpariaeth ar gyfer defnyddiau o'r fath y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol.[54]

**Polisi 32**

**Gofyniad am Dir ar gyfer Cyflogaeth**

**Y gofyniad canfyddedig am dir ar gyfer cyflogaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yw 1.5ha. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni trwy ddatblygu dyraniadau cyflogaeth a defnydd cymysg at ddibenion Dosbarth B.**

## 7.1. Dyraniadau Cyflogaeth

7.1.1 Mae'r safleoedd a restrir yn Nhabl 7.1 wedi'u dyrannu ar gyfer cyflogaeth. Bydd cynigion ar gyfer cyflogaeth yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi 35, y polisïau gofodol perthnasol ar gyfer yr anheddiad y maent yn digwydd ynddo a holl bolisïau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol.

**Polisi 33**
**Safleoedd Cyflogaeth**

[53] Yn unol â datblygiad a alluogwyd o dan bolisïau gofodol perthnasol B LP1/ T LP1/ CR LP1 a HOW LP1
[54] Yn unol â'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer twf economaidd a amlinellir yn ardal Prifddinas ac ardaloedd Bae Abertawe Cynllun Gofodol Cymru.

**Mae'r safleoedd a restrir yn Nhabl 7.1 wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth (B1, B2, neu B8). Dangosir y dyraniadau ar y Map Cynigion.**

| Cod y Safle | Enw'r Safle | Nodiadau | Anheddiad | Maint (ha) |
|---|---|---|---|---|
| DBR-BR-E1 | Tir ym Mharc Menter Aberhonddu | Dyma'r llain olaf heb ei datblygu sydd ar ôl ar y Parc Menter presennol. | Aberhonddu | 0.8 |
| CS132 | Dyraniad B17 y Cynllun Datblygu Unedol gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, i'r gogledd o'r Ysbyty<br><br>(Safle Defnydd Cymysg y mae 0.5ha ohono wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth) | | Aberhonddu | 0.5 |
| CS26 | Tir yn agos i Hay Road | | Talgarth | 0.6 |
| CS111 | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru (safle Defnydd Cymysg y mae 3500 o fetrau sgwâr (lle llawr) ohono wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth) | | Safle tir llwyd a ddyrannwyd (ar gyfer defnydd B1 neu D2) | 3,500 o fetrau sgwâr |
| CS66 | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (safle Defnydd Cymysg y mae 1.4ha ohono wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflogaeth) | | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 1.4 |
| **Cyfanswm** | | | | **3.3 (+3500 o fetrau sgwâr o le llawr yn Ysbyty Canolbarth Cymru)** |
| **YMRWYMIAD** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CS78 | Tir yn agos i 5th Avenue, Ystad Ddiwydiannol Hirwaun | Er bod anheddiad Hirwaun yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae rhan o Ystad Ddiwydiannol Hirwaun wedi'i lleoli o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Mae rhan wag y safle sydd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol wedi'i dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y defnydd yn aros yn gyson dros y ffin. | Hirwaun | 5 |

*Tabl 7.1*

***Bydd cynigion ar gyfer cyflogaeth yn cael eu hystyried yn unol â'r polisïau gofodol perthnasol ar gyfer yr anheddiad y maent yn digwydd ynddo a holl bolisïau perthnasol eraill y Cynllun Datblygu Lleol.***

## 7.2 Dyraniadau Defnydd Cymysg

7.2.1 O ran pob dyraniad defnydd cymysg, disgwylir i ddatblygwyr lunio a chytuno ar friff datblygu ar gyfer y safle gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer safleoedd defnydd cymysg gael eu cyflwyno fel cynllun cyfan a dangos y gymysgedd briodol o ddefnyddiau yn ogystal â defnydd effeithlon o'r safle cyfan. Bydd briffiau datblygu a chynigion ar gyfer safleoedd defnydd cymysg yn cael eu hystyried yn unol â'r polisïau gofodol perthnasol ar gyfer yr anheddiad y maent yn digwydd ynddo.

**Polisi 34**
**Dyraniadau Defnydd Cymysg**

Mae'r safleoedd a restrir yn Nhabl 7.2 wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd cymysg. Dangosir y dyraniadau ar y Map Cynigion.

| **Cod y Safle** | **Enw'r Safle** | **Anheddiad** | **Maint** |
|---|---|---|---|
| CS132 | Dyraniad B17 y Cynllun Datblygu Unedol gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, i'r gogledd o'r Ysbyty (safle a ddyrannwyd ar gyfer tai (4.55ha) a chyflogaeth (0.5ha)) | Aberhonddu | 5.05 |
| SALT 037 | Estyniad arfaethedig i T9 (a ddyrannwyd ar gyfer tai (0.5ha) ac ysgol gynradd newydd (1.56ha) | Talgarth | 2.06 |
| CS66 | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (safle a ddyrannwyd ar gyfer tai (3.7ha), cyflogaeth (1.4ha), a'r gweddill i gynnwys cyfleusterau cymunedol a man agored) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 24.4 |
| CS111 | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru (a ddyrannwyd ar gyfer tai, cyflogaeth a defnydd cymysg) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 13.6 |
| **CYFANSWM** | | | **45.11** |

*Tabl 7.2 Dyraniadau Defnydd Cymysg*

7.2.2 Mae proffil cynaliadwyedd yr aneddiadau Lefel 3 a 4 yn golygu nad ydynt yn lleoliadau addas ar gyfer defnyddiau cyflogaeth cyffredinol. Fodd bynnag, bydd cynigion ar gyfer datblygiad Dosbarth B neu ddefnyddiau eraill sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau perthnasol y Cynllun.

7.2.3 Bydd angen cynnal asesiad o effaith y datblygiad ar draffig. Ni chaniateir cynigion sy'n achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol na ellir eu lliniaru (gweler Polisi 59 – Polisi Traffig manwl).

**Polisi 35**
**Datblygiad sy'n Creu Cyflogaeth**

**Caniateir datblygiadau sy'n cynhyrchu cyflogaeth Dosbarth Defnydd B, gan gynnwys cynigion byw a gweithio newydd, lle y maent wedi'u lleoli ar;**

**a) Safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd; neu**
**b) Safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd; neu**
**c) Ystadau diwydiannol neu barciau busnes presennol; neu**
**ch) Sydd o fewn neu'n agos i ffiniau aneddiadau lle y dangoswyd er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol nad oes safle cyflogaeth addas presennol neu a ddyrannwyd ar gael; neu**
**d) Sydd o fewn cwrtil anheddau yng nghefn gwlad; a**
**dd) Lle y mae graddfa'r cynnig yn briodol i'w leoliad; a**
**e) Lle na fydd natur a lleoliad y cynnig yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar amwynder yr ardal amgylchynol; a**

**f) Lle y gellir darparu mynediad digonol i wasanaethu'r datblygiad heb gael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd presennol; a**
**ff) Lle na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol neu adnoddau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.**

7.2.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys datganiadau eglur ynghylch polisi rheoli datblygiad cenedlaethol o ran datblygiadau cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Cyfeiriwch at Bennod 7 'Cefnogi'r Economi'. Fodd bynnag, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod mentrau a busnesau bach yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth gynnal economi fywiog mewn ardaloedd gwledig ac yn cyfrannu at gynnal a gwella cynaliadwyedd cymunedol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion ar gyfer datblygu busnesau newydd ac ymestyn mentrau presennol pan fo'r cynigion hynny'n briodol o ran graddfa a lleoliad.

**Polisi 36**

**Galluogi Defnydd Cyflogaeth Dosbarth Defnydd B y tu allan i Ffiniau Aneddiadau a Meintiau Aneddiadau**

**Yn eithriadol, bydd datblygiad ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1, B2 neu B8 yn cael ei ganiatáu ar safleoedd sy'n cyffinio ag aneddiadau priodol ac yn ffurfio estyniad rhesymegol iddynt er mwyn bodloni angen profedig na ellir ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall. Rhoddir caniatâd yn yr amgylchiadau canlynol;**

**a) Pan fydd busnes sefydledig yn dangos er bodlonrwydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol na all ymestyn ar ei safle presennol ac nad oes unrhyw safleoedd addas eraill ar gael yn yr anheddiad; a**
**b) Phan fydd graddfa'r cynnig yn briodol i'w leoliad; ac**
**c) Na fydd natur a lleoliad y cynnig yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar amwynder yr ardal amgylchynol; ac**
**ch) Y gellir darparu mynediad digonol i wasanaethu'r datblygiad heb gael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd presennol; ac**
**d) Na fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol neu adnoddau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.**

7.2.5 Mae'r polisi a'r cyngor canlynol yn rhoi arweiniad ychwanegol ar warchod safleoedd cyflogaeth.

## 7.3 Gwarchod Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth

| **Y Prif Anheddiad Allweddol** | |
|---|---|
| Aberhonddu | Ceir dau safle diwydiannol mawr yn Aberhonddu:-<br>• Parc Menter Aberhonddu (Warren Road)<br>Mae un llain wag ar ôl sydd wedi'i dyrannu ar gyfer cyflogaeth.<br>• Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech |

| | |
|---|---|
| | Mae safle Ffrwdgrech yn parhau i ddarparu llety ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau diwydiannol. |
| **Yr Aneddiadau Allweddol** | |
| Talgarth | Parc Busnes Talgarth<br><br>Parc busnes newydd ar gyrion Talgarth. |
| Crucywel | Ceir 2 safle diwydiannol yng Nghrucywel,<br>• Parc Busnes Elvicta<br>Ni nodwyd unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd cyflogaeth ychwanegol ar raddfa fach oherwydd bod safle presennol Elvicta o fewn parth llifogydd C2, ac felly nid yw'n briodol ar gyfer ymestyn hapfasnachol<br>• Ystad Ddiwydiannol Parc Granada.<br>Nid oes unrhyw alw sylweddol am unedau cyflogaeth yn y ddau safle hyn ar hyn o bryd gan fod y ddau'n cynnwys unedau gwag. |
| Y Gelli Gandryll | Ceir dwy ystad ddiwydiannol yn y Gelli Gandryll.<br><br>• Parc Busnes Dyffryn Wysg;<br><br>Brecon Pharmaceuticals sy'n cynnig amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth gan gynnwys B1 Busnes, B2 Diwydiannol Cyffredinol a B8 Storio neu Ddosbarthu.<br><br>• Ystad Ddiwydiannol Greenfield:<br><br>Cymysgedd o unedau storio a busnesau bach unigol sydd yn y safle hwn yn bennaf. |
| Pontsenni a Defynnog | Ystad ddiwydiannol fach sy'n cynnwys dau fasnachwr amaethyddol, melin ac iard trin pren. |
| **Aneddiadau Lefel 3** | |
| Gilwern | Ystad Ddiwydiannol Parc Gilwern<br><br>Meddiannir canran fawr o'r safle gan Northern Automotive Systems sy'n cynnig ystod o wahanol gyfleoedd cyflogaeth o fewn dosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8.<br><br>Mae gweddill y safle'n cynnwys busnesau unigol llai a chanolfan hyfforddi. |

*Tabl 7.2:Ystadau Diwydiannol/Parciau Busnes Presennol*

7.3.1 Yn unol â strategaeth gyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Cynllun yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth cyffredinol ar safleoedd presennol neu safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun ar gyfer cyflogaeth neu ddefnydd cymysg. Felly, ni chaniateir colli tir neu adeiladau presennol neu a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth i ddefnyddiau eraill yn amhriodol, oni bai bod buddion o'r pwys mwyaf y gellir eu priodoli i'r datblygiad newydd neu os oes digon o le ar gael mewn man arall yn ardal y gymuned. At ddiben Polisi 37, mae 'Safleoedd ac adeiladau cyflogaeth' yn golygu safleoedd ac adeiladau (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu heb eu meddiannu) a chanddynt ddefnydd cyflogaeth cyfreithlon neu a ddyrannwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth.

7.3.2 Mewn Aneddiadau Allweddol, ond yn enwedig mewn aneddiadau llai Lefel 3 a Lefel 4, mae tir ar gyfer defnydd cyflogaeth yn gyfyngedig ac fe all fod pwysau i'w drawsnewid i ddefnyddiau preswyl mwy proffidiol. Mae tir ar gyfer cyflogaeth yn yr aneddiadau hyn yn gwneud cyfraniad hollbwysig at gynaliadwyedd lleol ac yn cynyddu cyfleoedd i bobl fyw a gweithio yn yr un anheddiad, sef mater allweddol a amlygwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol hwn. Felly, mae'n arbennig o bwysig gwarchod safleoedd cyflogaeth presennol mewn aneddiadau Lefel 3 a 4 i'w hailddefnyddio ar gyfer cyflogaeth, ac atal eu hailddatblygu at ddibenion eraill a fyddai'n dileu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm o'r gymuned leol.

7.3.3 Mae Polisi 37 yn mynnu bod ymgeiswyr yn dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol nad yw defnydd cyflogaeth yn hyfyw nac yn briodol mwyach yn y safle datblygu arfaethedig. Dylai tystiolaeth o hyfywedd cadw defnyddiau presennol gynnwys cynnig y safle neu'r adeilad i'w werthu ar y farchnad agored am flwyddyn o leiaf am bris realistig. Bydd priodoldeb y defnydd presennol yn cael ei farnu o safbwynt cydweddoldeb natur a graddfa'r defnydd yn yr ardal leol a'i effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Bydd yr asesiad o ddarpariaeth arall ddigonol yn yr ardal yn ystyried capasiti defnyddiau presennol, adeiladau gwag sydd ar gael a safleoedd a dyraniadau cyflogaeth.

7.3.4 Pan fydd ymgeisydd yn gallu dangos cyfiawnhad dros newid defnydd o ddefnydd cyflogaeth, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio defnyddio dull rhaeadru er mwyn sicrhau bod y tir yn parhau i wneud cyfraniad at yr economi a'r gymuned.

**Polisi 37**
**Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth**

**Caniateir newid defnydd o ddefnyddiau cyflogaeth cyffredinol (dosbarthiadau defnydd B1, B2, B8) dim ond lle y mae'r ymgeisydd wedi dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol:**

**a) bod natur a/neu raddfa'r defnydd presennol yn amhriodol i'r ardal; neu**
**b) fod digon o adeiladau cyflogaeth eraill ar gael yn y gymuned; a**
**c) bod y potensial ar gyfer parhau i ddefnyddio'r safle neu'r adeilad at ddefnydd cyflogaeth wedi'i ystyried yn llawn trwy farchnata'r safle ar lefelau marchnad rhesymol am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf yn union cyn cyflwyno'r cais.**

**A;**
**Lle y dangosir cyfiawnhad dros golli'r safle cyflogaeth o dan y meini prawf uchod, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio dull rhaeadru wrth ystyried defnyddiau gwahanol, er mwyn rhoi blaenoriaeth i weithgareddau eraill sy'n cynhyrchu cyflogaeth a**

**fydd yn sicrhau bod y safle'n gallu parhau i gyfrannu at les economaidd cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.**

## 7.4 Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig Presennol yng Nghefn Gwlad

7.4.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys datganiadau eglur ynghylch polisi rheoli datblygiad cenedlaethol o ran ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig presennol. Cyfeiriwch at Bennod 7 'Cefnogi'r Economi'.

7.4.2 Mae paragraff 7.6.9 yn hybu ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd economaidd. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau masnachol, twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at drawsnewid yr adeiladau hyn lle y gallant gydymffurfio â pholisïau eraill y Cynllun hwn.

7.4.3 Mae paragraff 7.6.10 yn amlinellu polisi eglur mewn perthynas â'r amgylchiadau lle y bydd trawsnewid adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl yn dderbyniol. Yn arbennig, mae'n mynnu bod yn rhaid profi hyfywedd cadw defnydd cyflogaeth. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi i roi mwy o arweiniad ar ddehongli'r Polisi Cenedlaethol yn y Parc Cenedlaethol.

7.4.4 Mae Polisi Gofodol CYD LP 1 yn amlinellu'r math o ddefnyddiau sy'n briodol yng nghefn gwlad (Lefel 5).

## 7.5 Amaethyddiaeth a Choedwigaeth

7.5.0 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys datganiadau eglur ynghylch polisi rheoli datblygiad cenedlaethol o ran amaethyddiaeth a choedwigaeth. Cyfeiriwch at Bennod 7 'Cefnogi'r Economi'.

### 7.5.1 Tai ar gyfer Anghenion Menter Wledig Hanfodol

7.5.1.1 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd datblygiad i alluogi tai i gefnogi anghenion Menter Wledig hanfodol mewn lleoliadau cefn gwlad yn cael ei ystyried yn ôl y gofynion a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).

7.5.1.2 Wrth ystyried y "Prawf Gofynion Cynllunio eraill" (fel y'i hamlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 6) ar gyfer Anheddau Menter Wledig newydd, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod yr ymgeisydd yn dangos

- Bod lleoliad yr annedd wedi'i ystyried er mwyn sicrhau na fydd yn cael unrhyw effaith niweidiol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol neu dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- Bod y dyluniad yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl

- Bod modd gwasanaethu'r cynnig yn briodol heb gael effaith niweidiol ar amgylchedd y Parc Cenedlaethol.

7.5.1.3 Bydd yn ofynnol i geisiadau am ddiddymu amodau meddiannaeth Annedd Menter Wledig a/neu amodau meddiannaeth Annedd Amaethyddol ddarparu tystiolaeth er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod yr annedd wedi bod ar y farchnad i'w gwerthu neu ei rhentu am bris sy'n adlewyrchu'r amod meddiannaeth am 18 mis o leiaf.

### 7.5.2 Arallgyfeirio Ffermydd gan gynnwys Siopau Fferm

7.5.2.1 Fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, caniateir arallgyfeirio ffermydd lle y mae'r defnydd yn cael ei gynnig ar y cyd â gweithrediadau amaethyddol.

7.5.2.2 Mae arallgyfeirio ffermydd yn cynnig manteision allweddol ar gyfer twf economaidd-gymdeithasol cymunedau gwledig

- gan ganiatáu ar gyfer creu cyfleoedd masnachol i ddarparu cyflogaeth wledig sy'n defnyddio adnoddau presennol; ac
- sy'n cynnig incwm ychwanegol, gan felly helpu i gynnal hyfywedd unedau fferm unigol neu alluogi'r uned deulu i aros yn y gymuned a chael cyflogaeth hyfyw.

7.5.2.3 Wrth ystyried cynigion datblygu ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio ffermydd, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ailddefnyddio adeiladau presennol yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn bosibl, gellid ystyried adeilad newydd a ddyluniwyd yn ystyriol o fewn y cyfadeilad fferm presennol.

7.5.2.4 Mae arallgyfeirio ffermydd yn tueddu i ddigwydd mewn lleoliadau a allai fod ymhell o brif ganolfannau ac sydd yn aml â ffyrdd lleol o safon isel yn arwain atynt. Felly, mae'n bosibl y bydd cynigion ar gyfer arallgyfeirio ffermydd yn groes i bolisïau trafnidiaeth os na ellir eu gwasanaethu gan ddulliau heblaw am gar preifat. Gallent hefyd gynhyrchu traffig ychwanegol na fydd y ffordd yn gallu ymdopi ag ef. Fel y cyfryw, mae'n bosibl y bydd angen i gynlluniau arallgyfeirio ffermydd fynd i'r afael â materion cynhyrchu traffig yn unol â pharagraff 3.14 Nodyn Cyngor Technegol 18.

7.5.2.5 Mae Polisi 38 yn amlinellu sut y bydd ceisiadau ar gyfer arallgyfeirio ffermydd yn cael eu hystyried yn y Parc Cenedlaethol.

**Polisi 38**
**Arallgyfeirio Ffermydd**

**Caniateir cynigion ar gyfer arallgyfeirio ffermydd yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a)** **pan fo'r arallgyfeirio arfaethedig yn briodol i'r amgylchedd a'r gosodiad yn y Parc Cenedlaethol o ran dwysedd defnydd, ac na fydd yn cael unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar fywiogrwydd a hyfywedd unrhyw dref neu bentref cyfagos, naill ai ynddo'i hun neu drwy effaith gronnol;**

**b)** **pan na fydd yn peryglu swyddogaeth tir amaethyddol amgylchynol;**

**c)** **pan gynhelir darpariaeth ddigonol ar gyfer storio deunyddiau/offer;**

**ch) pan ddarperir digon o le parcio i wasanaethu anghenion y cynllun arallgyfeirio; a**

**d) phan fo unrhyw adeiladau newydd neu drawsnewidiadau neu adeiladau presennol sy'n ffurfio rhan o'r cynnig o fewn neu'n union gyfagos i'r grŵp o adeiladau presennol sy'n creu cyfadeilad y fferm ac yn unol â maen prawf 2 Polisi CYD LP1 a Pholisi 23**

7.5.2.6 Mae'r rhestr ganlynol yn nodi rhai o'r mathau o ddatblygiad yr ystyrir eu bod yn arallgyfeirio ffermydd – sylwer nad yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac y gallai unrhyw gynllun a allai weithredu'n ategol i weithgarwch amaethyddol o fewn fferm bresennol gael ei ddosbarthu fel cynllun arallgyfeirio fferm. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn diffinio arallgyfeirio ffermydd fel *Defnydd entrepreneuraidd o adnoddau fferm at ddiben nad yw'n amaethyddol er mwyn gwneud elw masnachol*. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o blaid arallgyfeirio ffermydd ac yn fodlon ystyried unrhyw gynllun arloesol a chynaliadwy i gryfhau'r economi wledig lle y byddai cynllun o'r fath yn cael effaith isel ar yr amgylchedd.

- Gosod adeiladau at ddefnydd nad yw'n ymwneud â ffermio
- Llety ac arlwyo i dwristiaid
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden
- Prosesu / manwerthu cynnyrch fferm
- Cynlluniau cynhyrchu ynni ar raddfa fach, gan gynnwys ynni o wastraff (gweler Polisi 63)

### 7.5.3 Gweithgareddau Economaidd Gwledig Eraill

7.5.3.1 Gall amrywiaeth o weithgareddau y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer ddigwydd yng nghefn gwlad, boed hynny ar ddaliad amaethyddol fel arallgyfeirio neu ar dir nad yw'n amaethyddol. Amlinellir graddfa a natur datblygiad priodol yng nghefn gwlad yn y Polisi Cenedlaethol ac fe'i mireinir ym Mholisi Gofodol CYD LP 1. Mae'r polisïau canlynol yn ymwneud â datblygiad a allai, er ei fod yn gyffredin yn y Parc Cenedlaethol, gael effaith arwyddocaol ar y dirwedd a'r amgylchedd, ac felly y mae angen rhoi sylw arbennig iddo wrth bennu ceisiadau o'r fath.

*Datblygiad sy'n ymwneud â cheffylau*

7.5.3.2 Mae gweithgarwch marchogol y tu allan i ddiffiniadau gweithgarwch amaethyddol pan gedwir ceffylau ar dir am resymau heblaw am bori am borthiant. Nid yw cadw ceffylau ar dir at ddibenion ymarfer neu hamdden yn cael ei ystyried yn amaethyddol, gan fod pori yn digwydd yn anorfod o ganlyniad. Felly, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir i gadw ceffylau ac ar gyfer gweithgareddau marchogol.

7.5.3.3 Mae defnyddio tir ar gyfer pori ceffylau neu weithgarwch marchogol yn ychwanegiad cyfreithlon at incwm tirfeddianwyr a ffermwyr. Mae marchogaeth yn weithgaredd hamdden poblogaidd ac yn cyfrannu at yr economi dwristiaeth leol. Mewn rhai achosion, gall datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau marchogol gael effaith arwyddocaol ar dirwedd ac amgylchedd y Parc Cenedlaethol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio galluogi datblygiad marchogol lle na fydd yn cael unrhyw effaith ar y dirwedd a lle y mae'r datblygiad yn cyd-fynd yn llawn â datblygiad presennol yng nghefn gwlad.

**Polisi 39**
**Cyfleusterau Marchogol**

**Caniateir cynigion datblygu ar gyfer stablu, cyfleusterau marchogol neu ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau marchogol yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) pan fydd y cyfleuster wedi'i grwpio o fewn cyfadeilad fferm presennol, neu wedi'i leoli mor agos â phosibl i adeiladau presennol;**

**b) pan fydd dwysedd defnydd y datblygiad arfaethedig yn briodol i'r amgylchedd a'r gosodiad yn y Parc Cenedlaethol;**

**c) pan na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar y dirwedd neu'r bywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol; a**

**ch) phan ellir darparu mynediad a pharcio addas ar gyfer faniau ceffylau ac unrhyw lefel arfaethedig o weithgarwch masnachol.**

7.5.3.4 Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir (sy'n cynnwys adeiladau) i storio carafanau, pa un a fydd pobl yn byw ynddynt ai peidio. Yr ardaloedd mwyaf cyffredin a ddefnyddir i storio carafanau yw tir amaethyddol agored, adeiladau fferm gwag, tir neu adeiladau sy'n weddill ar safleoedd diwydiannol neu garej. Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio pob un o'r rhain neu unrhyw dir neu safle arall i storio carafanau (ni fydd angen caniatâd fel arfer i storio carafán o fewn cwrtil domestig, cyn belled ag y bo'r garafán yn gysylltiedig â defnyddio'r eiddo fel annedd). Wrth ystyried addasrwydd unrhyw safle at ddefnydd o'r fath, mae'n bwysig ystyried yr effaith ar y dirwedd, mynediad, amwynder unrhyw feddianwyr cyfagos, niferoedd, pa un a yw'n dymhorol neu'n anhymhorol ac ati. Mae hefyd yn bwysig sicrhau rheolaeth dros unrhyw estyniad i'r elfen fasnachol yn y dyfodol o ran defnyddio'r carafanau i bobl fyw ynddynt, hurio neu werthu, gwaith cynnal a chadw, gwaredu carafanau sy'n anaddas i'r ffordd fawr ac ati.

**Polisi 40**
**Storio Carafanau**

**Caniateir storio carafanau yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**a) pan gânt eu lleoli o fewn adeilad presennol. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y bydd y safle arfaethedig yn cael ei integreiddio'n llawn yn y dirwedd trwy'r dopograffeg neu ddefnyddiau tir amgylchynol, yn enwedig pan y'i gwelir o lwybrau cyhoeddus a mannau ffafriol y tu allan i'r safle;**

**b) pan fydd unrhyw blannu neu adeiladu nodweddion ffin sy'n ofynnol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei wneud cyn i unrhyw garafanau gael eu storio ar y safle;**

**c) pan fydd gan y safle arfaethedig ddull mynediad digonol i'r safle sy'n gallu derbyn cerbydau sy'n symud carafanau heb gael effaith niweidiol ar amwynder y briffordd, diogelwch neu'r dirwedd; ac**

**ch) mae'n rhaid i unrhyw weithgarwch masnachol cysylltiedig fel busnes hurio neu wasanaeth cynnal a chadw gydymffurfio â'r holl bolisïau perthnasol yn y bennod hon.**

7.5.3.5 Mae'r polisïau canlynol yn rhoi'r arweiniad ychwanegol sy'n angenrheidiol i weithredu canllawiau polisi yn y Parc Cenedlaethol.

## 7.6 Adeiladau Fferm a Choedwigaeth Newydd

7.6.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau amaethyddol a choedwigaeth.

7.6.2 Yn ogystal, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod yr ymgeisydd yn dangos na ellir bodloni'r angen trwy drawsnewid adeiladau presennol.

**Polisi 41**
**Adeiladau Fferm a Choedwigaeth Newydd**

**Caniateir adeiladau fferm a choedwigaeth newydd yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol a lle y gellir dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol:**

**a) na ellir bodloni'r angen canfyddedig trwy drawsnewid adeiladau presennol; neu**

**b) fod adeilad newydd yn angenrheidiol a'i fod wedi'i leoli'n ystyriol o ran y dirwedd yn unol â Pholisi 1 (datblygiad priodol) a maen prawf 4 CYD LP1.**

## 7.7 Manwerthu

7.7.0.1 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn amlinellu'r polisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar fanwerthu y tu allan i'r dref, arcedau diddanu, siopau fferm, siopau lleol, siopau pentref a thafarndai. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ffatrïoedd a busnesau eraill sy'n gwerthu cynnyrch ac ar fanwerthu mewn gorsafoedd petrol.

7.7.0.2 Mae Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod bod cefnogi Canolfan Fanwerthu gref a bywiog yn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol yn hollbwysig i fywiogrwydd trefi marchnad hanesyddol a'u cymunedau amgylchynol yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer y swyddogaeth fanwerthu yn y Prif Anheddiad Allweddol a phob un o'r Aneddiadau Allweddol. Mae'r rhan hon o'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu'r polisïau sy'n galluogi datblygiad i gefnogi'r Strategaeth Ofodol.

7.7.0.3 Mae'r Tabl isod yn rhoi croesgyfeiriadau polisi perthnasol ar gyfer y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol lle y gellir canfod y polisïau sy'n cynnwys y weledigaeth, yr amcanion a'r meini prawf ar gyfer pob anheddiad.

| | |
|---|---|
| Y Prif Anheddiad Allweddol: | BR LP1, maen prawf 3 |

| | |
|---|---|
| Yr Aneddiadau Allweddol | K LP2, maen prawf 2 |

*Tabl 7.4 Croesgyfeiriadau'r Polisi Manwerthu*

7.7.0.4 Y tu allan i'r Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol, cyfeiriwch at S LP 2, maen prawf 7.

**SP13 Strategaeth Fanwerthu**

Strategaeth fanwerthu'r Cynllun Datblygu Lleol yw cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu a nodwyd a chefnogi cynigion sy'n cyfrannu at adfywio Canol Trefi trwy;

a) Ddiogelu defnyddiau manwerthu presennol yn y Canolfannau Manwerthu;

b) Cynnal a gwella defnyddiau amrywiol yn y Canolfannau Manwerthu a nodwyd;

Amlygir y Ganolfan Fanwerthu ar y Map Cynigion.

### 7.7.1 Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi

7.7.1.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cynnal arolwg manwerthu o'r Prif Anheddiad a'r Aneddiadau Allweddol[55]. Cadarnhaodd yr Arolwg mai'r prif ganolfannau manwerthu yn y Parc Cenedlaethol yw:

- Aberhonddu
- Y Gelli Gandryll
- Crucywel
- Talgarth

7.7.1.2 Mae'r rolau manwerthu a amlygwyd gan yr arolwg yn cefnogi'r rolau strategol ar gyfer pob un o'r trefi hyn a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru. Ystyrir mai Aberhonddu yw'r brif ganolfan fanwerthu, ac yna'r Gelli Gandryll, Crucywel a Thalgarth yn ôl trefn maint a darpariaeth fanwerthu.

7.6.1.3 Dangosir maint y canolfannau manwerthu ar y Map Cynigion fel y "Ganolfan Fanwerthu".

### 7.7.2 Rôl, Swyddogaeth a Bywiogrwydd Canolfannau Manwerthu a Nodwyd

7.7.2.1 **Rôl a Swyddogaeth Aberhonddu, y Gelli Gandryll a Chrucywel.** Mae'r arolwg manwerthu yn darparu tystiolaeth i ddangos bod Aberhonddu, y Gelli Gandryll a Chrucywel, er eu bod yn gweithredu ar wahanol raddfeydd, oll yn drefi marchnad bywiog sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ardaloedd lleol ac amgylchynol ar yr un pryd â gwasanaethu fel cyrchfan i dwristiaid.

7.7.2.2 **Strategaeth Fanwerthu Aberhonddu, y Gelli Gandryll a Chrucywel.** Mewn ymateb i dystiolaeth yr arolwg, y strategaeth fanwerthu ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal lefel y ddarpariaeth fanwerthu sydd ar gael ym mhob tref ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer twf priodol a fydd yn cynyddu bywiogrwydd a hyfywedd manwerthu pob canolfan.

[55] Yn unol â chyfarwyddyd Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS) 02/2002

7.7.2.3 **Canlyniadau Aberhonddu, y Gelli Gandryll a Chrucywel.** Y canlyniad a ddymunir yw gwella gallu'r canolfannau hyn i aros yn fannau deniadol i fyw ynddynt ac ymweld â hwy, ar yr un pryd â chaniatáu iddynt gyflawni rôl werthfawr wrth fodloni anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cefnogi cynigion sy'n ceisio denu cyfleoedd manwerthu arbenigol.

7.7.2.4 **Rôl a Swyddogaeth Talgarth.** Mae'r arolwg manwerthu yn darparu tystiolaeth i ddangos bod rôl Talgarth fel canolfan fanwerthu wedi'i gwanhau ar hyn o bryd gan lefel uchel o unedau gwag a chanran isel o ddefnydd manwerthu dosbarth defnydd A1 yn y ganolfan fanwerthu.

7.7.2.5 Er bod Talgarth a'i hardaloedd amgylchynol yn cyflwyno sawl cyfle ar gyfer gweithgarwch twristiaeth, yn enwedig barcuta, cerdded a beicio mynydd, mae ei safle manwerthu gwan yn ei hatal rhag manteisio ar unrhyw gynnydd posibl mewn gwariant twristiaeth yn y dref ei hun.

7.7.2.6 Gall llawer o unedau gwag a diffyg cyfleusterau gyfleu delwedd negyddol o'r dref nad yw'n adlewyrchiad go iawn o'r asedau a'r cyfleoedd niferus y mae'r dref yn eu cynnig.

7.7.2.7 Felly, mae'r Cynllun yn cydnabod y rôl bwysig y gall gwelliannau i'r ganolfan fanwerthu ei chyflawni o safbwynt adfywiad ehangach Talgarth.

7.7.2.8 **Strategaeth Fanwerth Talgarth mewn ymateb i'r dystiolaeth.** Galluogi cynigion a fydd yn adfywio canolfan fanwerthu'r dref ac felly'n cyfrannu at adfywiad ehangach Talgarth.

7.7.2.9 **Canlyniad Strategaeth Fanwerthu Talgarth.** Y canlyniad a ddymunir yw canolfan fanwerthu wedi'i hadfywio sy'n gwasanaethu preswylwyr lleol ac ymwelwyr.

### 7.7.3 Cefnogi Canol Trefi Presennol

7.7.3.1 Bydd yr Awdurdod yn gwrthsefyll unrhyw gynigion a allai niweidio neu danseilio rôl fanwerthu'r canol trefi a nodwyd trwy gyfyngu datblygiad y tu allan i'r canolfannau manwerthu yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol. Yr eithriad i hyn fydd cydnabyddiaeth o rôl bwysig darpariaeth wledig i gymunedau'r Parc. Anogir darpariaeth fanwerthu ychwanegol yn y lleoliadau hyn lle y mae'n gydnaws â graddfa'r ganolfan. Bydd darpariaeth fanwerthu y tu allan i ganol trefi mewn Aneddiadau Lefel 3 a 4 yn cael ei gwarchod a'i darparu fel cyfleuster cymunedol o dan Bolisïau Gofodol S LP 2 (2 a 7) ac LGS LP 2 (3) a Pholisi 50 manwl.

### 7.7.4 Datblygiad yn y Canolfannau Manwerthu

7.7.4.1 Mae Canolfan Fanwerthu wedi'i diffinio ar gyfer y Prif Anheddiad Allweddol ac Aneddiadau Allweddol y Gelli Gandryll, Talgarth a Chrucywel. Diffinnir maint y Ganolfan Fanwerthu ar y Map Cynigion. Diben y Ganolfan Fanwerthu yw cydnabod bod gwarchod unedau manwerthu presennol yn ganolog i sicrhau bywiogrwydd canol trefi. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cydnabod bod amrywiaeth a gweithgarwch yn hollbwysig i fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. Gall gormod o ddefnyddiau Dosbarth A3, fel siopau

cludfwyd, tafarndai a bwytai, ymddangos mewn trefi, yn enwedig y rhai hynny sy'n denu ymwelwyr, a gall hynny eu gwneud yn llai deniadol i siopwyr. Gellir helpu i atal hyn trwy annog amrywiaeth o ddefnyddiau fel defnyddiau hamdden, bwytai, caffis, orielau a sinemâu. Gall hyn yn ei dro gefnogi'r Ganolfan Fanwerthu trwy leihau angen pobl i deithio i ganolfannau manwerthu y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.

7.7.4.2 Mae Polisi 42 yn ceisio gweithredu'r strategaeth fanwerthu a amlinellwyd ym Mholisi Strategol SP13 trwy

a) Atal newidiadau defnydd a fyddai'n arwain at golli defnyddiau manwerthu presennol. Caniateir newidiadau defnydd dim ond lle y gall yr ymgeisydd ddangos naill ai nad yw'r newid defnydd arfaethedig yn effeithio ar y Ganolfan Fanwerthu, neu nad oes angen defnydd manwerthu mwyach.

b) Annog amrywiaeth o ddefnyddiau mewn canol trefi trwy sicrhau bod pob datblygiad newydd yn y Ganolfan Fanwerthu ar gyfer y defnyddiau canlynol

A1: Siopau
A2: Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol
A3: Bwytai a Chaffis
B1: Busnes
C1: Gwestai
D1: Sefydliadau Dibreswyl
D2: Ymgynnull a Hamdden

c) Sicrhau bod pob newid defnydd sy'n digwydd yn y ganolfan fanwerthu ar gyfer dosbarthiadau defnydd A2, A3, B1, C1, D1 neu D2.

**Polisi 42**
**Datblygiad mewn Canolfannau Manwerthu**

**Yng Nghanolfannau Manwerthu Aberhonddu, y Gelli Gandryll, Crucywel a Thalgarth (fel y'u diffinnir ar y Map Cynigion), caniateir cynigion ar gyfer:**

**a) newidiadau defnydd i unedau manwerthu A1 o Ddosbarthiadau Defnydd A2, A3, B1, C1, D1 neu D2 o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd neu i ddefnydd "*sui generis*" a fyddai'n bodoli fel arfer mewn Canolfan Fanwerthu;**

**neu**

**b) ddatblygiadau newydd o fewn Dosbarthiadau Defnydd A1, A2, A3, B1, C1, D1 neu D2 o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd neu sy'n ddefnydd "*sui generis*" a fyddai'n bodoli fel arfer yn y Ganolfan Fanwerthu honno;**

**neu**

**c) newidiadau i ddefnydd llawr gwaelod safle yn y Canolfannau Manwerthu a nodwyd o Ddosbarth A1 (manwerthu) i ddefnyddiau eraill, dim ond:**

**i) lle nad yw'r newid arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar swyddogaeth fanwerthu neu atynioldeb y Ganolfan Fanwerthu neu'n amharu ar y cysylltiadau pwysig rhwng ffryntiadau siopau; a**

| | |
|---|---|
| **ii)** | **lle nad oes angen defnydd manwerthu yn y lleoliad hwnnw mwyach fel y dangoswyd gan ymarfer marchnata cadarn er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol;** |
| **a lle** | |
| **ch)** | **y mae dyluniad blaen y siop yn briodol ac y byddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a golwg yr ardal; ac** |
| **d)** | **na fyddai cynigion ar gyfer defnyddiau A3 yn achosi aflonyddwch annerbyniol i feddianwyr eiddo cyfagos neu'n cael effaith niweidiol ar amwynder; ac** |
| **dd)** | **y mae'r cynigion yn bodloni gofynion Polisi'r Prif Anheddiad Allweddol a'r Polisi Aneddiadau Allweddol** |

## 7.7.5 Amrywiaeth Defnydd mewn Canol Trefi

7.7.5.1 **Lleoli Datblygiad Manwerthu Newydd:**
Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cynnwys datganiadau eglur ynglŷn â lleoliad datblygiad manwerthu newydd, yr ymagwedd ddilyniannol at ddewis safle, yr effaith ar ganolfannau presennol a nodwyd a materion trafnidiaeth fel hygyrchedd trwy amrywiaeth o ddulliau teithio, ac effaith patrymau teithio cyffredinol. Gweler Pennod 10 Polisi Cynllunio Cymru.

## 7.7.6 Manwerthu y tu allan i Aneddiadau Lefel 1 a Lefel 2

7.7.6.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod, y tu allan i'r Canolfannau Manwerthu a amlygwyd ym Mholisi 24, bod cyfleusterau manwerthu lleol yn cyflawni rôl hollbwysig o ran sicrhau cynaliadwyedd cymunedau lleol. Mae Polisi 26 yn ceisio sicrhau y cedwir cyfleusterau manwerthu lleol y tu allan i'r Aneddiadau Lefel 1 a Lefel 2 (ac eithrio Pontsenni a Defynnog) lle y maent yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r gymuned leol, ac yn economaidd hyfyw.

7.7.6.2 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn amlinellu'r polisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar ddarparu a gwarchod siopau lleol, siopau pentref a thafarndai, yn ogystal â siopau sy'n ategol i ddefnyddiau eraill, fel siopau fferm a gorsafoedd petrol.

7.6.6.3 Mae polisïau gofodol S LP 2 (7) ac LGS LP (7) yn ymdrin â'r gofynion ar gyfer darpariaeth fanwerthu ar raddfa briodol lle y mae'n gysylltiedig â chynaliadwyedd cymuned. Mae Polisi 43 isod yn rhoi arweiniad ychwanegol ar golli cyfleusterau mewn Aneddiadau Lefel 3 a 4.

7.7.6.4 Wrth ystyried cynigion sy'n golygu colli cyfleusterau o'r fath, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried effaith y golled ar y gymuned leol o ran
a) y dewisiadau eraill sydd ar gael a pha mor rhwydd ydyw i'w cyrraedd, a
b) goblygiadau cymdeithasol, gan gynnwys yr effaith ar hyfywedd y pentref cyfan.

7.7.6.5 Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol nad yw'r siop yn hyfyw mwyach trwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol i gefnogi'r achos, yn ogystal â thystiolaeth i ddangos bod y safle wedi'i farchnata am 12 mis o leiaf am bris realistig.

**Polisi 43**
**Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig**

**Caniateir newid defnydd siopau pentref a thafarndai yn Anheddiad Allweddol Pontsenni a Defynnog, Aneddiadau Lefel 3 ac Aneddiadau Twf Cyfyngedig Lefel 4 dim ond lle y gellir dangos:**

**a) nad oes unrhyw effaith niweidiol ar y gymuned leol**

**b) bod asesiad cynhwysfawr wedi'i gynnal o hyfywedd y siop fel busnes masnachol, gan gynnwys ei marchnadwyedd; a**

**c) bod yr asesiad yn dangos na ellir cynnal hyfywedd y defnydd o'r siop neu'r dafarn a bod ystyriaeth wedi'i rhoi i barhau â'r elfen fasnachol yn atodol i ddefnydd arall.**

7.7.6.6 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod tafarndai yn rhan hanfodol o gymeriad a bywiogrwydd aneddiadau'r Parc Cenedlaethol. Felly, mae Polisi 44 yn ceisio sicrhau bod tafarndai'n cael eu cadw lle y bônt yn economaidd hyfyw.

7.7.6.7 O dan y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, caniateir newidiadau defnydd o fewn Dosbarth A3 (Bwyd a Diod) ac i siopau Dosbarth A1 (lle y ceir ffenestr arddangos ar lefel y llawr gwaelod). Fodd bynnag, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod newidiadau defnydd y tu allan i'r rhai hynny a ganiateir gan y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn cael eu gwrthsefyll.

7.7.6.8 Wrth ystyried cynigion sy'n golygu colli tafarn, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried effaith y golled ar y Ganolfan Fanwerthu neu'r gymuned leol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol nad yw'r dafarn yn hyfyw mwyach trwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol i gefnogi'r achos, yn ogystal â thystiolaeth i ddangos bod y safle wedi'i farchnata am 12 mis o leiaf am bris realistig.

**Polisi 44**
**Newid Defnydd Tafarndai**

**Caniateir newid defnydd tafarndai o Ddefnydd A3 i unrhyw ddefnydd heblaw am Ddefnydd A1 dim ond lle y gellir dangos:**

**a) nad oes unrhyw effaith niweidiol ar y gymuned leol**

**b) bod asesiad cynhwysfawr wedi'i gynnal o hyfywedd y dafarn fel busnes masnachol, gan gynnwys ei marchnadwyedd; a**

**c) bod yr asesiad yn dangos na ellir cynnal hyfywedd y defnydd o'r dafarn a bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ddefnyddiau eraill sydd yr un mor fuddiol i'r gymuned.**

## 7.8 Twristiaeth Gynaliadwy

7.8.0.1 Mae Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol[56] yn datgan mai twristiaeth yw un o'r prif ddulliau o feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Yn y cyd-destun hwn, mae buddion twristiaeth i gymunedau yn cynnwys y ffaith fod twristiaeth yn:-

- rhoi hwb o fwy na £217 miliwn y flwyddyn i'r economi, gan greu cyfoeth i fusnesau lleol ac incwm i breswylwyr lleol;
- cynhyrchu a chefnogi cyflogaeth drwy gydol y flwyddyn gyda mwy na 4,349 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfwerth ag amser llawn yn ardal y Parc Cenedlaethol;
- helpu i gynnal cyfleusterau a gwasanaethau lleol, gan eu cadw'n hyfyw ac ar gael i bobl leol;
- creu delweddau cadarnhaol o'r Parc, gan felly annog balchder dinesig, creu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig a chydnabod ymdeimlad o le;
- cefnogi amgylchedd gwell ac annog stiwardiaeth amgylcheddol dda;
- talu ei ffordd gan ysgogi gwariant eilaidd yn y gymuned, yn ogystal ag annog menter ac arloesedd (mae gwariant anuniongyrchol a TAW yn dod i bron i £56 miliwn y flwyddyn).

7.8.0.2 Mae'r strategaeth yn amlygu'r egwyddorion canlynol sy'n cysylltu gwaith Cynllunio a Thwristiaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol

- sicrhau bod busnesau twristiaeth yn cael cyfle i ddatblygu'n ffisegol ac yn economaidd;
- gwarchod yr amgylchedd sy'n sail i'r diwydiant twristiaeth;
- sicrhau bod pobl leol yn cael cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad eu cymuned.

7.8.0.3 Gall yr ymatebion polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol gefnogi'r strategaeth twristiaeth gynaliadwy mewn sawl maes. Er enghraifft, trwy annog ailddefnyddio adeiladau traddodiadol, hybu gwerthoedd dylunio uchel a gwarchod y dirwedd trwy ddiogelu adeiladau hanesyddol sy'n bwysig o ran cadwraeth. Yn ogystal, gall polisïau datblygu lleol gefnogi datblygiadau sy'n ymwneud â ffynonellau ynni adnewyddadwy lle y maent yn bwysig i gynaliadwyedd lleol, ond eu hatal lle y byddent yn cael effaith negyddol ar werthoedd tirwedd.

7.8.0.4 Felly, mae'r strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy yn ystyried bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gallu cefnogi ei gweledigaeth a'i hamcanion trwy sicrhau bod datblygiad cynaliadwy sy'n cyflawni dyheadau cymunedau lleol yn cael ei alluogi ar yr un pryd â sicrhau bod yr amgylchedd sy'n sail i'r diwydiant twristiaeth yn cael ei warchod.

7.8.0.5 Mae'r strategaeth ar gyfer gweithredu datblygiad twristiaeth gynaliadwy fel y'i hamlinellir uchod yn cael ei rhoi ar waith trwy SP 14 Twristiaeth Gynaliadwy.

## SP14 Twristiaeth Gynaliadwy

[56] Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Ionawr 2007 http://www.breconbeacons.org/the-authority/working-in-partnership/tourism-industry/pdfs-for-tourism-partnership/sustainable-tourism-strategy-070226-1.pdf

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn galluogi cynigion ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy sy'n hybu cyfleoedd ar gyfer mwynhau a deall y Parc Cenedlaethol, ar yr un pryd â sicrhau bod harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yn cael eu gwarchod a'u gwella.**

7.8.0.6 Gall y Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu at wireddu'r weledigaeth a amlinellwyd yn Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn y ffyrdd canlynol:-

1. trwy warchod amgylchedd a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol sy'n sail i'r diwydiant twristiaeth
2. trwy gefnogi cynigion ar gyfer datblygiad busnes twristiaeth priodol fel y gallant barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr at fywiogrwydd economaidd a chymdeithasol lleol
3. trwy sicrhau, yn sgil gweithredu Polisi Strategol SP1 (Dibenion y Parc Cenedlaethol), bod cynigion ar gyfer twristiaeth yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol
4. trwy gynnal a gwella mynediad cyhoeddus at y Parc Cenedlaethol
5. trwy sicrhau, yn sgil y strategaeth aneddiadau, bod diwylliant a bywiogrwydd cymunedau lleol yn cael eu gwarchod
6. trwy alluogi datblygiad seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy.

### 7.8.1 Llety Gwyliau

7.8.1.1 Mae'r gyfres ganlynol o bolisïau yn ymdrin â chynigion ar gyfer llety gwyliau y mae angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio annedd i'w gosod fel llety gwyliau, gan gynnwys hunanarlwyo, ac eithrio pan fo meddiannaeth yr annedd eisoes wedi'i chyfyngu gan rwymedigaeth neu amod cynllunio.

7.8.1.2 Yr amcanion allweddol ar gyfer llety gwyliau yw:

- cefnogi'r economi leol ar yr un pryd â sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn niweidio'r dirwedd warchodedig
- gwella perfformiad amgylcheddol yr holl adeiladau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

7.8.1.3 Felly, bydd yr ystyriaethau allweddol yn canolbwyntio ar:

- berthynas y cynnig â'i osodiad a lliniaru unrhyw effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar y dirwedd warchodedig. Asesir effaith datblygiad o dan bolisi cyffredinol SP1 ac ati
- dylunio'r llety'n gynaliadwy a darparu seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau cynaliadwy
- lleihau'r effaith weledol cymaint â phosibl trwy integreiddio'r cynnig yn llawn i'r dirwedd gan ddefnyddio topograffeg a defnyddiau tir amgylchynol.

### 7.8.2 Adeiladu Llety Gwyliau Newydd

7.8.2.1 Gallai adeiladau newydd ar gyfer llety gwyliau gael eu caniatáu ar safleoedd a fyddai'n anaddas ar gyfer tai parhaol; er enghraifft, sydd â darpariaeth barcio o safon is, gardd fach neu ddim gardd, neu lai o breifatrwydd nag y byddai ei angen ar gyfer tai parhaol. Defnyddir amodau cynllunio i sicrhau bod llety o'r fath yn aros at ddefnydd gwyliau.

7.8.2.2 Mae polisïau'r Cynllun Gofodol yn rhoi mwy o arweiniad ar y math o lety gwyliau sy'n briodol i bob lefel o'r Hierarchaeth Aneddiadau.[57]

7.8.2.3 Mae'r is-adran ganlynol yn rhoi mwy o arweiniad ar yr amgylchiadau pan fydd yn briodol adeiladu llety gwyliau newydd yn y Parc Cenedlaethol.

7.8.2.4 Dylai adeiladau newydd ar gyfer llety gwyliau gael eu lleoli o fewn aneddiadau diffiniedig fel y'u rhestrir yn SP 10 ac S LP 1. Mae'r rhain hefyd yn lleoliadau a aseswyd fel rhai sydd â'r cysylltiadau gorau â thrafnidiaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. Byddant hefyd yn sicrhau bod y budd economaidd a gynhyrchir gan y defnydd twristiaeth yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned leol, gan felly fynd i'r afael ag un o amcanion allweddol y Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod cefn gwlad yn cael ei warchod rhag datblygu gwasgaredig.

7.8.2.5 Fodd bynnag, ceir eithriadau lle y gallai llety twristiaeth gael ei ddarparu yng nghefn gwlad agored trwy naill ai ddarparu llety gwyliau ar fferm (gweler CYD LP 1) neu drawsnewid adeiladau gwledig yn llety i dwristiaid (cyfeiriwch at Bolisi Cynllunio Cymru fel yr ymhelaethir arno yn Nodyn Cyngor Technegol 6).

**Polisi 45**
**Adeiladau Newydd ar gyfer Llety Gwyliau**

**Caniateir adeiladau newydd ar gyfer llety gwyliau, gan gynnwys gwestai, hostelau neu dai llety, dim ond lle y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli o fewn ffiniau datblygu aneddiadau diffiniedig, ar safleoedd na ddyrannwyd ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad.**

### 7.8.3 Llety Gwyliau Dros Dro/Heb Fod yn Barhaol

7.8.3.1 At ddibenion yr is-adran hon, mae llety gwyliau dros dro neu heb fod yn barhaol yn cynnwys pob math o lety sydd wedi'i leoli ar y safle gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, dylai ffurf y llety dros dro neu heb fod yn barhaol olygu bod modd ei symud oddi yno ar unrhyw adeg heb adael ôl parhaol.

7.8.3.2 Y brif ystyriaeth wrth bennu a fydd cynnig ar gyfer llety gwyliau dros dro yn dderbyniol yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol fydd lleoliad y safle a natur a graddfa'r math o lety a gynigir.

[57] Gweler polisïau gofodol B LP 1(5) / K LP2/ S LP 2 (6) / LGS LP 2(6) / CYD LP 1(6)

### 7.8.4 Carafanau a Chabanau Gwyliau

7.8.4.1 Gallai cynigion ar gyfer llety dros dro neu heb fod yn barhaol fel carafanau gwyliau neu gyfadeiladau cabanau gwyliau fod yn nodwedd amlwg yn y dirwedd, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd llystyfiant sy'n eu sgrinio wedi gwywo. Gall hyn greu ymwthiad amhriodol i dirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn, mewn rhai achosion, y gallai safle a ddyluniwyd yn dda iawn fod yn dderbyniol mewn rhai lleoliadau, ac mae llawer wedi'i wneud yn y gorffennol i leihau'r effaith trwy negodi manylion y cais a gosod amodau cynllunio ar unrhyw gymeradwyaeth. Fodd bynnag, er y cydnabyddir y gellir lliniaru'r effaith ar y dirwedd trwy sgrinio, mae effeithiolrwydd y datrysiad hwn yn dymhorol. Nid yw darparu llety newydd na ellir ei feddiannu yn ystod y gaeaf yn gydnaws â'r amcan i gynyddu'r cyflenwad llety yn y Parc Cenedlaethol sydd ar gael i'w feddiannu trwy gydol y tymor.

7.8.4.2 Felly, ystyrir bod darparu safleoedd newydd ar gyfer cyfadeiladau cabanau gwyliau neu garafanau gwyliau sefydlog traddodiadol mewn Parc Cenedlaethol yn addas mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae eu strwythur, ffurf a dyluniad cyffredinol yn debygol o fod yn anghydnaws â'r dirwedd amgylchynol a, lle y mae angen mesurau lliniaru trwy gynlluniau tirweddu, bydd hyn yn arwain at feddiannaeth dymhorol nad yw'n hybu amcanion y Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy. Yn ogystal, nid yw'r Strategaeth yn amlygu angen am fwy o lety gwyliau sefydlog neu gabanau gwyliau.

### 7.8.5 Datblygiad Effaith Isel

7.8.5.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dymuno mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg am ddatrysiadau llety effaith isel (fel pebyll crwyn, tîpis a thai pen coed). Bydd cynigion priodol yn rhai sy'n cael yr effaith leiaf ar y dirwedd a'r amgylchedd ac y gellir eu symud ymaith heb adael ôl parhaol.

7.8.5.2 *Ffurf a natur datblygiad*

Ym mhob achos, dylai cynigion gynnwys datrysiadau seilwaith mwy cynaliadwy fel draeniad trefol cynaliadwy, yn hytrach na golygu bod angen cyflenwadau parhaol o drydan, dŵr a draeniad. Anogir datrysiadau sy'n gallu integreiddio â'r dirwedd heb orfod defnyddio datrysiadau tymhorol fel tirweddu.

7.8.5.3 Er mwyn lleihau'r effaith ar y dirwedd a gwneud defnydd effeithlon o adeiladau presennol, dylid darparu cyfleusterau ar y safle fel llety rheolwr safle, cyfleusterau ystafell ymolchi ac unrhyw ddefnydd ategol arall i'r prif lety, lle y bo'n bosibl, trwy drawsnewid adeilad presennol.

7.8.5.4 Bydd effaith pob cynnig ar y dirwedd a'r gymuned amgylchynol yn cael ei hasesu o dan SP1, Polisi 1. Yn ogystal, bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiadau effaith isel, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 6, ddarparu cynllun rheoli sy'n dangos sut y mae'r cynnig yn bwriadu lliniaru'r effaith ar yr amgylchedd, yn bennaf o ran allyriadau carbon deuocsid, prosesu gwastraff, rhychwant oes disgwyliedig y datblygiad, a chynlluniau adfer yn dilyn rhychwant oes y datblygiad (os yw'n berthnasol).

7.8.5.5 Ym mhob achos, ni chaniateir defnyddio adeileddau o'r fath ar gyfer meddiannaeth breswyl barhaol. Dylai safleoedd fod ar gael at y dibenion twristiaeth a fwriadwyd yn unig.

7.8.5.6 Bydd y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer dŵr yfed a charthffosiaeth yn ystyriaeth allweddol wrth asesu unrhyw gynnig. Bydd pob cynnig yn cael ei asesu yn unol ag SP 16 Seilwaith Cynaliadwy a pholisïau manwl ategol.

7.8.5.7 Mae Polisïau Gofodol B LP1 / K LP 1/ S LP 2 / LGS LP 2 a CYD LP 1 yn rhoi mwy o arweiniad ar y math o ddefnydd sy'n briodol i bob lefel o'r Hierarchaeth Aneddiadau.

7.8.5.8 Defnyddir amodau i sicrhau;

- bod y defnydd gwreiddiol yn cael ei gadw,
- bod cyfyngiadau agor tymhorol addas yn cael eu cymhwyso pan fydd cynlluniau plannu'n golygu bod hyn yn angenrheidiol,
- bod unrhyw blannu neu adeiladu nodweddion ffin sy'n ofynnol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei wneud cyn i unrhyw lety gael ei osod ar y safle,
- y bydd dyluniad y llety'n briodol i'r lleoliad arfaethedig,
- y bydd ffordd fynediad ddigonol i'r safle arfaethedig sy'n gallu derbyn lled y cerbydau sy'n ofynnol i symud y llety heb gael effaith niweidiol ar amwynder y briffordd, diogelwch neu'r dirwedd.

7.8.5.9 Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi i roi mwy o arweiniad ar y math o lety dros dro neu heb fod yn barhaol a fydd yn dderbyniol.

7.8.5.10 Mae'r polisi canlynol yn amlinellu'r amgylchiadau a'r lleoliadau y gallai llety gwyliau dros dro fod yn dderbyniol ynddynt. Mae'n ceisio rheoli'r effaith y bydd agweddau ar y defnydd yn ei chael ar y dirwedd.

**Polisi 46**
**Llety Gwyliau Heb Fod yn Barhaol**

**Caniateir datblygiad llety gwyliau heb fod yn barhaol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig;**

**a)** **lle y mae'r ymgeisydd wedi dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod y datblygiad arfaethedig wedi'i integreiddio'n llawn i'r dirwedd trwy dopograffeg neu ddefnyddiau tir amgylchynol, yn enwedig pan y'i gwelir o lwybrau cyhoeddus a mannau ffafriol y tu allan i'r safle;**

**b)** **lle y gellir darparu cyfleusterau ar y safle, gan gynnwys unrhyw lety ar gyfer rheolwr safle, cyfleusterau ystafell ymolchi, storfeydd, siopau manwerthu neu gyfleusterau tebyg, trwy drawsnewid adeiladau presennol os ydynt ar gael;**

**c)** **lle na fydd y datblygiad yn cael ei feddiannu fel llety preswyl parhaol ac y bydd yn destun amod meddiannaeth dymhorol sy'n cyfyngu'r defnydd o'r safle i gyfnodau penodol drwy gydol y flwyddyn;**

**ch)** **lle y bydd ffordd fynediad ddigonol i'r safle arfaethedig sy'n gallu derbyn lled y cerbydau sy'n ofynnol i symud y llety heb gael effaith niweidiol ar amwynder y briffordd.**

## 7.8.6 Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carafanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a Phebyll

7.8.6.1 Mae'r is-adran hon yn ymdrin â mathau o lety gwyliau sydd wedi'u lleoli ar safle parhaol, ond y mae'r llety ei hun yn llety dros dro.

7.8.6.2 Gall graddfa safleoedd gwersylla amrywio'n fawr. Maent yn ffurfio safle parhaol mawr sy'n gysylltiedig â chyfleusterau parhaol fel cyfleusterau manwerthu, hamdden ac ystafell ymolchi. Mae safleoedd o'r fath yn debygol o fod â lleiniau diffiniedig a darparu cysylltiadau parhaol â chyfleustodau. Ar y pegwn arall, gallai safleoedd gael eu darparu fel rhan o gynllun arallgyfeirio fferm a byddant yn llai diffiniedig gyda llai o angen am gyfleusterau.

7.8.6.3 Mae safleoedd carafanau teithio a gwersylla yn cynrychioli 6% o'r llety i ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol. Mae 19 safle yn y Parc ar hyn o bryd.

7.8.6.4 Gall safleoedd o'r fath ddarparu budd economaidd i gymunedau lleol ac fe allant fod yn ffynhonnell incwm ategol fel rhan o gynllun arallgyfeirio fferm. Fodd bynnag, nid yw lleoliad safleoedd o'r fath a'r ffyrdd mynediad i'w cyrraedd bob amser yn addas i dynnu carafanau. Gallai safleoedd eraill fod yn anaddas oherwydd eu hamlygrwydd yn y dirwedd neu oherwydd nodweddion amgylcheddol y safle.

7.8.6.5 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gosod amodau ar unrhyw ganiatâd er mwyn rheoli nifer yr unedau, y math o unedau, yr ardaloedd i'w meddiannu a datblygiad cyfleusterau atodol. Gallai amodau gael eu gosod hefyd i sicrhau bod buddiannau cadwraeth natur pwysig yn cael eu diogelu trwy beidio â defnyddio safleoedd yn y gaeaf. Yn gyffredinol, bydd y cyfyngiadau ar waith rhwng 31 Hydref ac 1 Mawrth.

7.8.6.6 Bydd effaith y cynnig ar y dirwedd yn cael ei hystyried o dan SP1 a Pholisi 1.

**Polisi 47**
**Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carafanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a Phebyll**

**Caniateir safleoedd newydd neu estynedig ar gyfer carafanau teithio, cerbydau gwersylla neu bebyll at ddefnydd gwyliau yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**a)** **lle na ddefnyddir unrhyw ran o'r safle ar gyfer llety preswyl parhaol neu leiniau parhaol. Bydd amod meddiannaeth dymhorol yn berthnasol i'r safle a fydd yn cyfyngu ei ddefnydd i gyfnodau penodol o'r flwyddyn;**

**b)** **lle y mae'r ymgeisydd wedi dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod y datblygiad arfaethedig wedi'i integreiddio'n llawn i'r dirwedd trwy dopograffeg neu ddefnyddiau tir amgylchynol, yn enwedig pan y'i gwelir o lwybrau cyhoeddus a mannau ffafriol o'r tu allan i'r safle;**

**c)** **lle y darperir cyfleusterau ar y safle, gan gynnwys unrhyw lety ar gyfer rheolwr safle, cyfleusterau ystafell ymolchi, storfeydd, siopau manwerthu neu gyfleusterau tebyg, trwy drawsnewid adeiladau presennol.**

## 7.8.7 Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored

7.8.7.1 Mae nifer o Ganolfannau Gweithgareddau Awyr Agored preifat a chyhoeddus yn y Parc. Er y gallant ddarparu cyfleoedd i bobl ymweld â'r Parc, dysgu amdano a'i fwynhau, gallant hefyd arwain at ddefnydd dwys o ardaloedd a chynefinoedd sensitif.

7.8.7.2 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio lle y bo'n briodol fel un ffordd o reoli twf a gweithgareddau'r canolfannau hyn. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio cytundebau cyfreithiol i reoleiddio gweithgareddau er mwyn sicrhau nad achosir unrhyw niwed i nodweddion arbennig, harddwch naturiol, bywyd gwyllt neu dreftadaeth ddiwylliannol y Parc.

7.8.7.3 Caniateir cynigion ar gyfer canolfannau newydd dim ond lle na fyddant yn cael effaith ar eu hamgylchedd.

7.8.7.4 Bydd angen cyflwyno Cynlluniau Teithio er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol o ran traffig.

**Polisi 48**
**Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored Newydd neu Estynedig**

**Caniateir cynnig i greu canolfan gweithgareddau awyr agored newydd neu gynnig i ymestyn defnydd presennol yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**a) os ydyw o fewn Anheddiad Lefel 1, 2 neu 3; neu**

**b) os ydyw'n defnyddio adeilad presennol; neu**

**c) yn achos estyniad, os nad yw'r cynnig yn ymestyn y tu hwnt i gwrtil yr adeilad sy'n cael ei ymestyn; neu**

**ch) mewn Aneddiadau Lefel 4 neu yng nghefn gwlad, os gellir dangos nad oes unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd amgylchynol ac y profir bod angen i'r cynnig gael ei leoli yng nghefn gwlad. Gweler hefyd CYD LP 1.**

**Bydd gweithgareddau'n cael eu rheoleiddio gan gytundeb cyfreithiol er mwyn sicrhau nad achosir unrhyw niwed i harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.**

### 7.8.8 Twristiaeth a Mwynhad

7.8.8.1 Y brif egwyddor wrth ystyried pob cynnig ar gyfer defnyddiau twristiaeth neu fwynhad yw sicrhau nad yw ymdrechion i gyflawni ail ddiben a dyletswydd y Parc Cenedlaethol yn gwrthdaro â'r cyntaf.

7.8.8.2 I'r perwyl hwn, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau cynllunio a chytundebau cyfreithiol, lle y bo'n briodol, i reoli effaith gweithgareddau mwynhad a hamdden ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

### 7.8.9 Defnyddio Cerbydau Modur a Badau ar gyfer Hamdden

7.8.9.1 Mae defnyddio cerbydau modur a badau ar gyfer hamdden yn fater sy'n derbyn sylw yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o'r defnyddiau hyn, ac felly nid ydynt o fewn rheolaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

7.8.9.2 Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ymdrin ag effeithiau negyddol yr holl weithgareddau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt.

7.8.9.3 Bydd effaith cynigion y mae angen caniatâd cynllunio arnynt yn cael ei hasesu yn unol â'r polisïau perthnasol yn y Cynllun hwn.

7.8.9.4 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio rheoli nifer y cerbydau ac adegau'r wythnos a'r flwyddyn pryd y gallai gweithgareddau weithredu trwy ddefnyddio amodau a chytundebau cyfreithiol, lle y bo'n briodol. Ceisir rheoli'r llwybrau sydd i'w defnyddio hefyd.

### 7.8.10 Hawliau Tramwy a Llwybrau Hir

7.8.10.1 Yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac wrth geisio cyflawni ein Hail Ddiben fel Parc Cenedlaethol, bydd yr Awdurdod yn gwarchod a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy fel adnodd hamdden ac amgylcheddol.

7.8.10.2 Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yw'r ddogfen statudol allweddol a ddefnyddir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyflawni'r amcan hwn.

7.8.10.3 Mae gan y Parc Cenedlaethol filltiroedd lawer o hawliau tramwy a fwynheir gan gerddwyr, beicwyr, marchogwyr a defnyddwyr cerbydau. Mae 5 llwybr hir dynodedig yn mynd trwy'r Parc: Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Taf, Ffordd y Bannau a Llwybrau Cerdded Dyffrynnoedd Wysg a Gwy. Mae llwybr halio Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn llwybr hamdden poblogaidd iawn hefyd.

7.8.10.4 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio rhestr o Lwybrau a Hyrwyddir. Diben hyn yw cysylltu gwaith i hyrwyddo llwybrau penodol ymhlith ymwelwyr â gwaith cynnal a chadw a gwella a amlinellwyd yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

7.8.10.5 Mae'n bwysig bod y rhwydwaith llwybrau'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i warchod rhag datblygiad. Dylid ei ymestyn lle bynnag y bo'n bosibl. Gallai hen linellau rheilffordd a thramffyrdd, er enghraifft, wneud llwybrau deniadol, yn amodol ar negodi â'r perchenogion. Mae'r polisi isod yn ceisio gwarchod y ddarpariaeth bresennol. Ymdrinnir â chreu llwybrau newydd ym Mholisi 60 Darparu ar gyfer Beicio a Cherdded.

**Polisi 49**
**Hawliau Tramwy a Llwybrau Hir**

**Bydd datblygiad a fyddai'n atal neu'n cael effaith niweidiol ar ddefnydd hawl dramwy gyhoeddus; neu lwybr a allai ffurfio llwybr cerdded, marchogaeth neu feicio hir; neu**

**Lwybr a Hyrwyddir, yn cael ei ganiatáu dim ond lle y gellir darparu llwybr arall cyfatebol.**

### 7.8.11 Ardaloedd lle y ceir Pwysau ac Ardaloedd sy'n Agored i Niwed

7.8.11.1 Mae cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi amlygu ardaloedd lle y ceir pwysau arbennig o ganlyniad i ddatblygiad a gweithgarwch hamdden ac ymwelwyr. Mae'r ardaloedd hyn yn destun adolygiad ar hyn o bryd. Felly, gall yr angen am bolisi cynllun datblygu sy'n ymwneud â'r mater hwn gael ei fonitro gan wneud diwygiadau priodol ar adeg adolygiad cyntaf y Cynllun.

# PENNOD 8: DARPARU GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU

**Cyfleusterau Cymunedol**
**Cyfleustodau**
**Trafnidiaeth**

## Cefnogi datblygiad a, Chynnal a gwella cynaliadwyedd a hyfywedd cymunedol

8.0.1 Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gosod Dyletswydd Statudol ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol i geisio meithrin lles economaidd-gymdeithasol ein cymunedau cyfansoddol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymgymryd â'r ddyletswydd hon yn unol â'n Dibenion Statudol. Felly, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio darparu dyfodol cynaliadwy i gymunedau preswyl o fewn paramedrau gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol ar yr un pryd â hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau'r nodweddion arbennig.

8.0.2 O ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau y gellir darparu gwasanaethau a chyfleusterau digonol i gymunedau yn y Parc Cenedlaethol, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy iddynt, heb gael effaith niweidiol ar y Parc Cenedlaethol. Amlinellir hyn yn SP 15 Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy isod ac fe'i gweithredir trwy'r polisïau pynciol sy'n dilyn.

**SP15 Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedol yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol a heb gael effaith niweidiol ar wasanaethau neu gyfleusterau hanfodol.**

**Ni chaniateir datblygiad sy'n cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd cymuned yn y dyfodol oni bai y darperir mesurau lliniaru er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

## 8.1 Cyfleusterau Cymunedol

8.1.0.1 Mae'r term Cyfleusterau Cymunedol yn cynnwys ystod eang o ddefnyddiau sydd o fudd i'r gymuned leol. Fe all gynnwys:-

8.1.0.2 **Defnyddiau Dan Do** fel neuaddau pentref, llyfrgelloedd, mannau addoli, ysgolion, cartrefi gofal preswyl, clinigau iechyd, ysbytai, a

8.1.0.3 **Chyfleusterau hamdden awyr agored i wasanaethu cymunedau lleol** fel meysydd chwarae, mannau chwarae i blant, rhandiroedd, mannau gwyrdd naturiol hygyrch, meysydd parcio, mynwentydd enwadol, cyfleusterau ailgylchu.

8.1.0.4 Dylai safleoedd ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned ar hyn o bryd gael eu gwarchod rhag mathau eraill o ddatblygiad. Dangosir safleoedd a oedd yn cael eu defnyddio gan y gymuned ar adeg y Cynllun Adneuo hwn ar y Map Cynigion.

8.1.0.5 Pan gynigir defnydd arall, mae'n rhaid dangos yn eglur fel rhan o Ddatganiad Dylunio a Mynediad ategol nad oes angen y cyfleuster cymunedol mwyach. Bydd hyn yn cael ei asesu ar sail achosion unigol mewn ymgynghoriad â'r cyrff cyhoeddus perthnasol.

**Polisi 50**
**Cadw Cyfleusterau Cymunedol Presennol**

**Caniateir datblygu tir a fyddai'n cael effaith niweidiol ar weithrediad cyfleuster cymunedol neu'n arwain at ei golli yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**i) os mai'r ffordd orau o gadw neu wella'r cyfleusterau presennol yw ailddatblygu'r safle; neu**

**ii) os darperir cyfleuster arall sydd yr un mor fuddiol.**

**Lle y gellir dangos yn eglur nad oes angen cyfleuster cymunedol mwyach, ystyrir defnyddiau eraill pan fyddant yn cyd-fynd â pholisïau eraill yn y Cynllun Datblygu Lleol.**

## 8.1.2 Datblygu Cyfleusterau Cymunedol newydd neu estynedig

8.1.2.1 Ar hyn o bryd, nid yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn sefyllfa i ddyrannu tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd. Pennir ceisiadau priodol yn unol â'r polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn. Yn gyffredinol, bydd cyfleusterau cymunedol yn cael eu lleoli o fewn aneddiadau er mwyn gwasanaethu'r gymuned yn y ffordd orau a chynorthwyo i gyflawni strategaeth ofodol y Cynllun. Fodd bynnag, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn na fydd hyn bob amser yn bosibl, ac felly fe allai safleoedd yn agos i aneddiadau fod yn briodol.

8.1.2.2 Ystyrir bod defnyddio tir ar gyfer rhandiroedd a choetir cymunedol yn ffordd bwysig i gymuned wledig fach gynyddu ei chynaliadwyedd a'i hunangynhaliaeth. Gall defnyddiau tir o'r fath hefyd wrthbwyso'r ôl troed carbon mewn lleoliadau nad ystyrir eu bod yn gynaliadwy o ran trafnidiaeth neu leoliad. Er nad yw'r math hwn o Ddatblygiad o reidrwydd yn golygu bod angen caniatâd ar gyfer newid defnydd, mae'n bosibl y bydd angen

caniatâd o'r fath ar gyfer adeiladau a seilwaith cysylltiedig. Lle y bo'n briodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion ar gyfer defnyddiau o'r fath.

8.1.2.3 Mae Polisïau'r Strategaeth Ofodol yn rhoi mwy o arweiniad ar y mathau o gyfleusterau cymunedol a fydd yn briodol ym mhob un o lefelau'r Hierarchaeth Aneddiadau.

**Polisi 51**
**Datblygu Cyfleusterau Cymunedol Newydd neu Estynedig**

**Caniateir cynigion ar gyfer ysgolion, neuaddau pentref, theatrau a chyfleusterau cymunedol eraill fel cyfleusterau hamdden neu chwaraeon newydd, neu estyniadau iddynt, yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) os yw'r datblygiad wedi'i leoli o fewn Ffin Anheddiad neu Faint Anheddiad diffiniedig fel y'i dangosir ar y Map Cynigion. NEU**

**b) os profir nad oes safleoedd datblygu addas ar gael o fewn Anheddiad, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried cynigion mewn lleoliadau Ymyl Anheddiad**

**AC**

**c) os profir bod y cynnig yn angenrheidiol i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol yn y lleoliad hwnnw;**

**ch) os gellir profi y bydd y cyfleuster yn weithredol gynaliadwy yn y dyfodol; ac**

**d) os na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol annerbyniol ar amwynder a phreifatrwydd anheddau presennol, eiddo cyfagos neu'r cyhoedd.**

## 8.2 Y Gymraeg

8.2.1 Mae iaith yn bwysig iawn i gymeriad a ffordd o fyw cymunedau, ac mae'n rhan allweddol o ddiwylliant Cymru. Mae arweiniad gan y Llywodraeth yn mynnu bod materion ieithyddol yn cael eu hystyried mewn polisïau cynllunio defnydd tir, a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio hwyluso'r defnydd parhaus a chynyddol o'r Gymraeg yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol.

8.2.2 Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae cymunedau yng ngorllewin y Parc yn siarad mwy o Gymraeg na'r rhai hynny yn y dwyrain. Mae angen gwarchod cymunedau sy'n siarad Cymraeg rhag datblygiadau a fyddai'n arwain at wanhau'r iaith ac felly nodweddion cymdeithasol a diwylliannol y gymuned. Mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno datblygiadau newydd fesul cam er mwyn iddynt ymsefydlu'n naturiol ac yn raddol mewn ardal. Yn ogystal, anogir datblygiad economaidd, preswyl a chymdeithasol priodol a fyddai'n cryfhau diwylliant Cymru.

8.2.3 Bydd y polisi'n cael ei gymhwyso fel arfer mewn ardaloedd Cyngor Cymuned a Chyngor Tref lle y mae mwy na 30% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, fel yr amlygwyd yn y Cyfrifiad. Lle nad yw cyfartaledd y gymuned yn adlewyrchu crynoadau siaradwyr Cymraeg mewn pentrefi yn ardaloedd y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref, bydd angen cynnal mesuriad mwy amodol a sensitif. I'r perwyl hwn, wrth lunio cynlluniau pentref manwl, bydd lefelau

siarad Cymraeg yn cael eu hasesu i bennu a yw'r defnydd o'r iaith yn ffurfio rhan o wead cymdeithasol yr ardal. Mewn ardaloedd lle yr ystyrir bod y Gymraeg mewn perygl oherwydd datblygiad yn y dyfodol, bydd Methodoleg Asesu'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei datblygu. Yn y cyfamser, gallai ymagwedd ragofalus gael ei mabwysiadu lle yr ystyrir y byddai cynnig yn cyflwyno bygythiad arwyddocaol i'r iaith mewn cymuned.

**Polisi 52**
**Y Gymraeg**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant a bywyd cymdeithasol y gymuned yn yr amgylchiadau canlynol:**

**i) lle y gellir dangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar nodweddion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned; a**

**ii) lle y gall datblygiad newydd gael ei gyflwyno fesul cam os oes angen er mwyn iddo ymsefydlu'n raddol.**

## 8.3 Rhwymedigaethau Cynllunio

8.3.1 Bydd yr Awdurdod yn pennu'r dull mwyaf priodol o gasglu cyfraniad at brosiectau cymunedol a seilwaith gan ystyried deddfwriaeth a rheoliadau cenedlaethol. Bydd y dull a ddefnyddir i gyflawni cyfraniadau gan ddatblygwyr yn cael ei adolygu yn sgil newidiadau i'r polisi cenedlaethol.

8.3.2 Bydd pob math newydd o ddatblygiad yn cael effaith ar y gymuned a'r amgylchedd. Nod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yw cyfyngu effeithiau negyddol er mwyn sicrhau dyfodol hyfyw i'r amgylchedd a chymunedau'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, fe allai fod angen cymryd mesurau lliniaru a gwella penodol i wneud iawn am unrhyw effaith annerbyniol sy'n codi o ddatblygiad. Mewn achosion o'r fath, lle y mae Amodau Cynllunio yn amhriodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn dderbyniol ac yn darparu budd cadarnhaol.

8.3.3 Caiff Rhwymedigaethau Cynllunio eu sicrhau gan ddefnyddio cytundebau a/neu ymgymeriadau unochrog o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd). Fel arfer, mae Rhwymedigaethau Cynllunio yn fuddion a allai fod yn gyfatebol neu ar ffurf cyfraniadau ariannol. Mae Cytundebau Adran 106 yn gytundebau cyfreithiol rwymol sydd, yn absenoldeb amod cynllunio addas, yn sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio defnydd tir. Ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio ar sail achosion unigol ac yn gyffredinol fe'u defnyddir i sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwr a fydd yn gwrthbwyso canlyniadau negyddol datblygiad, yn helpu i fodloni anghenion lleol (gan gynnwys Tai Fforddiadwy), ac yn sicrhau buddion er mwyn gwneud datblygiad yn fwy cynaliadwy[58].

8.3.4 Mae Rhwymedigaethau Cynllunio yn gysylltiedig â'r tir. Felly, mae'n debygol y bydd y tirfeddiannwr, pa un ai ef yw'r datblygwr ai peidio, yn gyfrifol ac yn atebol am gydymffurfio â

[58] Polisi Cynllunio Cymru, Adran 4.7

Rhwymedigaethau Cynllunio ac unrhyw gostau a geir, oherwydd y tirfeddiannwr fydd yn elwa'n ariannol ar y caniatâd cynllunio. Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn hwyluso buddsoddi yn y gymuned er mwyn helpu i ariannu gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith cymunedol a gwyrdd sydd eu hangen i wella effaith y datblygiad a sicrhau ei gynaliadwyedd.

8.3.5 Mae Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn deillio o Ddibenion Statudol y Parc Cenedlaethol a'r weledigaeth strategol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn unol â nodau a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Dyma'r fframwaith arweiniol sydd wedi pennu ymagwedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol at geisio Rhwymedigaethau Cynllunio, ac yn wir y math o gyfraniadau sy'n briodol yn y Parc Cenedlaethol. Fe'i diweddarir i ffurfio Canllaw Cynllunio Atodol pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu.

8.3.6 Ceisir dau fath cyffredin o Rwymedigaethau Cynllunio yn y Parc Cenedlaethol.

- **Cyfraniadau Categori 1**
  Cyfraniadau sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol ac a bennir gan y meini prawf sy'n benodol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol.

- **Cyfraniadau Categori 2**[59]
  Cyfraniadau er budd economaidd-gymdeithasol y gymuned sy'n dibynnu ar weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Unedol cyfansoddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol a/neu ddarparwyr gwasanaethau cymunedol.

8.3.7 Ceisir Cyfraniadau Categori 1 mewn perthynas â phob datblygiad perthnasol yn unol â pholisïau penodol y Cynllun Datblygu Lleol hwn. Mae Atodiad 6 yn amlinellu lle y bydd cyfraniadau tebygol yn cael eu ceisio a'r polisi a ddefnyddir i wneud hynny. Ceisir Cyfraniadau Categori 2 gan bob datblygiad perthnasol mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Unedol cyfansoddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

8.3.8 Mae Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â gweithredu Rhwymedigaethau Cynllunio wedi'i amlinellu yn Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

---

[59] Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer yr ardal, mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yr hawl i negodi a llunio cytundebau Adran 106 gyda datblygwyr. Fodd bynnag, nid oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol awdurdodaeth weinyddol dros ddarparu gwasanaethau cymunedol fel addysg, lle amwynder a phriffyrdd. Y naw Awdurdod Unedol cyfansoddol sy'n rheoli o fewn ffin y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw seilwaith cymunedol i raddau helaeth. Fel y cyfryw, er y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddiffinio ac amodi'r angen am gyfraniadau, pennir lefel y cyfraniad o'r dystiolaeth brofedig o angen a gyflwynir gan ardaloedd gwasanaeth yr awdurdodau cyfansoddol perthnasol.

**Polisi 53**
**Rhwymedigaethau Cynllunio**

**Lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod datblygwyr yn cydymffurfio â Rhwymedigaethau Cynllunio, neu'n gwneud cyfraniad trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol[60], er mwyn sicrhau na fydd datblygiad newydd yn cael unrhyw effaith niweidiol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a/neu les economaidd-gymdeithasol ein cymunedau, nac yn achosi niwed annerbyniol iddynt.**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd ddangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod yr holl effeithiau negyddol posibl a allai godi o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig wedi derbyn sylw a, lle y bo'r angen, cynnig mesurau i liniaru a/neu wneud iawn am yr effaith ganfyddedig.**

**Pan fydd mesurau lliniarol a/neu ddigolledu o'r fath yn angenrheidiol, dylid eu hamlygu er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y Datganiad Rhwymedigaethau Cynllunio a ddarperir i gefnogi cais.**

**Sicrheir Rhwymedigaethau Cynllunio trwy Gytundebau Adran 106 (ac Ymgymeriadau Unochrog, lle y bo'n briodol).**

8.3.8 *Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol*
Mae Deddf Cynllunio 2008 yn caniatáu i'r Awdurdod geisio cyfraniadau gan ddatblygiad ar ffurf yr Ardoll Seilwaith Cymunedol[61]. Mae hyn yn gyfystyr â thâl penodol a godir ar bob datblygiad perthnasol, yn unol â strwythur codi tâl diffiniedig. Nod yr Ardoll yw ariannu seilwaith lleol newydd a bydd yn dileu, i raddau helaeth, yr angen am gyfraniadau a wneir trwy Rwymedigaethau Cynllunio o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

8.3.9 Pan fydd deddfwriaeth yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dod i rym yng Nghymru, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynd i'r afael â sut i'w gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

## 8.4. Seilwaith Cynaliadwy

8.4.0.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlygu dau amcan strategol, sef sicrhau bod digon o gyfleustodau'n cael eu darparu ar gyfer cymunedau lleol a datblygiadau yn y dyfodol, a hybu cymunedau integredig sydd â mynediad cynaliadwy at ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau.

8.4.0.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn ceisio sicrhau bod gan bob datblygiad yn y Parc Cenedlaethol seilwaith digonol i fodloni ei anghenion. Pan gynigir seilwaith newydd i fodloni anghenion preswylwyr, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio sicrhau y gellir ei ddarparu

[60] Nid oes tâl Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd
[61] Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010

yn y modd mwyaf cynaliadwy, heb gael effaith niweidiol ar asedau amgylcheddol a bywyd gwyllt, harddwch naturiol neu dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

8.4.0.3 Mae Polisi Strategol SP16 yn ymwneud â darparu seilwaith i fodloni anghenion cymunedau preswyl y Parc Cenedlaethol. Pan gynigir cynllun yn y Parc Cenedlaethol sy'n fwy cenedlaethol na lleol ei gymeriad, bydd datblygiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi SP1 a Pholisi SP2 (gweler Atodiad 1 i gael gwybodaeth am 'Ofynion Datblygu' ar gyfer pob safle a ddyrannwyd).

**SP 16 Seilwaith Cynaliadwy**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei wasanaethu'n dda gan seilwaith hanfodol.**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â darparu seilwaith newydd yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) lle y profir eu bod yn hanfodol i gynaliadwyedd cymunedau preswyl y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol;**

**b) lle y cânt eu lleoli mewn man na fydd yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol neu asedau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol; a**

**c) lle nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar amwynder cymunedau preswyl y Parc Cenedlaethol**

**Wrth alluogi datblygiad i wasanaethu seilwaith hanfodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion sy'n cyflwyno datrysiadau arloesol i gyfyngiadau ar ddarparu a achosir gan realiti bywyd gwledig.**

## 8.5 Gwasanaethau Cyfleustodau

8.5.0.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys datganiadau eglur ynglŷn â'r polisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar gyflenwad ac ansawdd dŵr a rheoli dŵr gwastraff. Cyfeiriwch at Bennod 12 'Seilwaith a Gwasanaethau' a Phennod 13 'Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli'.

### 8.5.1 Llinellau Pŵer a Phiblinellau

8.5.1.1 Diben Polisi 54 yw gosod fframwaith priodol i ystyried cynigion ar gyfer ceblau, adeiladu piblinellau a datblygiad cysylltiedig fel peilonau, is-orsafoedd ac ati.

8.5.1.2 Dylid archwilio cyfleoedd ar gyfer gosod ceblau o dan y ddaear bob amser[62] cyn belled ag nad yw hyn yn arwain at effaith annerbyniol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth

[62] Mae hyn yn unol â Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru 2007 paragraff 15.a, sy'n datgan mai un o nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai ceblau trawsyrru gael eu gosod o dan y ddaear lle y bo'n ymarferol (tud.6)

ddiwylliannol neu asedau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r lleoliad neu'r llwybr a ddewisir fod yn dechnegol ymarferol.

8.5.1.3 Bydd llawer o gynigion y tu allan i gwmpas rheolaeth gynllunio arferol, sy'n golygu y bydd y corff statudol perthnasol yn ymgynghori ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig. Felly, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r polisi hwn fel sail i ffurfio ei ymatebion i ymgynghoriadau o'r fath. Bydd y polisi'n berthnasol pan geisir caniatâd cynllunio ar gyfer ceisiadau o'r fath.

**Polisi 54**
**Llinellau Pŵer a Phiblinellau**

**Caniateir ceblau a/neu biblinellau a datblygiad cysylltiedig lle y dewisir y lleoliad, y llwybr neu'r dull darparu lleiaf ymwthiol a difrodol heb gael effaith annerbyniol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol neu adnoddau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod datblygwyr yn darparu asesiad trylwyr o'r risgiau amgylcheddol a amlygwyd wrth ddewis llwybr. Lle y bo'r angen, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod y datblygwr yn darparu mesurau digolledu a/neu wella boddhaol i liniaru unrhyw effaith niweidiol sy'n codi o'r datblygiad.**

**Gallai cynigion ar gyfer ceblau a/neu biblinellau hefyd fod yn ddarostyngedig i ofynion Polisi SP2 lle yr ystyrir bod y datblygiad yn fwy cenedlaethol (y Deyrnas Unedig) ei gymeriad na lleol.**

### 8.5.2 Telathrebu

8.5.2.1 Ceir nifer o fastiau trosglwyddo teledu, radio a thelathrebu yn y Parc ac o'i amgylch, sy'n ofynnol i ymestyn y derbyniad yn yr ardal fynyddig hon.

8.5.2.2 Mae'r polisi hwn isod yn ceisio cyfeirio datblygiadau telathrebu tuag at y lleoliad lleiaf ymwthiol posibl, gan ystyried gofyniad technegol pob cais unigol, gan gynnwys ei swyddogaeth yn y rhwydwaith. Bydd effaith unigol a chronnol cynigion yn bwysig. Dylai'r system ddarparu arfaethedig gynnwys rhaglen strategol ar gyfer lleoliad mastiau sy'n dangos sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r rhwydwaith.

8.5.2.3 Er mwyn asesu'r cynnig o dan faen prawf b), bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddangos bod arfarniad wedi'i gynnal o safleoedd a dewisiadau eraill, gan ystyried y posibilrwydd o rannu mastiau neu gysylltu wrth adeilad neu adeiledd addas arall wrth gyfiawnhau'r safle a ffefrir. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i'r wybodaeth ddangos yn eglur mewn termau mesuradwy pam mae lleoliadau neu ddewisiadau eraill yn anymarferol o gymharu â'r safle a ddewiswyd.

8.5.2.4 Un o elfennau ymagwedd ragofalus Llywodraeth Cynulliad Cymru at ddatblygiadau telathrebu yw mabwysiadu canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydredd Anïoneiddiol (ICNIRP) ar ddatguddio'r cyhoedd i allyriadau o orsafoedd.

Dylai pob cais gynnwys datganiad cydymffurfio â safonau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydredd Anïoneiddiol, ynghyd â manylion am lefel yr allyriadau.

8.5.2.5 Bydd caniatâd yn ddarostyngedig i symud yr holl offer o'r safle pan na fydd ei angen mwyach. Mae effaith datblygiadau telathrebu ar amwynder yn ystyriaeth bwysig (gweler SP3).

8.5.2.6 Bydd effaith datblygiad telathrebu ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn cael ei hasesu o dan SP 1 a Pholisi 1. Fe allai gael effaith negyddol ar rywogaethau (e.e. ystlumod), ond ni ellir penderfynu ar yr effaith heb wybod graddfa a lleoliad y datblygiad. Rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith cynnig ar asedau amgylcheddol, gan gynnwys yr effaith ar ansawdd pridd, dŵr ac aer, yn ogystal â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

**Polisi 55**
**Telathrebu**

**Caniateir datblygiad telathrebu yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) pan fo'r datblygiad yn rhan o system ddarparu a gynlluniwyd; a**

**b) chan ystyried cyfleoedd i rannu'r defnydd o fastiau, antenâu neu adeileddau presennol eraill, y gellir sicrhau'r adeiledd a'r lleoliad lleiaf ymwthiol neu ddifrodol, sy'n dechnegol ymarferol.**

**c) nad yw'r datblygiad yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar fywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol neu adnoddau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.**

**Lle y byddai datblygiadau'n amlwg, mae'n rhaid darparu tystiolaeth i ddangos yr ymchwiliwyd i leoliadau eraill a'u bod yn anymarferol. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu harchwilio'n drylwyr o ran lleoliad a dyluniad, ac fe'u caniateir dim ond lle na fydd unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.**

## 8.6 Cyfyngiadau Carthffosiaeth, Draenio a Chyfleustodau

### 8.6.1 Cyflenwad Dŵr a Charthffosiaeth ar gyfer Datblygiad Newydd

8.6.1.1 Mae'n rhaid darparu seilwaith dŵr a charthffosiaeth digonol ar gyfer pob datblygiad yn y Parc Cenedlaethol. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn cynnwys cysylltiad â gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth cyhoeddus. Ar draws ardal y Parc Cenedlaethol, cyfyngir ar ddatblygiad gan broblemau canfyddedig â'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus nad oes unrhyw welliannau rheoleiddiol wedi'u cynllunio ar eu cyfer o dan Raglen Buddsoddi Cyfalaf gyfredol Dŵr Cymru (mis Ebrill 2010 hyd at fis Mawrth 2015). Amlygir cyfyngiadau o'r fath mewn polisïau gofodol penodol ac yn y gofynion datblygu ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru i annog gwelliannau i'r gwasanaeth lle y bo'n bosibl.

8.6.1.2 Gallai datblygiad ar ddyraniadau graddol fod yn bosibl cyn buddsoddiad gan Dŵr Cymru.

Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ar adeg y cais. Mae Dŵr Cymru wedi gofyn i ddatblygiadau gael eu cyflwyno'n raddol yn seiliedig ar gapasiti rhagamcanol a gyfrifwyd o lefel twf strategol. Mae'n bosibl y byddai Dŵr Cymru yn gallu cynnal rhan o gynllun datblygu neu'r cyfan ohono o fewn y capasiti presennol a chyn unrhyw welliannau yn y dyfodol. Mewn achosion o'r fath, gallai Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried rhyddhau rhan o safle datblygu'n raddol fel y gellid darparu rhywfaint o ddatblygiad ar y safle cyn gwelliannau.

8.6.1.3 Mewn amgylchiadau lle nad oes capasiti i gynnal datblygiad o fewn y seilwaith presennol, byddai'n dal yn bosibl i safleoedd gael eu cyflwyno i'w datblygu cyn buddsoddiad gan Dŵr Cymru os yw'r datblygwr yn fodlon archebu'r gwaith a/neu ariannu'r gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith. Mewn achosion o'r fath, rhoddir caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod neu rwymedigaeth gynllunio addas yn unig. Dylai datblygwyr hefyd lunio trefniadau rheoli ac ôl-ofal priodol gyda Dŵr Cymru.

8.6.1.4 Anogir datblygwyr yn gryf i drafod dewisiadau ar gyfer gwasanaethu datblygiad newydd gyda Dŵr Cymru ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gamau cynharaf y Broses Ddylunio.

**Polisi 56**

**Cyflenwad Dŵr a Charthffosiaeth ar gyfer Datblygiad Newydd**

**Caniateir datblygiad dim ond os oes seilwaith dŵr a charthffosiaeth prif gyflenwad digonol yn bodoli neu y gellir ei ddarparu heb gael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, buddiannau cadwraeth natur neu amwynder preswyl. Lle y bo'n briodol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gosod amod neu rwymedigaeth gynllunio i sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael i wasanaethu'r datblygiad.**

### 8.6.2 Systemau Carthffosiaeth Nad Ydynt wedi'u Cysylltu â'r Prif Gyflenwad

8.6.2.1 Yn ôl deddfwriaeth ddraenio, wrth lunio cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiad, y rhagdybiaeth gyntaf ddylai fod darparu system draenio budr sy'n rhyddhau i garthffos gyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes mynediad i'r brif system garthffosiaeth mewn sawl rhan o'r Parc Cenedlaethol. Tanciau carthion yw'r dewis arall mwyaf priodol yn draddodiadol, er ei bod yn bosibl defnyddio carthbyllau seliedig a bioddisgiau hefyd.

8.6.2.2 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn awyddus i hybu'r defnydd o systemau carthffosiaeth cynaliadwy, fel gwelyau cyrs, lle y bo'n briodol. Cydnabyddir y buddion i fioamrywiaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, sy'n cynnwys targedau i gynyddu nifer y gwelyau cyrs yn y Parc Cenedlaethol. Gallai systemau rheoli carthffosiaeth eraill hefyd ddargyfeirio dŵr carthffosiaeth o gyfleusterau carthffosiaeth traddodiadol ac felly cyfrannu at leddfu cyfyngiadau capasiti yn y tymor hir.

8.6.2.3 Wrth asesu effeithiau cynigion ar gyfer pob math o ddraeniad nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad, dylai ymgeiswyr ystyried gofynion Cylchlythyr 10/99 – Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth Heb Brif Gyflenwad a chynnwys Tanciau Carthion mewn Datblygiad Newydd.

**Polisi 57**
**Defnyddio Systemau Carthffosiaeth Nad Ydynt wedi'u Cysylltu â'r Prif Gyflenwad**

**Caniateir defnyddio systemau carthffosiaeth nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:**

**a) pan nad yw cysylltiadau â'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn bosibl o ran cost neu ymarferoldeb;**

**b) pan fo cyflwr y ddaear, o ran draeniad a mandylledd, yn addas ac na fydd yn arwain at broblemau llygredd. Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno prawf trylifiad a baratowyd yn annibynnol gyda chais cynllunio i gadarnhau addasrwydd cyflwr y ddaear;**

**c) pan na fydd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd y dŵr wyneb a/neu'r dŵr daear;**

**ch) pan na fydd yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar fuddiannau eiddo cyfagos o ran arogl neu niwsans ffisegol arall; a**

**d) phan na fydd yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar fuddiannau iechyd y cyhoedd.**

**dd) pan fydd trefniadau cynnal a chadw tymor hir wedi'u sicrhau.**

## 8.7 Systemau Draenio Cynaliadwy

8.7.1 Mae mathau traddodiadol o ddatblygiad yn newid athreiddedd dŵr daear, gan gynyddu'r perygl o ddŵr ffo wyneb a llifogydd. Mae'r systemau draenio traddodiadol a ddefnyddir i ymdrin ag effeithiau dŵr wyneb yn ceisio gwaredu dŵr o'r safleoedd mor gyflym â phosibl. Mae hyn yn creu risg arwyddocaol i reoli dŵr ac adnoddau dŵr:-

- Mae'n disodli yn hytrach na dileu perygl llifogydd, gan fod dŵr ffo o arwynebau datblygu anathraidd yn cynyddu'r perygl o lifogydd i lawr yr afon, yn ogystal ag achosi i lefelau dŵr a chyfraddau llif godi'n sydyn wrth i'r dŵr gael ei ryddhau i gyrsiau dŵr.

- Yn aml, mae dŵr ffo wyneb yn cynnwys halogwyr, ac er y gallai'r rhain fod yn bresennol mewn symiau bach yn unig, gyda'i gilydd fe allant gael effaith arwyddocaol ar ansawdd dŵr mewn afonydd a nentydd, gan effeithio ar fioamrywiaeth a gwerth amwynder. Mae glaw trwm yn achosi rhuthr cyntaf sy'n aml yn llygrol iawn.

- Mae dargyfeirio glawiad i systemau pibellau traddodiadol yn golygu bod llai o ddŵr yn ymdreiddio'n naturiol i'r ddaear, gan effeithio ar adnoddau dŵr daear a lleihau'r llif mewn cyrsiau dŵr yn ystod tywydd sych.

8.7.2 Gellir defnyddio systemau draenio cynaliadwy i liniaru'r newidiadau i'r dŵr ffo arwyneb naturiol ac athreiddedd y ddaear a achosir gan ddatblygiad newydd. Mae'r rhain yn gweithio i gymedroli llifoedd a hidlo dŵr ffo gan leihau'r effaith ar adnoddau dŵr a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig (trwy fuddiannau amwynder, tirwedd a bioamrywiaeth).

8.7.3 Disgwylir y bydd defnyddio systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiad yn dod yn gynyddol bwysig er mwyn addasu i effeithiau presennol a disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfnodau hwy o sychder a glawiad trwm sy'n achosi llifogydd lleol, a darparu mesurau cydnerthedd yn eu herbyn.

8.7.4 Felly, yn unol â'r strategaeth i ddarparu ar gyfer byw'n gynaliadwy o fewn Tirwedd Parc Cenedlaethol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob cynnig ar gyfer datblygiad newydd yn defnyddio systemau draenio cynaliadwy fel mater o drefn.

8.7.5 Athroniaeth ddylunio yw draenio cynaliadwy sy'n defnyddio ystod o dechnegau i reoli dŵr wyneb mor agos i'w ffynhonnell â phosibl. Er mwyn creu cynllun ymarferol ac effeithiol, mae'n rhaid cynnwys systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau ar y cam cynllunio safle cynharaf. Mae hefyd yn bwysig, yn ystod y camau cynnar, bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r trefniadau ar gyfer mabwysiadu a chynnal a chadw'r system yn y dyfodol. Mae hyn yn debygol o ddylanwadu ar y dyluniad llawn cymaint ag ystyriaethau technegol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell y dylai corff sy'n atebol yn gyhoeddus fod yn gyfrifol am gynnal a chadw, a fydd yn aml yn golygu bod angen talu swm gohiriedig neu lunio cytundeb cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chytundeb adran 106. Yn y Parc Cenedlaethol, bydd Dŵr Cymru a'r Awdurdod draenio perthnasol yn gallu cynghori ar y ffordd orau o weithredu mewn perthynas â'r dull mabwysiadu.

8.7.6 Yn ogystal â'r uchod, bydd angen i gyfleusterau gwaredu carthffosiaeth a chapasiti draenio dŵr wyneb digonol fod ar gael ac ar waith cyn y gall datblygiad gael ei feddiannu. Bydd hyn yn gysylltiedig ag amod wrth roi caniatâd cynllunio lle y bo'r angen.

**Polisi 58**
**Systemau Draenio Cynaliadwy**

**Bydd yn ofynnol i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd ystyried cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy priodol. Lle y bo'n berthnasol, mae'n rhaid dangos bod y corff draenio perthnasol wedi cymeradwyo'r systemau draenio cynaliadwy a gynigir ar gyfer y datblygiad, yn ogystal â'r gweithdrefnau ar gyfer eu mabwysiadu a'u cynnal a'u cadw. Bydd hyn yn gysylltiedig ag amod a/neu drefniant adran 106 lle y bo'r angen.**

## 8.8 Trafnidiaeth Gynaliadwy

8.8.1 Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn amlinellu'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol (gweler paragraff 7.3.5).

8.8.2 Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cydnabod bod patrwm aneddiadau gwasgaredig y Parc wedi arwain at rwydwaith trafnidiaeth anghynaliadwy. Y tu allan i Aberhonddu, nid yw'r rhan fwyaf o'r Parc yn cael ei gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus, ac nid yw beicio a cherdded yn ddewisiadau ymarferol. Nid oes gorsafoedd rheilffordd o fewn ffin y Parc (er bod sawl un yn gwasanaethu ei gyrion), ac mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu wedi'i chyfyngu i ddefnydd pleser ar hyn o bryd. Felly, mae'r Parc Cenedlaethol yn dibynnu'n drwm ar drafnidiaeth trwy gerbydau preifat ar gyfer teithiau preswylwyr ac ymwelwyr a theithiau masnachol i'r Parc Cenedlaethol ac o'i fewn.

8.8.3 Felly, strategaeth y Parc Cenedlaethol trwy'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yw;

"*hybu datblygiad a gefnogir gan fentrau trafnidiaeth gynaliadwy ac sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat.*"

8.8.4 Fodd bynnag, mae dylanwad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar faterion trafnidiaeth yn gyfyngedig gan nad yw'n awdurdod priffyrdd. Felly, bydd llawer o'r strategaeth yn cael ei chyflawni trwy bolisïau a gweithredoedd cynlluniau eraill a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol[63] sy'n berthnasol i'r parc a phob un o'r 9 Awdurdod Priffyrdd cyfansoddol.

8.8.5 Mae'n rhaid i bob un o'r cyrff hyn ystyried dibenion y Parc Cenedlaethol a sicrhau eu bod yn cydweithredu ar draws ffiniau'r Parc, yn enwedig o ran materion cynllunio a phriffyrdd. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol sy'n cynnwys Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn amlinellu'r gofyniad i bob un o Awdurdodau Priffyrdd cyfansoddol y Parc weithio gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i negodi arian Adran 106 lle y bo'n briodol ar gyfer gwelliannau priffyrdd angenrheidiol.

8.8.6 Felly, mae'r meysydd allweddol lle y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddylanwadu ar yr angen i deithio fel a ganlyn

- y strategaeth ofodol sy'n rheoli lleoliad datblygiad (gweler SP 10 a'r holl Bolisïau Gofodol perthnasol)
- negodi Rhwymedigaethau Cynllunio mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Priffyrdd cyfansoddol (gweler Polisi 53 Rhwymedigaethau Cynllunio)
- rheoli dyluniad datblygiadau (gweler Pennod 8 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18)

8.8.7 Y Strategaeth Ofodol, Lleoliad Datblygiad a Thrafnidiaeth Gynaliadwy

Strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yw targedu datblygiad, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn lleoliadau sydd ag ystod resymol o gyfleusterau a mynediad trwy drafnidiaeth gyhoeddus.

8.8.8 Yn anffodus, mae rhai canolfannau sydd ag ystod o gyfleusterau ac y dylid eu hannog i dyfu, yn ddiffygiol o ran trafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen mynd i'r afael â hyn, yn ogystal ag achosion lle y mae ceir preifat yn drech ac yn difetha atynioldeb y ganolfan.

8.8.9 Er bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio twf at ganolfannau yn bennaf, bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried cynigion y tu allan i'r lleoliadau hyn mewn rhai achosion, er enghraifft, i hybu arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad. Y strategaeth fydd asesu cynigion o ran yr effaith ar draffig ac osgoi'r rhai hynny sy'n achosi pryderon arwyddocaol. Gallai enghreifftiau o effaith arwyddocaol ar draffig gynnwys cynhyrchu lefelau

[63] Consortiwm Trafnidiaeth Integredig De-orllewin Cymru sy'n ymdrin â Sir Gaerfyrddin
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru sy'n ymdrin â Phowys
Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru sy'n ymdrin â'r 7 Awdurdod sy'n weddill (Sir Fynwy ac awdurdodau'r cymoedd)
Gweler y Papur Materion Trafnidiaeth.

sylweddol o draffig mewn ardaloedd prysur neu lle y ceir pryderon ynghylch niwed i gymeriad yr ardal leol ac ni ellir lliniaru'r effeithiau hyn.

## 8.9 Rheoli Datblygiad a Thrafnidiaeth

8.9.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys datganiadau eglur ynglŷn â'r polisi rheoli datblygiad cenedlaethol ar reoli traffig, ystyriaethau trafnidiaeth wrth reoli datblygiad, asesiadau trafnidiaeth a chynlluniau teithio, a mynediad i ddatblygiad. Cyfeiriwch at Bennod 8 'Trafnidiaeth'.

8.9.2 Caiff y broses o gynllunio ac arfarnu cynigion trafnidiaeth yng Nghymru ei harwain gan "Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru" sy'n manylu ar sut y dylai pob cynnig trafnidiaeth gael ei gynllunio a'i ddatblygu.

8.9.3 Mae'r polisïau isod yn rhoi mwy o arweiniad a chyngor ar drafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol.

### SP17 Trafnidiaeth Gynaliadwy

**Sicrhau yr achubir ar gyfleoedd cynllunio defnydd tir yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol i wella a hybu hygyrchedd a lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat trwy:**

**a) ganiatáu cyfleusterau i wella trafnidiaeth gyhoeddus trwy helpu i gysylltu rhwng dulliau teithio neu ddarparu cyfleusterau i deithwyr;**

**b) sicrhau bod datblygiad newydd wedi'i gynllunio'n dda trwy ddarparu mynediad priodol i gerddwyr a beicwyr ac annog darparu seilwaith newydd i gerddwyr a beicwyr;**

**c) gwrthod cynigion a fydd yn cael effeithiau ar drafnidiaeth na ellir eu lliniaru'n foddhaol (gweler Polisi 59);**

**ch) lle y bo'r angen, caniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i gyflawni gwelliannau rheoli traffig a pharcio y profwyd eu bod yn angenrheidiol i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy; a**

**d) mynnu bod pob cynnig ar gyfer datblygiad a ddiffinnir yn Ddatblygiad Mawr yn cynnwys Cynllun Teithio a baratowyd er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

**Nod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw cyflawni'r uchod heb fod angen galluogi datblygiad ffyrdd newydd; fodd bynnag, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydnabod, mewn achosion eithriadol, bod ffyrdd newydd yn angenrheidiol i wella safonau diogelwch a helpu i gyflawni amcanion trafnidiaeth gynaliadwy ehangach. Bydd cynigion datblygu ar gyfer ffyrdd newydd yn cael eu barnu yn unol â chyfeiriad strategol y tri chynllun trafnidiaeth rhanbarthol ac amcanion cynaliadwyedd ehangach y Cynllun Datblygu Lleol.**

**Polisi 59**
**Effeithiau Traffig**

**Caniateir datblygiad lle y gellir darparu mynediad priodol.**

**Ystyrir bod mynediad yn amhriodol yn yr achosion canlynol:**

**a) lle y mae traffig yn debygol o gael effaith annerbyniol ar ardaloedd prysur neu ar adegau llif traffig brig; neu**

**b) lle y mae traffig yn debygol o gael ei greu ar adegau amhriodol fel yn hwyr yn y nos mewn ardaloedd preswyl; neu**

**c) lle y ceir effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd; neu**

**ch) lle y byddai'n achosi difrod amgylcheddol arwyddocaol na ellir ei liniaru.**

8.9.4 Mae'r polisi hwn yn dilyn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 18, ond mae'n pennu meini prawf asesu sy'n fwy perthnasol i lefel y datblygiad sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno datganiad byr ar drafnidiaeth sy'n manylu ar nifer debygol y teithiau y byddai eu datblygiad arfaethedig yn eu cynhyrchu a'r gyfran foddol debygol.

8.9.5 Bydd angen mwy o fanylion ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n bodloni unrhyw un o'r canlynol:

- Datblygiadau preswyl sy'n cynnwys 25 o unedau neu fwy; neu
- 100 neu fwy o symudiadau cerbydau y dydd; neu
- 10 symudiad cludo nwyddau y dydd; neu
- Lle y mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol am effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar drafnidiaeth

8.9.6 Bydd angen cynnal Asesiad Trafnidiaeth llawn ar gyfer unrhyw gynnig sy'n debygol o gynhyrchu nifer sylweddol o deithiau neu lle y mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol am effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar drafnidiaeth.

## 8.10 Beicio a Cherdded

8.10.1 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob datblygiad yn y dyfodol yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at greu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwasanaethu ein trefi a'n haneddiadau. Bydd cynigion sy'n cyfrannu'n weithredol ar y seilwaith ffisegol trwy ddarparu llwybrau beiciau neu lwybrau i gerddwyr a llwybrau marchogaeth / llwybrau ceffylau yn cael eu hannog yn unigol neu fel rhan o gynllun datblygu ehangach. Ym mhob achos, bydd angen gwarchod nodweddion arbennig a chyfalaf amgylcheddol y Parc Cenedlaethol, ond mae'r rhagdybiaeth gyffredinol tuag at alluogi cynigion o'r fath. Bydd cynigion yn cael eu barnu yn unol â Pholisi 60 a amlinellir isod.

**Polisi 60**
**Darpariaeth ar gyfer Beicio a Cherdded**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys creu llwybrau newydd i gerddwyr a/neu feiciau neu a fydd yn galluogi gweithredu mesurau penodol i wneud cerdded a/neu feicio'n fwy diogel a deniadol yn yr amgylchiadau canlynol:-**

**a) pan fyddant yn cael cyn lleied o effaith niweidiol ar yr amgylchedd â phosibl, ac yn cynnwys mesurau lliniaru lle y bo'r angen;**

**b) pan fyddant yn cyflawni angen strategol neu leol (er enghraifft, ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol neu gysylltu â'r Rhwydwaith hwnnw);**

**c) pan fyddant yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer teithio cynaliadwy;**

**ch) pan ellir profi y byddant yn helpu i leihau faint o draffig a gynhyrchir.**

## 8.11 Defnydd Cynaliadwy o Dir

8.11.1 Mae darparu ar gyfer datblygiad o fewn tirwedd warchodedig yn golygu bod angen rheoli'n ofalus ac yn ystyriol y galwadau sy'n aml yn tynnu'n groes i'w gilydd rhwng anghenion economaidd-gymdeithasol â'r gofyniad statudol i warchod a gwella amgylchedd, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

8.11.2 Er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o newidiadau i'r amgylchedd ac effeithiau ar y dirwedd yn angenrheidiol er mwyn darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein cymunedau, ein nod yw sicrhau bod modd cyfiawnhau hyn ac nad yw'n wastraffus o ran cymryd tir.

**SP 18 Defnydd Cynaliadwy o Dir**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod pob datblygiad newydd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r tir sydd ar gael i'w ddatblygu trwy annog**

**a) ailddatblygu priodol er mwyn adnewyddu adeiladau y profwyd eu bod yn anaddas i'r diben mewn lleoliadau sy'n gyson â'r strategaeth Aneddiadau (gweler SP10 a'r polisïau ategol)**

**b) defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn ffiniau datblygiad yn lle safleoedd Maes Glas**

**c) dwysedd anheddau sy'n gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael, gan gyflawni'r dwysedd anheddau lleiaf sy'n berthnasol i'r anheddiad.**

## 8.12 Dwysedd Anheddau

8.12.1 Nid oes llawer o dir addas ar gyfer tai ar gael yn y Parc Cenedlaethol. Lle y bwriedir

datblygu tir, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau y cyflawnir y defnydd mwyaf cynaliadwy o dir.

8.12.2 Mae lefelau dwysedd priodol wedi'u profi trwy'r Astudiaeth Hyfywedd Tai.

8.12.3 Mae'r polisi canlynol yn adlewyrchu lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob anheddiad ac yn ceisio pennu gofyniad dwysedd sy'n cyflawni bywiogrwydd cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd â pharchu capasiti amgylcheddol a thirwedd pob lefel o'n Hierarchaeth Ofodol.

**Polisi 61**
**Dwysedd Anheddau**

**Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl gael ei ddatblygu ar ddwysedd lleiaf o 30 annedd yr hectar, lle y mae hyn yn gydnaws â chymeriad presennol yr ardal.**

**Caniateir lefelau is na'r targed lleiaf dim ond lle y profir nad oes modd cyflawni'r dwysedd hwn yn sgil cynnwys mesurau i wella cynaliadwyedd y cynllun na ellir eu lleoli ar dir y tu allan i'r dyraniad.**

8.12.4 Mae eithriadau posibl yn cynnwys

- Darparu Gwaith Gwres a Phŵer Cyfunedig
- Darparu Systemau Draenio Cynaliadwy a chyfleusterau Trin Carthffosiaeth Gwelyau Cyrs
- Darparu lle ar gyfer rhandiroedd
- Darparu mannau chwarae

## 8.13 Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol yn y Parc Cenedlaethol

8.13.1 Mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer datblygiad fod yn unol â strategaeth ofodol y cynllun hwn fel y'i hamlinellir ym Mholisi SP10 a'r polisïau manwl cysylltiedig. Mae hyn hefyd yn wir am gynigion ar gyfer datblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol.

8.13.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys Canllawiau Cenedlaethol ynglŷn â thir a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r canllawiau yn ymwneud yn bennaf ag ardaloedd trefol ac yn hybu ymagwedd lle y caiff safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol eu dychwelyd i ddefnydd er mwyn cynorthwyo i adfywio ardal lle y ceir safleoedd gwag neu ddiffaith. Nid oes arweiniad penodol ar gael ar sut y dylid dehongli'r canllawiau hyn mewn ardaloedd gwledig neu Barciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n datgan na fydd tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn ddewis a ffefrir ym mhob achos, ac y bydd lleoliad y safle yn ffactor wrth benderfynu ar hyn. Mae hefyd yn mynnu bod y Cynllun Datblygu Lleol hwn yn amlinellu'r amgylchiadau lle na fyddai safle a ddatblygwyd yn flaenorol yn ddewisach.

8.13.3 Wrth asesu a yw safle'n briodol i'w ddatblygu yn y Parc Cenedlaethol, nid yw'r brif ystyriaeth yn ymwneud â pha un a yw'n safle maes glas neu'n safle a ddatblygwyd yn flaenorol, ond yn hytrach gapasiti'r safle i ddarparu datblygiad a all gyflawni strategaeth y cynllun hwn, sef cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ein cymunedau heb achosi niwed i'r dirwedd warchodedig.

8.13.4 Nid ystyrir bod y ffaith fod caniatâd wedi'i roi yn hanesyddol ar gyfer defnydd ar safle yng nghyd-destun polisi cynllunio blaenorol yn ddigon o sail i fod yn drech na'r diben statudol i warchod a gwella'r dirwedd warchodedig, nac ychwaith yn ddigon o sail i ddarparu eithriadau i weithredu'r Strategaeth Ofodol. Yn wir, mewn rhai achosion, gallai'r defnydd blaenorol fod wedi'i ganiatáu mewn cyd-destun sy'n dyddio o gyfnod cyn dynodiad y Parc Cenedlaethol.

8.13.5 Y prif ffactor wrth bennu addasrwydd safle a ddatblygwyd yn flaenorol fydd ei leoliad ac felly ei allu i gyflawni Strategaeth Ofodol y Cynllun hwn. Gallai safleoedd mewn trefi a phentrefi gael eu cynnal yn haws, ond bydd safleoedd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli'n llym a'u caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

8.13.6 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal ymagwedd hyblyg ac yn ystyried pob safle yn ôl ei deilyngdod yn erbyn polisïau perthnasol y Cynllun.

8.13.7 Bydd y polisïau perthnasol ym Mhennod 4 Strategaeth Ofodol yn gymwys yn unol â lleoliad y safle. O ran safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol y tu allan i ffiniau datblygiad, cyfeiriwch at CYD LP 1 ar gyfer y mathau o ddefnyddiau a graddfa'r datblygiad yr ystyrir eu bod yn dderbyniol ac yn briodol mewn amgylchiadau o'r fath.

# PENNOD 9: GWASTRAFF

9.0.1 Mae rôl Awdurdod y Parc Cenedlaethol o ran rheoli gwastraff wedi'i hamlinellu mewn Canllawiau Cenedlaethol[64]. Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r Awdurdod Cynllunio Gwastraff ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am reolaeth gynllunio o ran rheoli gwastraff. Nid yw'n gyfrifol am gasglu a gwaredu gwastraff. Yr Awdurdodau Unedol cyfansoddol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am hynny. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio gwastraff.

## 9.1 Strategaeth Wastraff Ranbarthol – Y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol

9.1.1 Mae'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir a strategaeth rheoli gwastraff strategol tymor hir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac adfer adnoddau. Y Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol sy'n gyfrifol am baratoi Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn dwy Ardal Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ac yn ddarostyngedig i ddwy ddogfen Cynllun Gwastraff:

**Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (Awst 2008)**
**Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Awst 2008)**

9.1.2 Mae'r Parc Cenedlaethol hwn wedi'i wahardd rhag darparu cyfleusterau newydd ar gyfer rheoli gwastraff sy'n gwasanaethu mwy nag un ardal Awdurdod Lleol o dan Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru, Awst 2008, a Chynllun Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.

9.1.3 Mae'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol naill ai

- gynnal cyfleusterau gwastraff cymunedol lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig; neu
- gysylltu ag awdurdodau cynllunio gwastraff cyffiniol i gynnal cyfleusterau sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol ac ardal yr Awdurdod Unedol sydd i'w lleoli y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

9.1.4 Mae'r ddau Adolygiad 1af o'r Cynlluniau Gwastraff yn datgan
"*mewn amgylchiadau eithriadol, gallai fod safleoedd wrth ymyl Parciau Cenedlaethol lle y gallai cyfleusterau sydd â'r capasiti i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol fod yn dderbyniol, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â gwastraff amaethyddol*"

9.1.5 Gall cyfleusterau lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn unig gynnwys Cyfleusterau Adfer Deunyddiau Glân, Gorsafoedd Trosglwyddo, Amwynder Dinesig, ac

---
[64] Nodyn Cyngor Technegol 21 Gwastraff, paragraff 1.6

Eithrio Adeiladu a Dymchwel. Nid yw'r gofyniad ar gyfer cyfleusterau o'r fath wedi'i sefydlu.[65]

9.1.6 Nid oes gofynion penodol wedi'u hamlygu ar gyfer y cyfleusterau hyn a bydd cynigion yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn y safleoedd cyflogaeth a restrir isod, trwy eu hasesu yn unol â pholisïau perthnasol sy'n seiliedig ar feini prawf;

1. BREC 1 Parc Menter Aberhonddu
2. BREC 2 Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech
3. CRICK 1 Parc Busnes Elvicta
4. CRICK 2 Parc Granada
5. GIL 1 Ystad Ddiwydiannol Parc Gilwern

**SP7 Gwastraff**

**Yn unol â Chynlluniau Gwastraff Trefol a Chynlluniau Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru, ni fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dyrannu tir ar gyfer Cyfleuster Gwastraff Rhanbarthol na datblygiad cysylltiedig.**

**Bydd angen i bob cynnig ar gyfer datblygiad ddangos bod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, a bod trefniadau wedi'u hwyluso ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a gwaredu gwastraff yn ddiogel.**

**Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau ei fod yn ystyried datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff lleol lle y bo'n briodol a lle y nodir bod eu hangen (gweler Polisi 62).**

**Polisi 62**
**Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol**

**Caniateir cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) Lle y byddai'r safle wedi'i leoli'n gyfleus o ran anghenion cymuned y Parc Cenedlaethol; neu**

**b) Lle y bônt wedi'u lleoli mewn unedau diwydiannol B2 neu safleoedd rheoli gwastraff presennol; a**

**c) Lle y mae'r cynnig yn darparu sgrinio digonol er mwyn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol cymaint â phosibl; a**

**ch) Lle y mae'r datblygiad yn ddigon pell oddi wrth eiddo cyfagos fel nad yw'n achosi perygl iechyd neu ddiogelwch posibl; a**

[65] Disgwylir data gan randdeiliaid allweddol a bydd yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd o'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. (Bydd angen defnyddio cyfrifiad i ddosrannu'r data crai yn nhaenlenni'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol i'r rhan o'r Awdurdod Unedol sydd o fewn y Parc Cenedlaethol.) Bydd yn rhaid gwneud hyn ar gyfer y ddau Gynllun Gwastraff Rhanbarthol a'r 2 ofyniad a ddangoswyd. Rhoddir y data yn y Papur Materion Gwastraff pan fydd ar gael.

| | |
|---|---|
| **d)** | **Lle na fydd y datblygiad yn achosi niwed amlwg i amwynderau'r ardal leol a chymunedau lleol, yn enwedig o ran mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch, sbwriel ac arogl, nac yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear presennol.** |

9.1.8 Ni ddylai cyfleusterau Rheoli Gwastraff lleol danseilio dewisiadau rheoli gwastraff sy'n uwch i fyny'r hierarchaeth wastraff (gweler adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol).

9.1.9 Mae safleoedd amwynder dinesig yn ddefnyddiol oherwydd y gellir didoli gwastraff cartref i hwyluso ailddefnyddio ac ailgylchu. Maent hefyd yn helpu i osgoi tipio anghyfreithlon. Gallant greu symudiadau cerbydau sylweddol a byddant yn golygu storio deunyddiau gwastraff dros dro mewn cynwysyddion agored neu gaeëdig (o ran gwastraff pydradwy). Am y rhesymau hyn, mae'r gofynion o ran mynediad, parcio ac amwynder yn eithaf llym. Mae angen ystyried trwyddedau amgylcheddol sydd ar wahân i'r system gynllunio hefyd.

## 9.2 Ynni o Wastraff

9.2.1 O dan bolisi rheoli gwastraff presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae prosesu gwastraff cynaliadwy yn cael ei hybu. Mae rhaglen gaffael genedlaethol ar waith ar hyn o bryd i ddarparu cyfleusterau ynni o wastraff i wasanaethu'r holl wastraff bwyd trefol.

9.2.2 Mae ynni o weithfeydd gwastraff yn cynnwys

*Technolegau thermol*:

- Nwyeiddio (sy'n cynhyrchu nwy llosgadwy, hydrogen, tanwyddau synthetig)
- Dibolymeru thermol (sy'n cynhyrchu olew crai synthetig, y gellir ei buro ymhellach)
- Pyrolysis (sy'n cynhyrchu bio-olew/tar llosgadwy a thorgochion)
- Nwyeiddio arc plasma neu broses nwyeiddio plasma (PGP) (sy'n cynhyrchu nwy synthesis cryf yn cynnwys hydrogen a charbon monocsid y gellir ei ddefnyddio ar gyfer celloedd tanwydd neu i gynhyrchu trydan i yrru'r arc plasma, ingotau metel a silicad gwydrog y gellir eu defnyddio, halen a sylffwr)

*Technolegau anthermol*:

- Treulio anaerobig (Bionwy sy'n llawn methan)
- Cynhyrchu trwy eplesu (mae enghreifftiau'n cynnwys ethanol, asid lactig, hydrogen)
- Triniaeth fiolegol fecanyddol
- Triniaeth fiolegol fecanyddol a threulio anaerobig
- Triniaeth fiolegol fecanyddol i ddeillio tanwydd o sbwriel

9.2.3 Mae Treulio Anaerobig yn cael ei hybu fel dull cynaliadwy o brosesu gwastraff. Yn unol â'r cynlluniau gwastraff rhanbarthol perthnasol, ni ddylai cyfleusterau gwastraff rhanbarthol gael eu lleoli yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi proseswyr ar raddfa fach sy'n gwasanaethu anghenion gwastraff lleol yn unig. Mae Polisi 63 yn amlinellu sut y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn galluogi gweithfeydd ynni o wastraff yn y Parc Cenedlaethol ac yn unol â chyfarwyddyd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol.

**Polisi 63**
**Cynlluniau Datblygu Ynni o Wastraff**

**Bydd cynlluniau datblygu ynni o wastraff yn cael eu galluogi pan fydd eu graddfa a'u lleoliad yn briodol ac yn gymesur â Dynodiad y Parc Cenedlaethol (gweler SP1), a lle:**

**a) Y maent yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio fferm:-**

**i) y diben yw trin gwastraff sy'n deillio o weithgarwch amaethyddol presennol yn yr uned fferm, ac**

**ii) mae'r cynllun yn weithrediad ar wahân heb ofyniad i fewnforio deunyddiau gwastraff o weithgarwch sy'n deillio o'r tu allan i'r fenter ffermio bresennol y bwriedir i'r cyfleuster ei gwasanaethu; ac**

**iii) mae incwm sy'n deillio o'r rhan o'r cyfleuster sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni yn aros yn weithgarwch ategol i'r fenter amaethyddol.**

**NEU**

**b) y bydd prosesu gwastraff yn gwasanaethu anghenion Datblygiadau Un Blaned lle y mae'r prosesydd wedi'i gynllunio fel uned ar wahân sy'n gweithredu heb ofyniad i fewnforio deunydd gwastraff o weithgarwch sy'n deillio o'r tu allan i'r datblygiad**

**NEU**

**c) y mae'r cynllun arfaethedig wedi'i leoli ar**

**i) safle rheoli gwastraff presennol; neu**

**ii) safle sydd â defnyddiau presennol a ddosberthir yn Ddiwydiant Cyffredinol B2 o dan y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd; neu**

**iii) safle a ddyrannwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth neu ddefnydd cymysg**

**a fwriedwyd i drin deunyddiau gwastraff sy'n deillio'n lleol; ac**

**ch) ni ellir bodloni'r angen mewn lleoliad arall y tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol.**

9.2.4 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu manylion ynghylch faint o wastraff sydd i'w drin, gan gynnwys ffynhonnell y ffrwd wastraff. Gofynnir am gynlluniau busnes yn ymwneud â'r cynllun i gefnogi'r cais er mwyn dangos tystiolaeth fod graddfa a thwf rhagamcanol y gweithrediad yn cyd-fynd â'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer yr ardal ac, yn bwysicach, nad yw'n ymwneud â phrosesu gwastraff ar lefel sy'n annerbyniol mewn Parc Cenedlaethol.

9.2.5 Yn unol â'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, ceir rhagdybiaeth yn erbyn creu cyfleuster gwastraff rhanbarthol yn y Parc Cenedlaethol waeth beth fo'r math o gyfleuster prosesu.

## 9.3 Compostio

9.3.1 Mae compostio'n broses/triniaeth gynaliadwy ar gyfer y swm mawr o wastraff gwyrdd a gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ansawdd y cynnyrch fod yn ddigon da ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol.

9.3.2 Gallai rheoli gwastraff gwyrdd hefyd gynnwys datblygiadau cysylltiedig fel malu. Caiff gwastraff gwyrdd ei gasglu a'i reoli yn y safleoedd Amwynder Dinesig a'r ddau safle tirlenwi yn ardal Cyngor Sir Powys o'r Parc Cenedlaethol. Ymgymerir â chompostio hefyd mewn ffermydd yn ardal Cyngor Sir Powys; ceir cynlluniau compostio cymunedol hefyd.

9.3.3 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion ar gyfer compostio deunydd a gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol mewn safleoedd presennol cyffiniol a ddefnyddir i waredu neu reoli gwastraff, sy'n gweithredu heb unrhyw broblemau amgylcheddol neu broblemau eraill cysylltiedig. Mewn achosion eithriadol, lle y bo'n dderbyniol yn amgylcheddol ac yn fwy cynaliadwy yn economaidd, bydd yr Awdurdod yn ystyried cynigion sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf. Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru.

9.3.4 Ceir trwyddedau amgylcheddol hefyd sydd ar wahân i'r system gynllunio y bydd angen i ymgeiswyr eu hystyried.

9.3.5 Mae'n debygol y bydd ceisiadau ar gyfer rhesgompostio yn fwyaf addas mewn lleoliadau gwledig.

**Polisi 64**
**Compostio**

**Caniateir cynigion sy'n ymwneud â chompostio deunydd organig, a gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol, oni bai y byddent yn cael effaith annerbyniol ar unrhyw un o'r canlynol:**

**a) amwynderau'r ardal leol a chymunedau lleol (yn enwedig o ran mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch, arogl a diogelwch)**

***newydd*) adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear presennol;**

**neu**

**b) gapasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol.**

**Ac yn amodol ar y canlynol:**

**c) y darperir ar gyfer tirweddu a/neu sgrinio'r safle; ac**

**ch) y cymerir camau digonol i ymdrin â thrwytholch; a**

**d) bod gan y cynnyrch werth ychwanegol.**

# PENNOD 10: DEFNYDD CYNALIADWY O ADNODDAU MWYNAU

10.0.1 Strategaeth y Parc Cendelaethol, trwy'r Cynllun Datblygu Lleol hwn, yw;

**Gwarchod y Parc Cenedlaethol rhag gwaith mwynau newydd ac estyniadau i waith mwynau presennol, ar yr un pryd â diogelu adnoddau mwynau priodol rhag cael eu colli.**

## 10.1 Echdynnu Mwynau mewn Parciau Cenedlaethol

10.1.1 Ceir Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau sy'n datgan yn eglur nad oes angen caniatáu cynigion ar gyfer echdynnu agregau o Barciau Cenedlaethol yng Nghymru heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

10.1.12 Felly, bydd cynigion ar gyfer safleoedd mwynau newydd neu estyniadau i safleoedd presennol yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu pennu yn unol â'r datganiadau eglur yn y polisi rheoli datblygiad sy'n ymdrin â mwynau mewn Parciau Cenedlaethol a amlinellir yn y Canllawiau Cenedlaethol. Bydd pob cynnig mawr hefyd yn cael ei ystyried o dan Bolisi SP2 y Cynllun Datblygu Lleol: Datblygiadau Mawr.

10.2.4 Amlygir ardaloedd Diogelu a Chaniatâd Cynllunio ar gyfer adnoddau mwynau, ynghyd â Chlustogfeydd, ar y Map Cynigion.

10.3.0.1 Diben diogelu mwynau yw sicrhau nad yw adnoddau mwynau y gallai cenedlaethau i ddod fod ag angen amdanynt yn cael eu colli'n ddiangen yn sgil datblygiad parhaol.

## 10.2 Adnoddau Tywod a Gro

10.2.1 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried presenoldeb adnoddau tywod a gro, calchfaen a thywodfaen wrth bwyso a mesur ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad a fyddai'n peri bod yr adnoddau hyn yn cael eu colli fel arall. Mae Polisi 65 yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ystyried ceisiadau o'r fath. Nid yw'r ardaloedd diogelu adnoddau mwynau a amlygir ar y Map Cynigion ar gyfer tywod a gro yn dangos ardaloedd lle y gall gwaith mwynau ddigwydd, ac nid ydynt yn rhoi syniad o addasrwydd gwaith neu ansawdd masnachol deunyddiau. Byddai unrhyw gynigion ar gyfer gwaith mwynau yn ddarostyngedig i ganllawiau cenedlaethol a rhanbarthol a'r polisi cynllunio perthnasol, a byddai angen iddynt ddarparu digon o fanylion am adfer y safle arfaethedig, gan gynnwys deunyddiau. Bydd ystyriaeth o effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd sydd heb eu dynodi yn ogystal â safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000.

## 10.3 Diogelu Adnoddau Glo

10.3.1 ***Glo:*** Er bod ymyl deheuol y Parc Cenedlaethol yn cynnwys adnoddau glo, yn unol â'r cyngor a roddir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2, nid oes gofyniad i ddiogelu adnoddau o'r fath yn y Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, nid yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn diogelu adnoddau glo trwy'r Cynllun Datblygu Lleol hwn.

**Polisi 65**

**Diogelu Mwynau**

**Bydd cronfeydd tywod a gro, calchfaen a thywodfaen yn cael eu diogelu fel y dangosir ar y Map Cynigion.**

**Bydd angen echdynnu mwynau cyn datblygiad a fyddai fel arall yn peri bod adnoddau mwynau o bwysigrwydd economaidd presennol neu bwysigrwydd tebygol yn y dyfodol yn cael eu colli, cyn belled ag nad oes lleoliad addas arall ar gael a bod angen o'r pwys mwyaf am y datblygiad (yn unol â Pholisi SP2), ac y gellir cyflawni'r echdyniad:**

**a) heb beryglu'r datblygiad arfaethedig;**

**b) trwy gwblhau'r echdyniad o fewn amserlen resymol;**

**c) heb effeithiau amgylcheddol annerbyniol.**

## 10.4 Pyllau Benthyg

10.4.1 Fe all fod yn fuddiol i ardal leol pe byddai deunyddiau ar gyfer prosiect adeiladu'n cael eu cyflenwi o ffynhonnell leol, gan osgoi cynhyrchu traffig a symudiadau ffyrdd a'r holl broblemau cynhenid sy'n gysylltiedig â dewis mwy anghysbell. Mae'r term 'pwll benthyg' yn cyfeirio at waith mwynau sy'n ofynnol i gyflenwi deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer prosiect adeiladu tymor byr penodol yn unig.

10.4.2 Mae'r amgylchedd adeiledig yn rhan bwysig o'r Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei nodweddion arbennig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term lleol yn golygu'r Parc Cenedlaethol ac ardaloedd sy'n union gyfagos iddo. Bydd ystyriaeth o effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd sydd heb eu dynodi yn ogystal â safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000.

**Polisi 66**
**Pyllau Benthyg**

**Rhoddir caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer pyllau benthyg yn yr amgylchiadau canlynol:**

**a) lle y mae angen y pwll benthyg i gyflenwi deunyddiau priodol ar gyfer prosiect adeiladu tymor byr penodol;**

**b) lle y bydd yr echdyniad yn dod i ben pan fydd y cynllun adeiladu wedi'i gwblhau;**

**c) lle y mae'r pwll benthyg wedi'i leoli'n agos i'r prosiect adeiladu arfaethedig;**

**ch) lle y mae buddion amgylcheddol eglur yn sgil bodloni'r angen o'r ffynhonnell arfaethedig yn hytrach nag o safle neu safleoedd presennol sydd â chaniatâd cynllunio neu o agregau eilaidd neu a ailgylchwyd o fewn neu'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol;**

**d) lle y mae graddfa'r datblygiad yn briodol i'r ardal leol;**

**dd) lle na fydd y datblygiad yn achosi difrod anadferadwy i'r dirwedd leol a'r amgylchedd lleol; a**

**e) lle na fydd y datblygiad yn niweidio amwynderau'r ardal leol neu gymunedau lleol, yn enwedig o ran mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch**

**(maen prawf newydd) lle na fydd y pwll benthyg yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb neu ddŵr daear presennol;**

**f) lle y gall y rhwydwaith ffyrdd lleol ymdopi ag unrhyw ddeunydd a gludir ar briffordd gyhoeddus; a**

**ff) lle y darperir ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol, adfer, tirweddu a rheoli'r safle ar ôl ei gau, gan gynnwys manylion adfer y safle'n raddol lle y bo'n bosibl.**

## 10.5 Chwarela ar Raddfa Fach ar gyfer Anghenion Lleol

10.5.1 Mae cymeriad treftadaeth adeiledig y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar gymeriad y cerrig adeiladu, a geir yn bennaf o chwareli lleol bach. Yn ddelfrydol, byddai symiau bach o gerrig adeiladu lleol, a gafwyd o chwareli a leolwyd yn briodol, yn cael eu defnyddio i alluogi gwaith cadwraeth a, lle y bo'n briodol, galluogi adeiladu adeiladau newydd priodol ar yr un pryd â sicrhau y cedwir cymeriad yr adeiladau hanesyddol, a'u dylanwad ar gymeriad y dirwedd hanesyddol ehangach. Fodd bynnag, nid oes digon o chwareli o fewn neu'n agos i'r Parc Cenedlaethol i gyflenwi cerrig adeiladu lleol i fodloni gofynion Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer defnyddio deunyddiau adeiladu traddodiadol. Cefnogir hyn gan dystiolaeth mewn astudiaeth a gynhaliwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn 2009[1].

[1] Amgueddfa Genedlaethol Cymru. 2009. Defnyddio Cerrig Adeiladu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

O ganlyniad, bydd angen i ofynion lleol am gerrig adeiladu gael eu bodloni o ffynonellau sy'n agos i'r Parc Cenedlaethol ond y tu allan iddo, neu o ffynonellau eraill fel deunyddiau gwastraff, eilaidd ac wedi'u hailgylchu lle y bo'n briodol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol.

10.5.2 Felly, nid oes angen i'r Cynllun hwn gynnwys polisi yn ymwneud â'r amgylchiadau lle y byddai cynigion ar gyfer chwarela ar raddfa fach i fodloni anghenion lleol yn dderbyniol.

## 10.6 Deunyddiau Gwastraff, Eilaidd ac wedi'u Hailgylchu

10.6.1 Cefnogir egwyddor ailgylchu deunyddiau mwynau o safleoedd a'u defnyddio fel agregau eilaidd oherwydd bod hyn yn cyfrannu at ddefnydd cynaliadwy o ddeunyddiau mwynau, sy'n adnodd terfynedig. Ni chaniateir cynigion sy'n golygu ailweithio gwastraff mwynau sydd wedi dod yn rhan o'r dirwedd ac yn ei gwella neu'n ffurfio ardal o ddiddordeb archaeolegol.

10.6.2 Pan fydd angen i brosesu ymdrin â gwastraff sy'n codi o sawl ffynhonnell, gellid sefydlu lleoliad canolog i ymdrin â gwastraff mwynau y gellir ei ailgylchu. Gallai gweithfeydd ailgylchu fod yn briodol ar safleoedd gwaith sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau neu waredu gwastraff mwynau.

10.6.3 Gall gweithrediadau malu a sgrinio achosi niwed i amwynder yr ardal amgylchynol ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn a sefydlu mesurau lliniaru priodol.

10.6.4 Cydnabyddir bod hawliau 'datblygu a ganiateir' o dan Orchymyn Datblygu Cyffredinol 1995 mewn perthynas â mwynau, ac i gydnabod effaith amgylcheddol bosibl datblygiad o'r fath, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefniadau ymgynghori anffurfiol gyda datblygwyr a gweithredwyr ar gyfer cynlluniau sydd y tu allan i weithdrefnau cymeradwyaeth gynllunio ffurfiol. Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru. Ceir trwyddedau amgylcheddol hefyd sydd ar wahân i'r system gynllunio y bydd angen eu hystyried.

**Polisi 67**
**Deunyddiau Gwastraff, Eilaidd ac wedi'u Hailgylchu**

**Cefnogir y defnydd o ddeunyddiau gwastraff, eilaidd ac wedi'u hailgylchu, gan gynnwys gwastraff dymchwel ac adeiladu sy'n codi o ffynonellau lleol, cyn belled ag:**

**a) na fydd symud unrhyw ddeunydd yn cael effaith niweidiol ar unrhyw safleoedd, adeiladau, waliau neu nodweddion tirwedd, cadwraeth natur, archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol; ac**

**b) na fydd ailddefnyddio deunyddiau yn niweidio cymeriad y Parc Cenedlaethol; ac**

**c) y gellir trin gwastraff mwynau yn foddhaol o fewn y safle echdynnu mwynau, gan gynnwys cynllun addas ar gyfer adfer ac ôl-ofal y safle os yw'n briodol; ac**

**ch) na fydd y datblygiad yn niweidio amwynderau ardaloedd lleol a chymunedau lleol, yn enwedig o ran mynediad, y traffig a gynhyrchir, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch, nac yn cael effaith niweidiol ar adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear presennol.**

## 10.7 Safleoedd Mwynau Segur

10.7.1 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi rhoi gorchmynion gwahardd i nifer o safleoedd. Ceir safleoedd hefyd a allai gael eu hystyried ar gyfer gorchmynion gwahardd yn y dyfodol yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Rhestrir pob safle yn Atodiad 7.

10.7.2 Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i briodoldeb gwneud Gorchmynion Gwahardd ar sail achosion unigol ac yn ystyried ffactorau fel graddfa'r gweithrediad a lefelau cynhyrchu yn y gorffennol. Wrth bennu pa un a yw ailddechrau gweithio'n annhebygol ai peidio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cysylltu â'r gweithredwyr/perchenogion ynglŷn â phatrwm a rhaglen eu gweithrediadau, gan gynnwys rhagolygon tueddiadau cynhyrchu a marchnadoedd ar gyfer eu cynhyrchion; ansawdd a swm y mwyn gweithiadwy a pha un a oes bwriad gwirioneddol a dilys i weithio'r safle. Yn sgil ffactorau o'r fath a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, bydd angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddangos bod ei benderfyniad i wneud Gorchymyn Gwahardd yn un rhesymol.

**Polisi 68**
**Safleoedd Mwynau Segur**

**Pan fo'r Awdurdod yn fodlon bod tynnu a gweithio mwynau neu ddyddodi gwastraff mwynau wedi dod i ben yn barhaol, bydd yn rhoi Gorchymyn Gwahardd i'r perchennog/perchenogion.**

# PENNOD 11: MONITRO

## Monitro ac Adolygu

Er mwyn asesu'n effeithiol gallu'r cynllun i weithredu ei bolisïau, bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob 4 blynedd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i adolygu cynnydd o ran gweithredu'r polisïau a gwneud addasiadau lle y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y Parc Cenedlaethol yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r adroddiad yn hanfodol i asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol o ran gweithredu polisïau'r cynllun, a bydd yn rhoi cyfle i'r Parc Cenedlaethol asesu'r polisïau yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Bydd hefyd yn cynnwys canlyniadau gwaith monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd, gwaith monitro cynlluniau a dogfennau cysylltiedig gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol, ac yn amlygu meysydd newid posibl yn ystod yr adolygiadau 4 blynedd.

Gall yr ymarfer monitro gynorthwyo'r Parc Cenedlaethol i:-

- Amlygu lle nad yw rhai polisïau'n llwyddo i gyflawni eu hamcanion bwriadedig;
- Amlygu bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, efallai trwy newid yn yr economi, y mae angen mynd i'r afael â hwy a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Amlygu meysydd llwyddiant y gellid eu defnyddio fel enghraifft ar gyfer newid trwy gydol y Cynllun Datblygu Lleol;
- Datgan y camau y bydd y Parc Cenedlaethol yn eu cymryd i unioni unrhyw faterion er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus neu fod unrhyw ddiwygiad angenrheidiol yn cael ei wneud.

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi llunio cyfres o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnod ar gyfer mesur perfformiad. Gallai'r targedau ymwneud â chyflawni lefelau penodol o ddatblygiad a gallent gael eu gosod yn flynyddol neu ar adeg interim yn ystod cyfnod y cynllun. Y targed ar gyfer y cynllun cyfan yw gweithredu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

## Dangosyddion Craidd

Mae Rheoliad 37 y Cynllun Datblygu Lleol yn pennu dau ddangosydd craidd y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- y cyflenwad tir sydd ar gael ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol;
- nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a'r anheddau ychwanegol ar y farchnad agored a adeiladwyd yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol;

Awgrymir dangosyddion allbwn eraill yn y polisi cynllunio cenedlaethol.

## Pwyntiau Sbardun

Mae'r dangosyddion a'r targedau isod hefyd yn rhoi pwyntiau sbardun i ddangos os nad yw rhan benodol o'r cynllun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Os cyrhaeddir y pwyntiau sbardun hyn, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried y camau y bydd angen eu cymryd o ganlyniad. Gallai'r Parc Cenedlaethol gymryd nifer o gamau yn yr achos hwn; bydd y rhain yn dibynnu ar i ba raddau y mae'n ymddangos y methwyd y targed a pha mor hanfodol yw'r datblygiad i gyflawni Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Defnyddir dangosyddion cyd-destunol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd i werthuso ai'r Cynllun nad yw'n cyrraedd y targedau neu a oes ffactorau allanol (fel yr economi neu newidiadau mewn ffynonellau ariannu ac ati) sy'n cyfrannu at hyn ac felly y tu allan i reolaeth y system gynllunio.

Mae'r dewisiadau canlynol ar gael i'r Parc Cenedlaethol mewn perthynas â phob un o'r dangosyddion a'u sbardunwyr. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu difrifoldeb y sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol.

| **Parhau i Fonitro** |
|---|

| |
|---|
| Lle y mae dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes angen cynnal adolygiad. |
| **Angen Hyfforddi Swyddogion / Aelodau** |
| Lle y mae dangosyddion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen mwy o hyfforddiant ar swyddogion neu Aelodau. |
| **Angen Canllawiau Cynllunio Atodol / Briffiau Datblygu** |
| Er y bydd y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu trwy gydol cyfnod y Cynllun, gallai dangosyddion awgrymu y dylid darparu canllawiau ychwanegol i ddatblygwyr ar sut y dylai polisi gael ei ddehongli'n briodol. Yn ogystal, os na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno i'w datblygu fel y disgwyliwyd, bydd y Parc Cenedlaethol yn ymgysylltu â datblygwyr / tirfeddianwyr i lunio Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol er mwyn helpu i gychwyn y broses ddatblygu. |
| **Ymchwil Polisi** |
| Lle y mae dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol mor effeithiol ag y dylent fod; mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio ymhellach, gan gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a chymharu ag awdurdodau lleol eraill ac ystadegau cenedlaethol lle y bo'n briodol. |
| **Adolygu Polisi** |
| Lle y mae dangosyddion yn awgrymu bod un o bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn methu â gweithredu strategaeth y Cynllun a bod angen adolygu'r polisi'n ffurfiol. Bydd angen ymchwilio ymhellach, gan gynnwys cymharu ag awdurdodau lleol eraill ac ystadegau cenedlaethol lle y bo'n briodol, cyn gwneud penderfyniad i adolygu'r polisi'n ffurfiol. |
| **Adolygu'r Cynllun / Strategaeth** |
| Lle y mae dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Ni fydd penderfyniad i adolygu'r Cynllun yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac ni fydd y sbardun hwn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o feysydd polisi. |

Mae'r dangosyddion monitro wedi'u categoreiddio isod yn ôl amcanion strategol a themâu polisi ac maent wedi'u cysylltu ag amcanion a pholisïau strategol y Cynllun Datblygu Lleol.

**Monitro Safleoedd**

Fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys diweddariad ar ddatblygu safleoedd a ddyrannwyd. Bydd hyn yn amlygu gweithgarwch ar y safle yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, gan gynnwys paratoi astudiaethau neu gynnydd datblygiad. Os nad yw safle'n symud ymlaen fel y disgwyliwyd, bydd hyn yn cael ei ddehongli fel sbardun a bydd y Parc Cenedlaethol yn cymryd camau priodol (gweler uchod) os bydd angen.

# Strategaeth Ofodol

**Prif Bolisi:** SP10

**Polisïau Eraill:** BLP1, BLP2, K LP1, K LP2, K LP3, S LP1, S LP2, S LP3, LGS LP1, LGS LP2, LGS LP3

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl):** SQ2

**Nod Monitro:** Sicrhau bod y strategaeth ofodol yn parhau i ddarparu dewisiadau datblygu cynaliadwy ar gyfer ein cymunedau dros gyfnod y cynllun

***Monitro i'w gynnal i gefnogi Adolygiad cynlluniedig y Cynllun Datblygu Lleol (bob 4 blynedd)***

| Targed Polisi | Dangosydd | Targed Monitro Blynyddol/Interim | Sbardun Asesu |
|---|---|---|---|
| Mynegai Cynaliadwyedd | Monitro newidiadau mewn rôl a swyddogaeth aneddiadau trwy gydol cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol | Newid posibl yn y diffiniad o gynaliadwyedd rhai aneddiadau | Dylai aneddiadau y mae eu diffiniad o gynaliadwyedd wedi newid yn sylweddol gael eu hailasesu yn erbyn y Matrics Asesu Aneddiadau.<br>Dylai unrhyw newidiadau canlyniadol o ran safle'r anheddiad yn yr hierarchaeth gael eu cynnig fel diwygiadau yn yr adolygiad cynlluniedig o'r Cynllun Datblygu Lleol. |

# Diogelu'r Amgylchedd

**Prif Bolisi:** Polisïau Strategol: SP1 ac SP2

**Polisïau Eraill:** SE8, SP3, P5 P16, P17, P19, P20, P21

**Amcanion y CDLl:** SQ1, SQ2, SQ4, SQ5, SQ6, SQ7, SQ8 ac SQ10

**Nod Monitro:** Gwarchod safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb naturiol, adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad amhriodol yn digwydd yng nghefn gwlad y Parc Cenedlaethol | Faint o dir yng nghefn gwlad (ha) a gollir i ddatblygiad a ganiateir trwy gais gwyro i Bolisi CYD LP1 | Ni chollir unrhyw dir yng nghefn gwlad i ddatblygiad a ganiateir trwy geisiadau gwyro i Bolisi CYD LP1 | > 0 ha o dir yng nghefn gwlad wedi'i golli i ddatblygiad a ganiateir fel cais gwyro i Bolisi CYD LP1 mewn unrhyw flwyddyn benodol |
| Sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd a chydlyniad Dynodiadau Tirwedd Hanesyddol | Faint o ddatblygiad sy'n cael effaith ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol | Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd a chydlyniad Dynodiadau Tirwedd Hanesyddol | 1 caniatâd cynllunio neu fwy wedi'i roi yn groes i gyngor gan CADW, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Swyddog Cadwraeth yr Awdurdod |
| Sicrhau gwarchodaeth safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur, gan | Faint o ddatblygiad sy'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd a | Dim caniatâd cynllunio yn cael ei gymeradwyo yn groes i gyngor Cyfoeth | 1 caniatâd cynllunio neu fwy wedi'i roi yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynnwys Safleoedd Ewropeaidd | ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur, gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd | Naturiol Cymru | ac ecolegydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol |
| Nid yw cynigion ar gyfer datblygiad yn cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol | Achosion lle y byddai datblygiad a ganiateir yn cael effaith niweidiol ar Adeilad Rhestredig; Ardal Gadwraeth; Safle / Ardal o Arwyddocâd Archaeolegol; neu Dirwedd, Parc a Gardd Hanesyddol | Ni roddir unrhyw ganiatâd cynllunio lle y ceir gwrthwynebiad heb ei benderfynu gan dîm Cadwraeth yr Awdurdod, CADW neu Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru<br><br>Llunio Canllaw Cynllunio Atodol ar y Strategaeth Treftadaeth Adeiledig erbyn diwedd 2017 | 1 caniatâd cynllunio neu fwy wedi'i roi lle y ceir gwrthwynebiad heb ei benderfynu gan dîm Cadwraeth yr Awdurdod, CADW neu Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru<br><br>Canllaw Cynllunio Atodol ar y Strategaeth Treftadaeth Adeiledig heb fod ar waith erbyn diwedd 2017 |
| Nid yw cynigion ar gyfer datblygiad yn cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol | Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth sydd ag Asesiadau Ardal cyfredol | Cwblhau Asesiadau Ardal Gadwraeth erbyn 2017 a'u hadolygu bob 5 mlynedd | Asesiadau Ardal Gadwraeth erbyn 2017 ac adolygiad bob 5 mlynedd heb eu cwblhau |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Lygredd Golau | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Arfer Gorau mewn Cadwraeth Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y Sectorau Cynllunio a Datblygu | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol – Prosiect Archwilio Bioamrywiaeth 2012. *Archwiliad Bioamrywiaeth o Aberhonddu, Crucywel, Talgarth a'r Gelli Gandryll* | Erbyn diwedd 2014 | |
| Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n achosi niwed i statws cadwraeth | Faint o ddatblygiad sy'n cael effaith ar rywogaethau gwarchodedig yr Undeb | Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n achosi niwed i statws cadwraeth | 1 cais neu fwy wedi'i ganiatáu yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru neu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ffafriol rhywogaethau gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd, neu niwed arwyddocaol i rywogaethau a warchodir gan statud arall | Ewropeaidd neu rywogaethau a warchodir gan statud arall | ffafriol rhywogaethau gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd neu rywogaethau a warchodir gan statud arall | ecolegydd yr Awdurdod |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | **Ffynonellau Data** | Asesiadau Ardal Gadwraeth |

# Y Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP2

**Polisïau Eraill:** SP18, P10, P11

**Amcanion y CDLl:** SQ1, SQ2, SQ3 ac SQ4

**Nod Monitro:** Pob datblygiad i fodloni Meini Prawf Gwneud Lle Cynaliadwy

| Targed Polisi | Dangosydd | Targed Monitro Blynyddol / Interim | Sbardun Asesu |
|---|---|---|---|
| Ni fydd unrhyw ddatblygiad agored iawn i niwed yn digwydd o fewn ardal orlifdir C1 ac C2 | Faint o ddatblygiad (yn ôl Nodyn Cyngor Technegol 15, paragraff 5.1, categori datblygiad) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad yw'n bodloni holl brofion Nodyn Cyngor Technegol 15 (paragraff 6.2 i-v) | Dim ceisiadau ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed wedi'u caniatáu o fewn ardal orlifdir C1 ac C2 | 1 cais cynllunio neu fwy wedi'i ganiatáu yn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad yw'n bodloni holl brofion Nodyn Cyngor Technegol 15 (paragraff 6.2 i-v) |
| Sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr neu faint o ddŵr sydd ar gael | Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwyir mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru ar sail ansawdd dŵr neu faint o ddŵr sydd ar gael | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru ar sail ansawdd dŵr neu faint o ddŵr sydd ar gael | 1 cais cynllunio neu fwy wedi'i gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru ar sail ansawdd dŵr neu faint o ddŵr sydd ar gael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau y bydd pob cynnig ar gyfer datblygiad yn ystyried technegau addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd mewn Datganiad Dylunio a Mynediad | Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n ystyried technegau addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd mewn Datganiad Dylunio a Mynediad | Pob cais cynllunio yn ystyried technegau addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd mewn Datganiad Dylunio a Mynediad<br><br>Llunio Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddatblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach | 1 cais cynllunio mawr neu fwy yn methu ag ystyried technegau addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd mewn Datganiad Dylunio a Mynediad mewn unrhyw flwyddyn benodol<br><br>Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddatblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach heb ei gwblhau erbyn 2017 |
| Pob cynnig ar gyfer datblygiad yn gallu dangos yr ystyriwyd adnoddau ynni adnewyddadwy | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy sy'n cynnwys mwy na 3 annedd neu 500 o fetrau sgwâr o le llawr gros ar gyfer datblygiad masnachol nad ydynt yn darparu o leiaf 20% o'u gofynion ynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon | Pob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mwy sy'n cynnwys mwy na 3 annedd neu 500 o fetrau sgwâr o le llawr gros ar gyfer datblygiad masnachol yn darparu o leiaf 20% o'u gofynion ynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon | 3 chais cynllunio neu fwy wedi'u cymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn benodol ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys mwy na 3 annedd nad ydynt yn darparu o leiaf 20% o'u gofynion ynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon<br><br>2 gais cynllunio neu fwy wedi'u cymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn benodol ar gyfer datblygiadau o fwy na 500 o fetrau sgwâr o le llawr gros ar gyfer datblygiad masnachol nad ydynt yn darparu o leiaf 20% o'u gofynion ynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon |
| Hwyluso cynlluniau Ynni Adnewyddadwy priodol mewn lleoliadau nad ydynt yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol | Faint o ddatblygiad ar gyfer cynlluniau Ynni Adnewyddadwy | Dim cynlluniau Ynni Adnewyddadwy amhriodol yn cael eu datblygu yn y Parc Cenedlaethol sy'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar ei nodweddion arbennig | 1 cais cynllunio ar gyfer cynllun Ynni Adnewyddadwy sy'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol |
| Cynyddu faint o ynni (mewn MW) a | Capasiti caniatedig a gosodedig (MW) | Cynnydd blynyddol mewn capasiti | Dim cynnydd blynyddol mewn capasiti |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol o ffynonellau adnewyddadwy | prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol | caniatedig neu osodedig prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol trwy gydol cyfnod y Cynllun | caniatedig neu osodedig prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol |
| Mesur effaith polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar gynaliadwyedd ein cymunedau | Ôl troed ecolegol aneddiadau rhestredig | Dim cynnydd mewn ôl troed ecolegol aneddiadau rhestredig o gyfartaledd byd-eang o 5.46 hectar y pen | Cynnydd 2% mewn ôl troed ecolegol aneddiadau rhestredig |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddatblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach | Erbyn diwedd 2014 | |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Dŵr Cymru | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio<br>Data Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Datganiadau Dylunio a Mynediad<br>Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai |

# Darparu Tai

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol: SP5

**Polisïau Eraill:** SE1, SP5, P24, P1, P26, P27, P15, SP2, SP6, P28, P29, P30, P31

**Amcanion y CDLl:** SQ2 ac SQ3

**Nod Monitro:** Mynnu bod 1990 o gartrefi newydd (gan gynnwys 510 o anheddau fforddiadwy) yn cael eu cynnal yn y Parc Cenedlaethol yn ystod cyfnod y Cynllun.

| Targed Polisi | Dangosydd | Targed Monitro Blynyddol / Interim | Sbardun Asesu |
|---|---|---|---|
| Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir i'w ddatblygu ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y cynllun | Rhagweld y cyflenwad o dir ar gyfer tai | Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir i'w ddatblygu ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y cynllun | Llai na chyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi'i gofnodi |
| Darparu 1990 o anheddau newydd erbyn 2022 | Nifer y ceisiadau a ganiateir a'r anheddau newydd a gwblheir yn flynyddol | 2012 -2017 = 174 o anheddau wedi'u cwblhau y flwyddyn<br>2018 -2022 = 224 o anheddau wedi'u cwblhau y flwyddyn | +/- 20%<br><br>Llai na 696 neu fwy na 1044 o anheddau wedi'u datblygu erbyn 2017 |
| Darparu 1990 o anheddau newydd erbyn 2022 | Nifer yr unedau a ganiateir a'r anheddau newydd a gwblheir yn flynyddol ym mhob haen anheddiad | Lefel 1: Y Prif Anheddiad - 297 o anheddau (31%)<br>Lefel 2: Aneddiadau Allweddol – 150 o anheddau (16%)<br>- Lefel 1 a 2 - 447 o anheddau (47%)<br>Lefel 3: Aneddiadau - 350 o anheddau (36%)<br>Lefel 4: Aneddiadau Twf Cyfyngedig<br>Lefel 5: Cefn Gwlad<br>Safleoedd tir llwyd a ddyrannwyd: 163 (17%) | +/- 20 am dair blynedd yn olynol<br><br>>50% o anheddau wedi'u caniatáu y tu allan i aneddiadau Lefel 1 a 2 dros gyfnod o 3 blynedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darparu 1990 o anheddau newydd erbyn 2022 | Nifer flynyddol yr anheddau a ganiateir ar safleoedd defnydd cymysg | Monitro yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol | Monitro yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol |
| Tir datblygu cynaliadwy | Pob cais yn cael caniatâd cynllunio i gyflawni dwysedd o 30 o anheddau fesul hectar | | + 5 caniatâd cynllunio islaw dwysedd o 30 o anheddau fesul hectar |
| Targed canran tai fforddiadwy ym Mholisi 28 | Bydd y targed yn adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Is-farchnad y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel: 30% fforddiadwy<br><br>Is-farchnad Aberhonddu, Sir Gaerfyrddin a'r Gefnwlad Wledig: 20% fforddiadwy<br><br>Is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig: 0% fforddiadwy | Pe byddai prisiau tai cyfartalog yn cynyddu 5% (2.5% ym Mlaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig) uwchben lefelau pris sylfaen 2012 a gynhaliwyd dros 2 chwarter, bydd yr Awdurdod yn ystyried sbardunau eraill a amlygwyd yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy ac fe allai gynnal profion hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a sefydlwyd ym Mholisi 28.<br><br>*Pwyntiau sbardun::*<br><br>*+/ - 5% mewn prisiau tai yn is-farchnadoedd y Fenni, y Gelli Gandryll, Crucywel, Aberhonddu, Sir Gaerfyrddin a'r Gefnwlad Wledig*<br><br>*+/- 2.5% mewn prisiau tai yn is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig* |
| Darparu targed o 510 o anheddau fforddiadwy erbyn 2022 | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir y flwyddyn | 47 o anheddau fforddiadwy i'w caniatáu y flwyddyn | +/- 30%<br><br><38 o unedau wedi'u caniatáu y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol |
| Darparu targed o 510 o | Nifer yr anheddau fforddiadwy a | 20 o anheddau fforddiadwy i'w cwblhau y flwyddyn | +/- 25% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| anheddau fforddiadwy erbyn 2022 | gwblheir y flwyddyn | | <15 o anheddau wedi'u cwblhau y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol |
| Darparu targed o 510 o anheddau fforddiadwy erbyn 2022 | Nifer yr anheddau marchnad ar safleoedd sy'n cynnwys 3 annedd neu fwy sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i anhyfywedd (h.y. anheddau nad ydynt yn hyfyw ac sydd felly wedi arwain at dai ar y farchnad agored gyda swm gohiriedig) | | >10 o anheddau marchnad wedi'u caniatáu y flwyddyn am dair blynedd yn olynol |
| Darparu targed o 510 o anheddau fforddiadwy erbyn 2022 | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir y flwyddyn trwy safleoedd ar hap | 3 annedd y flwyddyn | +/- 30%<br><br><2 o anheddau fforddiadwy wedi cael caniatâd cynllunio y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol |
| Darparu targed o 510 o anheddau fforddiadwy erbyn 2022 | Nifer yr anheddau fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt trwy safleoedd eithriedig y flwyddyn | 4 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn | < 2 o anheddau fforddiadwy wedi cael caniatâd cynllunio trwy safleoedd eithriedig y flwyddyn |
| Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr a ddyrannwyd | Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr a ddyrannwyd | Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr erbyn 2017. | Y safle Sipsiwn a Theithwyr a ddyrannwyd heb ei feddiannu erbyn 2017 gan nad yw ar gael i'w ddatblygu.<br><br>Amlygu safle arall yn ei le i'w feddiannu gan Sipsiwn a Theithwyr |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Bolisi 28: Cyfraniadau Tai | Erbyn diwedd 2014 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fforddiadwy | | |
| | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Amnewid Anheddau ac Estyniadau i Anheddau yng Nghefn Gwlad | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Drawsnewid Adeiladau Fferm ac Adeiladau Eraill yn Anheddau | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Adfer Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad | Erbyn diwedd 2014 | |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Diwygio a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio | Erbyn diwedd 2014 | Darpariaeth mannau agored islaw'r safon sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Unedol cyfansoddol |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Cyngor Sir Powys | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio<br>Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai<br>Cyfrif Carafanau<br>Protocol Sipsiwn a Theithwyr |
| | | | |

# Lles Economaidd

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP12

**Polisïau Eraill:** P33, P35, P36 a P37

**Amcanion y CDLl:** SQ2 ac SQ3

**Nod Monitro:** Gwarchod tir cyflogaeth presennol a thir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| 1.5 ha o dir ar gyfer cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisïau SE3 a P33 wedi'i ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun | Datblygiad tir ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd Polisïau SE3 a P33 mewn hectarau. | 0.75 ha o dir ar gyfer cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisïau SE3 a P33 wedi'i ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun | < 0.5 ha o dir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth wedi'i ddatblygu erbyn 2017 |
| Gwarchod tir cyflogaeth presennol | Colli tir ar gyfer cyflogaeth | Dim colli tir cyflogaeth presennol | 1 cais wedi'i ganiatáu ar dir cyflogaeth presennol ar gyfer defnyddiau tir nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth |
| Caniatáu datblygiad sy'n cynhyrchu cyflogaeth defnydd B ym Mhontsenni / Defynnog | Datblygiad tir ar gyfer cyflogaeth ym Mhontsenni / Defynnog | Caniatâd wedi'i roi erbyn 2017 | 1.43 ha o dir ar gyfer cyflogaeth wedi cael caniatâd cynllunio o fewn aneddiadau (ac eithrio dyraniadau) neu y tu hwnt i aneddiadau o dan Bolisi 36 erbyn 2017 |
| Caniatáu datblygiad sy'n cynhyrchu cyflogaeth defnydd B yn y Gelli Gandryll | Datblygiad tir ar gyfer cyflogaeth yn y Gelli Gandryll | Caniatâd wedi'i roi erbyn 2017 | 0.6 ha o dir ar gyfer cyflogaeth wedi cael caniatâd cynllunio o fewn aneddiadau (ac eithrio dyraniadau) neu y tu hwnt i aneddiadau o dan Bolisi 36 erbyn 2017 |
| | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Arallgyfeirio Ffermydd | Erbyn diwedd 2014 | |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau | **Ffynonellau Data** | Arolwg Blynyddol o Dir ar gyfer |

| Brycheiniog | Cyflogaeth |
|---|---|

# Manwerthu

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP13

**Polisïau Eraill:** SP6, SP8, P42, P43, P44

**Amcanion y CDLl:** SQ2, SQ5

**Nod Monitro:** Sicrhau bod y trefi yn y Parc Cenedlaethol yn cynnal canolfannau manwerthu bywiog a hyfyw a gefnogir gan gymysgedd amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Sicrhau nad yw cyfraddau unedau gwag yng nghanol trefi'r Parc Cenedlaethol yn cynyddu i'r graddau eu bod yn cael effaith niweidiol ar fywiogrwydd y canolfannau hynny | Cyfraddau unedau gwag blynyddol canol trefi'r Parc Cenedlaethol | Y gyfradd unedau gwag yng nghanol tref Aberhonddu yn aros o dan 10%, y Gelli Gandryll a Chrucywel yn aros o dan 5% a'r gyfradd unedau gwag yn Nhalgarth yn cael ei lleihau i 25%<br><br>Monitro cyfradd yr unedau manwerthu gwag hyd at 2017 ac adolygu Polisi 42 os oes angen | Y gyfradd unedau gwag yng nghanol tref Aberhonddu yn fwy na 15%, y Gelli Gandryll yn fwy na 6%, Crucywel yn fwy na 6% a Thalgarth yn fwy na 40% |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio |

# Twristiaeth Gynaliadwy

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol: SP14

**Polisïau Eraill:** SP5, P46, P47, P48

**Amcanion y CDLl:** SQ1, SQ3, SQ4, SQ7, SQ8, SQ9, SQ10

**Nod Monitro:** Annog Twristiaeth Gynaliadwy o ansawdd uchel

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn | Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd neu well | Caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau twristiaeth newydd neu well | 0 caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau twristiaeth newydd neu well |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio<br>STEAM |

# Cymunedau Cynaliadwy

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP15

**Polisïau Eraill:** P50, P51 a P53

**Amcanion y CDLl:** SQ2, SQ6

**Nod Monitro:** Cadw defnyddiau a chyfleusterau cymunedol presennol a cheisio datblygu rhai newydd, lle y bo'r angen

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Cadw neu wella Cyfleusterau Cymunedol | Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i Bolisi Strategol SP15 a nod gwarchodol Polisi 50 sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol trwy newid defnydd | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi Strategol SP15 a nod gwarchodol Polisi 50 sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol trwy newid defnydd | 1 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i Bolisi Strategol SP15 a nod gwarchodol Polisi 50 sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol trwy newid defnydd |
| Darparu Amwynder / Mannau Agored | Hectarau lle agored ar gyfer hamdden fesul 1000 o'r boblogaeth (Safon Meysydd Chwarae Cymru) yn unol â'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol | Gweithio tuag at safonau Meysydd Chwarae Cymru o 2.4 hectar o le agored ar gyfer hamdden fesul 1000 o'r boblogaeth ragamcanol | |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | **Ffynhonnell Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio |

# Seilwaith

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP19

**Polisïau Eraill:** P55, P56, P57, P58

**Amcanion y CDLl:** SQ9

**Nod Monitro:** Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei wasanaethu gan seilwaith cynaliadwy a phriodol

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Ystyrir defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy ym mhob datblygiad preswyl a chyflogaeth newydd (ac eithrio trawsnewidiadau ac estyniadau i eiddo a safleoedd presennol) | Faint o ddatblygiadau newydd sy'n darparu Systemau Draenio Cynaliadwy | >80% o'r holl ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer datblygiad preswyl a chyflogaeth newydd yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy yn eu dyluniad lle y bo'n briodol (ac eithrio trawsnewidiadau ac estyniadau i eiddo a safleoedd presennol) | <50% o'r holl ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer datblygiad preswyl a chyflogaeth newydd yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy yn eu dyluniad lle y bo'n briodol (ac eithrio trawsnewidiadau ac estyniadau i eiddo a safleoedd presennol) |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | **Ffynonellau Data**<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio | |
| | | | |

# Gwastraff

**Prif Bolisi:** Polisi Strategol SP7

**Polisïau Eraill:** P62, P63

**Amcanion y CDLl:** SQ11

**Nod Monitro:** Ceisio bodloni unrhyw angen am gyfleusterau gwastraff lleol yn y Parc Cenedlaethol

| Targed Polisi | Dangosydd | Targed Monitro Blynyddol / Interim | Sbardun Asesu |
|---|---|---|---|
| Unedau gwag/tir sydd ar gael yn y safleoedd dosbarth B a nodwyd sy'n addas i gynnal cyfleuster gwastraff lleol | Dim unedau gwag/tir yn y safleoedd dosbarth B a nodwyd sy'n addas i gynnal cyfleuster gwastraff lleol | Unedau gwag/tir sydd ar gael yn y safleoedd dosbarth B a nodwyd sy'n addas i gynnal cyfleuster gwastraff lleol | Dim unedau gwag/tir ar gael yn y safleoedd dosbarth B a nodwyd ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol |
| Unedau gwag/tir sydd ar gael yn y safleoedd dosbarth B a nodwyd sy'n addas i gynnal cyfleuster gwastraff lleol | Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiateir | Arwynebedd tir cyflogaeth B2 (metrau sgwâr) a ddatblygwyd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff | Dim cyfleusterau newydd wedi cael caniatâd erbyn 2017 |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain a De-orllewin Cymru | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio<br>Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol De-ddwyrain a De-orllewin Cymru |

# Mwynau

**Prif Bolisi:** Dim

**Polisïau Eraill:** P65, P66, P67 a P68

**Amcanion y CDLl:** SQ8 ac SQ12

**Nod Monitro:** Diogelu ardaloedd lle y ceir adnoddau agregau

| **Targed Polisi** | **Dangosydd** | **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | **Sbardun Asesu** |
|---|---|---|---|
| Ni chaniateir datblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau | Nifer y ceisiadau a ganiateir ar gyfer datblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau | 1 datblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli yn cael ei ganiatáu o fewn ardal diogelu mwynau |
| Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar Bolisi 45: Diogelu Mwynau | Erbyn diwedd 2014 | |
| **Cyrff Cyfrifol** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru | **Ffynonellau Data** | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio<br>Datganiad Technegol Rhanbarthol<br>Arolwg Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Cymru |

# Atodiadau

# Atodiad 1: Gofynion Datblygu

## Preswyl

| Cod y Safle | Enw'r Safle | Anheddiad | Nifer yr unedau | Gofynion Datblygu |
|---|---|---|---|---|
| CS28 | Estyniad Caeau Cwmfalldau | Aberhonddu | 66 | 1. Ceir Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig neu arwyneb anathraidd o fewn dalgylch Wysg. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg i garthffosydd dŵr storm sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Gan fod y safle'n un maes glas ac yn fwy nag 1hectar o ran maint, bydd angen rhoi ystyriaeth i reoli dŵr wyneb yn briodol er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn cynyddu'r perygl llifogydd i drydydd partïon. Dylid gweithredu hyn trwy gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy sydd hefyd yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth ac amwynder.<br><br>2. Mae'r safle 650 o fetrau i fyny'r afon o Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. Mae'n union wrth ymyl cynefin a amlygwyd mewn arolwg gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel un a allai fod yn addas i ddyfrgwn sy'n bridio. Gall datblygiad yn agos i safleoedd hysbys ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig arwain at ddarnio cynefin ac ati. *'Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad â* Cyfoeth Naturiol Cymru, *bydd angen i asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal lle y mae posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. Ni fydd unrhyw brosiect datblygu a allai gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd hwn yn unol â'r cynllun datblygu, o fewn ystyr Adran.38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004'.*<br><br>3. Gellir sicrhau bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, bydd angen cyfleusterau prif gyflenwad oddi ar y safle. Darperir y rhain gan y datblygwr er bodlonrwydd Dŵr Cymru.<br><br>4. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn annigonol i gynnal gofynion y safle hwn ar hyn o bryd. Bydd angen cynnal asesiad modelu hydrolig i ddeall unrhyw welliannau y gallai fod eu hangen. Argymhellir bod trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Dŵr Cymru ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn cyflwyno cais er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn. Bydd tir yn cael ei ryddhau'n raddol i'w ddatblygu tua diwedd cyfnod y cynllun er mwyn i'r ymgymerwr statudol allu cyflawni'r gwaith angenrheidiol. Pe rhoddid caniatâd ar gyfer datblygiad cyn i dir gael ei ryddhau'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | raddol, byddai angen gwneud gwaith angenrheidiol i gynyddu capasiti'r rhwydwaith carthffosiaeth er bodlonrwydd Dŵr Cymru, ac mae'n debygol mai'r datblygwr fyddai'n gorfod talu am hynny.<br><br>5. Ni fydd y gwaith Trin Dŵr Gwastraff ar gyfer yr ardal yn gallu cynnal y lefelau twf arfaethedig heb welliannau ychwanegol. Mae datblygiad wedi'i gynllunio'n raddol er mwyn i Dŵr Cymru allu cynllunio a chyflawni'r gwaith gwella angenrheidiol. Galluogir datblygiad cyn i dir gael ei ryddhau'n raddol pan fydd datblygwyr yn gallu cyflawni'r gwaith angenrheidiol er bodlonrwydd Dŵr Cymru. Anogir datblygwyr sy'n dymuno cyflwyno'r safle hwn i'w ddatblygu i gynnal trafodaethau gyda Dŵr Cymru yn gynnar yn ystod camau rhagarweiniol y broses ddylunio.<br><br>6. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn mynnu y dylai cynllun lledu lôn gyda throedffordd ychwanegol ar hyd Heol Bailihelig gael ei gynnwys fel gofyniad datblygu. Mae hefyd yn debygol na fydd cyffordd Heol Bailihelig â Stryd yr Eglwys yn gallu ymdopi â'r traffig ychwanegol ac mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy o welliannau i'r briffordd. Mae'n debygol mai'r datblygwyr fydd yn gorfod talu am y gwaith priffyrdd hwn.<br><br>7. Mae'r safle o fewn 250 metr o hen safle tirlenwi ac fe allai fod wedi'i halogi. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad gynnal arolwg ac asesiad i bennu natur a graddau unrhyw halogiad, ynghyd â'r risg i iechyd y cyhoedd, a pharatoi a gweithredu unrhyw gynlluniau adfer angenrheidiol er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys.<br><br>8. Gan fod y safle hwn yn agos i gefnffordd, mae'n debygol y bydd angen cynnal asesiad o effaith sŵn traffig a pharatoi cynllun lliniaru sŵn fel amod ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio yn y dyfodol.<br><br>9. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg, ac mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiad o effaith unrhyw ddatblygiad ar raddfa fwy, yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig, fel rhan o'r broses gynllunio. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar y cam cynharaf bosibl ar gyfer datblygiad o'r fath. |
| CS132 | Dyraniad B17 y Cynllun Datblygu Unedol gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, i'r gogledd | Aberhonddu | 133 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | o'r Ysbyty | | | |
| CS93 | Cae Slwch House | Aberhonddu | 23 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau i Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu yn cael eu cyflawni. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'r gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg ac fe allai effeithiau'r datblygiad olygu bod angen cynnal asesiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>3. Gallai fod modd creu bwlch cyffordd gyda mynediad i Dering Lines, ond mae'n bosibl y bydd angen gwrthgloddiau ar dir y tu allan i ffin y safle hwn ar gyfer y lleiniau gweledEdd angenrheidiol i'r dwyrain ac ymlaen ar hyd y lôn gerbydau o'r cylchfan. |
| DBR-BR-A | Safle i'r gogledd o Camden Crescent ac i'r dwyrain o Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog | Aberhonddu | 38 | 1. Ceir Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig neu arwyneb anathraidd o fewn dalgylch Wysg. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg i garthffosydd dŵr storm sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Gan fod y safle'n un maes glas ac yn fwy nag 1hectar o ran maint, bydd angen rhoi ystyriaeth i reoli dŵr wyneb yn briodol er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn cynyddu'r perygl llifogydd i drydydd partïon. Dylid gweithredu hyn trwy gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy sydd hefyd yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth ac amwynder.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau i Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu yn cael eu cyflawni. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'r gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>4. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg ac fe allai effeithiau'r datblygiad olygu bod angen cynnal asesiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>5. Mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi mynegi pryderon ynghylch cyfyngiadau topograffig y safle datblygu o ran darparu graddiant mabwysiadwy i wasanaethu datblygiad mor fawr. Dylid mynd i'r afael â hyn ar adeg dylunio'r cynllun mewn ymgynghoriad agos ag Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.<br><br>6. Mae'r safle hwn o fewn 50 metr o ysbyty ac fe allai fod wedi'i halogi. Mae'n rhaid ymchwilio i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hyn fel rhan o'r broses ddylunio, a chymryd camau adfer. |
| DBR-BR-B | Safle i'r gogledd o Cradoc Close ac i'r gorllewin o Ffynnon Maen-du | Aberhonddu | 33 | 1. Ceir Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig neu arwyneb anathraidd o fewn dalgylch Wysg. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg i garthffosydd dŵr storm sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Gan fod y safle'n un maes glas ac yn fwy nag 1hectar o ran maint, bydd angen rhoi ystyriaeth i reoli dŵr wyneb yn briodol er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn cynyddu'r perygl llifogydd i drydydd partïon. Dylid gweithredu hyn trwy gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy sydd hefyd yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth ac amwynder.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau i Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberhonddu yn cael eu cyflawni. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'r gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>4. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg ac fe allai effeithiau'r datblygiad olygu bod angen cynnal asesiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>5. Trefniadau mynediad i'w pennu trwy ymgynghori ag Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys.<br><br>6. Mae'r safle o fewn 50 metr o dir anhysbys wedi'i lenwi ac fe allai fod wedi'i halogi. Bydd angen ymchwilio i raddau'r halogiad a'r risg gysylltiedig bosibl fel rhan o asesiadau safle cychwynnol, ac amlinellu gwaith adfer lle y bo'r angen er bodlonrwydd Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. |
| DBR-CR-A | Tir uwchben Upper House Farm | Crucywel | 20 | 1. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar yn berthnasol o fewn y safle hwn, ac mae hyn hefyd yn berthnasol i ddŵr wyneb sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Mae Awdurdod Draenio Cyngor Sir Powys wedi dweud y byddent yn mynnu bod technegau rheoli dŵr wyneb yn cael eu mabwysiadu lle y byddai modd gwanhau i gyflawni'r safon 100 mlynedd ar yr un pryd â chyfyngu'r llif parhaus i'r lefel bresennol o 1 mewn 1 mlynedd o ddŵr ffo maes glas ar gyfer yr ardaloedd anathraidd cysylltiedig.<br><br>2. Ceir cwrs dŵr ar y safle. Bydd angen i unrhyw waith sianelu sy'n effeithio ar lif cyrsiau dŵr gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan delerau Deddf Draenio Tir 1991. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio osgoi sianelu, felly rhoddir caniatâd ar gyfer gwaith o'r fath er mwyn darparu mynediad yn unig. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 3. Yn ôl Dŵr Cymru, nid oes unrhyw reswm sylfaenol pam na ellir darparu'r safle hwn yn amodol ar ddatrys y mater llifogydd.<br><br>4. Bydd angen i'r dyluniad oresgyn materion yn ymwneud â graddiant y safle, gan roi sylw arbennig i gyflawni graddiant derbyniol ar gyfer ffyrdd mabwysiadwy yn y cynllun datblygu.<br><br>5. Cynhelir man agored rhwng y safle a Great Oak Road yn unol â dymuniad y gymuned. |
| SALT 061 | Tir gerllaw Lôn Llangenni | Crucywel | 20 | 1. Mae Dŵr Cymru wedi dweud y gellir darparu'r safle hwn.<br><br>2. Mae Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys yn dweud y gellir darparu'r safle hwn, yn amodol ar fodloni'r amodau priffyrdd priodol o ran lledu'r ffordd, darparu troedffordd a lleoliad a safonau mynediad. |
| DBR-HOW-C | Tir gerllaw'r Orsaf Dân | Y Gelli Gandryll | 13 | 1. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg ac fe allai effeithiau'r datblygiad olygu bod angen cynnal asesiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>2. Byddai angen un pwynt mynediad sy'n bodloni'r holl safonau priffyrdd o ran aliniad, graddiant, radiws a gwelededd. Bydd angen cael gwared â'r gwrych ar draws blaen y safle er mwyn sicrhau mynediad digonol; ceisir mesurau lliniaru i wneud iawn am y golled.<br><br>3. Mae Cyngor Sir Powys wedi dweud y ceisir cytundeb o dan Adran 106 i estyn y fynwent gyfagos a'i defnydd hamdden cysylltiedig er mwyn gwneud iawn am golli gwerth amwynder. |
| DBR-HOW-A | Tir gyferbyn â The Meadows | Y Gelli Gandryll | 68 | 1. Mae Dŵr Cymru wedi dweud nad oes rheswm pam na all y safle hwn gael ei ddatblygu, cyn belled ag y cynhelir asesiad o'r Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth a bod unrhyw welliannau'n cael eu cyflawni. Gall gwelliannau i'r Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth fod yn ddarostyngedig i amodau cynllunio priodol.<br><br>2. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg ac fe allai effeithiau'r datblygiad olygu bod angen cynnal asesiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>3. Lleolir y fynedfa ar ran orllewinol lôn Gypsy Castle, ar bellter addas o'r gyffordd bresennol. Mae'n bosibl y bydd angen meddiannu tir yn orfodol y tu allan i ffin y safle arfaethedig ar gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | lleiniau gwelededd. Mae Awdurdod Priffyrdd Powys wedi dweud y bydd angen gwneud gwelliannau oddi ar y safle fel bod effeithiau'r datblygiad yn dderbyniol, gan wella'r gyffordd bresennol a throedffyrdd.<br><br>4. Mae Cyngor Sir Powys wedi dweud y bydd angen gosod rhwymedigaethau ar y datblygiad i ystyried colli gwerth amwynder tir. Mae'n debygol y gofynnir am gytundeb Adran 106 i estyn y fynwent gyfagos a'i defnydd hamdden cysylltiedig.<br><br>5. Ceir cwrs dŵr ar y safle. Tybir bod hawliau a chyfrifoldebau glannau'r afon yn bodoli o ran y cwrs dŵr ar y safle. Cynghorir y tirfeddiannwr mai ef fydd yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ar unrhyw ran o'r cwrs dŵr sy'n mynd heibio neu'n ffinio â'r tir. Ni cheir gosod unrhyw adeiladau, adeileddau na ffensys, na phlannu o fewn 5 metr o ben glan y cwrs dŵr, nac o fewn 3 metr o bob ochr i sianel y cwrs dŵr. Bydd angen i unrhyw gynllun datblygu yn y dyfodol weithredu mesurau Rheoli Dŵr Wyneb. |
| SALT 059 | Tir yn cyffinio â Brecon Pharmaceuticals | Y Gelli Gandryll | 5 | 1. Mae Dŵr Cymru wedi dweud y gellir darparu'r safle hwn.<br><br>2. Mae Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys wedi dweud y gellir darparu'r safle hwn, yn amodol ar fodloni safonau'r Awdurdod Priffyrdd.<br><br>3. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Gwy ac mae'n bosibl y bydd angen asesu effeithiau unrhyw ddatblygiad mawr, yn unol ag ASIDOHL2. Dylid ceisio cyngor yn ystod cam cynharaf posibl datblygiad o'r fath. Mae'r safle'n cynnwys olion gweddilliol ffos ganoloesol a ddatgelwyd yn ystod gwaith cofnodi archaeolegol ar gyfer datblygiad cyfagos. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy o waith ymchwilio a chofnodi archaeolegol cyn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.<br><br>4. Ceir cwrs dŵr ar y safle. Tybir bod hawliau a chyfrifoldebau glannau'r afon yn bodoli o ran y cwrs dŵr ar y safle. Cynghorir y tirfeddiannwr mai ef fydd yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ar unrhyw ran o'r cwrs dŵr sy'n mynd heibio neu'n ffinio â'r tir. Ni cheir gosod unrhyw adeiladau, adeileddau na ffensys, na phlannu o fewn 5 metr o ben glan y cwrs dŵr, nac o fewn 3 metr o bob ochr i sianel y cwrs dŵr. Bydd angen i unrhyw gynllun datblygu yn y dyfodol weithredu mesurau Rheoli Dŵr Wyneb.<br><br>5. Mae'r safle hwn o fewn 50 metr o ffatri fferyllol ac fe allai fod wedi'i halogi. Mae'n debygol y gofynnir am amod tir halogedig B y cyngor ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio yn y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dyfodol.<br><br>6. Mae'n debygol y gofynnir am asesiad o effaith sŵn a chynllun lliniaru sŵn fel amod ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio yn y dyfodol. |
| CS138 | Glannau Senni | Defynnog | 15 | 1. Mae llawer iawn o geir yn parcio yn y fynedfa bresennol i'r safle hwn. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun datblygu ar y safle hwn yn y dyfodol ystyried dewisiadau ar gyfer lliniaru'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol. Gallai hyn gynnwys darparu ffordd fynediad unffordd ddolennog i'r ystad i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig a'r ystad bresennol, neu fesur arall y mae'r Awdurdod Priffyrdd yn ystyried ei fod yn briodol. Anogir datblygwyr i ymgynghori ag Awdurdod Priffyrdd Powys ar y cam cynharaf o'r broses ddylunio er mwyn sicrhau bod eu cynnig yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer diogelwch priffyrdd. |
| SALT 037 | Estyniad arfaethedig i T9 (a ddyrannwyd ar gyfer tai (0.5ha) ac ysgol gynradd newydd | Talgarth | 15 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |
| DBR-BCH-J | Tir gerllaw Coedwig Bwlch | Bwlch | 15 | 1. Bydd arolwg ecolegol a mesurau lliniarol i fynd i'r afael â cholli unrhyw gynefin blaenoriaeth yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw ddatblygiad. Cynghorir y dylid trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn cyflwyno cais.<br><br>2. Mae pibell ddŵr gyhoeddus o'r prif gyflenwad yn croesi'r safle datblygu arfaethedig, ac felly mae'n bosibl y bydd angen cymryd mesurau diogelu, naill ai ar ffurf hawddfraint a/neu arallgyfeirio.<br><br>3. Mae carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle datblygu arfaethedig, ac felly mae'n bosibl y bydd angen cymryd mesurau diogelu, naill ai ar ffurf hawddfraint a/neu ddargyfeirio.<br><br>4. Mae'n bosibl y bydd angen cynyddu tir blaen y ffordd er mwyn galluogi safonau gweledig derbyniol. Bydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn cael ei orfodi i ledu'r ffordd a darparu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | troedffordd ar hyd y ffordd dosbarth II. Dylid cynnal trafodaethau gydag Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys ar y cyfle cynharaf cyn cyflwyno cais.<br><br>5. Mae'r safle o fewn 250 metr o hen safle tirlenwi ac fe allai fod wedi'i halogi. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad gynnal arolwg ac asesiad i bennu natur a graddau unrhyw halogiad, ynghyd â'r risg i iechyd y cyhoedd, a pharatoi a gweithredu unrhyw gynlluniau adfer angenrheidiol er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys. |
| CS43 | Tir i'r de-orllewin o Walia | Crai | 6 | 1. Amlygwyd bod llinellau hedfan ystlumod ar y safle, ac felly bydd angen cynnal arolwg, gan gynnwys cymryd mesurau lliniaru yn y dyfodol.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru wedi amlygu bod y system trin carthffosiaeth gyhoeddus a'r system trin dŵr gwastraff yn annigonol i wasanaethu datblygiad ar y lefelau dwysedd arfaethedig. Felly, gofynnir i dir gael ei ryddhau'n raddol i'w ddatblygu tua diwedd cyfnod y cynllun fel y gellir uwchraddio'r system yn unol â gofynion rheoleiddiol. Pe rhoddid caniatâd ar gyfer datblygiad cyn hynny, byddai angen gwneud gwaith angenrheidiol i sicrhau gwasanaethau carthffosiaeth boddhaol ar gyfer y datblygiad arfaethedig er bodlonrwydd Dŵr Cymru. Disgwylir mai'r datblygwr fyddai'n gorfod talu am hynny. Anogir datblygwyr sy'n bwriadu cyflwyno'r safle hwn i'w ddatblygu gynnal trafodaethau gyda Dŵr Cymru yn ystod camau rhagarweiniol y broses ddylunio.<br><br>3. Mae'r safle o fewn 50 metr o hen reilffordd ac fe allai fod wedi'i halogi. Mae'n debygol y gofynnir i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol gynnal ymchwiliad a chymryd mesurau adfer. |
| CS42 | Tir yng Nghrai | Crai | 9 | 1. Amlygwyd bod llinellau hedfan ystlumod ar y safle, ac felly bydd angen cynnal arolwg, gan gynnwys cymryd mesurau lliniaru yn y dyfodol.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Crai. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>3. Mae'r safle o fewn 50 metr o hen reilffordd ac fe allai fod wedi'i halogi. Mae'n debygol y gofynnir i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol gynnal ymchwiliad a chymryd mesurau adfer. |
| CS102 | Lancaster | Gilwern | 112 | 1. Ceir Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Drive (dyraniad blaenorol GW2 yn y Cynllun Datblygu Unedol) | | | neu arwyneb anathraidd o fewn dalgylch Wysg. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg i garthffosydd dŵr storm sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Gan fod y safle'n un maes glas ac yn fwy nag 1hectar o ran maint, bydd yn rhaid i ddatblygiad reoli dŵr wyneb yn briodol. Dylai datblygwyr arfer ymagwedd arloesol tuag at hyn trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n ffurfio gwelliannau amwynder a bioamrywiaeth ar y safle.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>3. Mae preswylwyr lleol wedi mynegi pryderon ynghylch amodau traffig yn Broadmead a Dan y Bryn. Dylid nodi hefyd nad yw Lancaster Drive yn briffordd fabwysiedig. Dylid sicrhau prif fynediad i gerbydau o'r ffordd 'newydd' sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Parc Gilwern, o bosibl trwy addasu cyffordd bresennol ac adlinio'r 'hen' ffordd. Mae'n bosibl y gellid darparu mynediad eilaidd i gerbydau o'r A4077 Abergavenny Road. Ni fyddem yn disgwyl cysylltiadau cerbydau i Boarded neu Lancaster Drive, ond dylid darparu cysylltiadau i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltiadau cynaliadwy. |
| CS39/69 /70/88/8 9/99 | Tir yn Nhŷ Clyd | Gofilon | 93 | 1. Ceir Cyfyngiad Dŵr Ffo Maes Glas o 10 litr/eiliad/hectar ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig neu arwyneb anathraidd o fewn dalgylch Wysg. Mae hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg i garthffosydd dŵr storm sy'n draenio i gwrs dŵr yn y pen draw. Gan fod y safle'n un maes glas ac yn fwy nag 1hectar o ran maint, bydd yn rhaid i ddatblygiad reoli dŵr wyneb yn briodol. Dylai datblygwyr arfer ymagwedd arloesol tuag at hyn trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n ffurfio gwelliannau amwynder a bioamrywiaeth ar y safle.<br><br>2. Gellir darparu cyflenwad dŵr, ond mae'n bosibl y bydd Dŵr Cymru yn gofyn i asesiad gael ei gynnal i ddarparu ar gyfer y safle cyfan ar y dwysedd mwyaf posibl.<br><br>3. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberbaiden. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>4. Byddai angen ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru ymhellach ynghylch trefniadau mynediad oherwydd agosrwydd yr A465. Gellid cael mynediad o'r B4246. Dylai'r datblygwr ddarparu cyffordd newydd, gwelliannau i'r briffordd a/neu estyn mesurau gostegu traffig presennol. Dylid ceisio cyngor cyn cyflwyno cais gan yr Awdurdod Priffyrdd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bannau Brycheiniog ar y cam cynharaf posibl cyn cwblhau'r dyluniadau'n derfynol. |
| DBR-LIB-E | Tir gerllaw Pen y Fan Close | Libanus | 3 | 1. Tybir bod hawliau a chyfrifoldebau glannau'r afon yn bodoli o ran y cwrs dŵr ar y safle sy'n agored neu wedi'i sianelu. Y tirfeddiannwr fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw ran o'r cwrs dŵr sy'n mynd heibio neu'n ffinio â'r tir. Dylai'r dyluniad adlewyrchu'r ffaith na cheir gosod unrhyw adeiladau, adeileddau na ffensys, na phlannu o fewn 5 metr o ben glan unrhyw gwrs dŵr, nac o fewn 3 metr o bob ochr i sianel unrhyw gwrs dŵr. Bydd angen rhoi sylw i faterion yn ymwneud â llifogydd lleol. Dylid ymgynghori ag Awdurdod Draenio Cyngor Sir Powys cyn datblygu. |
| DBR-LPD-A | Tir oddi ar Heol St Cattwg | Llanspyddid | 10 | 1. Mae'r safle'n agos i Barth 2 Parth Diogelu Tarddiad Dŵr Aberhonddu, ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i ddŵr budr o'r adeiladau gael ei ryddhau i'r garthffos fudr.<br><br>2. Mae'r safle o fewn craidd hanesyddol Llanspyddid, ac mae'n bosibl y bydd angen gwerthuso effeithiau unrhyw ddatblygiad yma ymlaen llaw, yn unol â Pholisi 49 arfaethedig. Mae'r safle hefyd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg, ac fe allai fod angen asesu effeithiau unrhyw ddatblygiad ar raddfa fwy yma, yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig, fel rhan o'r broses gynllunio. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar y cyfle cynharaf posibl wrth gynllunio datblygiad o'r fath.<br><br>3. Mae system draenio dŵr wyneb Heol Sant Gattwg yn gweithredu hyd eithaf ei gallu ac ni fyddai unrhyw gysylltiad yn cael ei alluogi. Mae'n rhaid gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy lle y byddai modd gwanhau i gyflawni'r safon 100 mlynedd ar yr un pryd â chyfyngu'r llif parhaus i'r lefel bresennol o 1 mewn 1 mlynedd o ddŵr ffo maes glas ar gyfer yr ardaloedd anathraidd cysylltiedig. |
| DBR-LBD-A | Tir gerllaw St Peter's Close | Llanbedr | 9 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanbedr. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Mae Awdurdod Priffyrdd Powys yn mynnu y dylai'r estyniadau i St John's Close a'i droedffyrdd i gerddwyr ffurfio rhan o'r datblygiad ac y dylent gael eu cyflawni i Safonau Priffyrdd Mabwysiadwy. |
| DBR-LGN-D | Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Sirol Llanigon | Llanigon | 10 | 2. Mae carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle datblygu arfaethedig y byddai Dŵr Cymru'n ceisio mesurau diogelu ar ei chyfer, naill ai ar ffurf hawddfraint a/neu ddargyfeirio.<br><br>3. Yn ôl Dŵr Cymru, nid oes unrhyw reswm sylfaenol pam na ellir darparu'r safle hwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 4. Mae'r safle ar gyrion craidd hanesyddol yr anheddiad, ac mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwerthusiad a chamau lliniaru priodol yn sgil datblygiad yn y dyfodol. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg, ac fe allai fod angen asesu effeithiau unrhyw ddatblygiad ar raddfa fwy yma yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn gynted â phosibl yn ystod y cam dylunio.<br><br>5. Dylid bodloni trefniadau mynediad o'r blaen gogledd-ddwyreiniol ar bellter priodol o'r gyffordd. Dylid achub ar y cyfle i wneud mân welliannau i'r cysylltiadau troedffordd a'r radiysau wrth y gyffordd gyferbyn â'r ysgol.<br><br>6. Tybir bod hawliau a chyfrifoldebau glannau'r afon yn bodoli o ran y cwrs dŵr ar y safle sy'n agored neu wedi'i sianelu. Cynghorir mai'r tirfeddiannwr fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw ran o'r cwrs dŵr sy'n mynd heibio neu'n ffinio â'r tir. |
| CS120 | Tir i'r de o Dŷ Melys | Pencelli | 6 | 1. Gellir sicrhau bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig.<br><br>2. Mae Dŵr Cymru wedi amlygu bod y system trin carthffosiaeth gyhoeddus a'r system trin dŵr gwastraff yn annigonol i wasanaethu'r datblygiad. Felly, gofynnir i dir gael ei ryddhau'n raddol i'w ddatblygu tua diwedd cyfnod y cynllun fel y gellir uwchraddio'r system yn unol â gofynion rheoleiddiol. Pe rhoddid caniatâd ar gyfer datblygiad cyn hynny, byddai angen gwneud gwaith angenrheidiol i sicrhau gwasanaethau carthffosiaeth boddhaol ar gyfer y datblygiad arfaethedig er bodlonrwydd Dŵr Cymru. Disgwylir mai'r datblygwr fyddai'n gorfod talu am hynny. Anogir datblygwyr sy'n bwriadu cyflwyno'r safle hwn i'w ddatblygu gynnal trafodaethau gyda Dŵr Cymru yn ystod camau rhagarweiniol y broses ddylunio.<br><br>3. Mae'r safle ar gyrion craidd hanesyddol yr anheddiad, ac mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwerthusiad archaeolegol a chamau lliniaru priodol yn sgil datblygiad yn y dyfodol. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn ystod camau cynharaf y proffil dylunio. |
| DBR-PNT-D | Tir gerllaw Ambelside | Pennorth | 6 | 1. Dylid cadw'r holl goetir i'r dwyrain o'r llain. Bydd angen cynnal arolwg ystlumod, a dylid dylunio cynllun goleuo er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad yn effeithio ar weithgarwch clwydo neu fwydo ystlumod.<br><br>3. Gall y garthffos gyhoeddus ymdopi â llifoedd budr o'r safle datblygu arfaethedig. Dylid nodi nad oes carthffosydd cyhoeddus yn agos i'r datblygiad ac y gellid disgwyl i'r datblygwr ariannu cysylltiadau.<br><br>4. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg, ac fe allai fod angen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | asesu effeithiau datblygiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ynghylch y mater hwn cyn cyflwyno cais.<br><br>5. Mae'r safle gerllaw llinell bosibl ffordd Rufeinig, ac mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwerthusiad archaeolegol a mesurau lliniaru priodol yn sgil datblygiad yn y dyfodol.<br><br>6. Ar yr adeg Adneuo, amlygwyd bod angen 5 uned fforddiadwy. Bydd angen darparu tai fforddiadwy ar y safle oni bai bod y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn penderfynu fel arall.<br><br>7. Yn ôl Dŵr Cymru, nid oes unrhyw reswm sylfaenol pam na ellir darparu'r safle hwn. |
| CS91 | Tir i'r gorllewin o Dŷ Pontsticill, Pontsticill | Pontsticill | 6 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Pontsticill Wysg. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Mae'r mynediad tybiedig i'r datblygiad ar hyd llwybr anwneuthuredig a gynhelir yn breifat sydd islaw'r safon. Er mwyn hwyluso'r datblygiad, byddai angen uwchraddio'r gyffordd i'r C234 a'r ffordd fynediad arfaethedig dybiedig bresennol yn unol â'r meini prawf cyfredol ar gyfer dyluniad derbyniol. |
| CS55 | Tir gerllaw Pen-y-garn | Pontsticill | 6 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Pontsticill Wysg. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Dylid darparu mynediad i'r datblygiad trwy Dai Pen-y-garn. |
| DBR-PSTC-C | Tir ar ddiwedd Dan-y-Coed | Pontsticill | 3 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Pontsticill Wysg. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Dylid darparu mynediad ar hyd y briffordd fabwysiedig sy'n gwasanaethu Dan-y-Coed. Byddai angen gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau troed i'r datblygiad newydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CS127 | Tir ar Fferm Maesmawr | Tal-y-bont ar Wysg | 57 | 1. Mae Dŵr Cymru yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfyngu twf hyd nes bod gwelliannau'n cael eu gwneud i Waith Trin Dŵr Gwastraff Pontsticill Wysg. Mae'n bosibl y bydd angen rhyddhau tir i'w ddatblygu'n raddol tua diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhoi amser i'w gwelliannau hanfodol gael eu gwneud.<br><br>2. Mae carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle y mae'n bosibl y bydd angen cymryd mesurau diogelu ar ei chyfer, naill ai ar ffurf hawddfraint a/neu ddargyfeirio.<br><br>3. Mae'r safle o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Canol Dyffryn Wysg, ac fe allai fod angen asesu effeithiau'r datblygiad yn unol â'r fethodoleg ASIDOHL2 gyhoeddedig. Dylid ceisio cyngor gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys cyn cyflwyno cais.<br><br>4. Ni chaniateir mynediad i Lôn Maesmawr ar hyd ffin ogleddol y safle. Byddai angen i'r datblygwr wneud gwelliannau sylweddol i gyffordd Lôn Maesmawr â'r ffordd Dosbarth II.<br><br>5. Mae'r safle o fewn 50 metr o safle a ddefnyddiwyd fel garej i gynnal cerbydau modur a chadw tanciau petrolewm, ac fe allai fod wedi'i halogi. Bydd angen cynnal gwerthusiad ac unrhyw gamau adfer ar gyfer unrhyw ddatblygiad. |
| CS66 | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (safle a ddyrannwyd ar gyfer tai (3.7ha) a chyflogaeth (1.84ha), a'r gweddill i gynnwys cyfleusterau cymunedol a mannau agored) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 70 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CS111 | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru (a ddyrannwyd ar gyfer tai, cyflogaeth a defnydd cymunedol) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 93 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

## **Defnydd Cymysg**

| **Cod y Safle** | **Enw'r Safle** | **Anheddiad** | **Maint** | **Gofynion Datblygu** |
|---|---|---|---|---|
| CS132 | Dyraniad B17 yn y Cynllun Datblygu Unedol gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, i'r gogledd o'r Ysbyty | Aberhonddu | 5.0455 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |
| SALT 037 | Estyniad arfaethedig i T9 (a ddyrannwyd ar gyfer tai (0.5ha) ac ysgol gynradd | Talgarth | 2.06 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | newydd | | | |
| CS66 | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (safle a ddyrannwyd ar gyfer tai (3.7ha) a chyflogaeth (1.84ha), a'r gweddill i gynnwys cyfleusterau cymunedol a mannau agored) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 24.1 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |
| CS111 | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru (a ddyrannwyd ar gyfer tai, cyflogaeth a defnydd cymunedol) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 13.6 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

## Cyflogaeth

| Cod y Safle | Enw'r Safle | Anheddiad | Maint | Gofynion Datblygu |
|---|---|---|---|---|
| CS78 | Tir gerllaw 5th Avenue | Ystad Ddiwydiannol Hirwaun | 4.96 | Mae'n rhaid i ddatblygiad sicrhau nad oes cynnydd net mewn allyriadau atmosfferig yr ystyrir eu bod yn niweidiol i sensitifrwydd amgylcheddol yng nghyffiniau'r safle, er bodlonrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Mae'n rhaid i ddatblygiad sicrhau nad yw, mewn unrhyw ffordd, yn gwaethygu lefelau Nitrogen a dyddodion asid sy'n effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Bryn y Gaer.<br><br>Mae'r safle'n cynnwys Cynefin Blaenoriaeth rhannol fel y'i hamlinellir yng Nghynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd angen i unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad gynnal arolwg bioamrywiaeth llawn a llunio cynllun rheoli. Gallai fod angen gosod rhwymedigaethau i liniaru a gwella effeithiau posibl datblygiad, naill ai trwy reolaeth weithredol ar y safle neu fesurau digolledu oddi ar y safle.<br><br>Byddai angen cynnal Asesiad o Effaith Trafnidiaeth mewn perthynas â datblygu'r safle hwn i asesu'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd a dulliau addas o deithio, ac i ddarparu mesurau lliniaru yn unol â hynny.<br><br>Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd angen cynnal asesiadau lefel prosiect os oes posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Blaen Cynon. Ni fydd unrhyw brosiect datblygu a allai gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd yn unol â'r cynllun datblygu, o fewn ystyr Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.<br><br>Bydd angen gweithdrefn ar gyfer monitro ansawdd aer, a rhannu'r data gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bob blwyddyn. |
| CS132 | Dyraniad B17 yn y Cynllun Datblygu | Aberhonddu | 5.~~04~~55 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Unedol gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, i'r gogledd o'r Ysbyty | | | |
| CS66 | Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (safle a ddyrannwyd ar gyfer tai (3.7ha) a chyflogaeth (1.84ha), a'r gweddill i gynnwys cyfleusterau cymunedol a mannau agored) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 24.1 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |
| CS111 | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru (a ddyrannwyd ar gyfer tai, cyflogaeth a defnydd cymunedol) | Safle tir llwyd a ddyrannwyd | 13.6 | Bydd gofynion datblygu'n cael eu hamlinellu yn y brîff datblygu. |
| CS26 | Tir gerllaw | Talgarth | 0.6 | 1. Mae Dŵr Cymru wedi dweud y gellir darparu'r safle hwn ar ôl gwneud gwelliannau i Waith |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Hay Road | | | Trin Dŵr Gwastraff Talgarth, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 31 Mawrth 2015.<br><br>2. Mae Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Powys yn dweud y gall y safle hwn gael ei ddarparu cyn belled ag y bydd unrhyw fynediad yn cael ei leoli ar hyd blaen y ffordd dosbarth III lle y gellir darparu lleiniau gwelededd priodol. Bydd angen ystyried y trefniadau mynediad presennol pe byddai'n cael ei ddefnyddio fel estyniad i'r ardaloedd diwydiannol sydd eisoes yn bodoli gerllaw.<br><br>3. Mae'r safle o fewn Tirwedd Canol Dyffryn Wysg sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Dylid ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn ystod y cam dylunio er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl.<br><br>4. Mae'r safle o fewn 50 metr o dir hysbys wedi'i lenwi, ac fe allai fod wedi'i halogi. Mae'n debygol y gofynnir am amod tir halogedig B y cyngor ar gyfer unrhyw ganiatâd cynllunio yn y dyfodol. |

# Atodiad 2: Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

Darn o *Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol: Rheoli Newid Gyda'n Gilydd*, Adran 3: Nodweddion Arbennig, Tabl 3.1, Tudalen 28.

| Nodweddion Arbennig | Dyfyniadau Rhanddeiliaid |
|---|---|
| Parc Cenedlaethol sy'n cynnig **heddwch a thawelwch** gyda chyfleoedd i fwynhau'n dawel, cael ysbrydoliaeth, ymlacio ac adfywio'n ysbrydol. | *"Wedi'i wahanu o 'brysurdeb masnachol' bywyd pob dydd yn y Deyrnas Unedig."* |
| Teimlad o **fywiogrwydd ac iechyd da** sy'n dod o fwynhau awyr iach, dŵr glân, amgylchedd gwledig, tir agored a bwyd a gynhyrchwyd yn lleol. | *"Man lle nad yw rhu traffig mor uchel a lle mae'r awyr yn 'lân'."* |
| **Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol**—"Cymreictod" – a nodweddir gan y Gymraeg, cysylltiadau crefyddol ac ysbrydol, defodau a digwyddiadau unigryw, bwydydd a chrefftau traddodiadol, trefi a phentrefi hanesyddol sy'n gymharol ddigyffwrdd, ffermydd teulu a sgiliau traddodiadol sy'n dal i gael eu defnyddio a ddatblygwyd gan breswylwyr lleol i fyw ac ennill bywoliaeth yma, fel arferion tir comin a phori. | *"Lle i anadlu yn agos i gartref i'r rhai sy'n byw yn y Parc ac i'r rhai yn y cymoedd diwydiannol."*<br><br>*"Ymdeimlad o natur ddigyfnewid."* |
| **Ymdeimlad o ddarganfod** lle mae pobl yn archwilio cyfrinachau cudd a straeon y Parc fel hanesion achyddol, safleoedd defodol cynhanesyddol, olion aneddiadau gwledig canoloesol, safleoedd diwydiannol cynnar, mythau a chwedlau lleol a thrysorau daearyddol ers cyn cof. | *"Adnodd archaeolegol cyfoethog sy'n dal i gael ei archwilio a'i ddeall."*<br><br>*"Tirwedd ddiwylliannol lle y mae cysylltiad amlwg rhwng hanes, pobl, diwylliant a gweithgarwch."* |
| **Ysblander ysgubol a harddwch naturiol eithriadol** y Parc a welir ar draws amrywiaeth o dirweddau sy'n cydweddu â'i gilydd, gan gynnwys ceunentydd a rhaeadrau trawiadol, daeareg garst glasurol gydag ogofâu a llyncdyllau, tirffurfiau rhewlifol cyferbyniol fel clogwyni a dyffrynnoedd eang a gerfiwyd o hen dywodfaen coch a phennau bryniau amlwg y gellir gweld yn bell ohonynt i bob cyfeiriad. | *"Golygfeydd syfrdanol!"*<br><br>*"Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog amrywiaeth wych o ddaearyddiaeth hardd mewn ardal gywasgedig."* |
| "Clytwaith" gweithio, byw o **batrymau, lliwiau ac ansawdd cyferbyniol** sy'n cynnwys tirffurfiau amaethyddol a gynhelir yn dda, ucheldiroedd agored, llynnoedd ac afonydd troellog gyda choetiroedd bach bob hyn a hyn, lonydd gwledig, gwrychoedd a waliau cerrig ac aneddiadau gwasgaredig. | *"Tirweddau a chefn gwlad eithriadol a thir amaethyddol a gynhelir yn dda."*<br><br>*"Gardd gefn y Cymoedd."* |

| Nodweddion Arbennig | Dyfyniadau Rhanddeiliaid |
|---|---|
| Mynediad helaeth ac eang at **fywyd gwyllt amrywiol a chynefinoedd lled-naturiol cyfoethog** y Parc, fel coetiroedd brodorol, rhostir a glaswelltir, llynnoedd naturiol a chynefinoedd glannau afon, gwrychoedd hynafol, calchbalmant a gorgyrs, gan gynnwys rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol. | *"Mae'r amrywiaeth yn arbennig, yn enwedig y gwahaniaeth mawr rhwng ardaloedd dwyreiniol a gorllewinol y Parc."*<br><br>*"Man lle y gall pobl leol ac ymwelwyr ddysgu am yr amgylchedd."* |
| Yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig, tirweddau **garw, anghysbell a heriol** o safbwynt daearyddol. | *"Amgylchedd naturiol eithriadol a hardd i'w drysori, ei barchu a'i warchod."* |
| **Cefn gwlad pleserus a hygyrch** gyda chyfleoedd helaeth, eang ac amrywiol i gerdded, beicio, pysgota, a gwneud gweithgareddau dŵr a mathau eraill o hamdden neu ymlacio cynaliadwy. | *"Cyfleoedd i bobl o bob oedran ymgysylltu â'r dirwedd naturiol."* |
| **Ymdeimlad o gymuned glòs** lle y mae trefi a phentrefi bach, bugeiliol yn gymharol ddiogel, cyfeillgar a chroesawgar ac yn cynnal ysbryd o gydweithredu. | *"Byddai'n dda petai'n aros fel ag y mae, ond derbynnir y gallai fod angen iddo newid."* |

## Atodiad 3: Arbed Dŵr

**Mae'r rhan ganlynol yn rhoi syniad o'r goblygiadau ymarferol presennol sy'n gysylltiedig â chyflawni gofynion Polisi 5.**

Bydd yn ofynnol i ddatblygiad newydd gael ei adeiladu mewn ffordd sy'n newid faint o ddŵr a ddefnyddir o 105 litr/unigolyn/dydd i 80 litr/unigolyn/dydd.

Gellir lleihau faint o ddŵr yfed a ddefnyddir yn yr annedd trwy ddefnyddio ffitiadau gosodedig sy'n lleihau'r defnydd o ddŵr, a thrwy Ailgylchu Dŵr Glaw a Dŵr Llwyd.

- **Defnyddio ffitiadau gosodedig** sy'n lleihau'r defnydd o ddŵr mewn tai bach, tapiau a chawodydd, gan gynnwys defnyddio systemau lleihau llif.
- **Ailgylchu Dŵr Glaw** – casglu a storio dŵr glaw yn briodol o arwynebau caled yn yr awyr agored i'w ddefnyddio yn lle dŵr yfed mewn tai bach a/neu beiriannau golchi. Mewn rhai achosion, gallai dŵr glaw hefyd gael ei ddefnyddio i gyfrannu at WAT 2 ar gyfer dyfrhau ac o bosibl ar gyfer ffitiadau mwy sy'n defnyddio dŵr fel tybiau poeth neu byllau nofio. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfeirio at y diffiniad perthnasol ar gyfer maint digonol, fel y'i hamlinellir yn WAT2.
- **Ailgylchu Dŵr Llwyd** – casglu, trin a storio dŵr o gawodydd, baddonau a thapiau yn briodol i'w ddefnyddio yn lle dŵr yfed mewn tai bach a/neu beiriannau golchi. Fel arfer, mae systemau ailgylchu dŵr llwyd yn casglu dŵr a ddefnyddiwyd mewn cawodydd, baddonau a thapiau ac yn ei ailgylchu i fflysio tai bach.
- **Offer Lleihau Dŵr** – gellid gosod ffitiadau fel cyfyngwyr llif mewn tapiau a chawodydd, a gellid gosod falfiau oedi mewnlif mewn tai bach
- **Cyfyngwyr Llif** – mae cyfyngwyr llif yn cynnwys hidlwyr neu dyllau manwl gywir i gyfyngu'r llif a lleihau llif a phwysedd allfeydd. Yn nodweddiadol, fe'u gosodir yn y tap neu ym mhen y gawod.
- **Falfiau Oedi Mewnlif** – mae falfiau oedi mewnlif yn atal dŵr rhag mynd i mewn i seston y tŷ bach nes ei fod wedi gwacáu'n llwyr, sy'n golygu y gall cyfaint manwl gywir o ddŵr gael ei ryddhau yn annibynnol ar bwysedd dŵr.
- **Casglu Dŵr Glaw** – gofyniad gorfodol i ddarparu cyfleusterau casglu dŵr glaw ar gyfer dyfrhau allanol.
- **Systemau Draenio Cynaliadwy** – bydd y rhain yn orfodol i bob cynnig ar gyfer datblygiad newydd.

**Mae'r rhan ganlynol yn rhoi syniad o rai o'r goblygiadau ymarferol presennol sy'n gysylltiedig â chyflawni Polisi 5[66]. Mae Canllaw Dylunio Cynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhoi mwy o arweiniad ar weithredu Systemau Draenio Cynaliadwy.**

- **Palmentydd Athraidd** Disodli ardaloedd o gerrig palmant caled â phalmentydd mandyllog, fel blociau concrit athraidd, cerrig mâl ac asffalt mandyllog. Yn dibynnu ar amodau'r tir, gallai'r dŵr ymdreiddio'n uniongyrchol i'r isbridd neu gael ei storio mewn cronfa ddŵr danddaearol (er enghraifft, haen cerrig mâl) cyn treiddio'n araf i'r tir. Os nad yw ymdreiddio'n bosibl neu'n briodol (er enghraifft, oherwydd bod y tir wedi'i halogi), gellir defnyddio pilen anathraidd gyda gorlif i gadw'r palmant yn rhydd rhag dŵr mewn pob math o amodau. Bydd llygrwyr yn cael eu dileu naill ai o fewn yr arwyneb neu'r deunydd gwaelod isaf ei hun, neu drwy weithred hidlo'r

[66] Yn unol â dogfen ganllaw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2003) *Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS): Canllaw i ddatblygwyr* Asiantaeth yr Amgylchedd: Bryste

gronfa ddŵr neu'r isbridd.

- **Pantiau a Basnau** Cânt eu creu fel nodweddion mewn ardaloedd tirweddu, amwynder, addurnol neu sgrinio cynllun, a byddai contractau cynnal a chadw arferol ar waith i'w rheoli. Maent yn darparu storfa dros dro ar gyfer dŵr storm, yn lleihau llifoedd brig i ddyfroedd derbyn ac yn hwyluso'r broses o hidlo llygrwyr, ar yr un pryd â chaniatáu i ddŵr ymdreiddio'n uniongyrchol i'r tir. Gellir eu gosod wrth ochr ffyrdd i ddisodli ymylon ffyrdd confensiynol, gan felly arbed costau adeiladu a chynnal a chadw.

- **Toeon gwyrdd ac ailddefnyddio dŵr glaw** Gall toeon gwyrdd leihau llif brig a chyfanswm y dŵr sy'n cael ei ryddhau, yn ogystal â gwella ei ansawdd. Gallant hefyd wella inswleiddio a chynyddu hyd oes to. Bydd casglu dŵr glaw mewn system dŵr gwyrdd yn lleihau dŵr ffo ac yn hybu rheoli dŵr yn gynaliadwy mewn ardaloedd lle y byddai dŵr yfed yn cael ei ddefnyddio'n draddodiadol, e.e. dyfrhau gerddi / rhandiroedd a fflysio tai bach.

- **Ffosydd ymdreiddio a draeniau hidlo** Cronfeydd dŵr wedi'u llenwi â cherrig y caiff dŵr ffo storm ei ddargyfeirio iddynt, a lle y mae'r dŵr ynddynt yn ymdreiddio'n raddol i'r tir. Gellir peri iddynt bara'n hwy trwy gynnwys stribed hidlo, rhigol neu bwll llithro i gael gwared â solidau sy'n cronni yn y mewnlif. Mae draeniau hidlo, a ddefnyddir yn gyffredin gan awdurdodau priffyrdd i ddraenio ffyrdd, yn adeileddau tebyg y mae pibell dyllog yn rhedeg trwyddynt.

- **Pyllau a gwlyptiroedd** Gellir dylunio pyllau neu wlyptiroedd i gynnal amrywiadau sylweddol mewn lefelau dŵr, gan felly wella'r gallu i storio llifogydd. Mae algâu a phlanhigion gwlyptiroedd yn darparu lefel dda o hidlo a gwaredu maetholion, yn ogystal â'r gallu i ailgylchu dŵr llwyd, ar gyfer rhywfaint o drin dŵr gwastraff. Gall pyllau a gwlyptiroedd gael eu bwydo gan bantiau, draeniau hidlo neu systemau pibellog. Maent yn gwella amwynder gweledol ac yn cyfrannu at fioamrywiaeth yr amgylchedd adeiledig.

- **Systemau Draenio Cynaliadwy ar Dir a Ddatblygwyd yn flaenorol** Lle y ceir perygl o ddifrod amgylcheddol yn sgil halogiad tir, bydd angen meddwl yn ofalus am ddatrysiadau wedi'u seilio ar ymdreiddio. Mae'n rhaid canolbwyntio ar atal halogwyr rhag symud.

# Atodiad 4: Rhwymedigaethau Cynllunio

Bydd datblygu'r Parc Cenedlaethol yn effeithio ar ei amgylchedd, cymunedau, amwynderau a seilwaith ffisegol. Fel y cyfryw, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl i bob datblygiad liniaru graddau'r effaith hon ar y dirwedd a'r cymunedau trwy osod rhwymedigaethau cynllunio ar ganiatâd cynllunio a roddir.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r farn y dylai Rhwymedigaethau Cynllunio gael eu gosod ar sail meini prawf penodol ein dynodiad i warchod a gwella'r dirwedd fyw arbennig hon er budd ein cymunedau a'r amgylchedd. Fel y cyfryw, mae'r meysydd y ceisir cyfraniadau ar eu cyfer wedi'u hymgorffori ym mholisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac fe'u cefnogir gan weledigaeth a nodau allweddol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.

## Cyfraniadau Categori 1

Mae rhwymedigaethau cynllunio penodol Categori 1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn flaenoriaeth ac fe'u ceisir fel y nodir isod:-

**a) Tai Fforddiadwy**
Sicrhau bod datblygwyr yn bodloni'r ddarpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy a bod yr elfen fforddiadwy yn cael ei chadw am byth fel yr amlinellir ym Mholisi 13 y Cynllun Datblygu Lleol

**b) Bioamrywiaeth**
Sicrhau mesurau i warchod, gwella neu leihau niwed i safleoedd neu rywogaethau gwarchodedig y cydnabyddir eu bod o bwysigrwydd cadwraeth natur fel yr amlinellir yn Niben Cyntaf y Parc Cenedlaethol, Polisi 3 y Cynllun Datblygu Lleol

**c) Cynaliadwyedd**
Sicrhau y darperir ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle (neu gyfleusterau cymunedol) a dylunio cynaliadwy fel yr amlinellir yn Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a Pholisi SP11 y Cynllun Datblygu Lleol

## Cyfraniadau Categori 2

Bydd rhwymedigaethau cynllunio a geisir o gyfraniadau Categori 2 yn ychwanegol at y rhai hynny a restrwyd yng Nghategori 1.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i sicrhau cyfraniadau cadarnhaol ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd rheolaeth gwasanaethau cymunedol yn dod o dan awdurdodaeth weinyddol yr Awdurdod Unedol perthnasol.

Felly, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi diffinio rhwymedigaethau cynllunio a geisir er budd meysydd gwasanaeth cymunedol fel cyfraniadau cymunedol Categori 2. Mae'r rhain yn ymwneud â chyfraniadau nad oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol reolaeth weinyddol dros ddarparu'r gwasanaeth. Wrth geisio cyfraniadau Categori 2, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn negodi rhwymedigaethau cynllunio gan weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Unedol perthnasol.

Wrth geisio cyfraniadau Categori 2, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu safbwyntiau polisi'r Awdurdod Unedol penodol. Mae'r Awdurdodau Unedol wedi ffurfio eu hymagwedd at gyfraniadau rhwymedigaethau cynllunio yn unol â'u Strategaethau Cymunedol perthnasol a dogfennau polisi lefel uchel cysylltiedig eraill. Mae'r strategaethau hyn, yn eu tro, wedi'u seilio ar ymarfer 'archwilio angen' sy'n helpu i sefydlu'r sail dystiolaeth ar gyfer pennu lefelau cyfraniad. Fel y cyfryw, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi penderfynu mabwysiadu'r safbwynt hwn i wasanaethu anghenion ein cymunedau cyfansoddol orau.

Gellid ceisio cyfraniadau Categori 2 ar gyfer y canlynol:

- Darparu a chynnal a chadw mannau agored ac ardaloedd hamdden mewn datblygiadau, gan gynnwys gwella ardaloedd 'tir y cyhoedd' gan gynnwys safleoedd glan dŵr
- Darparu neu wella cyfleusterau addysgol presennol
- Darparu cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy fel gwella hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau parcio a theithio a llwybrau beicio a cherdded
- Darparu cyfleusterau cymunedol (fel gwelliannau i gyfleusterau llyfrgell, neuaddau cymunedol presennol, arosfannau bysiau)
- Darparu neu wella seilwaith ffyrdd i wasanaethu datblygiad
- Darparu, cynnal a chadw a rheoli cyfleusterau ailgylchu neu gompostio cymunedol presennol
- Gwella mynediad ar gyfer pobl anabl
- Mesurau i wrthbwyso effaith negyddol ar gyfanrwydd treftadaeth ddiwylliannol neu archaeolegol (gan gynnwys gwelliannau fel gwell mynediad i nodweddion o ddiddordeb a gwell darpariaeth ddehongli ar eu cyfer)
- Darparu mesurau i wella diogelwch cymunedol, gan gynnwys teledu cylch cyfyng
- Darparu neu wella cyfleusterau gofal iechyd presennol
- Darparu celf gyhoeddus
- Darparu mentrau hyfforddi lleol
- Mesurau rheoli perygl llifogydd

Unrhyw fudd cynllunio priodol arall a fernir yn unol â thystiolaeth o angen profedig ar sail safleoedd unigol.

# Atodiad 5: Rhywogaethau Coed sy'n Frodorol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awyddus i sicrhau bod cynlluniau plannu newydd yn defnyddio rhywogaethau sy'n digwydd yn naturiol yn y Parc.
Dylai'r planhigion a ddefnyddir fod o darddiad lleol[67] lle y bo'n bosibl, a gadarnheir os oes angen gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu asiantaeth arall ag enw da. Os nad yw hyn yn bosibl, dylent fod o gyff Prydeinig.
Dylid cytuno ar fanylion cynlluniau gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol bob amser cyn plannu.

***Rhestr 1:***
***Rhywogaethau sy'n bodoli ym mhob rhan o'r Parc***
**Coed**
Ynn
Derw (derw mes di-goes a derw mes coesynnog)
Coed Ceirios Du
Gwern Cyffredin
Cyll
Llwyfenni Llydanddail
Masarn Bach
Bedw Arian
Bedw Llwyd
Criafol
Celyn
Helyg Gwynion
Helyg Brau
Helyg Deilgrwn
Coed Afalau Surion

**Prysgwydd**
Gwifwrnwydd y Gors
Rhafnwydd Cyffredin
Coed Ceirios yr Adar
Ysgaw
Piswydd
Drain Duon
Drain Gwynion
Cwyros

***Rhestr 2:***
***Amrediad Cyfyngedig***
Ffawydd
Yw
Poplys Du
Pisgwydd Dail Bach
Aethnenni
Cerddin Gwynion

[67] Mae tarddiad lleol yn golygu bod yr hedyn wedi dod o goed sy'n tyfu'n lleol. Ceir gwahaniaethau rhanbarthol o fewn yr un rhywogaethau coed.

# Atodiad 6: Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol

Rhestrir isod y safleoedd hynny a ddangosir ar y Gofrestr sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ceir dwy ran i'r Gofrestr.

**Rhan 1: Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol**

***Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Powys***

- Abercynrig Gradd II
- Tŷ Buckland Gradd II
- Castell a Pharc Gwledig Craig-y-Nos Gradd II*
- Ffrwdgrech Gradd II
- Llys Glangrwyney Gradd II
- Parc Glanwysg a Phenmyarth Gradd II*
- Gliffaes Gradd II
- Castell y Gelli Gandryll Gradd II
- Parc Llangatwg Gradd II
- Penpont Gradd II*
- Plas Llangatwg Gradd II*
- Treberfydd Gradd II*
- Trefeca Fawr Gradd II
- Penoyre, Aberhonddu (ei osodiad) Gradd II

***Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Gwent***

- Parc Ceirw Priordy'r Fenni Gradd II
- Llys Llanfihangel, Crucornau Fawr Gradd I
- Parc Pont-y-Pŵl Gradd II*
- Trewyn, Crucornau Fawr Gradd II

**Rhan 2: Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru**

***Rhan 2:1 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol***

- Y Mynydd Du a Mynydd Myddfai
- Dyffryn Tywi
- Blaenafon
- Canol Dyffryn Gwy

***Rhan 2:2 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig***

- Dwyrain Fforest Fawr a Mynydd-y-Glôg
- Ceunant Clydach
- Canol Dyffryn Wysg: Aberhonddu a Llangors

# Atodiad 7: Gweithio Mwynau

## A. Rhestr o Safleoedd Mwynau sydd â Chaniatâd Cynllunio (fel y'u dangosir ar y Map Cynigion)

| *Chwarel* |
|---|
| Llanfair/Primrose Hill |
| Rhydaman |
| Blaen Onneu |
| Penderyn |
| Y Pant, Pwll Glo Fforest |
| Penwyllt |
| Faenor |
| Cefn Cadlan |
| Abercriban |

## B. Rhestr o Orchmynion Gwahardd

### 1. *Rhestr o Safleoedd sy'n ddarostyngedig i Orchmynion Gwahardd*

| *Chwarel* | *Dyddiad y gwnaed y gorchymyn* |
|---|---|
| Carreg Dwfn, Llandyfan | Gwnaed y Gorchymyn ar 8/8/07 |
| Brownhill, Llandybie | Gwnaed y Gorchymyn ar 8/8/07 |
| Afon Aman, Rhosaman | Gwnaed y Gorchymyn ar 8/8/07 |
| Cwar Glas, Llangadog | Gwnaed y Gorchymyn ar 8/8/07 |
| Caerhowell, Penderyn | Gwnaed y Gorchymyn ar 30/10/07 |
| Dan y Darren, Cefn Coed | Gwnaed y Gorchymyn ar 30/10/07 |
| Daren Hillside, Llangatwg | Gwnaed y Gorchymyn ar 22/01/08 |
| Fferm Hafod, Brynmawr | Gwnaed y Gorchymyn ar 09/04/08 |
| Craig y Gaer, Clydach | Gwnaed y Gorchymyn ar 22/01/08 |
| Croesfan Daren Felen, Bryn Llanelli | Gwnaed y Gorchymyn ar 22/01/08 |
| Gorsaf Clydach, Clydach | Gwnaed y Gorchymyn ar 21/01/08 |

**2. *Rhestr o Safleoedd lle y rhoddwyd gorchymyn gwahardd, ond y'i tynnwyd yn ôl wedi hynny.***

| | |
|---|---|
| Cefn Cadlan, Penderyn | Gorchymyn Gwahardd wedi'i dynnu'n ôl ar 24/7/08 |
| Blaen Onneu | Gorchymyn Gwahardd wedi'i dynnu'n ôl ar 27/1/09 |

## C. Rhestr o Safleoedd lle y gallai Gorchmynion Gwahardd gael eu rhoi yn y dyfodol

Mae'r rhestr ganlynol yn dangos safleoedd y gellid ystyried eu bod yn briodol ar gyfer gorchmynion gwahardd yn y dyfodol, gan ystyried yr amgylchiadau ar y pryd.

| | Cyfeirnod Grid |
|---|---|
| Llanfair, Crucywel | SO206200 |
| Cefn Cadlan | SN954112 |
| Blaen Onneu | SO152166 |
| Faenor (rhan) | SO036099 |
| Penwyllt | SN856159 |

# Atodiad 8: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol

**Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig sydd i'w diweddaru er mwyn eu defnyddio gyda'r Cynllun Datblygu Lleol**

- Canllaw ar Ddylunio Cynaliadwy mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
- Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio
- Trawsnewid Adeiladau Fferm ac Adeiladau Eraill yn Anheddau
- Tai Fforddiadwy
- Amnewid Anheddau ac Estyniadau i Anheddau yng Nghefn Gwlad
- Arfer Gorau mewn Cadwraeth Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y Sectorau Cynllunio a Datblygu

**Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cael eu paratoi**

- Llygredd Golau
- Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach
- Adfer cyn anheddau yng nghefn gwlad
- Polisi 45: Diogelu Mwynau
- Polisi 13: Cyfraniadau Tai Fforddiadwy
- Arallgyfeirio Ffermydd
- Gwersylla Moethus
- Archwiliad Bioamrywiaeth
- Cymeriad y Dirwedd
- Treftadaeth Adeiledig

**Rhaglen Cynlluniau Pentref**

Galluogwyd Cynlluniau Pentref trwy Bapur Gwyn Gwledig 2002.

Dogfennau sy'n deillio o'r gymuned ydynt sy'n amlinellu ystod o faterion a chamau gweithredu cymunedol. Bydd meysydd sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir yn cael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn arwain ceisiadau ar gyfer datblygiad o fewn ardal y cynllun pentref.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i hwyluso datblygiad cynlluniau pentref trwy gydweithio â chymunedau a rhanddeiliaid allweddol. Mae materion cynllunio defnydd tir allweddol y dylai'r cynllun pentref fynd i'r afael â hwy er mwyn eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn cynnwys

- Yr angen lleol am dai, gan gynnwys asesiad o fforddiadwyedd tai (i gynorthwyo i weithredu Polisi 15)
- Datganiad Dylunio Pentref (i gynorthwyo i weithredu LGS LP2 ac S LP 2 a Pholisi 1)
- Nodweddu'r dirwedd – gan gynnwys asesiad o nodweddion arbennig (i gynorthwyo i weithredu LGS LP2 ac S LP 2 ac SP 1 / Polisi 1)
- Ôl troed ecolegol a charbon (i gynorthwyo i weithredu SP11)
- Briffiau datblygu ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd (i gadarnhau'r gofynion datblygu)
- Anghenion seilwaith cymunedol (i gynorthwyo i weithredu Polisi 35 a datblygu Rhaglen Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol)

Bydd hyblygrwydd y system cynlluniau pentref yn darparu modd i fynd i'r afael â materion allweddol eraill i'r gymuned fel sy'n ofynnol gan y gymuned.  Mae'n bosibl na fydd y rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Atodiad 9: Rhestr Termau

- **Adeiladu ConsenswS:** Proses o ddeialog gynnar gyda grwpiau diddordeb penodol i ddeall safbwyntiau perthnasol.

- **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA):** Adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd, cynhyrchu bwyd a safonau bwyd, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a chymunedau gwledig.

- **Adroddiad Amgylcheddol:** Dogfen sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n amlygu, disgrifio ac arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu cynllun.

- **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd:** Mae'n disgrifio ac yn arfarnu'r effeithiau tebygol ar gynaliadwyedd yn sgil gweithredu'r Cynllun. Mae Adran 62 (6) y Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol lunio adroddiad ar ganfyddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Adroddiad Monitro Blynyddol:** Bydd hwn yn asesu'r graddau y mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

- **Amserlen Rheoli'r Prosiect:** Amserlen realistig sy'n manylu ar gamau amrywiol paratoi a darparu'r Cynllun Datblygu Lleol a sut y bydd y broses o baratoi'r Cynllun yn cael ei rheoli fel prosiect. Dylai'r amserlen hon hefyd restru'r adnoddau y bydd eu hangen ar bob cam.

- **Archwiliad Annibynnol:** Ymchwiliad annibynnol i ddarparu archwiliad diduedd o'r Cynllun Datblygu Lleol.

- **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig:** Safleoedd a warchodir yn llym o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

- **Arfarniad o Gynaliadwyedd:** Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy.

- **Asesiad Amgylcheddol Strategol:** Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad amgylcheddol a gymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC.

- **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol:** Mae'n galluogi Awdurdodau Lleol i ddeillio ffigurau cyffredinol ar gyfer nifer yr aelwydydd y mae angen tai ychwanegol arnynt, yn ogystal â deillio ffigurau ar lefel y galw a'r angen am dai yn eu marchnadoedd tai lleol.

- **Asesiad Priodol:** Asesiad o effaith unrhyw Gynllun defnydd tir ar amcanion cadwraeth Safle Ewropeaidd fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC.

- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:** Proses o sgrinio, cwmpasu ac asesu'n briodol effaith unrhyw Gynllun defnydd tir ar amcanion cadwraeth Safle Ewropeaidd fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC.

- **Cadernid:** Cysyniad y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei archwilio yn unol ag ef o dan adran 64(5)(b) Deddf 2004.

- **Camau Dangosol:** Y camau y tu hwnt i'r Cyfnod Adneuo Statudol.

- **Camau Diffiniol:** Camau paratoi'r cynllun hyd at ac yn cynnwys y Cynllun Adneuo Statudol.

- **Canllawiau Cynllunio Atodol:** Maent yn darparu gwybodaeth atodol mewn perthynas â pholisïau cynllun datblygu lleol. Mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a'r polisi cynllunio cenedlaethol.

- **Cofrestr Safleoedd:** Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd i'r Awdurdod sydd hefyd yn amlygu'r rhai hynny sy'n cyd-fynd â strategaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r rhai hynny nad ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth.

- **Cwmpasu:** Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylion Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau a'r dewisiadau cynaliadwyedd y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

- **Cyfeirlyfr Cynllun Datblygu Lleol:** Dogfen Ganllaw Polisi Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Mae'n ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru sydd wedi'u diddymu bellach. Hwn yw'r corff statudol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru.

- **Cyfranogiad Cyn-adneuo:** Proses lle y gall rhanddeiliaid a'r gymuned drafod gyda llunwyr y cynllun.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** Ar adeg llunio'r Cynllun Datblygu Lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a dyfroedd ei glannau. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymgymryd â swyddogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru bellach.

- **Cyngor Sir Powys:** Ac yntau'n Awdurdod Unedol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl wasanaethau llywodraeth leol yn y sir, gan gynnwys addysg, gwasanaethau gofal cymdeithasol, ffyrdd a phontydd, gwasanaethau hamdden, twristiaeth a chynllunio.

- **Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol:** Prif asiantaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer ariannu a rheoli ymchwil, hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth yn y gwyddorau amgylcheddol.

- **[Cynllun] Cynnwys y Gymuned:** Mae'n amlinellu cynllun prosiect a pholisïau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

- **Cynllun Datblygu Lleol:** Cynllun defnydd tir a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Mae'n destun archwiliad annibynnol.

- **Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo:** Cyfnod 6 wythnos ffurfiol pryd y gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Cynllun Datblygu Unedol:** Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol:** Cynllun gweithredu a gynhyrchir fel arfer gan bartneriaeth o bobl a sefydliadau lleol, sy'n ceisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth ardal leol.

- **Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol:** Y ddogfen bolisi bwysicaf ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Cynllun ydyw ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc yn hytrach nag ar gyfer un awdurdod penodol ac, fel dogfen strategol drosgynnol, mae'n cydlynu ac integreiddio cynlluniau, strategaethau a chamau gweithredu eraill yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru:** Dogfen Ganllaw Polisi Cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- **Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol:** Cyrff â chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ystyried effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni y mae'n rhaid ymgynghori â hwy o dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol; h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW.

- **Cytundeb Darparu:** Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gynllun cynnwys y gymuned ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- **Datblygiad Mawr:** Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn debygol o ystyried y mathau canlynol o ddatblygiad fel 'Datblygiad Mawr':

- datblygiad sy'n golygu bod angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol,
- datblygiad nad yw'n gymwys ar gyfer yr asesiad a nodir uchod ond, wrth ei asesu yn unol â'r meini prawf sgrinio a restrir yn Atodlen 3 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 - OS 1999 Rhif 293, amheuir effaith amgylcheddol niweidiol arwyddocaol,
- datblygiad sy'n cyfiawnhau'r angen i gyflwyno arfarniad/asesiad o oblygiadau tebygol y cynnig o ran traffig, iechyd a manwerthu.

Mewn achosion eithriadol, fe allai fod sbardunwyr eraill sy'n golygu bod angen cynnal asesiad. Byddai angen i asesiad o'r fath gyfeirio at unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig hefyd, gan gynnwys ffyrdd mynediad ac adeiladau atodol eraill. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw asesiad sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, polisi neu ganllawiau presennol.

- **Datganiad Ymgynghori:** Dogfen Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n rhestru pawb yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi'r cynllun a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae hyn yn cynnwys cyfiawnhad dros unrhyw wyro o'r Cynllun Cynnwys y Gymuned. Fe'i cyhoeddwyd ar yr un pryd â'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo.

- **Deiliadaeth hyblyg:** Eiddo a reolir gan landlord cymdeithasol y gellir ei gynnig i denantiaid addas o dan unrhyw un o'r cynlluniau uchod yn unol ag angen yr unigolyn.

- **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM):** Offeryn a ddefnyddir i fesur cynaliadwyedd adeiladau annomestig newydd yn y Deyrnas Unedig.

- **Dyraniadau Safle Penodol:** Dyraniadau safleoedd ar gyfer datblygiad neu ddefnyddiau penodol neu gymysg sydd wedi'u cynnwys mewn cynllun datblygu lleol. Bydd polisïau'n amlinellu unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol.

- **Ecwiti a Rennir:** Tai lle mae'r tenant yn prynu rhan o'r ecwiti yn yr eiddo ond yn cael ei gyfyngu i gyfran gytunedig o'r ecwiti hwnnw fel daliad mwyaf; delir gweddill yr ecwiti gan Landlord Cymdeithasol.

- **Grŵp Llywio:** Cyfarfod a fynychir gan uwch aelodau staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol, aelodau dethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gwesteion o asiantaethau fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'n rhoi arweiniad i'r tîm Strategaeth a Pholisi.

- **Grŵp Rhanddeiliaid:** Cyfarfod o'r rhai hynny sydd â buddiant y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio arno'n uniongyrchol.

- **Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol:** Mae'n gweithredu fel cyfrwng i leisio barn drwy gydol y broses baratoi. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys y rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r camau cyfranogi cyn-adneuo, h.y. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, CADW, Awdurdodau Unedol, Cynghorau Cymuned. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gwahoddir cyrff perthnasol ychwanegol pan fo'n briodol.

- **Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA):** Elusen annibynnol sy'n helpu pobl a sefydliadau i wireddu syniadau trwy ddarparu buddsoddiadau a grantiau a galluogi ymchwil, rhwydweithiau a sgiliau.

- **Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth:** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth yn darparu dull ar gyfer casglu, rhannu a defnyddio'r cyfoeth o wybodaeth a data biolegol sy'n bodoli yn y rhan hon o Gymru.

- **Harddwch naturiol:** Cysyniad cyffredinol sy'n ymwneud â thirwedd yn ei hystyr ehangaf. Er ei fod yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffig, ac yn berthnasol i dirweddau lle y mae natur yn drech, mae hefyd yn berthnasol i dirweddau sydd wedi'u ffurfio a'u meithrin gan weithgareddau dynol. Mae pobl yn canfod a gwerthfawrogi harddwch naturiol trwy eu holl synhwyrau, gan ymateb i lawer o wahanol agweddau'r dirwedd, gan gynnwys ei chymeriad arbennig, ei nodweddion esthetig, presenoldeb bywyd gwyllt, ei helfennau diwylliannol a hanesyddol a'i nodweddion canfyddiadol fel, er enghraifft, tawelwch, pellenigrwydd ac ymdeimlad o ryddid. Mae canfyddiad pobl o harddwch naturiol a'u hoffter amdano yn seiliedig ar eu nodweddion personol, eu cefndir diwylliannol a'u diddordebau personol. Mae harddwch naturiol yn digwydd, i raddau amrywiol, mewn llawer o dirweddau, ond nid pob un o bell ffordd. Fodd bynnag, mae rhai mannau, fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn arddangos harddwch naturiol i raddau eithriadol ac felly'n cyfiawnhau lefel genedlaethol o warchodaeth.

- **Landlord Cymdeithasol Cofrestredig:** Sefydliadau dielw a ariennir gan y llywodraeth sy'n darparu tai fforddiadwy yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Maent yn cynnwys cymdeithasau, ymddiriedolaethau a chydweithrediadau tai. Maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu cartrefi i bobl sy'n bodloni meini prawf tai fforddiadwy. Yn ogystal â datblygu tir ac adeiladu cartrefi, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymgymryd â swyddogaeth landlord trwy gynnal a chadw eiddo a chasglu rhent.

- **Llinell Sylfaen:** Disgrifiad o gyflwr presennol ardal.

- **Menter Wledig:** Fel y'i diffinnir gan Nodyn Cyngor Technegol 5 4.3.2, mae menter wledig yn cynnwys busnesau cysylltiedig â thir megis amaethyddiaeth, coedwigaeth a gweithgareddau eraill sy'n cael eu prif fewnbwn o'r safle, fel prosesu cynnyrch amaethyddol, coedwigaeth a mwynau ynghyd â gweithgareddau a chymorth rheoli tir (gan gynnwys contractio amaethyddol), twristiaeth, a mentrau hamdden.

- **Panel Dinasyddion:** Dull deialog lle y mae nifer gynrychiadol o breswylwyr a ddewiswyd ar hap yn cytuno i gael eu hymgynghori'n rheolaidd ar ystod o faterion a gwasanaethau lleol.

- **Rhent Canolradd:** Lefel rhenti sy'n fwy na thai cymdeithasol ond nad yw'n fwy nag 80% o'r Lwfans Tai Lleol, sy'n adlewyrchu lefelau'r farchnad rentu.

- **Safle Arall:** Sylwadau mewn ymateb i'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo sy'n awgrymu dyraniadau safle eraill neu newydd a hysbysebir gan y Cyngor cyn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo i'r Arolygydd.

- **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:** Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gwarchod ac amddiffyn yr enghreifftiau gorau o'n bywyd gwyllt a'n treftadaeth ddaearegol a ffisiograffig er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

- **Safle Ymgeisiol:** Safle a gyflwynir i'r Awdurdod i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Strategaeth a Ffefrir:** Adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n amlinellu'r strategaeth a ffefrir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dilyn cyfranogiad cyn-adneuo.

- **Tai Cymdeithasol ar Rent:** Tai a ddarperir gan Awdurdodau Lleol neu Gymdeithasau Tai ar lefelau rhent a reolir gan Feincnod Cynulliad Cymru.

- **Y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar (RSPB):** Sefydliad elusennol sy'n gweithio i hybu gwarchod ac amddiffyn adar a'r amgylchedd ehangach trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus, deisebau a gweithredu gwarchodfeydd natur trwy gydol y Deyrnas Unedig.

- **Ymgynghoriad Cyn-adneuo:** Proses anffurfiol lle y gwahoddir sylwadau ar ddogfen ddrafft neu bwnc penodol.

- **Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur:** Prif awdurdod y byd ar statws cadwraeth rhywogaethau.

# Atodiad 10: Tabl ardaloedd is-farchnad dai yn ôl cod post

| | Sector Cod Post | Cyfraniad | Ardal Is-farchnad y Cynllun Datblygu Lleol | Aneddiadau'r Cynllun Datblygu Lleol | Sir |
|---|---|---|---|---|---|
| CF | CF44 0 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Rhondda Cynon Taf |
| | CF44 9 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | Pontneddfechan; Ystradfellte; Penderyn | Powys |
| | CF48 2 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | Pontsticill | Powys |
| **HR** | HR3 5 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | Y Gelli Gandryll; Llanigon | Powys |
| **LD** | LD3 0 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Talgarth; Felindre | Powys |
| | LD3 7 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Aberhonddu (Dwyrain); Tal-y-bont ar Wysg; Llangors; Pencelli; Bwlch; Pennorth; Scethrog; Pentre Aber; Groesffordd; Llanfrynach | Powys |
| | LD3 8 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Aberhonddu (De-orllewin); Libanus; Crai; Defynnog; Pontsenni; Felin Crai; Llanspyddid; Trecastell | Powys |
| | LD3 9 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Aberhonddu (Gogledd); Cradoc | Powys |
| **NP** | NP22 4 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Powys |
| | NP23 4 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Blaenau Gwent |
| | NP23 5 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Powys |
| | NP4 8 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Torfaen |
| | NP4 9 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig | | Torfaen |
| | NP7 0 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | Maesygwartha | Sir Fynwy |
| | NP7 0 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r De | Clydach; Llanelli; Blackrock | Sir Fynwy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwledig | | |
| | NP7 7 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | | Sir Fynwy |
| | NP7 8 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | Llanfihangel Crucornau, Croesffyrdd, Blaengavenny | Sir Fynwy |
| | NP7 9 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | Gofilon; Gilwern | Sir Fynwy |
| | NP8 1 | 30% | Y Fenni, y Gelli Gandryll a Chrucywel | Crucywel; Cwmdu; Glangrwyney; Llangenni; Llangatwg; Llangynidr; Llanbedr; Tre-tŵr; Llangenni | Powys |
| **SA** | SA9 1 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r Gefnwlad Wledig | Pen-y-cae; Ynyswen | Powys |
| | SA9 2 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r Gefnwlad Wledig | Cefn Bryn Brain; Rhosaman | Sir Gaerfyrddin |
| | SA10 9 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r Gefnwlad Wledig | | Powys |
| | SA18 1 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | | Sir Gaerfyrddin |
| | SA18 2 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Twynmynydd | Sir Gaerfyrddin |
| | SA18 2 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r Gefnwlad Wledig | | Sir Gaerfyrddin |
| | SA18 3 | 0% | Blaenau'r Cymoedd a'r Gefnwlad Wledig | | Sir Gaerfyrddin |
| | SA19 6 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Trap, Bethlehem | Sir Gaerfyrddin |
| | SA19 7 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | | Sir Gaerfyrddin |
| | SA19 9 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Capel Gwynfe; Twynllanan; Llanddeusant; Talsarn | Sir Gaerfyrddin |
| | SA20 0 | 20% | Aberhonddu a'r Gefnwlad Wledig | Myddfai | Sir Gaerfyrddin |

# Atodiad 11: Tablau Tai

## Tabl Ymrwymiadau Tai

| | Haen Aneddiadau | Anheddiad | Safle | Cod y Safle | Nifer yr Anheddau | Nifer y Tai Fforddiadwy a Ddarperir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5 Mlynedd Cyntaf** | Y Prif Anheddiad Allweddol | Aberhonddu | Cross Yard, The Watton | COM-BR-A | 12 | Swm gohiriedig o £59,000 |
| | | | Caeau Cwmfalldau | B15 | 13 | 16 |
| | Yr Aneddiadau Allweddol | Y Gelli Gandryll | Central Garage | COM-HOW-A | 18 | 0 |
| | | Pontsenni | Tir gyferbyn â Fferm y Castell | SALT 002/092 | 42[68] | 4 |
| | | Talgarth | Tir ar Heol Trefeca | COM-TLG-A | 5 | 1 |
| | | | Tir gerllaw Churchfields | COM-TLG-B | 12 | 0 |
| | | | I'r gogledd o'r Feddygfa | T9 | 36 | 7 |
| | Aneddiadau Lefel 3 | Gilwern | Fferm Tŷ Mawr | COM-GIL-A | 25 | 7 |
| | | Bryn Llanelli | Ysgol Gynradd Darenfelin | COM-LH-A | 25 | 0 |
| | | | | | | |
| | | Llanfihangel Crucornau | Tir am y ffin â Llanfihangel Crucornau (Cymdeithas Dai) | COM-LC-A | 8 | 8 |
| | | | Tir gyferbyn â Skirrid Inn, Tŵr Mihangel | COM-LC-B | 9 | 2 |
| | | | Tir gyferbyn â Fferm Pen-y-Dre | DBR-LC-D | 14 | 4 (2 fflat a 2 dŷ) |

[68] Mae'r safle'n destun cais ar hyn o bryd ar gyfer cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl sy'n cynnwys cynllun yn dangos 54 uned.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pencelli | Tir ym Mhen-y-bont | DBR-PENC-B | 11[69] | 1 |
| | | Pontneddfechan | Tara Country Club | COM-PNF-A | 5 | 0 |
| | | Rhosaman | Tir gerllaw Rhoslan | COM-RSM-A | 15 | 0 |
| | Anheddiad Lefel 4 | Llangynidr | Tir ar Castle Road | COM-LGY-A | 5 | 1 |
| | Cefn Gwlad | Brynmawr | Hen ffatri E-Mag | COM-BRM-A | 94[70] | 0 |
| | | Llandeilo Bertholau | Woodland Tree Services | COM-LNP-A | 17 | 6 |
| | | **Cyfanswm** | | | **366** | **57 (+ Swm Gohiriedig o £59,000)** |
| **Gweddill Cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol** | Y Prif Anheddiad Allweddol | Aberhonddu | Garej Derek Evans, gerllaw Stryd Arian | COM-BR-B | 15 | 0 |
| | Anheddiad Allweddol | Pontsenni | Iard yr Hen Orsaf | COM-SNB-A | 2 | 0 |
| | Anheddiad Lefel 3 | Bwlch | Fferm Heol Las | COM-BCH-A | 7 | 0 |
| | | Pontsticill | Gerllaw Pontsticill | COM-PSTC-A | 12 | 0 |
| | | Llangyndir | Gerllaw Glan yr Afron | COM-LGY-B | 18 | 4 |
| | | **Cyfanswm** | | | **54** | **4** |
| **CYFANSWM** | | | | | **422** | **61 (+ Swm Gohiriedig o £59,000)** |

## Tabl Tai wedi'u Cwblhau

| | **Blwyddyn** | **Anheddiad** | **Safle** | **Nifer yr Anheddau** | **Nifer y Tai Fforddiadwy a** |
|---|---|---|---|---|---|

[69] Mae'r safle wedi'i rannu ac yn elwa ar ddau ganiatâd (5 uned a 6 uned)
[70] Ceir risg bosibl i ddarparu'r safle hwn yn ei gyfanrwydd o ystyried llwybr yr A465 a fwriedir ar hyn o bryd

| | | | | | **Ddarparwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi'u Cwblhau** | 2007/08 | Aberhonddu | Hen Garej Elstons | 5 | 0 |
| | | | Tir oddi ar Dan-y-Grug | 5 | 0 |
| | | Crucywel | Ffynnonau | 24 | 24 |
| | | Bryn Llanelli | Dwyrain Penffyddlwyn | 1 | 0 |
| | | Llanfrynach | Tafarn y White Swan | 6 | 0 |
| | | Pontneddfechan | Tara Country Club | 2 | 0 |
| | | Ynyswen | Riverside Gardens | 3 | 0 |
| | Cyfanswm Safleoedd Mawr 2007/08 | | | 46 | 24 |
| | Safleoedd Bach a Gwblhawyd 2007/08 | | | 19 | Anhysbys |
| | **CYFANSWM 2007/08** | | | **65** | **24** |
| | 2008/09 | Bwlch | Springbank Close | 1 | 0 |
| | | Y Gelli Gandryll | Central Garage | 7 | 0 |
| | | | Tir gerllaw'r Ganolfan Feddygol, Forest Road | 9 | 0 |
| | Cyfanswm Safleoedd Mawr 2008/09 | | | 17 | 0 |
| | Safleoedd Bach a Gwblhawyd 2008/09 | | | 38 | Anhysbys |
| | **CYFANSWM 2008/09** | | | **55** | **0** |
| | 2009/10 | Aberhonddu | Fferm Cefn Cantref | 1 | 0 |
| | | | Yr Hen Gartref Plant | 9 | 9 |
| | | Y Gelli Gandryll | Central Garage | 5 | 0 |
| | | Llangynidr | Coed-yr-Ynys Road | 3 | 0 |
| | | Pontneddfechan | Tara Country Club | 2 | 0 |
| | | Trecastell | Yr Hen Ysgol Gynradd | 8 | 8 |
| | Cyfanswm Safleoedd Mawr a Gwblhawyd 2009/10 | | | 28 | 17 |
| | Safleoedd Bach a Gwblhawyd 2009/10 | | | 17 | Anhysbys |
| | **CYFANSWM 2009/10** | | | **45** | **17** |
| | 2010/11 | Aberhonddu | Fferm Cefn Cantref | 1 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Safleoedd Mawr a Gwblhawyd 2010/11 | | | 1 | |
| | Cyfanswm y Safleoedd Bach a Gwblhawyd 2010/11 | | | 18 | Anhysbys |
| | **CYFANSWM 2010/11** | | | **19** | **0** |
| | 2011/12 | Aberhonddu | Hen Orsaf yr Heddlu | 26 | 26 |
| | | | Fferm Cefn Cantref | 1 | 0 |
| | | | Caeau Cwmfalldau | 21 | 0 |
| | | Llandeilo Bertholau | Woodland Tree Services | 1 | 0 |
| | Cyfanswm y Safleoedd Mawr a Gwblhawyd 2011/12 | | | 49 | |
| | Cyfanswm y Safleoedd Bach a Gwblhawyd 2011/12 | | | 18 | Anhysbys |
| | **CYFANSWM 2011/12** | | | **67** | **26** |
| **CYFANSWM** | | | | **251** | **67** |

## Safleoedd Ysgol

| | **Anheddiad** | **Safle** | **Nifer yr Anheddau** | **Targed Tai Fforddiadwy** |
|---|---|---|---|---|
| **5 Mlynedd Cyntaf** | Gofilon | Ysgol Gynradd Gofilon | 20 | 6 |
| **Gweddill Cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol** | Y Gelli Gandryll | Ysgol Sirol y Gelli | 35 | 11 |
| | Talgarth | Ysgol Sirol Talgarth | 20 | 4 |
| | Pontneddfechan | Ysgol Thomas Stephens | 14 | 0 |
| | Aberhonddu | Ysgol Gynradd Sant Joseff | 18 | 4 |
| **CYFANSWM** | | | **107** | **25** |

# Atodiad 12: Diwygiadau yn dilyn Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol

**Newidiadau rhifo polisïau a pharagraffau i'w Mabwysiadu**

| Newidiadau i Rifau Polisïau yn sgil Materion sy'n Codi | Teitl y Polisi | Rhifau Polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol Diffiniol |
|---|---|---|
| Polisi 1 | Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol | Polisi 1 |
| Polisi 50 | Gosodiadau Hysbysadwy | Polisi 2 |
| Polisi 51 | Safleoedd o Bwysigrwydd Ewropeaidd | Polisi 3 |
| Polisi 52 | Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol | Polisi 4 |
| Polisi 53 | Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur | Polisi 5 |
| Polisi 3 | Bioamrywiaeth a Datblygiad | Polisi 6 |
| Polisi 54 | Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir | Polisi 7 |
| Polisi 4 | Coed a Datblygiad | Polisi 8 |
| Polisi 55 | Coetiroedd a Choed Hynafol | Polisi 9 |
| Polisi 56 | Ansawdd Dŵr | Polisi 10 |
| Polisi 5 | Defnydd Cynaliadwy o Ddŵr | Polisi 11 |
| Polisi 6 | Llygredd Golau | Polisi 12 |
| Polisi 7 | Ansawdd Pridd | Polisi 13 |
| Polisi 8 | Ansawdd Aer | Polisi 14 |
| Polisi 57 | Adeiladau Rhestredig | Polisi 15 |
| Polisi 58 | Dymchwel Adeiladau Rhestredig | Polisi 16 |
| Polisi 59 | Gosodiad Adeiladau Rhestredig | Polisi 17 |
| Polisi 60 | Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol | Polisi 18 |
| Polisi 61 | Datblygiad sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth | Polisi 19 |
| Polisi 62 | Parciau a Gerddi Hanesyddol | Polisi 20 |
| Polisi 63 | Tirweddau Hanesyddol | Polisi 21 |
| Polisi 49 | Ardaloedd Gwerthusiad Archaeolegol | Polisi 22 |
| Polisi 9 | Dylunio Cynaliadwy wrth Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Presennol | Polisi 23 |
| Polisi 64 | Gofynion Tai | Polisi 24 |
| Polisi 10 | Adnewyddu Cyn Anheddau yng Nghefn Gwlad | Polisi 25 |
| Polisi 11 | Dymchwel ac Amnewid Anheddau | Polisi 26 |
| Polisi 12 | Estyniadau i Dai ac Adeiladau Atodol | Polisi 27 |
| Polisi 13 | Cyfraniadau Tai Fforddiadwy | Polisi 28 |
| Polisi 14 | Galluogi Safleoedd Eithriad ar gyfer Tai Fforddiadwy | Polisi 29 |
| Polisi 65 | Safle Sipsiwn a Theithwyr | Polisi 30 |
| Polisi 16 | Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Polisi 31 |
| Polisi 65 | Y Gofyniad am Dir ar gyfer Cyflogaeth | Polisi 32 |
| Polisi 66 | Safleoedd Cyflogaeth | Polisi 33 |
| Polisi 67 | Dyraniadau Defnydd Cymysg | Polisi 34 |

| | | |
|---|---|---|
| Polisi 17 | Datblygiad sy'n Creu Cyflogaeth | Polisi 35 |
| Polisi 19 | Galluogi Defnydd Cyflogaeth Dosbarth Defnydd B y tu allan i Ffiniau Aneddiadau a Maint Aneddiadau | Polisi 36 |
| Polisi 18 | Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth | Polisi 37 |
| Polisi 20 | Arallgyfeirio Ffermydd | Polisi 38 |
| Polisi 21 | Cyfleusterau Marchogol | Polisi 39 |
| Polisi 22 | Storio Carafanau | Polisi 40 |
| Polisi 23 | Adeiladau Fferm a Choedwigaeth Newydd | Polisi 41 |
| Polisi 24 | Datblygiad mewn Canolfannau Manwerthu | Polisi 42 |
| Polisi 26 | Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig | Polisi 43 |
| Polisi 26A | Newid Defnydd Tafarndai | Polisi 44 |
| Polisi 27 | Adeiladau Newydd ar gyfer Llety Gwyliau | Polisi 45 |
| Polisi 28 | Llety Gwyliau Heb Fod yn Barhaol | Polisi 46 |
| Polisi 29 | Safleoedd Newydd neu Estynedig ar gyfer Carafanau Teithio, Cerbydau Gwersylla a Phebyll | Polisi 47 |
| Polisi 30 | Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored Newydd neu Estynedig | Polisi 48 |
| Polisi 31 | Hawliau Tramwy a Llwybrau Hir | Polisi 49 |
| Polisi 32 | Cadw Cyfleusterau Cymunedol Presennol | Polisi 50 |
| Polisi 33 | Datblygu Cyfleusterau Cymunedol Newydd neu Estynedig | Polisi 51 |
| Polisi 34 | Y Gymraeg | Polisi 52 |
| Polisi 35 | Rhwymedigaethau Cynllunio | Polisi 53 |
| Polisi 36 | Llinellau Pŵer a Phiblinellau | Polisi 54 |
| Polisi 37 | Telathrebu | Polisi 55 |
| Polisi 68 | Cyflenwad Dŵr a Charthffosiaeth ar gyfer Datblygiad Newydd | Polisi 56 |
| Polisi 15 | Defnyddio Datrysiadau Carthffosiaeth Nad Ydynt wedi'u Cysylltu â'r Prif Gyflenwad | Polisi 57 |
| Polisi 38 | Systemau Draenio Cynaliadwy | Polisi 58 |
| Polisi 39 | Effeithiau Traffig | Polisi 59 |
| Polisi 40 | Darpariaeth ar gyfer Beicio a Cherdded | Polisi 60 |
| Polisi 41 | Dwysedd Anheddau | Polisi 61 |
| Polisi 42 | Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol | Polisi 62 |
| Polisi 43 | Cynlluniau Datblygu Ynni o Wastraff | Polisi 63 |
| Polisi 44 | Compostio | Polisi 64 |
| Polisi 45 | Diogelu Mwynau | Polisi 65 |
| Polisi 46 | Pyllau Benthyg | Polisi 66 |
| Polisi 47 | Deunyddiau Gwastraff, Eilaidd ac wedi'u Hailgylchu | Polisi 67 |
| Polisi 48 | Safleoedd Mwynau Segur | Polisi 68 |

| **Enw'r Paragraff** | **Rhif y Polisi a Newidiwyd yn sgil Materion sy'n Codi** | **Rhif y Polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig** |
|---|---|---|
| | 3.7.7.1 | 3.7.1 |
| | 3.15.1.1 | 3.15.0.1 |
| | 3.15.1.2 | 3.15.0.2 |
| | 3.15.1.3 | 3.15.0.3 |
| | 3.15.1.4 | 3.15.0.4 |
| Adeiladau Rhestredig | 3.15.2. | 3.15.1 |
| | 3.15.2.1 | 3.15.1.1 |
| | 3.15.2.2 | 3.15.1.2 |
| | 3.15.2.3 | 3.15.1.3 |
| Dymchwel Adeiladau Rhestredig | 3.15.3 | 3.15.2 |
| | 3.15.3.1 | 3.15.2.1 |
| | 3.15.3.2 | 3.15.2.2 |
| Gosodiad Adeiladau Rhestredig | 3.15.4 | 3.12.3 |
| | 3.15.4.1 | 3.15.3.1 |
| Asedau Treftadaeth o Bwysigrwydd Lleol sydd o Ddiddordeb Lleol | 3.15.5 | 3.15.4 |
| | 3.15.5.1 | 3.15.4.1 |
| | 3.15.5.2 | 3.15.4.2 |
| Ardaloedd Cadwraeth | 3.15.6. | 3.15.5 |
| | 3.15.6.1 | 3.15.5.1 |
| | 3.15.6.2 | 3.15.5.2 |
| | 3.15.6.3 | 3.15.5.3 |
| | 3.15.6.4 | 3.15.5.4 |
| | 3.15.6.5 | 3.15.5.5 |
| Parciau a Gerddi Hanesyddol | 3.15.7. | 3.15.6 |
| | 3.15.7.1 | 3.15.6.1 |
| | 3.15.7.2 | 3.15.6.2 |
| | 3.15.7.3 | 3.15.6.3 |
| Tirweddau Hanesyddol | 3.15.8 | 3.15.7. |
| | 3.15.8.1 | 3.15.7.1 |
| | 3.15.8.2 | 3.15.7.2 |
| | 3.15.8.3 | 3.15.7.3 |
| Henebion Rhestredig a gweddillion archaeolegol | 3.15.9 | 3.15.8 |
| | 3.15.9.1 | 3.15.8.1 |
| | 3.15.9.2 | 3.15.8.2 |
| | 3.15.9.3 | 3.15.8.3 |
| | 3.15.9.4 | 3.15.8.4 |
| Ardaloedd ar gyfer Gwerthusiad Archaeolegol | 3.15.10 | 3.15.9 |
| | 3.15.10.1 | 3.15.9.1 |

| | | |
|---|---|---|
| | 3.15.10.2 | 3.15.9.2 |
| Safleoedd Treftadaeth y Byd | 3.15.11 | 3.15.10 |
| | 3.15.10.1 | 3.15.10.1 |
| | 3.15.11.2 | 3.15.10.2 |
| | 7.1.6 | 7.1.5 |
| Polisi Cyflogaeth | 7.1 | 7.0 |
| | 7.1.1 | 7.0.1 |
| | 7.1.2 | 7.0.2 |
| | 7.1.3 | 7.0.3 |
| | 7.1.4 | 7.0.4 |
| | 7.1.511 | 7.0.5 |
| Dyraniadau Cyflogaeth | 7.2.11 | 7.1 |
| Dyraniadau Defnydd Cymysg | 7.2.12 | 7.2.1 |
| | 7.2.13 | 7.2.2 |
| | 7.2.14 | 7.2.3 |
| | 7.2.15 | 7.2.3 |
| | 7.2.16 | 7.2.4 |
| | 7.2.17 | 7.2.5 |
| | 7.3.3 | 7.3.2 |
| | 7.3.4 | 7.3.3 |
| | 7.3.5 | 7.3.4 |
| | 7.7.5.3.1 | 7.7.5.1 |
| Adnoddau Tywod a Gro | 10.3.1 | 10.2. |
| | 10.3.1.1 | 10.2.1 |
| Diogelu Adnoddau Glo | 10.3.2. | 10.3 |
| | 10.3.2.1 | 10.3.1 |
| | 7.7.6.4 | 7.7.6.5 |
| | 7.7.6.4a | 7.7.6.6 |
| | 7.7.6.4b | 7.7.6.7 |
| | 7.7.6.4c | 7.7.6.8 |

**Diwygiadau golygyddol i'w Mabwysiadu**

| **Rhif y Paragraff / Polisi** | **Testun Gwreiddiol** | **Diwygiad** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| 2.4.5 | Yn yr ystyr hon, capasiti yw "trothwy" newid derbyniol ar gyfer unrhyw le penodol yn seiliedig ar y diffiniad o gapasiti. | Yn yr ystyr hon, capasiti yw "trothwy" newid derbyniol ar gyfer unrhyw le penodol. | Nid oes angen y testun ychwanegol. |
| 3.9.4 | Bydd cynigion ar gyfer datblygiad ar safle Coetir Hynafol neu'n agos iddo yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi 55 isod | Bydd cynigion ar gyfer datblygiad ar safle Coetir Hynafol neu'n agos iddo yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi 9 isod | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 3.10 | Er bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rôl reoleiddio… | Er bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl reoleiddio … | Mae Asiantaeth yr Amgylchedd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 3.14.1 | Mae'r Gweinidog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod dyletswydd ar y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i brofi cynlluniau arloesol, gan gynnwys ffyrdd newydd o feddwl ac ymagweddau newydd at ddatblygu polisi. | Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyletswydd ar y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru i brofi cynlluniau arloesol, gan gynnwys ffyrdd newydd o feddwl ac ymagweddau newydd at ddatblygu polisi. | Cyfeiriad wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newid yn sefydliad y llywodraeth |
| Polisi 5 | cynigion yn cydymffurfio â Pholisi 3 a/neu, mewn perthynas â rhywogaethau gwyllt pwysig a warchodir, Polisi 2. | cynigion yn cydymffurfio â Pholisi 6 a/neu, mewn perthynas â rhywogaethau gwyllt pwysig a warchodir, Polisi 7. | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 4.1.3 | | Pontsenni wedi'i hychwanegu at y rhestr o aneddiadau "clwstwr" | I adlewyrchu diwygiadau, gan gynnwys Pontsenni fel anheddiad allweddol. |
| Troednodyn | [1] Gweler y Papur Materion Graddfa a Lleoliad Twf am drafodaeth ychwanegol ynghylch y broses a'r fethodoleg ar gyfer Asesu Aneddiadau. | Troednodyn wedi'i ddileu | Diben y cyfeiriad oedd cynorthwyo i ddarllen y Cynllun Datblygu Lleol yn feirniadol yn ystod yr Ymgynghoriad Adneuo. Nid oes angen y cyfeiriad yn y cynllun mabwysiedig. |
| Polisi 30 | Bydd cynigion ar gyfer y safle yn cael eu hystyried o dan Bolisi 16 | Bydd cynigion ar gyfer y safle yn cael eu hystyried o | Rhif y polisi wedi'i newid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dan Bolisi 31 | |
| 8.3.9 | Pan fydd deddfwriaeth yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dod i rym yng Nghymru, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynd i'r afael â sut i'w gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. | Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried ar hyn o bryd sut y gellir gweithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithiol yn y Parc Cenedlaethol. Pe byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn penderfynu y dylid codi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ardal y Parc Cenedlaethol ar ryw adeg, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. | I adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth ers drafftio'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| Polisi 1 | …. fywiogrwydd a hunaniaeth cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol unrhyw gymuned, boed hynny yn ei rinwedd ei hun neu drwy effaith gronnol (gweler Polisi ES33). | fywiogrwydd a hunaniaeth cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol unrhyw gymuned, boed hynny yn ei rinwedd ei hun neu drwy effaith gronnol. | Cyfeiriad Polisi anghywir |
| SP3 | c) yr amgylchedd dŵr (gweler polisi 5) | c) yr amgylchedd dŵr (gweler polisi 10) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP3 | i) Ansawdd pridd ac aer (gweler Polisïau 7 ac 8) | i) Ansawdd pridd ac aer (gweler Polisïau 13 a 14) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 3.1 | 3) adeiladu adeiladau gan ddefnyddio pren o ffynonellau cynaliadwy ac agregau a ailgylchwyd. Polisi SP11 a Pholisi 47 | 3) Adeiladu adeiladau gan ddefnyddio pren o ffynonellau cynaliadwy ac agregau a ailgylchwyd. Polisi SP11 a Pholisi 67 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 3.1 | 9) Cynigion sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr, ynni a thanwydd. Croesgyfeiriad Polisi<br>Polisi 5 Adnoddau Dŵr<br>Polisi 8 Ansawdd Aer | 9) Cynigion sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr, ynni a thanwydd. Croesgyfeiriad Polisi<br>Polisi 10 Ansawdd Dŵr<br>Polisi 11Defnydd Cynaliadwy o Ddŵr<br>Polisi 14 Ansawdd Aer | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 3.1 | 10) Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn effeithio ar ansawdd pridd<br>Croesgyfeiriad Polisi<br>Polisi 7 Ansawdd Pridd | 10) Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn effeithio ar ansawdd pridd<br>Croesgyfeiriad Polisi<br>Polisi 13 Ansawdd Pridd | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 3.1 | 14) Cefnogi cynigion priodol ar gyfer busnesau fferm a chynhyrchu bwyd newydd<br>Croesgyfeiriad Polisi | 14) Cefnogi cynigion priodol ar gyfer busnesau fferm a chynhyrchu bwyd newydd<br>Croesgyfeiriad Polisi | Rhif y polisi wedi'i newid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Polisi 20 Arallgyfeirio Ffermydd<br>Polisi 26 Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig | Polisi 38 Arallgyfeirio Ffermydd<br>Polisi 43 Siopau Cymdogaeth, Pentref a Gwledig | |
| Tabl 3.2 | …Clydach (3C); Defynnog (4A); Pontsenni (4A) | …Clydach (4C); Pontsenni a Defynnog (2) | Hierarchaeth aneddiadau wedi'i diwygio |
| 3.15.10.1 | Mae datblygiad yn yr ardal hon yn ddarostyngedig i'r Polisi Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.5.22) | Mae datblygiad yn yr ardal hon yn ddarostyngedig i'r Polisi Cenedlaethol | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru. |
| 3.16.2.6 | Gweler Polisi 43 Ynni o Wastraff, a Pholisi 20. | Gweler Polisi 63 Ynni o Wastraff a Pholisi 38 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| B LP1 (3) | Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r ddarpariaeth fanwerthu yn y dref yn briodol i gymeriad yr Anheddiad ac yn unol â'r ganolfan fanwerthu a ddiffiniwyd ar gyfer y dref fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (Gweler hefyd SP13 a Pholisi 24). | Cynigion sy'n cryfhau a gwella'r ddarpariaeth fanwerthu yn y dref yn briodol i gymeriad yr Anheddiad ac yn unol â'r ganolfan fanwerthu a ddiffiniwyd ar gyfer y dref fel y'i dangosir ar y Map Cynigion (Gweler hefyd SP13 a Pholisi 42). | Rhif y polisi wedi'i newid |
| B LP2 | (gweler hefyd Polisi 35 Rhwymedigaethau Cynllunio) | (Gweler hefyd Polisi 53 Rhwymedigaethau Cynllunio) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| K LP2 (2) | (Gweler Polisi 24) | (Gweler Polisi 42) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| K LP3 | Gweler hefyd Polisi 35. | Gweler hefyd Polisi 53 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 4.10 | Dyraniad tai dangosol<br><br>Libanus (mewnlenwi yn unig)<br>Llanbedr (9)<br>Llangors (11)<br>Pencelli (21)<br>Pontneddfechan (mewnlenwi yn unig)<br>Cyfanswm unedau Powys (154)<br><br>Llanfihangel Crucornau (22)<br>Cyfanswm unedau Sir Fynwy (227)<br><br>Pontsticill (29) | Dyraniad tai dangosol<br><br>Libanus (3)<br>Llanbedr (8)<br>Llangors (safle'n cael ei adeiladu)<br>Pencelli (6+ ymrwymiad)<br>Pontneddfechan (ymrwymiad a safle ysgol)<br>Cyfanswm unedau Powys (13)<br><br>Llanfihangel Crucornau (ymrwymiadau)<br>Cyfanswm unedau Sir Fynwy | Ffynonellau cyflenwad tai wedi'u newid yn dilyn yr Archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm unedau Merthyr (39)<br><br>Cyfanswm y ddarpariaeth tai yn yr Aneddiadau (420) | (205)<br><br>Pontsticill (15+ ymrwymiadau)<br>Cyfanswm unedau Merthyr (15)<br><br>Cyfanswm y ddarpariaeth tai (dyraniadau) yn yr Aneddiadau (350) | |
| LGS LP2 (4) | (gweler SP 12, Polisi 18, Polisi 19). | (gweler SP 12, Polisi 37, Polisi 36). | Rhif y polisi wedi'i newid |
| LGS LP2(5) | (gweler hefyd Polisi 26). | (gweler hefyd Polisi 43). | Rhif y polisi wedi'i newid |
| E LP1(1) | (gweler Polisi 14) | (gweler Polisi 29) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| CYD LP1 | (2il baragraff)…a amlinellir yn 3.12.2 a sut y bydd y cynllun… | (2il baragraff)…a amlinellir yn 4.9.2 a sut y bydd y cynllun… | Rhif y paragraff wedi'i newid |
| CYD LP1 (1a) | (gweler Polisi 12) | (gweler Polisi 27) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| CYD LP1 (2) | (gweler Polisi 32) | (gweler Polisi 50) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| CYD LP1 (4) | (gweler hefyd Polisi 20 a Pholisi 26) | (gweler hefyd Polisi 38 a Pholisi 43) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| CYD LP1 (5) | (gweler Polisi 30) | (gweler Polisi 48) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| CYD LP1 (6) | (Gweler Polisi 28) | (gweler Polisi 46) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| Tabl 5.1 B | (gweler hefyd Polisi 5) | (gweler hefyd Polisi 11) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.2.1.2 | Mae'n rhaid i bob cynnig gydymffurfio â'r *Polisi Newydd ar Rywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir* | Mae'n rhaid i bob cynnig gydymffurfio â Pholisi 7 Rhywogaethau Gwyllt Pwysig a Warchodir | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.2.1.3 | Mae'n rhaid i bob cynnig hefyd gydymffurfio â pholisi 9 dylunio cynaliadwy….. | Mae'n rhaid i bob cynnig hefyd gydymffurfio â pholisi 23 dylunio cynaliadwy….. | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.2.2.6 | Mae Polisi 11 yn berthnasol i bob cais | Mae Polisi 26 yn berthnasol i bob cais. | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.3.1.5 | (Polisi 13) (Polisi 14) | (Polisi 28) (Polisi 29) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.3.7.1 | Polisi 13 | Polisi 28 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP6 (i) | (Polisi 13) | (Polisi 28) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP6 (ii) | (Polisi 14) | (Polisi 29) | Rhif y polisi wedi'i newid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.3.10.1 | Polisi 13 | Polisi 28 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.4.1 | Mae'r safle hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr o dan [Polisi Newydd] | Mae'r safle hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr o dan Bolisi 30 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.4.1 | Pennir cynigion ar gyfer y safle yn unol â Pholisi 16 | Pennir cynigion ar gyfer y safle yn unol â Pholisi 31 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.4.2 | Mae Polisi 16 yn amlinellu'r meini prawf | Mae Polisi 31 yn amlinellu'r meini prawf | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 6.4.4 | Polisi 16 | Polisi 31 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP12a | (gweler Polisi 17) | (gweler Polisi 35) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP12c | (Gweler Polisi 20) | (gweler Polisi 38) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.2.3 | (gweler Polisi 39 – Polisi Traffig manwl) | (gweler Polisi 59 – Polisi Traffig manwl) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.3.1 | At ddiben Polisi 18 | At ddiben Polisi 37 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.3.3 | Mae Polisi 18 yn mynnu bod ymgeiswyr | Mae Polisi 37 yn mynnu bod ymgeiswyr | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.5.1.1 | Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 9.3.6, bydd datblygiad | Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd datblygiad | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru. |
| 7.5.2.1 | Fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (paragraffau 7.3.3 a 7.5.2), caniateir arallgyfeirio ffermydd lle y mae'r defnydd yn cael ei gynnig ar y cyd â gweithrediadau amaethyddol | Fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, caniateir arallgyfeirio ffermydd lle y mae'r defnydd yn cael ei gynnig ar y cyd â gweithrediadau amaethyddol | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru |
| Polisi 38 (e) | a Pholisi 9 | a Pholisi 23 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.5.26 | Cynlluniau cynhyrchu ynni ar raddfa fach, gan gynnwys ynni o wastraff (gweler Polisi 43) | Cynlluniau cynhyrchu ynni ar raddfa fach, gan gynnwys ynni o wastraff (gweler Polisi 63) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.6.4 | Paragraff 7.6.8 Polisi Cynllunio Cymru | Polisi Cynllunio Cymru | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru |
| 7.7.3.1 | a Pholisi 32 manwl | a Pholisi 50 manwl | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.7.4.2 | Mae Polisi 24 yn ceisio gweithredu | Mae Polisi 42 yn ceisio gweithredu | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.6.6.3 | Polisi 26 | Polisi 43 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.7.6.6 | Polisi 26a | Polisi 44 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.8.2.5 | llety i dwristiaid (cyfeiriwch at Bolisi Cynllunio Cymru 7.6.10 fel yr ymhelaethir arno yn Nodyn Cyngor Technegol 6). | llety i dwristiaid (cyfeiriwch at Bolisi Cynllunio Cymru fel yr ymhelaethir arno yn Nodyn Cyngor Technegol 6). | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru |
| 7.8.10.1 | Yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru 11.1.13) | Yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 7.8.10.5 | Ymdrinnir â chreu llwybrau newydd ym Mholisi 40 Darparu ar gyfer Beicio a Cherdded | Ymdrinnir â chreu llwybrau newydd ym Mholisi 60 Darparu ar gyfer Beicio a Cherdded | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 8.5.1.1 | Diben Polisi 36 | Diben Polisi 54 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 8.8.6 | (gweler Polisi 35 Rhwymedigaethau Cynllunio 35) | (gweler Polisi 53 Rhwymedigaethau Cynllunio 53) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| SP17( c) | (gweler polisi 39) | (gweler Polisi 59) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 8.10.1 | Bydd cynigion yn cael eu barnu yn unol â Pholisi 40 a amlinellir isod | Bydd cynigion yn cael eu barnu yn unol â Pholisi 60 a amlinellir isod. | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 8.13.2 | Mae Paragraff 9.2.21 Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys Canllawiau Cenedlaethol ynglŷn â thir a ddatblygwyd yn flaenorol | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys Canllawiau Cenedlaethol ynglŷn â thir a ddatblygwyd yn flaenorol | Penderfynwyd dileu cyfeiriadau at rannau penodol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol wrth i'r Polisi gael ei ddiweddaru |
| SP7 | (gweler Polisi 42) | (gweler Polisi 62) | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 9.2.3 | Polisi 43 | Polisi 63 | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 10.2.1 | Mae Polisi 45 yn amlinellu'r meini prawf… | Mae Polisi 65 yn amlinellu'r meini prawf… | Rhif y polisi wedi'i newid |
| 1.2.1 | Mae canlyniadau allweddol y | Mae canlyniadau allweddol y | Rhif y polisi wedi'i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prosesau hyn wedi creu darlun o'r Parc Cenedlaethol. Amgaeir hwn yn Atodiad 1 | prosesau hyn wedi creu darlun o'r Parc Cenedlaethol sydd wedi ffurfio datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol. | newid |
| 2.1.2 | agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru | agenda Llywodraeth Cymru | I adlewyrchu'r newid mewn llywodraethu rhanbarthol |
| 3.6.2 | Yn ogystal â'r gofynion polisi a amlinellir isod, ac yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd (Mawrth 2010) ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru | Yn ogystal â'r gofynion polisi a amlinellir isod, ac yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd (Mawrth 2010) ac mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru | I adlewyrchu'r newid yn yr asiantaeth gyfrifol |
| Trwy gydol y Cynllun | Disodli cyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru/ Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru/ y Comisiwn Coedwigaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru | | |
| Rhestr Termau | Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a dyfroedd ei glannau. | Ar adeg llunio'r Cynllun Datblygu Lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a dyfroedd ei glannau. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymgymryd â swyddogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru bellach. | I adlewyrchu'r newid yn yr asiantaeth gyfrifol |
| Rhestr Termau | YCHWANEGOL | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru sydd wedi'u diddymu bellach. Hwn yw'r corff statudol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. | I adlewyrchu'r newid yn yr asiantaeth gyfrifol |
| Fframwaith Monitro | | | Rhifau polisïau wedi'u newid trwy gydol y Fframwaith Monitro i gyd-fynd â'r newidiadau a wnaed iddynt |

## Map Cynigion


| Statws | Anheddiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| **Map Cynigion** | - | 238 |
| **Ardaloedd is-farchnad Tai Fforddiadwy** | *Bydd hyn yn cael ei droshaenu ar y Map Cynigion yn Fersiwn Derfynol y Cynllun Datblygu Lleol* | 239 |
| **Y Prif Anheddiad Allweddol (Lefel 1)** | Aberhonddu | 240 |
| **Yr Aneddiadau Allweddol (Lefel 2)** | Crucywel | 241 |
| | Y Gelli Gandryll | 242 |
| | Pontsenni a Defynnog | 243 |
| | Talgarth | 244 |
| **Aneddiadau Lefel 3** | Bwlch | 245 |
| | Cefn Bryn Brain | 246 |
| | Crai | 247 |
| | Gilwern (Gorllewin) | 248 |
| | Gilwern (Dwyrain) | 249 |
| | Gofilon | 250 |
| | Libanus | 251 |
| | Llanbedr | 252 |
| | Llangors | 253 |
| | Llanigon | 254 |
| | Llanspyddid | 255 |
| | Llanfihangel Crucornau | 256 |
| | Pencelli | 257 |
| | Pennorth | 258 |
| | Pontneddfechan | 259 |
| | Pontsticill | 260 |
| | Tal-y-bont ar Wysg | 261 |
| **Aneddiadau Lefel 4** | Capel Gwynfe | 262 |
| | Clydach | 263 |
| | Cradoc | 264 |
| | Cwmdu | 265 |
| | Felin Crai | 266 |
| | Glangrwyney | 267 |
| | Bryn Llanelli | 268 |
| | Llanfrynach | 269 |
| | Llangatwg | 270 |
| | Llangenni | 271 |
| | Llangynidr | 272 |
| | Maesygwartha | 273 |
| | Penderyn | 274 |
| | Trecastell | 275 |
| | Tre-tŵr | 276 |
| | Ynyswen | 277 |
| | Ystradfellte | 278 |
| **Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd** | Cwrt-y-Gollen | 279 |
| | Hen Ysbyty Canolbarth Cymru | 280 |